

Person Perthnasol	Ymchwiliad	Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu	Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd
<p><u>Cyngor Dinas a Sir Abertawe</u></p>	<p>CSG697 Ar 26 Ionawr 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud â phenderfyniad Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y cyngor) i waredu Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre (YGG Felindre) o'i bortffolio eiddo yn dilyn cau'r ysgol ym mis Awst 2019. Roedd yr achwynydd yn bryderus bod y cyngor wedi dewis gwerthu'r safle yn hytrach na'i ddefnyddio at bwrpasau cymunedol neu gyhoeddus eraill. Nid oedd yn ymddangos i'r achwynydd bod y cyngor wedi ymgynghori â'r gymuned leol ynghylch effaith y penderfyniad ar y Gymraeg, nac wedi cynnal asesiad o'r effaith honno.</p>	<p>03/09/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safonau 88, 89 a 90: Lluniodd y cyngor bolisi newydd pan benderfynodd waredu YGG Felindre i berchnogaeth breifat. Roedd hwn yn benderfyniad lefel uchel strategol a oedd yn arfer pwerau statudol o werthu eiddo sy'n disgyn o fewn gwmpas diffiniad Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o 'benderfyniad polisi'. Roedd dyletswydd ar y cyngor felly i ystyried pa effeithiau, os o gwbl, y byddai penderfyniad polisi yn eu cael ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dangosodd dystiolaeth y cyngor na ystyriwyd effaith penderfyniad y polisi newydd o wneud YGG Felindre yn adeilad dan berchnogaeth breifat ar y Gymraeg fel y rhagnodir gan safonau 88, 89 a 90.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b> Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b> Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y</p>

methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag isadran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r cyngor sefydlu proses gadarn ar gyfer sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n ymwneud â chynllunio strategol i reoli ei stoc o eiddo cymunedol yn destun asesiad effaith ar y Gymraeg fel y rhagnodir gan safonau 88, 89 a 90.

2. Rhaid i'r cyngor sefydlu proses gadarn ar gyfer sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n sy'n defnyddio pwerau statudol i werthu eiddo cymunedol yn destun asesiad effaith ar y Gymraeg fel y rhagnodir gan safonau 88, 89 a 90.

3. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn asesu effaith ei gynllun rheoli asedau ar yr iaith Gymraeg, yn unol â gofynion y safonau uchod, pan fydd y cynllun nesaf yn cael ei adolygu neu ei addasu.

4. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi un a dau.

Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio yn unol ag isadran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei brif wefan.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 03/09/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Mae Cyngor Abertawe wedi apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, o dan adran 95(2) o Fesur y Gymraeg, yn erbyn y dyfarniad ei fod wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90. Sail yr apêl yw na fethodd y Cyngor gydymffurfio â'r safonau hyn.

Mae Cyngor Abertawe wedi apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, o dan adran 95(4) o Fesur y Gymraeg, yn erbyn y camau gorfodi sydd wedi eu gosod arnynt yn sgil y dyfarniad eu bod wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90. Sail yr apêl yw bod y camau gorfodi yn afresymol neu'n anghymesur.

#### Gweinidogion Cymru

CSG612, CSG617 a CSG622 Ar  
12/08/2019, 18/08/2019 a'r  
27/08/2019 derbyniwyd gwynion gan  
aelodau o'r cyhoedd. Roedd y  
cwynion yn bodloni amodau adran 93  
Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys.  
Roedd y cwynion yn ymwneud â  
diffyg defnydd Canolfan Gynadledda  
Ryngwladol Cymru (ICC) o'r  
Gymraeg, ac yn cynnwys y canlynol:

03/08/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 94: Mae'r safon yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff  
lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau sy'n sicrhau bod y  
corff yn ystyried y Gymraeg wrth fynd drwy'r broses  
o ddyfarnu grant. Eglurodd Gweinidogion Cymru nad arian  
grant sydd dan sylw yma, ond yn hytrach buddsoddiad.  
Mae ICC yn gyd-fenter rhwng Gweinidogion Cymru â The  
Celtic Manor Resort Limited. Rwy'n casglu nad yw  
Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio gyda safon  
94 gan mai buddsoddiad ac nid grant oedd y trefniant dan  
sylw.

- i. bod eu cyfiri Trydar @ICCWales yn uniaith Saesneg
- ii. bod eu gwefan swyddogol yn cynnwys ychydig iawn o Gymraeg
- iii. bod y brandio a'r logo'n uniaith Saesneg
- iv. a'u bod yn gosod arwyddion uniaith Saesneg tu allan i'r adeilad

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 21.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Yn achos fy nyfarniad nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 94, ni fyddaf yn gweithredu ymhellach.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 03/08/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Cyngor Sir Gâr

CSG765 Ar 31/08/2020 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn cwyno iddo dderbyn galwad ffôn Saesneg mewn ymateb i lythyr Cymraeg danfonodd at Gyngor Sir Gâr ("Y Cyngor") am gyflwr ei gartref.

02/08/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 21: Gofynion safon 21 yw holi (ar y cysylltiad cyntaf) os yw'r person yn dymuno galwadau ffôn Cymraeg, i gofnodi hynny, a chynnal galwadau ffôn Cymraeg gyda'r person o hynny ymlaen os maent yn dymuno hynny. Rwyf o'r farn fod y dystiolaeth gan y Cyngor yn yr achos yma yn ategu'r ffeithiau mae'r Cyngor yn nodi, sef:  
- Ar ôl methu cysylltu â'r achwynydd drwy ei ffonio, bod y Cyngor wedi danfon llythyr dwyieithog at yr achwynydd dyddiedig 22/04/2020 yn gofyn iddo gysylltu â nhw am y mater o'i gartref.

- Bod yr achwynydd wedi ffonio'r Cyngor ar 24/04/2020 ac wedi cael cynnig i gael galwad ffôn Cymraeg am y mater ond ei fod wedi parhau â'r sgwrs yn Saesneg. Nid yw hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 21 gan mai dewis yr achwynydd oedd parhau i sgwrsio yn Saesneg ar yr achlysur yma er ei fod wedi cael cynnig galwad Cymraeg. Nid y Cyngor a ffoniodd yr achwynydd yn Saesneg, felly. Ymhellach, ynglŷn â'r gofyniad i gofnodi dewis iaith, rwyf yn ystyried bod y Cyngor wedi gwneud hynny gan eu bod wedi cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r achwynydd wrth siarad ag ef ar y ffôn, ac mae tystiolaeth o hynny yn y sgrinlun gyda'r nodyn dyddiedig 24/04/2020.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 21.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Ar y sail fy mod wedi derbyn wedi derbyn eitemau o dystiolaeth gan y Cyngor ei bod wedi cynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg i'r achwynydd ar yr achlysur yma, yn dilyn cydnabod ei ddewis iaith, ond bod y sgwrs wedi parhau yn Saesneg, ni fyddaf yn gweithredu ymhellach.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gâr ar 02/08/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wreccsam

CSG772b, CSG791 a CSG793 Ar  
11/09/2020 ac ar 19/10/2020  
derbyniwyd gwynion gan aelod o'r  
cyhoedd. Roeddent yn bodloni  
amodau adran 93 Mesur y Gymraeg,  
ac felly'n gwynion dilys. Roedd tair  
elfen wahanol i'r cwynion. Roedd yr  
achwynydd yn cwyno am arwydd  
gwallus ar beiriant tocyn parcio,  
arwydd uniaith Saesneg wrth waith  
ffordd, a map ac allwedd uniaith  
Saesneg yn dangos newid mewn  
llwybrau.

30/07/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 38: Gofynion safon 38 yw bod rhaid i unrhyw ddeunydd sydd yn cael ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a bod rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma mae neges i'r cyfieithydd wedi ei adael ar y testun Cymraeg ar ddeunydd dros dro ar beiriant parcio. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 38.

Safon 61: Gofynion safon 61 yw bod rhaid i'r testun ar unrhyw arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg, unai mewn arwydd ar wahân, neu ar yr un arwydd. Rhaid peidio â thrin unrhyw destun Cymraeg ar yr arwydd yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Dim ond arwydd Saesneg yn nodi "diverted traffic" oedd ar y safle ar y pryd, heb fersiwn Gymraeg o'r testun. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 61.

Safon 69: Gofynion safon 69 yw bod rhaid arddangos hysbysiad swyddogol yn Gymraeg, ac wrth wneud hynny rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol. Er bod testun dwyieithog i'r hysbysiad swyddogol, roedd y map a'r allwedd yn uniaith Saesneg. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â gofynion safon 69.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 38, 61 a 69

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 38, 61 a 69.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 61: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ystyried cyflwyno cymalau yn eu contractau gyda sefydliadau trydydd parti, sydd yn rhoi cymalau cosb ar y sefydliad pan nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion y safonau ar ran y Cyngor.

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 30/07/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Siro  
Wrecsam

CSG748 Ar 24/07/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod gwybodaeth a oedd yn ymwneud â Covid-19 ar gael yn Saesneg ar wefan y Cyngor, ond nad oedd yr un wybodaeth wedi cael ei ddiweddarau ar y dudalen Cymraeg.

26/07/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â Covid-19 yn Saesneg yn unig ar ei wefan, a heb ddiweddarau'r dudalen Gymraeg gyfatebol. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 52, gan nad yw'r wybodaeth dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y wefan.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob testun sy'n ymwneud â Covid-19



ar ei wefan ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd eisoes wedi ei gyhoeddi, ac unrhyw wybodaeth fydd yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol. Ni ddylai fod unrhyw oedi rhwng cyhoeddi'r wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

2. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'u trefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefan mewn argyfwng, er mwyn sicrhau nad yw gofynion safonau'r Gymraeg yn cael eu hanghofio mewn argyfwng. Rhaid i'r Cyngor atgoffa'r staff o'r trefniadau hyn.

3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 21/07/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn gofyn i'r Heddlu pan fydd yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid iddo ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth, yn yr achos hwn, neges cydnabod a oedd yn uniaith Saesneg. Anfonwyd y neges ar ffurf ebost. Roedd yr ebost yn cadarnhau derbyn

Prif Gwnstabl  
Heddlu Dyfed  
Powys

CSG812 Ar 4 Rhagfyr, 2020  
derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd. Roedd yn bodloni  
amodau adran 93 Mesur y Gymraeg,  
ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn  
yn ymwneud â neges uniaith Saesneg  
a dderbyniodd yr achwynydd

21/07/2021

gan Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar 2 Rhagfyr, 2020. Daeth y gŵyn ar ffurf e-bost. Yn yr e-bost, dywedodd yr achwynydd iddo lwytho adroddiad yn Gymraeg ar wefan Heddlu Dyfed Powys o dan yr Adran 'Adrodd Trosedd' ar 1 Rhagfyr, 2020 gan dderbyn cadarnhad uniaith Saesneg (gweler isod) o'i dderbyn ar 2 Rhagfyr, 2020:

Thank you for your report.

This has been logged under our ref: DP-XXXXXXXX-XXX and has been sent for the attention of the local policing team.

Kind Regards

adroddiad Cymraeg a lwythwyd ar wefan yr Heddlu. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 1.

Safon 4: Mae safon 4 yn ymwneud â'r modd y mae corff yn anfon gohebiaeth at fwy nag un person. Mae'n rhaid i gorff anfon gohebiaeth Gymraeg yr un pryd ag y bydd yn anfon gohebiaeth Saesneg ohoni. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth safonol uniaith Saesneg at yr achwynydd. Lluniwyd yr ohebiaeth safonol i'w anfon at nifer o bersonau. Roedd yr e-bost yn cadarnhau derbyn adroddiad Cymraeg a lwythwyd ar wefan yr Heddlu. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 4.

Safon 5: Os nad yw corff yn gwybod beth yw dewis iaith person, rhaid iddo sicrhau ei fod yn darparu fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth y mae'n ei hanfon at y person hwnnw. Anfonodd yr Heddlu ohebiaeth safonol uniaith Saesneg at yr achwynydd, heb wybod a oedd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Roedd yr ohebiaeth, ar ffurf e-bost yn cadarnhau derbyn adroddiad Cymraeg a lwythwyd ar wefan yr Heddlu. Mae hyn yn dangos methiant gan yr Heddlu i gydymffurfio â safon 5.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4 a 5.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 4 a 5.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys gynnal arolwg er mwyn adnabod pob neges safonol a anfonir ganddo mewn ymateb i adroddiadau a lwythir ar wefan yr Heddlu.
  2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys sicrhau bod pob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, ar ba bynnag ffurf, yn cael ei ateb yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 1.
  3. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar 21/07/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru

CSG739 Ar 25/06/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod y trydariadau canlynol, a wnaed gan un o Weinidogion Cymru, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

1.  
<https://twitter.com/walesintheworld/status/1275415962364321792>

2.  
<https://twitter.com/walesintheworld/status/1273305660705341440>

3.  
<https://twitter.com/walesintheworld/status/1275818552235343873>

Honnir bod y trydariadau wedi eu hanelu at gynulleidfa Gymraeg ble mae'r siaradwr yn y fideo yn defnyddio'r Saesneg yn unig, ac ymddengys yr isdeitlau yn Saesneg. Yn nhrydariad rhif 3, ceir testun dwyieithog yn y Saesneg a'r Ffrangeg, heb gynnwys y Gymraeg.

21/07/2021

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 58: Mae safon 58 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Rhaid cydymffurfio â'r safon ac eithrio cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru. Roedd cyfrif @walesintheworld yn gyfrif swyddogol y Gweinidog dros iaith Gymraeg a chysylltiadau rhyngwladol. Tra bod cyfran o'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer y cyfrif hwn yn debygol o fod y tu allan i Gymru, cesglir hefyd bod cyfran fawr o'r gynulleidfa a ragwelir wedi eu lleoli yng Nghymru ac hefyd yn siaradwyr Cymraeg. Ar 23/06/2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru neges ar y cyfrif Twitter dan sylw (neges 1) a oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y testun Cymraeg yn cynnwys llai o wybodaeth na'r testun Saesneg. Ar 17/06/2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru neges ar y cyfrif Twitter dan sylw (neges 2). Roedd testun y neges yn ddwyieithog ac roedd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cyfateb yn llawn. Roedd y neges hefyd yn rhannu fideo uniaith Saesneg. Nid oedd fersiwn gyfatebol Gymraeg o'r fideo ar gael felly casglaf nad oedd Gweinidogion Cymru yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth rannu'r fideo hwnnw gyda'r neges Gymraeg. Ar 24/06/2020 cyhoeddodd Gweinidogion Cymru neges ar y cyfrif Twitter dan sylw (neges 3) yn Saesneg heb gyhoeddi neges gyfatebol yn Gymraeg. Wrth wneud hynny, cesglir bod Gweinidogion Cymru wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er bod Gweinidogion Cymru wedi nodi iddo ddiwygio'r

'Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru' yn dilyn fy ymchwiliadau blaenorol ymddengys bod methiannau yn parhau. Rwy'n cydnabod bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu parhau i ddiwygio'r canllaw hwn, serch hynny, nid yw hynny yn cynnig digon o sicrwydd y bydd cydymffurfiaeth wedi ei adfer.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 58.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 58.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 58: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad llawn o'i gyfrifon cymdeithasol gan ystyried y cynulleidfaoedd a ragwelir ar gyfer pob cyfrif gan nodi i ba raddau y mae'r cynulleidfaoedd a ragwelir wedi eu lleoli yng Nghymru.

2. Lle bernir bod y gynulleidfa a ragwelir yng Nghymru dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod negeseuon a gyhoeddir ar y cyfrifon hynny yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg.
  3. Wrth baratoi testun i'w gyhoeddi ar ei gyfrifon cymdeithasol, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y negeseuon Cymraeg yn cyfateb yn union i unrhyw negeseuon Saesneg (os oes negeseuon Saesneg cyfatebol yn cael eu cyhoeddi).
  4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio ei ganllaw Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r gofynion uchod.
  5. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### Safon 37 – Cyngor yn unol ag adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg

Rwy'n cynghori Gweinidogion Cymru i adolygu ei ganllawiau Canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg yng ngwaith cyfathrebu a marchnata Llywodraeth Cymru. Dylai'r canllaw gynnwys y canlynol:

- Cyngor ac arweiniad i staff ar sut i adnabod yr angen am ddarpariaeth iaith Gymraeg.
- Datganiad clir i nodi y dylai pob deunydd cyhoeddusrwydd (gan gynnwys fideos) sydd yn cael ei lunio gan Weinidogion Cymru, gael ei lunio yn Gymraeg, ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol wrth lunio'r deunydd hwnnw (gan eithrio deunydd sydd wedi ei lunio at gynulleidfa y tu allan i Gymru).

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG729 Ar 14/05/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo anfon gohebiaeth yn Gymraeg ar ffurf e-bost at y Cyngor ar 13/05/2020. Roedd yr ohebiaeth yn ymwneud â thaliadau debyg uniongyrchol treth y Cyngor. Derbyniodd ymateb yn uniaith Saesneg ar ddau achlysur. Yn dilyn derbyn yr ail neges, anfonodd yr achwynydd ymateb at y Cyngor yn gofyn pam ei fod yn derbyn negeseuon uniaith Saesneg ganddo.

21/07/2021

- Datganiad clir y dylid gwneud pob ymdrech i ddefnyddio siaradwyr Cymraeg i gyfrannu i fideos Cymraeg, a chyngor ar sut i geisio sicrhau hynny.
- Arweiniad pellach ynglŷn â beth ddylid ei wneud os nad yw person sydd yn siarad ar y fideo yn medru'r Gymraeg.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/07/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r Cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen i'r Cyngor ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg i'r Cyngor. Ni ddywedodd nad oedd angen i'r Cyngor ei hateb yn Gymraeg. Atebodd y Cyngor ohebiaeth yr achwynydd ar ffurf e-bost yn Saesneg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1.

Camu gorfodi achos CSG201: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ateb pob gohebiaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg, yn Gymraeg. Ar 13/05/2020, derbyniodd yr achwynydd ddau ohebiaeth yn Saesneg gan y Cyngor. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â cham gorfodi.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a cham gorfodi achos CSG201.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a cham gorfodi achos CSG201.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Abertawe sicrhau ei fod yn ateb pob gohebiaeth Cymraeg, sydd angen ei ateb, yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 1.
  2. Rhaid i'r Cyngor gynnal hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth staff y Cyngor at y canllaw sy'n bodoli eisoes.
  3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
- Amserlen: o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**



Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 21/07/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG647 Ar 27 Medi 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud â'r ffordd y deliodd Cyngor Caerdydd (y cyngor) â dwy apêl parcio ac roedd dwy elfen iddi.

Yn gyntaf, roedd y gŵyn yn honni bod hysbysiadau gan y cyngor yn gwrthod yr apeliadau yn cynnwys gwybodaeth oedd yn Saesneg. Rhannodd yr achwynydd gopi o ohebiaeth y cyngor. Roedd yn cynnwys cyfres o luniau wedi eu tynnu gan y cyngor. Honnai'r ohebiaeth bod y lluniau'n dangos car yr achwynydd wedi parcio'n anghyfreithlon. Roedd penawdau'r lluniau a manylion eu tynnu yn ymddangos Saesneg. Roedd y testun Saesneg oedd i'w weld yn cynnwys, 'For reference', 'Date time stamp', 'on 28 August 2019 at 16:12:26' a 'Cardiff City Council'.

14/07/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Elfen 1 y gŵyn: Pan fo'r cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen iddo ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Derbyniodd y cyngor ddwy apêl parcio gan yr achwynydd yn Gymraeg. Roedd angen iddo ymateb i'r ohebiaeth honno drwy naill ai dderbyn neu wrthod apeliadau achwynydd. Atebodd y cyngor yr ohebiaeth trwy anfon i'r achwynydd ddau hysbysiad gwrthod sylwadau. Roedd yr hysbysiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg (fersiynau ar wahân) Er bod y fersiwn Gymraeg ar y cyfan yn Gymraeg, roedd yn cynnwys testun oedd yn Saesneg yn unig. Roedd hyn yn fethiant gan y cyngor i gydymffurfio â'r safon.

Safon 1: Elfen 2 y gŵyn: Pan fo'r cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen iddo ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Atebodd y cyngor ohebiaeth gan yr achwynydd y tu hwnt i'r trothwy statudol ar gyfer ateb y math honno o ohebiaeth. Nid oes tystiolaeth sy'n profi bod dewis iaith yr achwynydd wedi bod yn ffactor yn yr oedi.

Cyngor  
Caerdydd

Roedd pedair tudalen debyg wedi eu cynnwys yng ngohebiaeth y cyngor.

Yn ail, roedd y gŵyn yn honni bod y cyngor wedi oedi wrth ddelio â'r apeliadau, a hynny oherwydd eu bod wedi eu gwneud yn Gymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod yr hysbysiadau gwrthod wedi eu dyddio 28 Awst 2019 gan mai dyma'r dyddiad ar yr ohebiaeth, ond, yn ôl gwybodaeth y Tribiwnlys Cosbau Traffig, 21 Awst 2019 oedd eu dyddiad. Holodd: A oedd y cyngor felly wedi prosesu'r apêl trwy gyfrwng y Saesneg, yn groes i ofynion y Safonau a Deddf Diogelu Data 2018 gan arwain at oedi o 7 diwrnod? Eglurodd yr achwynydd ei fod yn amau bod y cyngor wedi gweithredu yn y modd hwn oherwydd bod system ar-lein y Tribiwnlys Cosbau Traffig yn dangos mai 21 Awst 2019 oedd dyddiad yr hysbysiadau gwrthod. Pan ddefnyddiodd y system ar 26 Medi 2019 gwelodd bod angen iddo egluro wrth y tribiwnlys pam y dylid ystyried ei apêl yn erbyn yr hysbysiadau gwrthod tu hwnt i'r cyfnod 28 diwrnod a ganiateir yn statudol. Dywedodd bod y dyddiad wedi ei gywiro gan y cyngor ar 27 Medi 2019 a bod y

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 47, ond bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adrannau 76 a 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd ac er mwyn gwneud argymhelliad i'r cyngor. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 1: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r cyngor gymryd camau i sicrhau bod unrhyw dystiolaeth wreiddiol sy'n cael ei rhyddhau ganddo fel rhan o ohebiaeth yn Gymraeg, os mai dyna ddewis iaith y derbynnydd.
2. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol i ddangos ei fod wedi cwblhau camau gorfodi un. Amserlen: O fewn tri mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 14/07/2021.

system ar-lein, ar y dyddiad hwnnw, yn dangos mai 29 Awst 2019 oedd dyddiad yr hysbysiadau gwrthod.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG482 Ar 5 Ionawr 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiannau honedig ar dudalennau'n ymwneud â cheisiadau cynllunio ar wefan Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor), ac roedd dwy elfen iddi.

Yn gyntaf, roedd yn honni nad oedd y wefan yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg. Roedd hynny, yn ôl yr achwynydd, oherwydd y feddalwedd a ddefnyddir gan y Cyngor i greu rhyngwyneb Cymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod y feddalwedd yn ymdrin â'r Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac nad oedd modd gweld manylion rhai ceisiadau cynllunio ar fersiwn Gymraeg y wefan oherwydd gwall gyda'r feddalwedd. Honnodd bod fersiwn Gymraeg tudalennau'r wefan yn cymryd dwy eiliad yn fwy i lwytho na thudalennau Saesneg cyfatebol ac mai dyna a arweiniodd at y gwall. Darparodd ddolenni at

08/07/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn golygu bod rhaid i'r Cyngor sicrhau (a) bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg, ac (c) na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan. Yn ôl yr hyn sy'n debygol, effeithiwyd gwefan y Cyngor gan wall gyda'r feddalwedd a ddefnyddir i greu rhyngwyneb Cymraeg. Fe olygodd hyn nad oedd modd gweld manylion cais cynllunio ar fersiwn Gymraeg y wefan am gyfnod ar 5 Ionawr 2019. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â holl ofynion y safon. Ar adeg y gwall nid oedd testun tudalen o'r wefan yn ymwneud â chais cynllunio penodol ar gael yn Gymraeg (a), ac nid oedd y dudalen yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg (b). Gosodwyd defnyddwyr fersiwn Gymraeg y wefan dan anfantais gan nad oedd gwybodaeth ar gael iddynt am gyfnod. O ganlyniad, cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan (c). Roedd dogfennau nad oeddent yn Gymraeg i'w gweld ar fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor mewn perthynas â chais cynllunio penodol. Nid oedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio hefo gofyniad (a) o'r safon oherwydd nad oedd y dogfennau yn ffurfio rhan o destun tudalen ar ei wefan. Yn hytrach, roeddent yn ddogfennau ar wahân, â dolen atynt ar y wefan sydd wedi eu heithrio o ofynion y safon. Dangosodd yr ymchwiliad nad oedd testun ar dudalen ar wefan y Cyngor oedd yn dal manylion dogfennau cais cynllunio ar gael yn Gymraeg.

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

fersiynau Cymraeg a Saesneg tudalen benodol er mwyn dangos bod y gwall wedi effeithio'r dudalen Gymraeg yn unig. Rhannodd yr achwynydd ddolen at sylw a wnaeth am y mater ar Twitter am 3:44 ar 5 Ionawr 2019. Roedd cip lun ynghlwm â'r sylw oedd yn dangos neges gwall yn egluro nad oedd modd arddangos y dudalen yn unol â'r cais oherwydd gwall.

Roedd ail elfen y gŵyn yn ymwneud â dogfennau cais cynllunio penodol. Roedd yn honni bod dogfennau'n ymwneud â chais 2018/2629/FUL yn ymddangos yn Saesneg ar y wefan. Dywedodd yr achwynydd ei fod am wneud cwyn am fethiant Adran Gynllunio'r Cyngor i 'wneud unrhyw beth yn Gymraeg', ac o'r dogfennau ar y wefan cyfeiriodd at:

- ddatganiad i'r wasg; a
- llythyron i berson sydd heb ddatgan ei fod am dderbyn cyfathrebiad yn Saesneg yn unig.

Darparodd y ddolen at fanylion y cais cynllunio ar wefan y Cyngor. Roedd 14 dogfen i'w gweld mewn perthynas â'r cais. Roeddent yn cynnwys 10 llythyr gan Gyfarwyddiaeth Lleoedd y

Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio hefo gofyniad (a) o'r safon.

Safon 69: Dangosodd yr ymchwiliad nad oedd hysbysiad swyddogol oedd i'w weld ar fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor yn Gymraeg. Roedd yr hysbysiad swyddogol hefyd yn hysbysiad swyddogol o ragnodwyd gan ddeddfiad, sef hysbysiad cais cynllunio dan ddarpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, ac felly wedi ei eithrio o ofynion y safon. Nid oedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 69, ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adrannau 76 a 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd ac er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

Cyngor, un hysbysiad cais cynllunio ac un neges e-bost gan swyddog o'r Cyngor.

1. Rhaid i'r cyngor archwilio ei ddefnydd o feddalwedd ar fersiwn Gymraeg ei wefan er mwyn deall os yw'n arwain at wall terfyn amser gweinydd.
  2. Rhaid i'r Cyngor archwilio'r tudalennau ar ei wefan sy'n dal manylion ceisiadau cynllunio a sicrhau bod yr holl destun ar y tudalennau hynny ar gael yn Gymraeg.
  3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 69: Argymhelliad yn unol ag isadran 76(3)(b) Mesur y Gymraeg

Ble fo hysbysiad swyddogol a ragnodir gan ddeddfiad yn ddarostyngedig i eirfa benodol, dylai'r cyngor sicrhau bod ei fod yn cynnwys fersiwn Gymraeg yr eirfa benodol honno os yw'n bodoli.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 08/07/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG734 Ar 17 Mehefin 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud â fersiwn Gymraeg gwefan Cyngor

17/06/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Ar 17 Mehefin 2020 roedd gwybodaeth am coronafeirws i'w gweld yn Saesneg ar fersiwn Gymraeg gwefan y cyngor. O ganlyniad, nid oedd testun pob tudalen y wefan ar gael yn Gymraeg. Gan fod gwybodaeth ar gael yn Saesneg ac nid yn Gymraeg am gyfnod estynedig,

Dinas a Sir Abertawe (y cyngor). Yn benodol tudalennau ynglŷn â'r pandemig COVID-19. Roedd yn honni:

- bod nifer o dudalennau am coronafeirws yn cynnwys gwybodaeth oedd yn Saesneg yn unig, [www.abertawe.gov.uk/CyngorarCoronafeirws](http://www.abertawe.gov.uk/CyngorarCoronafeirws); a
  - bod gan y cyngor grŵp Facebook oedd yn cynnwys gwybodaeth oedd yn Saesneg, [www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group\\_header](http://www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group_header) <[http://www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group\\_header](http://www.facebook.com/groups/2468930126753492/?ref=group_header)>.
- Roedd gan yr achwynydd 19 ciplun o'r wefan i gefnogi ei gŵyn.

cafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Roedd hyn yn fethiant clir gan y cyngor i gydymffurfio â gofynion y safon.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 52: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu

1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu ar gyfer cyfieithu testun ar frys. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu camau i'w cymryd er mwyn sicrhau nad yw testun heb ei gyfieithu yn cael ei osod ar fersiwn Gymraeg y wefan.

Dylai gynnwys ymrwymiad i:

- assesu capasiti'r uned gyfieithu; a
- sefydlu proses ar gyfer blaenoriaethu mathau penodol o wybodaeth lle bo capasiti'r uned gyfieithu wedi ei effeithio, fel mewn sefyllfa o argyfwng.

Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi amserlen ar gyfer cyflawni pob cam o'r cynllun, a phwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol.

Safon 52: Gofyniad i gymryd camau

2. Os yw'r cyngor yn rhannu gwybodaeth i'w staff ar ei wefan, a bod modd i aelodau'r cyhoedd weld y wybodaeth, rhaid iddo sicrhau ei bod yn Gymraeg ac yn cwrdd â gofynion y safon.

3. Rhaid i'r cyngor gynnal archwiliad rheolaidd o'i dudalennau gwe am coronafeirws er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion y safon.

4. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ddigonol i ddangos ei fod yn cydymffurfio a champau gorfodi dau a thri.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 17/06/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 88, 89 a 90: 3.31 Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i mi gan y Cyngor, mae'n glir ei fod wedi cynnal asesiad o effaith y cynnig i gau Ysgol Pont Siôn Norton ar addysg Gymraeg wrth fynd ati i adrefnu ysgolion ardal Pontypridd.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Siro  
Rhondda  
Cynon Taf

CSG633 Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried penderfyniad polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) i adrefnu ysgolion fel rhan o'i gynllun Ysgolion yr 21ain Ganrif ym Mhontypridd.

17/06/2021



Un o'r penderfyniadau oedd yn gysylltiedig â'r adrefnu oedd argymhelliad i gau Ysgol Pont Siôn Norton ac i agor ysgol Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-Celyn yn Rhydfelen erbyn 2022. Dyma sut yr amlinellodd y Cyngor ei fwriad fel rhan o'r cynllun:

Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-celyn. Bydd ffrwd Gymraeg Ysgol Heol-y-celyn hefyd yn trosglwyddo i'r ysgol newydd. Bydd hyn yn cynyddu capasiti ac yn gwella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Bydd hefyd yn cael gwared ar y ddarpariaeth dwy ffrwd. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad yma (ac eraill oedd yn rhan o'r cynllun) rhwng 15 Hydref 2018 ac 31 Ionawr 2019. Ar 21 Mawrth 2019 penderfynodd cabinet y Cyngor dderbyn yr argymhelliad i gau Ysgol Pont Siôn Norton a buddsoddi £10.7 miliwn ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar safle presennol Ysgol Heol-y-Celyn. Arweiniodd hyn at gyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer datgan gwrthwynebiad ar 30

Dywedodd y Cyngor sawl tro ac mewn sawl dogfen bod y cynnig yn rhan o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn cynllunio ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y fwrdeistref. Rwyf yn derbyn y bydd y cynnig yn cynyddu'r nifer o lefydd fydd ar gael ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg o fewn dalgylchoedd y ddwy ysgol gynradd Gymraeg bresennol.

Cytunaf gyda dadansoddiad y Cyngor bod addysg cyfrwng Cymraeg yn unig mewn ysgol yn debygol o fod yn fwy llwyddiannus nag addysg ddwy ffrwd fel sydd yn bodoli yn Ysgol Heol-y-Celyn ar hyn o bryd drwy hwyluso defnydd o'r iaith. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu tuag at wireddu nod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg o ehangu addysg trwy gyfrwng yr iaith.

Rwyf yn derbyn y bod y Cyngor wedi trafod a dadansoddi effaith y cynnig ar addysg y plant, a thrafod materion megis llefydd chwarae, hygyrchedd yr adeiladau ac ati er mwyn gwella darpariaeth addysg Gymraeg i'r cymunedau dan sylw.

Mae pellter teithio, ac oblygiadau hynny ar ddewis rhieni, hefyd yn ffactor perthnasol a dderbyniodd ystyriaeth. Nodwyd pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch effaith y cynigion ar deuluoedd Ysgol Pont Sion Norton. Fe wnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned adnabod amharoddrwydd posib ymysg rhieni i anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol iddynt deithio ymhellach i gyrraedd yr ysgol, gyda'r canlyniad y buasent yn dewis darpariaeth cyfrwng Saesneg



Ebrill 2019. Yn dilyn ystyried ymatebion i'r hysbysiad statudol, penderfynodd y Cyngor fwrw ymlaen efo'r cynllun ar 18 Gorffennaf 2019.

yn nes at adref. Rhoddwyd ystyriaeth i hyn hefyd yn yr Adroddiad Gwrthwynebu, lle nododd y Cyngor fod tua 69% o ddisgyblion Ysgol Pont Sion Norton ar hyn o bryd yn teithio ar fws, a'r rhai nad oeddent (gan eu bod yn byw o fewn y pellter cerdded o 1.5 milltir yn y dalgylch) yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol newydd.

Nodaf fodd bynnag nad oes tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth briodol i effeithiau posib y cynigion ad-drefnu nad oeddent yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ar yr iaith Gymraeg. Yn benodol, nid wyf wedi derbyn tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth, pan gyflwynwyd y cynigion i ad-drefnu ysgolion cyfrwng Saesneg, i effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, ac a fyddai'n bosibl lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a chynyddu unrhyw effeithiau positif.

Hoffwn felly bwysleisio nad yw safonau'r iaith Gymraeg ond yn berthnasol i'r meysydd penderfynu sy'n uniongyrchol berthnasol i'r iaith Gymraeg (er enghraifft, addysg cyfrwng Cymraeg). Wrth wneud penderfyniad polisi, dylai'r corff sy'n ddarostyngedig i safonau 88-90 ystyried effeithiau posibl y penderfyniad ar yr iaith Gymraeg, hyd yn oed os nad yw'n ymddangos fod y penderfyniad yn ymwneud â'r iaith yn uniongyrchol. Os ydym o ddifri fod y Gymraeg yn berchen i bawb ac yn ffactor wrth gynllunio gwasanaethau, rhaid iddi gael ei hystyried wrth ymgymryd â phob penderfyniad perthnasol, yn enwedig penderfyniadau pwysig hir dymor megis darpariaeth addysg.

Yn fy marn i, nid yw'r dystiolaeth yr wyf wedi ei hystried yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i effeithiau'r cynigion i ad-drefnu ysgolion ar y defnydd a wneir o'r iaith

Gymraeg yn y cymunedau o gwmpas yr ysgolion sydd wedi eu heffeithio. Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol a'r dyfyniad o'r Adroddiad Gwrthwynebiad yn ystyried rhai effeithiau, ond mae llawer o'r effeithiau y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt gael eu hadnabod a'u hystyried wedi eu hanwybyddu.

Yn benodol, nid yw'r dystiolaeth yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r graddau y defnyddir y Gymraeg ar hyn o bryd yn y gymuned leol o gwmpas Ysgol Pont Sion Norton, a'r graddau y mae'r ysgol yn cyfrannu at hynny.

Yng nghyd-destun cynigion i gau ysgolion, mae data ac ystadegau yn aml yn gymorth i adnabod effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Yn wir, dibynnodd y Cyngor ar ddata ac ystadegau ar gyfer agweddau eraill ar ei gynigion, fel y data ystadegol yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a oedd yn asesu canran y disgyblion sy'n byw yn nalgylch ysgolion priodol, neu'r data ystadegol yn y ddogfen ymgynghoriad (tudalen 13) a oedd yn nodi bod canran y disgyblion sy'n dewis aros o fewn chweched dosbarth eu hysgol bresennol yn isel.

Mae'n ymddangos i mi na gasglwyd data neu ystadegau penodol mewn perthynas ag effeithiau'r cynigion ad-drefnu ar y Gymraeg. Yn benodol, nid oes tystiolaeth y casglwyd data ar y graddau y defnyddir y Gymraeg ac yn lleol ac wedyn ystyriaeth briodol yn cael ei roi i sut y gallai'r cynigion ad-drefnu newid hynny. Er nad oes unrhyw orfodaeth benodol o dan y safonau i gywain data neu ystadegau ar y graddau y defnyddir y Gymraeg ar hyn o bryd, mae'n anodd gweld sut y gallai'r sawl sy'n gwneud

penderfyniad adnabod yn ystyrllon effeithiau'r penderfyniad polisi ar yr iaith Gymraeg heb o leiaf ychydig o ddata neu ystadegau er mwyn medru deall y sefyllfa bresennol.

Parthed y penderfyniad penodol i gau Ysgol Pont Sion Norton, rwyf yn credu y dylai'r Cyngor fod wedi ystyried yr effeithiau canlynol wrth asesu effaith y penderfyniad ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned:

- Effaith ad-leoli gofal cofleidiol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.
- Effaith ad-leoli gweithgareddau ar ôl ysgol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.
- Effaith ad-leoli gweithgareddau grwpiau cymunedol o ardal Ysgol Pont Siôn Norton.

Nid yw'r un o'r ffactorau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth addysg ond maent i gyd yn berthnasol wrth ystyried effaith cau ysgol. Mae pob un o'r gweithgareddau yn cyfrannu mewn rhyw ffordd at gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol. Er bod y dystiolaeth yn adnabod y byddai lleoliad y gweithgareddau hyn yn gorfod newid yn sgil cau'r ysgol, nid yw'n dangos ystyriaeth o effaith y newid ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn yr ardal a effeithiwyd.

Er enghraifft, fe wnaeth y Cyngor adnabod angen i liniaru prif effaith cau'r ysgol sef y byddai'n anoddach i nifer o ddisgyblion fynychu'r safle newydd. Gan fod hyn a photensial i effeithio'n andwyol ar ddefnydd o addysg Gymraeg yn yr ardal, cynigiwyd fesurau er mwyn sicrhau bod trafndiaeth ar gael i bob disgybl fyddai'n cael ei effeithio gan y newid. Byddwn wedi disgwyl gweld

cydnabyddiaeth ac ystyriaeth debyg o effaith symud gofal cofleidiol (y clwb brechwast a'r 'clwb carco') a'r clybiau ar ôl ysgol o safle Ysgol Pont Siôn Norton. Ni wnaed hyn.

Yn yr un modd fe wnaeth y Cyngor adnabod bod gwersi Cymraeg i Oedolion yn cael eu cynnal ar y safle ond nid oes unrhyw asesiad o effaith terfynu'r gwersi yn eu lleoliad presennol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol.

Nid fy swyddogaeth i yw mynegi barn ar ganlyniad ystyried yr effeithiau hyn, ond fy swyddogaeth i yw asesu a gafodd yr effeithiau hyn eu hystyried yn gydwbodol. Nid wyf yn credu y gwnaed hynny.

Nid yw'n ddigonol yn fy marn i, i gasglu'n syml mai cynyddu llefydd sydd ar gael ar gyfer addysg Gymraeg cynradd yw'r unig effaith o ran cydraddoldeb; ac i ddweud gan fod modd i'r plant o fewn dalgylch Ysgol Pont Siôn Norton fynychu'r ysgol drwy drafnidiaeth, fod hynny o reidrwydd yn golygu bod yr holl gynnig yn cael effaith positif ar ran y Gymraeg. Rwyf wedi adnabod uchod ffactorau sydd yn sicr â photensial i gael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol ac fe ddylai'r rhain fod wedi eu hystyried yn llawn cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

Mae penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â darpariaeth addysg yn gallu cael effeithiau cymhleth ar ddefnydd o'r Gymraeg yn gymunedol, ar ddewisiadau a wneir mewn perthynas ag addysg Gymraeg ac ar agweddau tuag at yr iaith Gymraeg yn lleol. Gall y rhain fod yn gymysgedd o effeithiau positif, niwtral a negyddol. Nid wyf yn fodlon y

gwnaed ymdrech ddigonol i adnabod y gymysgedd o effeithiau yn yr achos hwn.

Diben sicrhau fod effeithiau negyddol penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn cael eu hadnabod yw i alluogi camau i gael eu cymryd i liniaru'r effeithiau hyn cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Yn yr un modd, diben adnabod effeithiau positif yw i alluogi camau i gael eu cymryd i gynyddu'r effeithiau hynny ymhellach.

Mae'r safonau yn ei gwneud yn agored i'r Cyngor i barhau gyda'r penderfyniad doed a ddêl neu, gall gasglu bod yr effeithiau andwyol, wedi iddynt gael eu hadnabod yn ddigonol, mor sylweddol fel y dylai edrych eto ar y penderfyniad. Gallai'r Cyngor hefyd edrych eto ar y penderfyniad i ystyried a ellid ei ail-wneud er mwyn cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar y Gymraeg na'r hyn yr arfaethwyd yn y lle cyntaf, neu a ellid sicrhau mesurau lliniaru pellach er mwyn atal neu leihau effaith andwyol y penderfyniad.

Fel yr wyf yn nodi uchod, rwyf o'r farn fod y safonau yn gosod gofyniad ar y Cyngor i adnabod effeithiau pob un o'i benderfyniadau polisi, ac felly yn yr achos hwn, roedd gofyn iddo asesu'r cynigion ad-drefnu yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys y penderfyniadau yn ymwneud ag ysgolion cyfrwng Saesneg.

Yn fy marn i, nid yw'r dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i adnabod ac yna ystyried yr effeithiau y byddai ei benderfyniadau polisi yn yr achos hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl defnyddio'r

Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid wyf ychwaith yn fodlon fod y dystiolaeth yn dangos fod y Cyngor wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif, neu lai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 88, 89 a 90.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 88, 89 a 90.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y

Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

2. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei fod yn cael effeithiau positif, neu effeithiau fwy positif, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

3. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi'r ystyriaeth a roddir i sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr i'r diben hwn.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90: Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan gyhoeddus, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion y wefan honno.

Amserlen: O fewn chwe wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 17/06/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 7: Er mwyn cydymffurfio â safon 7 roedd angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n gwahodd ymateb neu ohebiaeth, yn cynnwys datganiad sy'n dweud ei fod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Yn yr achos yma fe anfonodd y Bwrdd Iechyd ohebiaeth at yr achwynydd oedd yn gofyn am wybodaeth. Nid oedd yr ohebiaeth yn cynnwys datganiad oedd yn cydymffurfio â safon 7. Gan nad oedd yr ohebiaeth anfonodd y Bwrdd Iechyd at yr achwynydd yn cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, nid wyf o'r farn bod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â safon 7. Rwy'n dyfarnu fod D wedi methu â chydymffurfio â safon 7 yn yr achos yma gan nad oedd yr ohebiaeth anfonwyd at yr achwynydd yn cynnwys datganiad oedd yn dweud y bod y Bwrdd Iechyd yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth Gymraeg ac na fyddai gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 7.

CSG744 Ar 6/7/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Gadawodd yr achwynydd neges peiriant ateb Cymraeg i adran gwynion y Bwrdd Iechyd ar 30 Mehefin 2020. Derbyniodd ohebiaeth Cymraeg mewn ymateb i'r neges ffôn. Roedd y llythyr yn cynnwys y frawddeg ganlynol "A fyddech gallu rhoi gwybod i ni hefyd os ydych chi a'ch mab am siarad Cymraeg yn unig neu os ydych yn hapus i fynd ymlaen yn Saesneg?". Mae'r achwynydd o'r farn bod y frawddeg yma yn sarhaus ac yn nodi na fyddai'r Bwrdd Iechyd wedi gofyn i unigolyn oedd wedi gadael peiriant ateb yn Saesneg a oeddynt am barhau i drafod gyda'r Bwrdd Iechyd yn Saesneg. Nid oedd yr ohebiaeth yn cynnwys datganiad i esbonio bod y Bwrdd Iechyd yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

10/06/2021

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Bae  
Abertawe



### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 7.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 7: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe gymryd camau i sicrhau bod pob gohebiaeth a anfonir gan y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safon 7.

2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 10/06/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Anfonodd D ohebiaeth at P ar 23/04/2020 yn ei hysbysu am effaith y pandemig ar ei wasanaethau

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol

CSG728 Ar 12/05/2020, derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd (P).  
Roedd y gŵyn yn bodloni amodau

10/06/2021

Caerdydd a'r Fro

adran 93 Mesur y Gymraeg ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd P yn anfodlon ei bod wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (D) ar 23/04/2020. Roedd y llythyr yn ymwneud ag oedi gwasanaethau y Gwasanaeth Ymweliad Iechyd (gan gynnwys adolygiadau datblygiad babanod 6 mis oed) oherwydd y pandemig.

ymwelwyr iechyd. Ni ddarparodd fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno i P. Roedd ymddygiad D yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon 5; roedd dyletswydd ar D yn unol â'r safon i roi fersiwn Gymraeg o'r llythyr i P a gwnaeth fethu â gwneud hynny yn yr achlysur hwn. Y prif ffactor a wnaeth gyfrannu at y methiant oedd bod D heb drefnu, o flaen llaw, i lythyr P gael ei gyfieithu i'r Gymraeg cyn ei anfon at P. Felly, pan benderfynodd D anfon y llythyr at P ar 23/04/2020, fe anfonodd fersiwn uniaith Saesneg o'r llythyr at ei sylw. Oherwydd yr angen iddo ganslo apwyntiadau ymweliadau iechyd ar frys, nid oedd D yn ystyried bod ganddo'r amser i anfon y llythyr i gael ei gyfieithu [i'r Gymraeg cyn ei anfon at P]. Ar yr adeg y derbyniodd P y llythyr, sef ar 23/04/2020, nid oedd apwyntiad wedi'i drefnu i ymweld â chartref P. Nid oedd D felly yn gohebu â P i ganslo apwyntiad ar fyr rybudd. Nid oedd y llythyr yn un yr oedd angen i D ei anfon at P ar frys, neu ar y fan lleiaf, ei anfon at P erbyn 23/04/2020. Nid oedd yr wybodaeth a rannodd D yn y llythyr yn wybodaeth yr oedd yn hollol angenrheidiol i P wybod amdani ar yr union ddyddiad y derbyniodd y llythyr. Ni fyddai wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i P petai'r wybodaeth honno wedi ei hanfon ati ddiwrnod, neu ychydig o ddiwrnodau, yn hwyrach. Pe byddai D wedi penderfynu gohirio anfon y llythyr, mae'n debygol y byddai wedi bod ganddo amser digonol i sicrhau cyfieithiad Cymraeg o'r llythyr cyn ei anfon at P. O fod wedi gohirio anfon y llythyr tan ddyddiad yn dilyn 23/04/2020, byddai wedi bod yn bosibl i D anfon y llythyr yn Gymraeg (ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni) yn unol â dymuniad P ac yn unol â safon 5.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 5 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro adolygu'r holl llythyrau safonol y mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn eu hanfon at bersonau a sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg i'w hanfon atynt.
2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd adolygu ei ganllawiau i staff i sicrhau eu bod yn egluro sut a phryd i wneud ceisiadau i gyfieithu llythyrau i'r Gymraeg. Rhaid i'r canllawiau ymdrin â'r ffactorau y dylai staff eu hystyried pan ganfyddir bod angen anfon llythyr at berson ar frys neu mewn argyfwng.
3. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1–2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

		<p>Safon 5 – Cyngor dan adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg  1. Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu ei brotocolau neu ei gynllun parhad busnes i sicrhau ei fod yn gallu gohebu â phersonau yn Gymraeg yn ystod cyfnodau brys neu argyfwng. Dylai'r adolygiad sicrhau bod gwytnwch ei brosesau a'i drefniadau cyfieithu yn ddigonol i sicrhau y gall gydymffurfio â gofynion safon 5 yn ystod cyfnodau fel hyn. Amserlen: Dylai'r Bwrdd lechyd gwblhau'r adolygiad o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b>  Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 10/06/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b>  Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Sir Gâr</u></p>	<p>CSG738 Ar 23/06/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. 1.2 Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd i gwyno ei fod wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg gan Llesiant Delta Wellbeing sy'n Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol sydd ym mherchnogaeth y Cyngor. Esboniodd yr achwynydd ei fod wedi gofyn i dderbyn pob gohebiaeth gan y Cyngor yn Gymraeg.</p> <p>10/06/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b>  Safon 5: Gofynion safon 5 yw os nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg, rhaid iddo ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu â'r person hwnnw. Yn yr achos yma, mae'r achwynydd wedi derbyn llythyr cyfeirio uniaith Saesneg gan gwmni Llesiant Delta Wellbeing. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio â gofynion y safon.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b>  O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 5.</p>

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 5: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gyfathrebu gyda staff cwmni Llesiant Delta Wellbeing ynghylch gofynion penodol safon 5 a gwirio eu bod yn deall y camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon, a gofyn i gwmni Llesiant Delta Wellbeing wirio eu holl dogfennau o ran gofynion safon 5.
  2. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio a danfon copi o'r canllawiau iaith at staff cwmni Llesiant Delta Wellbeing a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli, gan bwysleisio gofyniad safon 5 a'r angen i ohebu'n ddwyieithog ble nid yw dewis iaith y cleient yn hysbys.
  3. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ystyried eu contractau eraill trydydd parti a chymryd camau 1 & 2 uchod gydag unrhyw gwmni hyd braich arall sydd yn gweithredu ar eu rhan.
  4. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gâr ar 10/06/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 44: Cysylltodd yr achwynydd gyda mi gan honni nad oedd modd dod o hyd i'r ddogfen gynigion ar gyfer ymgynghoriad y Cyngor ar ei gyllideb drafft. Ar ôl ymchwilio rwyf yn deall na wnaeth y Cyngor ddarparu'r ddogfen yn Gymraeg gan eu bod o'r farn bod y ddogfen wedi ei heithrio o'r angen i gydymffurfio gyda safon 44 gan ei bod yn ddogfen dechnegol oedd wedi ei llunio mewn cysylltiad â phapurau ymgynghori. Ar ôl ystyried y ddogfen a diffiniadau o beth yw ystyr "dogfen technegol" nid wyf o'r farn bod y ddogfen yn un technegol. Ar y sail nad wyf o'r farn bod y ddogfen gynigion yn ddogfen dechnegol a oedd wedi ei llunio mewn cysylltiad â phapurau ymgynghori rwy'n dyfarnu fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 44 yn yr achos yma.

Safon 47: Mae safon 47 yn gofyn i gorff asesu a yw pwnc dogfen neu ei gynulleidfa yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg os nad oes safon arall yn gosod dyletswydd arnynt i lunio'r ddogfen yn Gymraeg. Yn yr achos yma nid oedd sicrwydd ynglŷn â pha ddogfen oedd o dan sylw'r gŵyn. Wrth ymchwilio i'r achos yma fe ddaeth i'r amlwg mai dogfen wedi ei llunio mewn cysylltiad â phapurau ymgynghori oedd y ddogfen ac mae cydymffurfiaeth gyda

CSG699 Ar 30/01/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynglŷn ag ymgynghoriad cyllideb drafft Cyngor Dinas Casnewydd. Yn ôl yr achwynydd roedd y ddolen ar y dudalen Gymraeg yn mynd at y ddogfen Saesneg yn unig ac roedd nifer o wahaniaethau rhwng y cyflwyniad PowerPoint Cymraeg â'r un Saesneg. Nid oedd yr achwynydd yn gallu gweld y ddogfen cynigion yn Gymraeg.

10/06/2021

Cyngor Dinas  
Casnewydd

safon 44 wedi ei drafod. Gan mai dogfen ymgynghorol wedi ei llunio mewn cysylltiad â dogfen ymgynghori oedd y ddogfen nid yw safon 47 yn berthnasol. Rwyf yn dyfarnu nad yw Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 47 yn yr achos yma.

Safon 48: Pan mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cyhoeddi dogfen, rhaid peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfen yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg o'r ddogfen honno. Mae hynny yn cynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi. Yn yr achos yma roedd gwahaniaethau rhwng y cyflwyniad Cymraeg a'r cyflwyniad Saesneg ac fe gadarnhaodd y Cyngor bod y cyflwyniad Cymraeg anghywir wedi cael ei osod pan gafodd y cyflwyniad Saesneg cywir ei osod. Mae'n ymddangos o dystiolaeth y Cyngor mae cyflwyniad ymgynghoriad cyllideb y flwyddyn flaenorol gafodd ei osod ar wefan y Cyngor fel rhan o'r ymgynghoriad. Gan fod y cyflwyniad Cymraeg anghywir wedi ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad, fe wnaeth y Cyngor drin y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 52: Er mwyn cydymffurfio â safon 52 mae angen i'r Cyngor sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Yn yr achos yma fe wnaeth cwyn yr achwynydd greu amheuaeth nad oedd y Cyngor yn cydymffurfio â safon 52. Dangosodd y wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad nad problem gyda'r wefan achosodd i'r achwynydd weld y ddogfen yn Saesneg yn unig. Gan fod yr ymchwiliad wedi dangos mai oherwydd

eithriad i safon 44 y cafodd yr achwynydd ei dargyfeirio i'r fersiwn Saesneg yn hytrach nag oherwydd problemau gyda'r wefan Gymraeg, nid oes tor-safon wedi bod mewn perthynas â safon 52.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 47 a 52, ond bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 44 a 48.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 44 a 48.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 44: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd lunio meini prawf clir i'w staff yn esbonio pa bryd y dylai dogfen ymgynghorol gael ei heithrio o'r angen i gydymffurfio gyda safon 44.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.



Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 44: Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Dylai Cyngor Dinas Casnewydd nodi ar unrhyw ddogfen sydd wedi ei heithrio o'r angen i gydymffurfio gyda safon 44 nad yw ar gael yn Gymraeg gan ei fod yn ddogfen ymgynghorol dechnegol.

Safon 48: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd gymryd camau i atgoffa staff sy'n gyfrifol am ymgynghoriadau bod angen i'r dogfennau Cymraeg cywir gael eu gosod ar wefan y Cyngor pan mae'r dogfennau Saesneg yn cael eu gosod.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 10/06/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru  
(Cadw)

CSG692 Ar 20/01/2020, derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 09/06/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Mae safon 10 yn ei wneud yn ofynnol i Cadw, dan hysbysiad cydymffurfio Gweinidogion Cymru, i ddelio â

Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ffoniodd yr achwynydd dri o safleoedd sydd dan gadwraeth Cadw, sef Castell Conwy, Castell Biwmares, a Chastell Harlech, a honnai na dderbyniodd wasanaeth Cymraeg gan yr un o'r safleoedd. Cafodd y galwadau eu gwneud ar 18/01/2020. Honnai'r achwynydd nad oedd yr un o'r tri aelod staff atebodd y ffôn yn medru'r Gymraeg, ac felly nid oedd modd cael y wybodaeth a ddymunodd yn Gymraeg. Honnai nad oedd unrhyw aelod staff arall ar y safleoedd fedrai ymateb i'w ymholiadau'n Gymraeg.

galwadau ffôn yn gyfan gwbl yn Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y galwr. Yn yr achos yma, ffoniodd yr achwynydd dair safle gwahanol dan reolaeth Cadw, ac ni dderbyniodd wasanaeth Cymraeg yn ystod yr un o'r tair galwad. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â safon 10.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 10 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau fod Cadw yn cydymffurfio â gofynion safon 10 wrth ateb galwadau i'w brif ffôn (neu un o'r prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau ar gyfer pob un o'i safleoedd. Dylai'r cynllun amlinellu'r trefniadau sydd mewn lle i sicrhau bod pawb sy'n ateb galwadau yn deall digon o Gymraeg i gynnal y sgwrs gychwynol yn Gymraeg os mai

hynny yw dymuniad y galwr er mwyn sefydlu natur yr ymholiad. Dylai'r cynllun yna nodi'r trefniadau sydd mewn lle i drosglwyddo'r alwad yn dilyn y cyswllt cychwynnol i aelod arall o staff Cymraeg (os oes angen ei throsglwyddo ac os mai hynny yw dymuniad y galwr), os na all yr aelod staff wnaeth ateb yr alwad barhau i ddelio â'r ymholiad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd.

Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Prif gamau'r broses wrth gynllunio'r gwaith
- Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Y gyllideb ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Enw'r person sydd â chyfrifoldeb dros y prosiect

Amserlen: Dylai'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu drafft o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas a'r cynllun.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/06/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG725 Ar 27/03/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn dilyn cais i adnewyddu bathodyn parcio glas ar gyfer pobl ag

10/05/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y bydd yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. Mae'r achwynydd wedi derbyn gohebiaeth Saesneg yn unig gan y Cyngor ynglŷn ag adnewyddu bathodyn glas. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 4 gan na

Cyngor  
Caerdydd

anabledd. Honnai'r achwynydd ei fod wedi derbyn llythyr yn Saesneg yn unig, ynghyd â ffurflen ar gyfer adnewyddu ei bathodyn glas yn Saesneg yn unig drwy'r post ar 19 Chwefror 2020. Nid oedd y llythyr hwn ychwaith yn cyfeirio at y ffaith y gall yr achwynydd gyflwyno cais yn Gymraeg os dymunir. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn i Gyngor Caerdydd yn uniongyrchol drwy e-bost ac yn dilyn hyn derbyniodd llythyr yn Gymraeg. Honnai, fodd bynnag, fod y llythyr hwn yn cynnwys nifer o gamgymeriadau iaith, ei fod llawer yn fyrrach gyda llai o wybodaeth a chyfarwyddiadau na'r llythyr gwreiddiol Saesneg, ac nad oedd dyddiad ar y ffurflen Gymraeg oedd wedi ei chynnwys gyda'r llythyr. Honnai'r achwynydd fod safon cyfieithiad y llythyr hwn "yn wael iawn, gyda llawer o Saesneg ynddo". Nodai'r achwynydd yn ogystal nad oedd wedi derbyn ymddiheuriad yn dilyn y gŵyn a wnaed ynghylch y llythyr Saesneg yn unig. Yn y llythyr Saesneg gwreiddiol, nodai'r llythyr fod modd cyflwyno cais adnewyddu ar lein, trwy ddefnyddio gwefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig (gov.uk); nid oedd cyfeiriad at hyn yn

anfonwyd fersiwn Cymraeg o'r ohebiaeth yn wreiddiol at yr achwynydd.

Safon 6: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i gynnwys y deunydd a safon y deunydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Ar ôl i'r achwynydd gwyno am dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg, fe dderbyniodd llythyr Cymraeg yn llawn gwallau ieithyddol, a gyda llai o wybodaeth na'r llythyr Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 6, oherwydd bod y fersiwn Cymraeg o'r llythyr yn wahanol i'r fersiwn Saesneg ac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Safon 50: Gofynion y safon yw bod pob ffurflen y mae sefydliad yn llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Yn yr achos yma, mae hen fersiwn o'r ffurflen wedi ei danfon at yr achwynydd. Nid wyf yn derbyn dadl y Cyngor a nodir uchod yn 2.10 fod hyn yn golygu bod y ffurflen ar gael. Mae fersiwn gwahanol o ffurflen yn ffurflen wahanol, felly nid oedd y ffurflen gywir ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu fod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 50, oherwydd nid oedd y ffurflen gywir ar gael ar y pryd.

Safon 50A: Gofynion y safon yw pan fo sefydliad yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid iddynt sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r ffurflen Saesneg a ddangosir fel tystiolaeth gan y Cyngor yn nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cydymffurfio â'r safon. Felly, mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r safon gan i'r ffurflen a ddanfonwyd

y llythyr Gymraeg. Ar ôl llenwi'r ffurflen yn Gymraeg ar lein, derbyniodd yr achwynydd nodyn cadarnhad yn Saesneg yn unig yn diolch am wneud y cais, ac yn gofyn am adborth am y broses yn Saesneg. Derbyniodd cadarnhad yn Saesneg hefyd fod ei bathodyn newydd wedi ei archebu. Honnai'r achwynydd nad oedd yn fodlon gyda'r broses ar gyfer adnewyddu ei bathodyn gan nad oedd wedi parchu ei hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.

gynnwys testun yn nodi yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 50B: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i gynnwys y deunydd a safon y deunydd i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Ar ôl i'r achwynydd gwyno am dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg, fe dderbyniodd ffurflen Cymraeg oedd yn fyrrach na'r fersiwn Saesneg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 50B, oherwydd bod y fersiwn Cymraeg o'r ffurflen yn wahanol i'r fersiwn Saesneg ac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 50A, ond bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4, 6, 50 a 50B.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 4, 6, 50 a 50B.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Safon 4

1. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 4 drwy greu canllaw clir i staff am ofynion safon 4 a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### Safon 6

3. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 6 drwy greu canllaw clir i staff am ofynion safon 6 a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

4. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### Safon 50

5. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 50 drwy greu canllaw clir i staff am ofynion safon 50 a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

6. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### Safon 50B

7. Mae rhaid i Gyngor Caerdydd atgoffa eu staff yn yr adran berthnasol o ofynion safon 50B drwy greu canllaw

clir i staff am ofynion safon 50B a lledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono.

8. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 7.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 10/05/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG726 Ar 03/04/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ar 03/04/2020 derbyniodd yr achwynydd e-bost a ffurflen uniaith Saesneg gan y Cyngor yn dilyn galwad ffôn Saesneg gyda swyddog di-Gymraeg. Nid yw'r achwynydd yn cwyno am iaith yr alwad gyda'r swyddog, ond yn hytrach iaith yr ohebiaeth a'r ffurflen. Roedd yr achwynydd eisoes wedi derbyn copi o'r ffurflen Saesneg ddiwedd 2019 ac fe gysylltodd gyda'r Cyngor dros y ffôn i ofyn iddynt ail anfon y ffurflen ato. Yn ôl yr achwynydd fe

14/04/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, os maent yn derbyn gohebiaeth Gymraeg, i ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Mae'r achwynydd wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2019, mewn ymateb i lythyr Cymraeg ganddo. Mae hyn yn groes i'w canllawiau (gweler 2.11). Un peth sy'n cymhlethu pethau yma yw mai trydydd parti sydd wedi danfon yr achwynydd at yr adran dan sylw yn wreiddiol, ac nid oedd dewis iaith wedi ei nodi ar yr adeg yna. Nid yw'r ffaith yma yn effeithio ar ofynion y safon. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 1 oherwydd nid oedd yr achwynydd wedi derbyn gohebiaeth Cymraeg mewn ymateb i ddanfon gohebiaeth Cymraeg.

Cyngor Sir  
Gar

ysgrifennodd at Opsiynau Tai yn Gymraeg ym mis Tachwedd 2019 cyn derbyn y ffurflen Saesneg yn ôl.

Safon 5: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddant yn gohebu â pherson os nad ydynt yn gwybod a yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthynt yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn honni fod dewis iaith yr achwynydd ar eu ffurflen ar-lein yn dynodi Saesneg, ac maent wedi darparu tystiolaeth o hynny. Maent yn nodi fod yn rhaid i bob unigolyn sydd yn dymuno defnyddio eu gwasanaeth gosod cartrefi greu cyfrif ar y wefan "Canfod Cartref", fel bod modd iddynt deilwra'r dewisiadau ar eu cyfer. Mae'n rhaid i unrhyw unigolion sy'n cofrestru lenwi yr holl fanylion ar y sgrin cyn symud ymlaen i gofrestru'n llawn. Gofynnais gwestiynau ychwanegol oedd yn berthnasol i safon 5 ar 20/10/2020 i'r achwynydd a'r Cyngor:

- Gofynnais i'r Cyngor a oedd yn bosibl bod aelod o staff yn y tîm opsiynau tai wedi gwneud y dewis iaith ar "Canfod Cartref" ar ran yr achwynydd.
- Gofynnais i'r achwynydd a oeddent ar unrhyw adeg wedi dewis Saesneg fel dewis iaith cyfathrebu ar ffurflen ar-lein y Cyngor mewn perthynas â thai.

Yr ateb a gefais gan yr achwynydd ar 20/10/2020 oedd nad oedd wedi gwneud hyn, "na, byth".

Yr ateb a gefais gan y Cyngor ar 21/10/2020 oedd mai'r unigolyn sydd yn gyfrifol am greu'r cyfrif a chyflwyno manylion personol - mae hyn yn cynnwys meysydd megis enw, dyddiad geni, prif gyfeiriad, a dewis iaith. Nid yw eu swyddogion yn cwblhau'r meysydd yma ar ran unigolion fel arfer. Mae'r sgrin hefyd yn ymddangos bob tro mae'r cleient yn logio mewn ac mae modd newid y manylion, meddent.

Mae'r Cyngor yn dweud mai'r unig esboniad arall sy'n bosib yw bod hen ddata wedi ei symud draw o'r system



oedd ganddynt mewn lle yn flaenorol. Ond maent yn nodi gan fod yr unigolyn mewn cyswllt rheolaidd gyda nhw, dylai'r manylion fod wedi ei diweddarau ers symud i wefan Canfod Cartref.

□ Ar 08/03/2021 holais yr achwynydd eto er mwyn sefydlu a oedd yn defnyddio system Canfod Cartref. Mae'r cwestiwn isod.

“Fe sonioch i mi ar 20/10/2020 nad ydych erioed wedi dewis yr opsiwn iaith Saesneg ar wasanaeth ar-lein “Canfod Cartref” y Cyngor. A yw'n arfer gennych i ddefnyddio'r system ar-lein “Canfod Cartref” o gwbl – boed hynny yn reolaidd, neu'n achlysurol, wrth gysylltu â'r Cyngor am eich gofynion o ran eich cartref? Os ddim, pa ddulliau cyswllt byddwch yn defnyddio?”

Ateb yr achwynydd oedd, “Rwyn edrych ar Canfod Cartref yn rheolaidd”.

Nid oes tystiolaeth fod y Cyngor wedi gwirio dewis iaith yr achwynydd oedd ar y system, felly dylent fod wedi darparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan roeddent yn gohebu â'r achwynydd. Mae'r Cyngor yn nodi yn eu hymateb nad oedd ganddynt reswm i gwestiynu dewis iaith yr achwynydd gan ei fod yn defnyddio Cymraeg a Saesneg wrth gyfathrebu. Ond mae'r Cyngor yn ymwybodol o nifer o gwynion gan yr achwynydd am beidio cael gwasanaeth yn Gymraeg, felly dylai ei gofnodion dewis iaith gael eu gwirio ar holl systemau'r Cyngor.

Nid oes tystiolaeth sydd yn llwyr ddangos fod yr achwynydd ei hun wedi dewis yr opsiwn Saesneg, ac mae'n gwadu gwneud hynny. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio a safon 5, oherwydd nid oes tystiolaeth fod y Cyngor wedi gwirio dewis iaith yr achwynydd oedd ar y system. Dylent felly fod

wedi darparu fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r ohebiaeth pan roeddent yn gohebu â'r achwynydd.

Safon 50: 3.40 Gofynion y safon yw bod pob ffurflen y mae sefydliad yn llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Gofynnais gwestiwn ychwanegol ar 21/10/2020 i'r Cyngor oedd yn berthnasol i safon 50:

Gofynnais i'r Cyngor a oedd yna fersiwn Gymraeg o'r ffurflen Cynllun Tai Personol yn bodoli ar yr adeg y danfonwyd y fersiwn Saesneg at yr achwynydd, ac os oedd, gofynnwyd iddynt ddarparu copi i mi o'r ffurflen Gymraeg hynny.

Fe glywais yn ôl gan y Cyngor ar 27/10/2020.

Danfonwyd copi o'r ffurflen Gymraeg atai, gan nodi fod y cwestiynau a'r cynnwys yn cael ei deilwra at anghenion yr unigolyn. Nid yw'n 'ffurflen' gyhoeddus yn yr un modd a ffurflen budd-daliadau tai er enghraifft, ac felly, mae'n cael ei haddasu yn sgîl eu sgysiau gyda'r cleient.

Roeddent yn nodi: "mae'r cwestiynau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ers cyn i'r gŵyn hon ddod drwyddo". Mae hyn yn golygu fod Cyngor Sir Gâr wedi cydymffurfio â safon 50, oherwydd bod y ffurflen gywir ar gael ar y pryd.

Safon 50A: Gofynion y safon yw pan fo sefydliad yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid iddynt sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r ffurflen Saesneg a ddangosir fel tystiolaeth gan yr achwynydd heb destun arno yn nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r safon. Felly, mae'r Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safon gan nad

oedd unrhyw destun ar y ffurflen Saesneg yn nodi bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 50B: Mae'r safon yn gofyn i gynnwys y deunydd a safon y deunydd beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Yn yr achos hwn nid oedd y ffurflen a dderbyniais yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Gar wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 5, 50, 50A a 50B.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Gar wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 5, 50, 50A a 50B.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg Safon 1

1. Rhaid i Gyngor Sir Gâr atgoffa staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, ynghylch gofynion safon 1 a'r camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon.
2. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio ac ail-ddanfon copi o'r canllawiau i staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli.
3. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### Safon 5

4. Rhaid i Gyngor Sir Gâr atgoffa staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, ynghylch gofynion safon 5 a'r camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon.

5. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio ac ail-ddanfôn copi o'r canllawiau i staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli.

6. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gynnal adolygiad o'r systemau amrywiol sydd yn cofnodi dewis iaith cleientiaid, eu cysoni, a sicrhau fod cofnod cywir o ddewis iaith cyfredol eu cleientiaid ganddynt. Mae hyn yn cynnwys gwirio unrhyw ddata a all fod wedi ei fewnbynnu o systemau o'r gorffennol a gwirio unrhyw osodiadau iaith di-ofyn.

7. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 4, 5 a 6.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### Safon 50A

8. Rhaid i Gyngor Sir Gâr atgoffa staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, ynghylch gofynion safon 50A a'r camau sy'n rhaid eu dilyn er mwyn cydymffurfio â'r safon.

9. Rhaid i Gyngor Sir Gâr wirio ac ail-ddanfôn copi o'r canllawiau i staff y Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynnwys y canllaw sydd yn bodoli.

10. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gynnal archwiliad o ffurflenni'r Cyngor, gan gynnwys yr adran dai, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion safon rhif 50A drwy sicrhau bod pob ffurflen Saesneg a gynhyrchir at ddefnydd y cyhoedd yn dynodi ei bod ar gael yn Gymraeg.

11. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 8,9 a 10.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gar ar 14/04/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG714 Ar 26/02/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni iddi ffonio Croeso Cymru ar y rhif 03330 063001 am 11.56 ar 26/02/2020. Hon yw'r Linell Gwybodaeth Twristiaid. Honnai'r achwynydd na dderbyniodd gyfarchiad yn Gymraeg gan y person atebodd yr alwad. Gofynnodd am siaradwr Cymraeg ond doedd neb ar gael.

09/04/2021

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddelio â galwadau ar ei brif linell ffôn yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny. Os oes angen trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff er mwyn delio â'r alwad, rhaid i'r aelod o staff hwnnw ddelio â'r alwad yn Gymraeg. Cysylltodd yr achwynydd â phrif rif ffôn Croeso Cymru, sef y rhif 03330 063001. Ni dderbyniodd gyfarchiad yn Gymraeg a gofynnodd am siaradwr Cymraeg. Dywedwyd wrthi nad oedd neb ar gael. Dywedodd Gweinidogion Cymru nad oeddent wedi derbyn unrhyw alwadau Cymraeg ar y 26/02/2020, a bod ganddo weithdrefn o roi cyfarchiad Cymraeg yn gyntaf cyn y Saesneg wrth ateb galwadau. Eglurodd pe ceir galwad gan

Gweinidogion  
Cymru

siaradwr Cymraeg a bod y person sy'n delio â'r alwad ddim yn siarad Cymraeg, yr eglurir yn Saesneg nad ydynt yn siarad Cymraeg ac y bydd yr alwad yn cael ei throsglwyddo at siaradwr Cymraeg. Pan ffoniodd un o swyddogion y Comisiynydd linell ffôn Croeso Cymru, dywedodd y derbynnydd yn Saesneg nad oedd yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn groes i ofynion safon 10.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 10 mewn perthynas â delio â galwadau ffôn ble mae'r galwr yn dymuno gwasanaeth Cymraeg. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Prif gamau'r broses wrth gynllunio'r gwaith
- Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith
- Y gyllideb ar gyfer cwblhau'r gwaith os y bydd angen

[Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Betsi  
Cadwaladr](#)

CSG687 Ar 14/01/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mynychodd yr achwynydd glinig cynllunio teulu Ysbyty Bryn Beryl Pwllheli. Nid oedd yr achwynydd yn fodlon na wnaeth unrhyw un siarad Cymraeg gyda hi. Cafodd yr achwynydd ffurflen Saesneg i'w llenwi a bu'n rhaid iddi ofyn am ffurflen Gymraeg.

30/03/2021

2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.  
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/04/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 38: Os yw corff yn llunio dogfen neu ffurflen yn y ddwy iaith, rhaid iddo sicrhau nad yw'n trin fersiwn Gymraeg y ddogfen mewn ffordd sy'n llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni. Rhaid i fersiynau Saesneg gynnwys datganiad i esbonio bod fersiwn Gymraeg. Yn yr achos yma cafodd yr achwynydd gopi Saesneg o ffurflen a oedd ar gael yn Gymraeg i'w llenwi. Roedd y fersiwn Saesneg yn cynnwys datganiad oedd yn esbonio bod fersiwn Gymraeg ar gael ond bu'n rhaid i'r achwynydd ofyn am ffurflen Gymraeg ac aros amdani. Gan y bu'n rhaid i'r achwynydd ofyn am gopi Cymraeg o'r ffurflen fe wnaeth y Bwrdd Iechyd drin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 50: Mae safon 50 yn gofyn i unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg heb i'r ymwelydd orfod gwneud cais amdano. Yn yr achos yma, er bod yr aelod o staff oedd yn croesawu

unigolion i'r clinig yn gallu siarad Cymraeg, ni gafodd yr achwynydd gynnig gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol yn nerbynfaf'r clinig, wrth gyflwyno ei chwyn dywedodd yr achwynydd y clerc yn "amlwg yn uniaith Saesneg". Gan mai yn Saesneg y siaradwyd gyda'r achwynydd yn nerbynfaf'r clinig ni chafodd yr achwynydd wasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol, felly ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â safon 50 yn yr achos yma.

Safon 52: Lle bo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon 52, disgwylir iddynt arddangos arwydd yn eu derbynfa sy'n datgan yn Gymraeg fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. Yn yr achos yma nid oedd arwydd yn cael ei arddangos ym mhrif dderbynfa Ysbyty Bryn Beryl nac ychwaith ar ddesg groesawu'r clinig i ddatgan fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa. Gan nad oedd arwyddion ar dderbynfeydd Ysbyty Bryn Beryl pan ymwelodd yr achwynydd ni wnaeth y Bwrdd Iechyd lwyddo i gydymffurfio â safon 52 yn yr achos yma.

Safon 53: Rhaid i gorff sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny. Yn yr achos yma ni wnaeth yr achwynydd adnabod bod y clerc oedd yn croesawu aelodau'r cyhoedd i'r clinig yn gallu siarad Cymraeg ac nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi honni bod y clerc yn gwisgo bathodyn 'iaith gwaith'. Rwy'n casglu felly nad oedd y clerc yn gwisgo bathodyn oedd yn cyfleu ei bod yn gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg. Gan nad wyf wedi derbyn cadarnhad bod y clerc yn gwisgo bathodyn i gyfleu ei bod yn gallu darparu gwasanaeth derbynfa



Cymraeg rwy'n dyfarnu na wnaeth y Bwrdd Iechyd gydymffurfio â safon 53.

Safon 102: Mae safon 102 yn gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddarparu cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'w staff i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r dyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Pan ymwelodd yr achwynydd â'r clinig ni chafodd gynnig ffurflen Gymraeg ac ni wnaeth y staff oedd yn bresennol roi ar ddeall i'r achwynydd eu bod yn siarad Cymraeg. Oherwydd yr amheuan yma ynglŷn â lefelau ymwybyddiaeth iaith y staff fe ofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd a oedd yn darparu cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd eu bod yn darparu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith er nad oedd rhai aelodau o staff oedd yn bresennol pan ymwelodd yr achwynydd wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth iaith. Gan bod y Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau eu bod yn cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'w staff i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r dyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, rwy'n dyfarnu bod y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio â safon 102 yn yr achos yma.

Safon 105: Mae safon 105 yn gofyn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr roi ar gael i aelodau staff y sefydliad sy'n siarad Cymraeg fathodyn sy'n cyfleu hynny. Rhaid i'r bathodyn ei gwneud yn eglur bod yr aelod staff sy'n ei wisgo yn gallu darparu gwasanaeth yn Gymraeg. Mae safon 105 hefyd yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd hybu

gwisgo'r bathodyn ymhlith aelodau staff y sefydliad. Darparodd y Bwrdd lechyd wybodaeth ynglŷn â'r modd maent yn rhoi ar gael i aelodau staff y Bwrdd lechyd sy'n siarad Cymraeg fathodynnau pin 'iaith gwaith' a bathodynnau wedi eu brodio i'w rhoi ar iwniform. Gan bod y Bwrdd lechyd wedi darparu gwybodaeth sy'n dangos bod y Bwrdd lechyd yn darparu bathodynnau 'iaith gwaith' i'w staff ac yn hybu eu defnydd rwyf o'r farn bod y Bwrdd lechyd yn cydymffurfio gyda safon 105.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 102 a 105, ond bod Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 38, 50, 52 a 53.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 38, 50, 52 a 53.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 38 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Bwrdd lechyd gymryd camau i atgoffa staff gweinyddol o'r angen i gynnig dewis iaith os oes fersiwn Gymraeg o ffurflen sydd hefyd ar gael yn Saesneg.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 50 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i atgoffa staff eu derbynfeydd o'r angen i gynnig gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 52 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr arddangos arwyddion ym mhob un o'i dderbynfeydd sy'n datgan yn Gymraeg bod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 53 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddarparu bathodynnau i bob aelod o staff eu derbynfeydd sy'n gallu siarad Cymraeg.

5. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gymryd camau i atgoffa staff eu derbynfeydd sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg o'r angen i wisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 102 – Argymhelliad yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

		<p>Rwy'n argymhell bod y Bwrdd Iechyd yn edrych ar eu dull o drefnu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith ac yn ystyried sut orau i gyflwyno cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i staff nad ydynt wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth iaith.</p> <p>6. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 5. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 30/03/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</u></p>	<p>CSG741 Ar 24/06/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd nad oedd modd derbyn gwasanaeth Cymraeg ar y rhif ffôn 02920444500 (deintydd mewn argyfwng). Ar ôl 55 munud o aros am ymateb Cymraeg, terfynodd yr achwynydd yr alwad. Tua 45 munud mewn i'r alwad, gofynnodd yr achwynydd i'w mab drïo'r rhif a gofyn am opsiwn Saesneg, ac fe gafodd ateb o fewn 3-4 munud. Ar ôl terfynu'r</p> <p>25/03/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 10: Mae safon 10 yn ei wneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddelio â galwad yn Gymraeg os yw'r galwr yn dymuno hynny. Mae hyn yn wir hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Yn yr achos yma, galwodd yr achwynydd y llinell ffôn dan sylw, a dewis yr opsiwn Cymraeg. Buodd yn disgwyl am 55 munud heb ateb, ac felly penderfynodd derfynu'r alwad. Galwodd yr achwynydd yr un rhif eto, a dewis yr opsiwn Saesneg. Cafodd ateb o fewn munudau, a derbyniodd wasanaeth yn Saesneg yn</p>

alwad, 55 munud ar ôl dechrau'r alwad, deialodd yr achwynydd eto, ond dewis yr opsiwn Saesneg, ac fe gafodd ateb o fewn cwpwl o funudau. Wrth gwyno wrth yr aelod staff atebodd yr alwad Saesneg, dywedodd yr aelod staff bod sawl person wedi cwyno am yr un mater.

unig. Ni dderbyniodd yr achwynydd wasanaeth yn Gymraeg o gwbl, er bod ei dymuniad i wneud hynny yn glir drwy ddewis yr opsiwn Cymraeg wrth wneud yr alwad. Mae hyn felly yn fethiant i gydymffurfio â safon 10.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sicrhau fod galwadau i'r llinell Gymraeg yn cael eu hateb, a bod hynny'n digwydd yn unol â'r targedau neu ddangosyddion perfformiad sy'n bodoli ar gyfer y gwasanaeth hwnnw.
2. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddelio gyda'r galwadau hyn mewn modd sy'n bodloni gofynion safon 10. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynnal ymarferion rheolaidd i wirio fod galwadau i'r llinell Gymraeg yn cael eu hateb yn unol â gofynion y safonau ac yn unol â'u dangosyddion perfformiad, ac adrodd ar ganlyniadau'r ymarferion hynny i bwyllgorau a fforymau monitro perfformiad perthnasol. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

		<p>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p>Argymhelliad dan adran 77(4)(a) Mesur y Gymraeg 1. Rwy'n argymhell fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'i drefniadau i ddarparu gwasanaeth ffôn drwy CAV 24/7, ac yn gweithredu ar ei ganfyddiadau, er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth hwnnw yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg.</p> <p>Rwy'n argymhell bod y Bwrdd Iechyd yn rhannu canlyniadau'r adolygiad hefo'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 25/03/2021.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</u></p>	<p>CSG710 Ar 17/02/2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd (P) yn yr achos yma nad oes testun Cymraeg o gwbl ar gyfrifon cymdeithasol Twitter (<a href="https://twitter.com/CV_UHB">https://twitter.com/CV_UHB</a>) a Facebook (<a href="https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb/">https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb/</a>) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Dywedir bod holl</p> <p>25/03/2021</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 45: Mae safon 45 yn ei gwneud yn ofynnol i D beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar ei gyfrifon corfforaethol ac adrannol. Mae dyletswyddau'r safon yn cynnwys gofyniad i D wneud yn siŵr—os yw'n cyhoeddi neges yn Saesneg ar ei gyfryngau cymdeithasol—ei fod yn cyhoeddi'r neges yn Gymraeg hefyd. Mae'r gŵyn yma wedi dangos nad yw D bob amser yn darparu deunydd yn Gymraeg ar ei gyfryngau cymdeithasol, a bod llawer iawn mwy o destun yn cael ei gyhoeddi yn Saesneg ar ei gyfrifon nac yn Gymraeg, sydd yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei</p>

gynnwys y ddau gyfrif yn uniaith  
Saesneg.

thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn fethiant i  
gydymffurfio â safon 45.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y  
Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  
wedi methu â chydymffurfio â safon 45.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi methu â  
chydymffurfio â safon 45.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 45: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag  
adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro (D) baratoi cynllun gweithredu.

Rwyf yn gwneud hyn at y diben o atal methiant D i  
gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol—sef y ddyletswydd, yn  
unol â safon 45, iddo beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol  
na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol—  
rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys yr wybodaeth  
ganlynol:

o disgrifiad o bob un o'r camau y bydd D yn eu cymryd i  
sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg  
wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar ei gyfrifon  
corfforaethol ac adrannol

o pwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am gymryd pob un o'r camau

o amserlen bendant ar gyfer cyflawni pob un o'r camau (gan gynnwys unrhyw gerrig milltir)

o yr adnoddau (e.e., cyllid/staff) sydd eu hangen i gyflawni pob un o'r camau.

Dylai'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill, gynnwys camau i sicrhau—

o bod D yn cynnal awdit o'r holl gyfrifon corfforaethol ac adrannol sydd ganddo i asesu a ydynt yn cydymffurfio â gofynion safon 45, a bod D yn cymryd camau os nad ydynt yn cydymffurfio

o bod gan D yr adnoddau i allu cyhoeddi cynnwys yn Gymraeg ar ei gyfrifon cymdeithasol ar yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi cynnwys cyfatebol yn Saesneg.

Er enghraifft, gallai hynny olygu cymryd camau fel:

- sicrhau bod adnoddau cyfieithu digonol (yn fewnol neu'n allanol) i gefnogi aelodau staff di-Gymraeg y tîm cyfathrebu i gyhoeddi cynnwys yn Gymraeg

- sicrhau bod gan y tîm cyfathrebu'r sgiliau iaith Gymraeg perthnasol i allu cyfieithu cynnwys o'r Saesneg i'r Gymraeg eu hunain (drwy recriwtio aelod(au) staff ychwanegol i'r tîm sydd â'r sgiliau Cymraeg perthnasol neu drwy wella sgiliau Cymraeg yr aelodau staff cyfredol)

- sicrau bod ymwybyddiaeth y staff cyfathrebu am ofynion safon 45, ac am sut i gydymffurfio â safon 45, yn ddigonol, ac i'r staff dderbyn hyfforddiant os nad yw'n ddigonol o os yw D yn cyhoeddi neges (gan gynnwys neges dro dro) yn Saesneg ar ei gyfrif Saesneg, bod D yn cyhoeddi'r neges yn Gymraeg (o leiaf ar yr un pryd) ar ei gyfrif Cymraeg cyfatebol



o os yw D yn cyhoeddi neges gan berson arall ar ei gyfrif Saesneg (e.e., yn ail drydar neges gan sefydliad arall), bod D yn cyhoeddi'r canlynol ar ei gyfrif Cymraeg cyfatebol: y fersiwn Gymraeg o'r neges (os oes fersiwn Gymraeg ar gael), neu

- y fersiwn Saesneg o'r neges (os nad oes fersiwn Gymraeg ar gael) o bod unrhyw gynnwys statig (e.e., y bywgraffiad a'r cyfeiriad gwefan ar gyfrif Twitter) a gyhoeddir ar gyfrif Saesneg D yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ar ei gyfrif Cymraeg.

Os yw D yn gweithredu cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân (yn lle cyfrif dwyieithog), dylai'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill (ac yn ychwanegol i'r camau cyffredinol a nodir uchod), gynnwys camau i sicrhau:

o bod D yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfrif Cymraeg ar y cyfrif Saesneg cyfatebol, er enghraifft drwy ddarparu dolen uniongyrchol at y cyfrif Cymraeg.

Os yw D yn gweithredu cyfrif dwyieithog (yn lle cyfrif Cymraeg a Saesneg ar wahân), dylai'r cynllun gweithredu, ymysg camau eraill (ac yn ychwanegol i'r camau cyffredinol a nodir uchod), gynnwys camau i sicrhau:

o bod enw'r cyfrif a'r enw defnyddiwr ar gyfer y cyfrif yn Gymraeg, yn ddwyieithog neu'n niwtral o ran iaith

o bod D yn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd yn cyhoeddi neges gyda'r testun Cymraeg a Saesneg o fewn yr un neges (e.e., sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei guddio oherwydd bod y testun Saesneg wedi'i osod uwchben y testun Cymraeg)

Amserlen: Rhaid i D Lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd, sef erbyn 25/06/2021.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 25/03/2021.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG721 Ar 24 Mawrth, 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud â gohebiaeth e-bost ac roedd dwy elfen iddi. Yn gyntaf, eglurodd yr achwynydd ei fod wedi cofrestru ei fanylion ar wefan y cyngor er mwyn derbyn gwasanaethau ar lein. Derbyniodd e-bost gan y cyngor yn diolch am gofrestru ac yn gofyn iddo gadarnhau ei fanylion. Roedd testun yr e-bost yn Saesneg. Cafodd ei anfon o'r cyfeiriad [devandcontrol@ceredigion.gov.uk](mailto:devandcontrol@ceredigion.gov.uk) am 13:18 ar 24 Mawrth, 2020 a phwnc yr e-bost oedd 'Registration Activation'.

25/03/2021

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen iddo ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ddau gais am wasanaeth yn Gymraeg i'r cyngor trwy ei wefan. Mae'n ymddangos bod y cyngor wedi ystyried y ceisiadau hyn yn ohebiaeth oedd angen ei hateb oherwydd fe wnaeth eu cydnabod yn awtomatig gyda dau neges e-bost oedd yn Saesneg. Ni ddywedodd yr achwynydd wrth y cyngor nad oedd angen ateb ei geisiadau yn Gymraeg. Roedd hyn yn fethiant gan y cyngor i gydymffurfio â safon 1.

Safon 5: Mae safon 5 yn golygu bod rhaid i'r cyngor ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth y mae'n ei hanfon at berson os nad yw'n gwybod beth yw ei ddewis iaith. Anfonodd y cyngor ohebiaeth, sef dau gydnabyddiaeth e-bost awtomatig, at yr achwynydd. Ni wiriwyd dewis iaith yr achwynydd cyn eu hanfon. Saesneg

Cyngor Sir  
Ceredigion

oedd iaith yr ohebiaeth. Roedd hyn yn fethiant gan y cyngor i gydymffurfio â safon 5.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Ceredigion wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 5.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Ceredigion wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 5.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r cyngor gymryd camau i adnabod pob gohebiaeth ddwyieithog a gynhyrchir ganddo'n awtomatig er mwyn sicrhau nad ydynt yn debygol o gael eu heffeithio gan yr un broblem a effeithiodd y negeseuon e-bost dan sylw yn yr ymchwiliad hwn.

2. Rhaid i'r cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: Erbyn 1 Gorffennaf, 2021

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Ceredigion ar 25/03/2021.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Betsi  
Cadwaladr

CSG618 Ar 19 Awst, 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. Roedd yn ymwneud â gwasanaeth meddyg teulu allan o oriau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y bwrdd iechyd). Eglurodd yr achwynydd ei fod wedi ffonio'r gwasanaeth bore Sadwrn, 17 Awst 2019. Roedd arno eisiau trefnu apwyntiad gyda meddyg teulu ar gyfer ei blentyn ifanc oedd yn sâl. Ffoniodd y rhif perthnasol a dewisodd yr opsiwn ar gyfer cael gwasanaeth Cymraeg. Er iddo ddisgwyl am gyfnod o awr, ni chafodd yr alwad ei hateb. Am oddeutu 12pm fe ffoniodd yr un rhif gan ddefnyddio ffôn arall. Y tro hwn fe ddewisodd yr opsiwn ar gyfer cael gwasanaeth Saesneg. Cafodd yr alwad hon ei hateb ar unwaith.

30/11/2020

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Rhaid i'r bwrdd iechyd ddelio a galwadau a wneir iddo yn Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y person sy'n galw. Ffoniodd yr achwynydd wasanaeth meddygon teulu allan i oriau'r bwrdd iechyd a dewisodd yr opsiwn ar gyfer derbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Ar ôl gwneud hynny canodd yr alwad am gyfnod hir heb i neb ei hateb. Terfynodd yr alwad yn y pen draw wedi iddo gael gwasanaeth yn Saesneg gan ddefnyddio ffôn arall. Heb dystiolaeth sy'n profi beth yn union ddigwyddodd i alwad cyntaf yr achwynydd ni allaf ddyfarnu bod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â gofynion y safon dan yr amgylchiadau.

Safon 14: Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw ei ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn yn gosod mesuriadau a fyddai'n trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. Mae'r bwrdd iechyd yn perthnasu'r un safonau perfformiad i alwadau a wneir yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r gwasanaeth meddygon teulu yn Gymraeg tu allan i oriau. Nid yw hyn yn dangos methiant gan y bwrdd iechyd i gydymffurfio a'r safon.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi methu â chydymffurfio â safon 10 a 14.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Mae adran 76 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle na fu methiant. Yn achos fy nyfarniad na

fethodd y bwrdd iechyd â chydymffurfio â safon 10, byddaf yn gweithredu ymhellach er mwyn gwneud argymhellion i'r bwrdd iechyd.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – Argymhelliad o dan isadran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg Dylai'r bwrdd iechyd brofi effeithiolrwydd y gwasanaeth ffôn meddygon teulu tu allan o oriau ar wahanol adegau o'r dydd/nos am gyfnod o 3 mis ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 30/11/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Gweinidogion Cymru

CSG653 Ar 6/10/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â diffyg gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn Abaty Ystrad Fflur. Roedd yr achwynydd wedi ymweld â'r Abaty ar 28/09/2019, ac wrth gyrraedd roedd wedi ceisio cael gwasanaeth Cymraeg wrth brynu tocynnau a derbyn gwybodaeth am yr Abaty. Ni dderbyniodd y gwasanaeth Gymraeg yr oedd yn ei ddymuno. Mae Abaty

12/11/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 64: Rhaid i gorff sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg, ar gael yn Gymraeg hefyd. Rhaid iddo hefyd sicrhau na chaiff person sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd wedi ymweld ag Abaty Ystrad Fflur ar y 28/09/2019, sydd o dan gadwraeth CADW (sydd yn ddarostyngedig i hysbysiad cydymffurfio Gweinidogion Cymru), gan honni nad oedd wedi derbyn gwasanaeth derbynfa Cymraeg. Rwyf yn canfod nad oedd gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael yn Abaty Ystrad Fflur ar ymweliad yr achwynydd, ac roedd y dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg

Ystrad Fflur o dan gadwraeth CADW.  
Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan  
CADW yn ddarostyngedig i Hysbysiad  
Cydymffurfio Gweinidogion Cymru.

yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn groes i  
ofyniad y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y  
Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â  
chydymffurfio â safon 64.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod  
Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon  
64.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 64 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag  
adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i baratoi  
cynllun gweithredu er mwyn sicrhau fod CADW yn  
cydymffurfio â gofynion safon 64 ym mhob safle y mae'n  
gyfrifol amdano.

Amserlen: Rhaid i Weinidogion Cymru roi cynllun drafft  
cyntaf o'r cynllun gweithredu i'r Comisiynydd o fewn 6  
wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y  
Comisiynydd, sef erbyn 24/12/2020.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar  
12/11/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru

CSG690 Ar 16 Ionawr, 2020 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud a gwasanaeth ffôn Help gyda Chostau lechyd. Eglurodd yr achwynydd ei fod wedi ffonio'r rhif, sef 0345 603 1108, ar 15 Ionawr 2020 er mwyn archebu ffurflenni hawlio costau deintyddol. Honnodd nad oedd unrhyw un ar gael i ddelio â'i alwad yn Gymraeg. Cafodd ei drosglwyddo i wasanaeth oedd yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth lechyd Gwladol yn Lloegr, cyn wedyn cael ei drosglwyddo eto i 'Welsh Publications Line' Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni ddarparwyd gwasanaeth Cymraeg iddo ar yr un o'r llinellau ffôn hyn.

10/11/2020

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol ar Weinidogion Cymru ddelio â galwadau ffôn i rifau llinell cymorth yn gyfan gwbl yn Gymraeg os mai dyna yw dymuniad y galwr. Ffoniodd yr achwynydd rif llinell gymorth Help Gyda Chostau lechyd, sy'n cael ei ddarparu gan Weinidogion Cymru, ar 15 Ionawr, 2020 ac fe fynegodd ddymuniad i siarad Cymraeg. Nid oedd y swyddog a atebodd yr alwad yn medru'r iaith. Ni ddeliwyd felly â'r alwad yn Gymraeg. Roedd hyn yn fethiant i gydymffurfio â'r safon.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag isadran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod trefniadau Mediascene Ltd. ar gyfer darparu gwasanaeth ffôn Help gyda Chostau lechyd Cymru yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion safon 10.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu eu trefniadau gyda darparwyr trydydd parti eraill i sefydlu ble mae darpariaeth

ffonio yn ôl yn bodoli a chymryd camau i newid y ddarpariaeth honno lle bo angen.

3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 10/11/2020.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 2: Os yw corff yn gohebu ag unigolyn am y tro cyntaf, rhaid iddo ofyn i'r unigolyn a fyddai'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg. Os yw'r unigolyn yn ymateb i ddweud mai ei ddymuniad yw cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff, rhaid i'r corff gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, gan ohebu â'r unigolyn hwnnw, ac anfon unrhyw ffurflenni at yr unigolyn hwnnw, yn Gymraeg o hynny ymlaen. Yn yr achos hwn, yn dilyn trefnu gwasanaeth gwastraff gardd dros y ffôn gyda'r Cyngor, derbyniodd yr achwynydd ohebiaeth yn cadarnhau'r drwydded ac ati yn Saesneg yn unig. Yn dilyn ystyriaeth o'r dystiolaeth, rwyf yn canfod nad yw gofynion safon 2 yn gymwys i amgylchiadau'r gŵyn. Nid oes tystiolaeth fod hwn yn ohebiaeth gyntaf bu'r Cyngor anfon at yr achwynydd, ac nid yw'n ohebiaeth wedi ei bersonoli.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

CSG719 Ar 16 Mawrth 2020  
derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r  
cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni  
amodau adran 93 Mesur y Gymraeg,  
ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn  
ynghylch llythyr Saesneg yn unig  
dderbyniodd yr achwynydd gan  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn  
ymwneud â "Chargeable Garden  
Waste Collection Service" ar gyfer y  
flwyddyn ariannol nesaf.

23/10/2020



Safon 4: Os yw corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid iddo anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno. Rhaid i'r corff sicrhau hefyd bod y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn cael ei hanfon ar yr un pryd ag y mae'n anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. Derbyniodd yr achwynydd ohebiaeth Saesneg yn unig yn cadarnhau trefniadau casglu gwastraff gardd. Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r dystiolaeth, rwy'n canfod fod yr ohebiaeth dan sylw yn esiampl o'r un ohebiaeth yn cael ei anfon at nifer o bersonau, ac felly y mae gofyniad i'r ohebiaeth cael ei anfon yn Gymraeg ac yn Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 2, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 2 – rhoi argymhellion yn unol â adran 77(3)(a)  
Rwyf yn argymhell fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gwirio ei system rheoli gwybodaeth cwsmeriaid cyfredol i sicrhau fod cofnodion o ddewis iaith unigolion yr oedd y Cyngor wedi ei hel ers y diwrnod gosod yn gywir. Dylid trosglwyddo unrhyw gofnod dewis iaith o systemau blaenorol i'r system gyfredol.

Safon 4 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau fod llythyrau anfonir at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Gymraeg a Saesneg. Er mwyn sicrhau hyn, dylid

I. cynnal adolygiad o'r llythyrau anfonir at nifer o bersonau er mwyn ei adnabod, gan gadw cofnod canolog o'r llythyrau perthnasol

II. sicrhau fod fersiwn Gymraeg cyfredol o bob llythyr

III. cryfhau trefniadau bob tîm i sicrhau eu bod yn anfon llythyr Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd

IV. datblygu trefniadau i wirio ac arolygu sampl o lythyrau anfonwyd yn gyson er mwyn darganfod unrhyw gamgymeriadau drwy hunain rheoleiddio.

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 23/10/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-

CSG650 Ar 01/10/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn

12/10/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 8: Mae Safon 8 yn gofyn i'r Cyngor gyfarch galwr yn Gymraeg. Mae'r gofyniad yma yn berthnasol ar gyfer pob cyfarchiad yn ystod yr alwad, nid ar gyfer y cyfarchiad

nedd Port  
Talbot

ddilys. Ffoniodd yr achwynydd rif ffôn ymholiadau cyffredinol y Cyngor a chael cyfarchiad Saesneg yna siaradodd y swyddog yn Gymraeg. Esboniodd yr achwynydd ei fod am siarad â rhywun ynglŷn â chludiant ysgolion, trosglwyddwyd yr alwad i swyddog arall a atebodd y ffôn yn Saesneg. Holodd yr achwynydd a oedd rhywun ar gael oedd yn siarad Cymraeg. Trosglwyddwyd yr alwad i swyddog arall a atebodd y ffôn yn Saesneg hefyd yn ôl yr achwynydd. Yn ôl yr achwynydd fe holodd a oedd y swyddog yma yn siarad Cymraeg ddwywaith ac yna, yn ôl yr achwynydd, fe roddodd y swyddog y ffôn i lawr.

cyntaf yn unig. Yn yr achos yma cafodd yr achwynydd ei gyfarch yn Gymraeg yn awtomataidd ar ddechrau'r alwad. Fodd bynnag, fe gafodd ei gyfarch yn Saesneg gan y swyddog cyntaf iddo siarad gyda hwy. Yn ôl yr achwynydd fe gafodd ei gyfarch yn Saesneg ar o leiaf un achlysur arall yn ystod yr un alwad ond nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu gwybodaeth am y rhan yma o'r alwad. Gan bod yr achwynydd wedi cael ei gyfarch yn Saesneg yn unig ar o leiaf un achlysur yn ystod yr alwad i brif rif ffôn y Cyngor nid wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda Safon 8 yn yr achos yma.

Safon 9: Mae safon 9 yn gofyn i'r Cyngor roi gwybod i'r person sy'n cysylltu â'r corff ar un o'r rhifau ffôn perthnasol bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael. Yn yr achos yma fe gysylltodd yr achwynydd gyda'r Cyngor ar y prif rif ffôn. Mae prif rif ffôn y Cyngor yn rhoi opsiynau yn awtomataidd i bwysu i gael gwasanaeth Cymraeg neu Saesneg. Gan bod y Cyngor wedi rhoi dewis awtomataidd i barhau gyda'r alwad yn Gymraeg yna rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda safon 9 yn yr achos yma.

Safon 10: Er mwyn cydymffurfio â safon 10, roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod yn rhaid i'r Cyngor ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd i unigolion sy'n ffonio'r Cyngor ar un o'i rifau ffôn perthnasol os mai dyna yw dymuniad yr unigolyn. Rhaid i'r corff ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd unwaith y bydd y sefydliad yn ymwybodol bod yr unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Yn yr achos yma fe gafodd yr achwynydd gynnig dewis iaith ar y ffôn yn awtomataidd ac fe lwyddodd y swyddog cyntaf iddo siarad a hwy i ddelio gyda'r alwad yn Gymraeg, er i'r swyddog

gyfarch yn Saesneg mewn camgymeriad. Fodd bynnag, yn ôl yr achwynydd fe drosglwyddwyd yr alwad i swyddog di-gymraeg ac yna i swyddog di-gymraeg arall. Gan bod yr achwynydd wedi cael ei drosglwyddo i swyddog di-gymraeg ar ôl iddo ddewis yr opsiwn Cymraeg ni chafodd ei alwad ei thrin mewn modd oedd yn cydymffurfio gyda safon 10.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 9, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safonau 8 a 10.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safonau 8 a 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 8 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i atgoffa pob aelod o staff sy'n derbyn galwadau ffôn o fewn y Cyngor bod angen cyfarch pob galwr mewn modd sy'n cydymffurfio â safon 8. Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 12/10/2020.

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG672 Ystyriais fod amheuaeth bod Cyngor Abertawe ('y Cyngor') wedi methu â chydymffurfio â gofyniad a gynhwyswyd mewn hysbysiad penderfynu yn sgil ymchwiliad CSG484 ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor wrth adrodd ar gyflawniad y camau.

06/10/2021

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Cam Gorfodi 1: Pwrpas y cam gorfodi a osodwyd ar y Cyngor oedd sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau cadarn mewn lle i sicrhau ei fod yn anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at berson ar bob achlysur hyd nes ei fod yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg. Roedd ymateb y Cyngor i gam gorfodi 1 yn creu amheuaeth nad oedd wedi cymryd camau i sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle fel ei fod yn darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn unol â gofynion safon 5 hyd nes ei fod yn gwybod nad yw person yn dymuno hynny. Yn sgil derbyn tystiolaeth pellach, rwyf bellach yn canfod bod trefniadau mewn lle gan is-adran Treth y Cyngor sydd yn galluogi cydymffurfiaeth â safon 5. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn caniatáu i mi wybod pa un ai bod y trefniadau yma mewn lle erbyn 18 Tachwedd 2019, sef y diwrnod yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor gwblhau'r cam gorfodi, ai peidio. Ar sail hynny, ni allaf gasglu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r cam gorfodi. Ymhellach at hynny, nid yw'r dystiolaeth sydd yn fy meddiant yn fy ngalluogi i wybod pa drefniadau sydd mewn lle gan adrannau eraill yn y Cyngor i alluogi cydymffurfiaeth â safon 5. Ar sail hynny, nid oes gen i dystiolaeth ynghylch trefniadau'r Cyngor i gydymffurfio â safon 5 ar draws y sefydliad ac felly ni allaf gasglu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r cam gorfodi.

Camau gorfodi 4 a 5: Pwrpas y camau gorfodi a osodwyd oedd sicrhau bod Adran Treth y Cyngor yn cynnwys datganiad oedd yn cydymffurfio'n llawn gyda safon 7 mewn:

- gohebiaeth;
- cyhoeddiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb atynt neu i anfon gohebiaeth atynt; a
- hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb atynt neu i anfon gohebiaeth atynt.

a bod staff yn ymwybodol o'r gofyniad i wneud hynny. Roedd tystiolaeth gan y Cyngor mewn ymateb i gamau gorfodi 4 a 5 yn creu amheuaeth nad oedd y camau wedi eu cyflawni yn llawn. Mae'n ymddangos bod templedi llythyrau a ffurflenni Adran Treth y Cyngor wedi'u hadolygu i gynnwys datganiad o fewn yr ohebiaeth hwnnw sydd yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion safon 7. Serch hynny, nid yw'r dystiolaeth sydd yn fy meddiant yn caniatáu i mi wybod a gafodd yr adolygiad ei gwblhau erbyn 18 Tachwedd 2019 yn unol a'r amserlen a osodwyd ar gyfer cyflawni cam gorfodi 4. Nid yw'r dystiolaeth ychwaith yn caniatáu gwybod a oes gan yr Adran dempledi ar gyfer cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol, ac i ba raddau bod rheiny hefyd wedi'u hadolygu i gynnwys y datganiad priodol. Rwy'n canfod yn yr achos yma nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 4. Mae hynny ar sail nad oes tystiolaeth bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 4 yn unol â'r amserlen a ganiatawyd. Mae tystiolaeth gan Adran Treth y Cyngor yn dangos ei fod wedi cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth a darparu canllawiau i staff ynghylch sicrhau bod datganiad sydd yn cydymffurfio gyda gofynion safon 7 wedi ei gynnwys mewn gohebiaeth a chyhoeddiadau a

hysbysiadau swyddogol sy'n gofyn i bersonau ymateb neu anfon gohebiaeth at y Cyngor. Serch hynny, cyfyngedig oedd yr arweiniad a ddarparwyd erbyn 18 Tachwedd 2019 ac ni chafodd arweiniad oedd yn cyfeirio at ofynion ynghylch cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol, fel oedd yn ofynnol, na'r canllawiau mwy cynhwysfawr eu rhannu gyda staff hyd nes ar ôl 18 Tachwedd 2019, ac felly ni chafodd y cam gorfodi ei gwblhau yn amserol. Rwy'n canfod felly bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 5. Er bod arweiniad cyfyngedig wedi'i ddarparu i staff erbyn y dyddiad gofynnol roedd yn annigonol er mwyn cydymffurfio â gofynion y cam gorfodi gan nad oeddynt yn cyfeirio at gyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol. Er bod arweiniad a chanllawiau pellach i staff wedi eu rhannu ar ôl y dyddiad yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor gyflawni'r cam, maent yn parhau i fod yn annigonol gan nad ydynt yn gwneud yn glir bod gofynion safon 7 hefyd yn ymestyn i gyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol o hyd. Nodaf fod y Cyngor yn sgil yr ymchwiliad hwn wedi cymryd camau pellach i sicrhau bod staff yn llwyr ymwybodol bod gofynion safon 7 hefyd yn ymestyn i gyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol.

Cam gorfodi 10: Pwrpas cam gorfodi 10 yw sicrhau wrth i'r Cyngor lunio ffurflenni nad yw fersiwn Gymraeg o ffurflen yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn benodol, mae'r cam yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod fersiwn Gymraeg o ffurflen yn cael ei gyhoeddi a'i darparu ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Roedd ymateb y Cyngor i gam gorfodi 10 yn creu amheuaeth nad oedd wedi cyflawni'r cam hwnnw yn llawn ac yn amserol. Mae'r dystiolaeth sydd yn fy meddiant yn awgrymu bod y Cyngor wedi cymryd

camau tuag at gydymffurfio â cham gorfodi 10 a bod trefniadau mewn lle i sicrhau bod ffurflenni Cymraeg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â ffurflenni Saesneg ar ei wefan. Nid yw'n eglur, fodd bynnag, a oedd y trefniadau yma mewn lle erbyn 18 Tachwedd 2019 ai peidio nac ychwaith pa drefniadau sydd mewn lle i gyhoeddi neu ddarparu ffurflenni Cymraeg a Saesneg mewn fformat gwahanol ar yr un pryd. Ystyriaf hefyd y gallai'r canllawiau a'r arweiniad a ddarparwyd i staff fod yn gliriach er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod bod rhaid i fersiwn Cymraeg a Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar-lein neu fel arall) o ffurflenni gael eu cyhoeddi a'u darparu ar yr un pryd. Serch hynny, mae tystiolaeth yn fy meddiant yn amlygu nad oedd ffurflenni yn cynnwys dolen uniongyrchol at dudalen Cymraeg gwefan y Cyngor wrth nodi manylion cyswllt y Cyngor tra bod y manylion cyswllt Saesneg yn cynnwys dolen uniongyrchol. Mae'n ymddangos mai camgymeriad oedd cynnwys dolen yn y cyfeiriad Saesneg. Rwy'n canfod felly bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 10. Mae hyn ar sail bod ffurflenni yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu dolen uniongyrchol at dudalen gwe y Cyngor yn y manylion cyswllt Saesneg ond ddim yn y manylion cyswllt Cymraeg. Nodaf fod y Cyngor bellach wedi cymryd camau yn sgil yr ymchwiliad hwn i gywiro'r camgymeriad.

Cam gorfodi 12: Pwrpas y cam gorfodi oedd derbyn tystiolaeth bod y Cyngor wedi cwblhau camau gorfodi a osodwyd arno mewn perthynas ag achos CSG484. Roedd tystiolaeth annigonol mewn ymateb y Cyngor i gamau gorfodi 1, 4, 5, a 10 mewn perthynas ag achos CSG484 yn codi amheuaeth nad oedd y Cyngor wedi cwblhau y camau



gorfodi hynny yn llawn ac / neu'n amserol. Rwy'n canfod bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 12. Mae hynny ar sail nad oes tystiolaeth bod y camau gorfodi 1, 4, 5, 10 ac 11 a osodwyd mewn perthynas ag achos CSG484 wedi'u cwblhau yn ddigonol ac / neu'n amserol erbyn 18 Tachwedd 2019, ac yn unol â'r estyniad â ganiatawyd.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 1 a 4, ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 5, 10 a 12.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 5, 10 a 12.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cam gorfodi 1 – cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r Cyngor sicrhau bod gan bob adran (gan gynnwys is-adrannau) drefniadau digonol mewn lle i ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn unol â gofynion safon 5 hyd nes ei fod yn gwybod nad yw person yn dymuno hynny.

Cyngor yn unol ag adran 4 Mesur y Gymraeg

2. Rwy'n cynghori'r Cyngor i adolygu a sicrhau nad yw templedi gohebiaeth yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cam gorfodi 5 – cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rwy'n cynghori'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth ac i adolygu canllawiau sy'n cael eu darparu i staff er mwyn gwneud yn gwbl glir bod gofynion safon 7 yn golygu bod rhaid hefyd cynnwys datganiad sydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion 7 o fewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol.

Cyngor yn unol ag adran 4 Mesur y Gymraeg

4. Rwy'n cynghori'r Cyngor i gymryd sylw o fy sylwadau ym mharagraff 3.48 o'r adroddiad hwn i adolygu ac addasu unrhyw ganllawiau neu arweiniad sydd ar gael i staff er mwyn sicrhau bod unrhyw drefniadau sydd yn cael eu hamlinellu yn sicrhau cydymffurfiaeth llawn â'r holl safonau y mae'r canllaw neu'r arweiniad yn ymdrin â hwy.

Cam gorfodi 10 – cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rwy'n cynghori'r Cyngor i addasu'r ffurflenni i sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cyngor yn unol ag adran 4 Mesur y Gymraeg

6. Rwy'n cynghori'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth ac i adolygu canllawiau sy'n cael eu darparu i staff er mwyn gwneud yn gwbl glir bod rhaid cyhoeddi a darparu fersiwn Gymraeg o ffurflen ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.

Cam gorfodi 12 – cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

7. Rwy'n cyngori'r Cyngor i sicrhau bod ganddo drefniadau digonol a chadarn mewn lle i'w alluogi i ddarparu tystiolaeth digonol ac amserol i'r Comisiynydd ei fod wedi cwblhau camau gorfodi yn llawn.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 06/10/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG666 Ar 12/11/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd honiad i'r achwynydd a'i mab dderbyn llythyr dwyieithog drwy'r post am y cynllun Nest / Nyth. Rhaglen Cartrefi Cynnes yw'r cynllun Nyth, sy'n cael ei redeg a'i gynnal gan Lywodraeth Cymru yn cynnig gwasanaeth i bobl i wneud eu cartrefi'n gynhesach. Ar 12/11/2019, honnai'r achwynydd iddi ffonio'r rhif rhadffôn 08088082244 a geir ar y llythyr a dderbyniodd oddeutu 1.20pm. Mae'r rhif hwn yn arwain at Ganolfan Gyswllt Nyth, sef y pwynt ymholi cyntaf ar gyfer cynllun Nyth.

25/09/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 8: Mae'r safon yn darparu bod rhaid i gorff sicrhau bod person sy'n ei ffonio ar unrhyw un o'r prif rifau ffon yn cael eu cyfarch yn Gymraeg. Ffoniodd yr achwynydd y cynllun Nyth/Nest gan fethu a derbyn gwasanaeth Cymraeg. Ni cheir cyfeiriad at y cyfarchiad yn yr honiad. Nododd Gweinidogion Cymru bod cyfarchiad dwyieithog yn cael ei roi i groesawu pob galwr cyn nodi y byddant yn cael eu cyflwyno i gynghorydd cwsmeriaid. Fy nghanfyddiad yw bod Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarchiad dwyieithog ar beiriant wedi ei awtomeiddio, ond bod y cynghorydd cwsmer a ddeliodd a'r alwad wedi methu a delio a'r alwad yn Gymraeg. O'r herwydd, casglaf nad yw'r safon wedi ei thorri.

Safon 9: Mae'r safon yn gofyn i gorff hysbysu person sy'n eu ffonio yn rhagweithiol bod gwasanaeth Cymraeg ar gael fel bod modd iddynt ddewis parhau â'r alwad yn Gymraeg

Gweinidogion  
Cymru

Atebwyd yr alwad gan berson di-Gymraeg a honnai'r achwynydd iddi fethu a derbyn gwasanaeth Cymraeg.

pe dymument. Ffoniodd yr achwynydd y cynllun Nyth/Nest ac atebwyd yr alwad gan neges wedi ei awtomeiddio yn ddwyieithog, cyn i gynghorydd busnes di-Gymraeg godi'r alwad. Eglurodd y cynghorydd y byddai siaradwr Cymraeg yn dychwelyd yr alwad, sydd gyfystyr a rhoi gwybod i'r galwr fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Safon 10: Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddelio â galwadau ar ei brif linell ffôn yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny. Os oes angen trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff er mwyn delio â'r alwad, rhaid i'r aelod o staff hwnnw ddelio â'r alwad yn Gymraeg. Ffoniodd yr achwynydd y cynllun Nyth/Nest ac atebwyd yr alwad gan gynghorydd busnes di-Gymraeg. Eglurodd y cynghorydd yn Saesneg y byddai siaradwr Cymraeg yn dychwelyd yr alwad.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 8 a 9, ond bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'u trefniadau presennol wrth ddelio a galwadau ffon, a gweithredu ar y canfyddiadau er mwyn sicrhau fod galwadau ffon gan y rhai sy'n dymuno hynny yn cael eu delio gyda siaradwyr Cymraeg.
  2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 25/09/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG662 Ar 28/10/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd wedi derbyn dogfen "Hysbysiad i'r Perchennog" gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddiwedd Awst yn ymwneud â thâl cosb parcio nad yw wedi ei dalu eto. Darparodd yr achwynydd gopi o'r ddogfen. Mae'r achwynydd yn cwyno bod y Saesneg yn ymddangos gyntaf ac o'r farn bod hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r

17/9/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff anfon ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg oni bai nad oes angen ymateb i'r ohebiaeth hwnnw, neu bod y person a anfonodd yr ohebiaeth Cymraeg wedi nodi nad oes angen ymateb yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe anfonodd yr achwynydd e-bost Cymraeg at dri cyfeiriad e-bost o fewn y Cyngor. Derbyniodd ymateb yn Gymraeg gan un o'r cyfeiriadau ac e-bost Saesneg o gyfeiriad e-bost arall. Gan bod yr achwynydd wedi derbyn e-bost uniaith Saesneg mewn ymateb i e-bost Cymraeg a anfonodd at y Cyngor yna nid yw'r Cyngor wedi llwyddo i gydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma.

achwynydd hefyd yn nodi bod sawl gair ac ymadrodd Saesneg yn y fersiwn Gymraeg er enghraifft, cyfeiriad yr adran yn Saesneg, dyddiad postio yn Saesneg, dyddiad cyflwyno'r hysbysiad yn Saesneg, lliw y car yn Saesneg ac enw y maes parcio yn Saesneg. Hefyd, yn y fersiwn Gymraeg nodir bod £70 yn ddyledus ond £50 sy'n ddyledus yn ôl y fersiwn Saesneg. Mae'r ddogfen hefyd yn cyfeirio at wefan i gyflwyno sylwadau ar-lein –

<http://parcio.abertawe.gov.uk/> Dywed yr achwynydd nad yw'r cyfeiriad gwe Cymraeg yn y ddogfen yn bodoli er bod yr un cyfatebol Saesneg yn gweithio. Anfonodd yr achwynydd e-bost at [Meysydd.Parcio@abertawe.gov.uk](mailto:Meysydd.Parcio@abertawe.gov.uk) a chopi i [Cymraeg@abertawe.gov.uk](mailto:Cymraeg@abertawe.gov.uk) Derbyniodd yr achwynydd ymatebion oddi wrth [Car.Parks@swansea.gov.uk](mailto:Car.Parks@swansea.gov.uk) yn Saesneg yn unig ac yn ôl yr achwynydd nid yw'r e-bost yn gwneud synnwyr gan ei fod yn diolch i'r achwynydd am ei apêl ond ni wnaeth gyflwyno apêl yn ei e-bost. Derbyniodd ddau ymateb gan y Cyngor yn Gymraeg. Un yn diolch am ei e-bost a'r llall yn anfon dolen uniongyrchol i'r wefan

Safon 6: Er mwyn cydymffurfio gyda safon 6 roedd angen i'r Cyngor sicrhau nad yw unrhyw ohebiaeth maent yn ei lunio yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn yr achos yma roedd rhaid i'r achwynydd chwilio i ganfod bod yr un wybodaeth ar gael yn Gymraeg yn yr ohebiaeth "Hysbysiad i'r Perchennog". Roedd nifer o eiriad Saesneg yn y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ac roedd swm y ddyled a chyfeiriad gwefan i gyflwyno sylwadau yn wahanol yn y ddau fersiwn. Roedd teitl gohebiaeth pellach dderbyniodd yr achwynydd yn Saesneg yn unig. Gan bod yr ohebiaeth "Hysbysiad i'r Perchennog" a'r e-bost "Making a formal representation against a PCN" yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg rwyf o'r farn na wnaeth y Cyngor gydymffurfio gyda safon 6 yn yr achos yma.

Safon 52: Mae safon 52 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod testun pob tudalen ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Yn yr achos yma fe gysylltodd yr achwynydd gyda'r sefydliad i ddweud nad oedd y cyfeiriad gwe oedd yn yr ohebiaeth dderbyniodd yn gweithio. O ymchwilio i'r gŵyn daeth i'r amlwg mai camgymeriad yn yr ohebiaeth oedd yma yn hytrach na phroblem gyda gwefan y Cyngor. Gan mai problem gyda'r modd yr ysgrifennwyd y cyfeiriad yn yr ohebiaeth sydd yma yn hytrach na diffyg cydymffurfiaeth gwefan y Cyngor gyda safon 52 nid wyf o'r farn bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio gyda safon 52 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi

(<https://abertawe.gov.uk/apelpcn> ). Mae'r cyfeiriad yma yn wahanol iawn i'r un ar y ddogfen. Ar ôl i'r achwynydd lwyddo i ddarparu sylwadau ar yr Hysbysiad Cosb Parcio derbyniodd e-bost yn cadarnhau derbyn y sylwadau. Roedd geiriau ac ymadroddion Saesneg yn yr e-bost yma (ee y penawdau - Online Form Submission / Form / Article a The user was viewing), a prif bennawd Saesneg mewn llythrennau bras – “Making a formal representation against a PCN(Welsh)”.

methu â chydymffurfio â safon 52, ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 6.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 6.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddarparu canllawiau clir i staff y Gwasanaethau Parcio ynglŷn â sut i ddelio ag unrhyw ohebiaeth Cymraeg maent yn ei dderbyn sydd angen ymateb yn Gymraeg.

Safon 6 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe gynnal arolwg o holl ohebiaeth safonol y Gwasanaethau Parcio a gweithredu ar ganfyddiadau'r arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon 6.

3. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 17/09/2020.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG543 Ar 7 Mai, 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd dwy elfen i'r gŵyn. Roedd yr elfen gyntaf yn ymwneud â phenderfyniad Prifysgol Bangor (y brifysgol) i leihau nifer y darlithwyr oedd yn gyfrifol am ddarparu cwrs nyrsio anabledd dysgu. Honnodd yr achwynydd bod y penderfyniad yn golygu colli aelod o staff oedd yn siaradwr Cymraeg. Byddai hyn, ym marn yr achwynydd, yn arwain at fethu â chynnal y ddarpariaeth dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y cwrs, a methu â chyrraedd yr un safon o ddarpariaeth i'r dyfodol. Roedd yr ail elfen yn ymwneud â recriwtio. Honnodd yr achwynydd bod y brifysgol wedi hysbysebu pedair swydd newydd ar gyfer darlithwyr cyswllt yn y maes nyrsio cyn-gofrestru gyda'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg

4/9/2020

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 94, 95 a 96: Mae'n ofynnol ar y brifysgol ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n ofynnol arni ystyried sut y gellir gweithredu fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hefyd yn ofynnol arni ystyried sut y gellir gweithredu fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thri n y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dangosodd yr ymchwiliad bod y brifysgol wedi asesu effaith ei benderfyniad polisi i wneud newidiadau i strwythur staffio'r ysgol ar y Gymraeg. Fe wnaeth hynny fel rhan o asesiad effaith ar gydraddoldeb ar achos busnes dros newid yr ysgol. Dangosodd yr ymchwiliad bod yr asesiad effaith hwnnw' n ddigonol i ddangos bod holl agweddau'r safonau wedi derbyn ystyriaeth. Fe gydymffurfiodd y brifysgol hefo gofynion y safonau fel rhan o'r asesiad effaith ar gydraddoldeb.

Prifysgol  
Bangor



yn ofyniad dymunol yn unig ar gyfer ymgeiswyr.

Safon 145: Mae'n ofynnol ar y brifysgol i asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg wrth asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag. Rhaid iddi yna gategoreiddio'r swydd fel un sy' n gymwys i unrhyw un neu ragor o'r categorïau canlynol: bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol. Cynhaliodd y brifysgol asesiad o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer pedair swydd academaidd Darlithydd Cyswllt (Nyrso Cyn-gofrestru) yn unol â'i chod ymarfer ar benodi staff yn unol â safonau'r iaith Gymraeg. Roedd tair o swyddi hynny yn swyddi newydd ac yn un swydd wag. Daeth yr asesiad i'r casgliad mai'r categorï bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol oedd yn gymwys, a chafodd hynny ei nodi yn y manylion oedd yn berthnasol i'r pedair swydd. Fe gydymffurfiodd y brifysgol â gofynion y safon wrth gynnal asesiad o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg a chategoreiddio'r swyddi fel rhai ble'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Prifysgol Bangor wedi methu â chydymffurfio â safonau 94, 95, 96 a 145.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Prifysgol Bangor wedi methu â chydymffurfio â safonau 94, 95, 96 a 145.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 94, 95 a 96 – Argymhelliad yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r brifysgol ddiwygio templed ei asesiad effaith ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n llawn ofynion y safonau uchod.
2. Dylai'r brifysgol godi ymwybyddiaeth o'i dempled penodol ar gyfer asesu effaith penderfyniadau ar y Gymraeg. Dylai nodi yn yr asesiad effaith ar gydraddoldeb y gall, o dan rai amgylchiadau, fod yn fwy priodol defnyddio'r templed penodol ar gyfer asesu effaith ar y Gymraeg.

Safon 145 – Argymhelliad yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg

3. Dylai'r brifysgol ddiwygio ei chod ymarfer ar benodi staff yn unol â safonau'r iaith Gymraeg er mwyn gwneud yn glir ei fod yn berthnasol i swyddi gwag yn ogystal â swyddi newydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Bangor ar 04/09/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref

CSG679 Ar 12/12/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 30/7/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r Cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, a bod angen i'r Cyngor ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo

Sirol  
Wreccsam

Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo ysgrifennu at Gyngor Wreccsam yn Gymraeg ar 10/12/2019 a derbyniodd ymateb yn Gymraeg ar 11/12/2019. Fodd bynnag ar waelod y neges honnir bod testun y troednodyn yn Saesneg yn unig.

ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Derbyniodd yr achwynydd ymateb yn Gymraeg gan y Cyngor i'w ohebiaeth dyddiedig 10/12/2019, ond roedd y troednodyn ar waelod y llythyr yn uniaith Saesneg. Mae hyn gyfystyr a methiant i gydymffurfio'n llawn a gofynion safon 1.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam atgoffa ei staff o ofynion y safon benodol hon ac iddynt atgoffa staff o'r trefniadau sydd ganddynt er mwyn gweithredu'n unol a'r prosesau hynny.

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar 30/07/2020.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor Dinas  
Casnewydd

CSG657 Ar 21/10/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cysylltodd achwynydd gyda'r Comisiynydd i ddweud nad oedd yn gallu archebu sachau hylendid drwy wefan y Cyngor yn Gymraeg ac y bu'n rhaid iddo ddefnyddio'r wefan yn Saesneg.

7/7/2020

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod testun pob tudalen ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Cysylltodd aelod o'r cyhoedd gyda'r Comisiynydd i ddweud nad oedd wedi gallu archebu bagiau hylendid oddi ar wefan Gymraeg Cyngor Dinas Casnewydd ac y bu'n rhaid iddo ddefnyddio'r fersiwn Saesneg o'r wefan. Dangosodd y gŵyn nad oedd pob testun ar y wefan ar gael yn Gymraeg, nid oedd y wefan yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg gan nad oedd y dewisiadau ar gael yn Gymraeg yn yr un modd ag yr oeddynt ar gael yn Saesneg ac roedd y wefan yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan nad oedd cymaint o wybodaeth ar y wefan Gymraeg o'i gymharu gyda'r wefan Saesneg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Ar y sail bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd,

Prif Gwnstabl  
Heddlu De  
Cymru

CSG676 Ar 05/12/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd nad yw tudalen facebook Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru yn cynnwys llawer o Gymraeg, a phan fydd y neges yn ddwyieithog, y Saesneg sy'n ymddangos yn gyntaf.

19/6/2020

rwyf wedi penderfynu peidio â gweithredu ymhellach yn yr achos hwn.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 07/07/2020.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 55: Mae'r safon yn gofyn i gorff beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Honnai'r achwynydd bod tudalen Facebook Heddlu De Cymru ddim yn cynnwys llawer o Gymraeg, a bod y Gymraeg yn ymddangos islaw'r testun Saesneg pan fydd y neges yn ddwyieithog. Yn dilyn ymchwil un o fy swyddogion gwelir bod y dudalen Facebook yn cynnwys testun dwyieithog, ond bod y Saesneg yn ymddangos o flaen y Gymraeg. Nid yw'r safon yn gofyn i'r testun Cymraeg gael ei osod yn gyntaf. Serch hynny, nododd Tribiwnlys y Gymraeg mewn achos diweddar, os bydd angen gweithredu ymhellach i ddarllen testun Cymraeg o'i gymharu a thestun Saesneg, fel pwysu botwn, yna mae rhoi'r Saesneg uwchben y Gymraeg yn golygu fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Ymddengys bod dewis iaith y darlennydd yn gallu effeithio ar amlygrwydd unrhyw destun Cymraeg sy'n cael ei gyhoeddi ar y dudalen. Eglurodd yr Heddlu y bydd eithriadau pan gyhoeddir neges uniaith Saesneg sef neges frys, ac y byddir yn ceisio llwytho cyfieithiad cyn gynted ag sy'n bosibl yn dilyn hynny. Gan fod angen cymryd cam ychwanegol a gwasgu'r botwm 'see more...' i weld y testun

Cymraeg, ymddengys bod Heddlu De Cymru wedi methu a chydymffurfio a safon 55.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 55.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 55.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 55 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg 1. Rhaid i Heddlu De Cymru sicrhau wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol bod modd gweld y testun Cymraeg heb orfod gwasgu botwm neu sgrolio i lawr y dudalen fel nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. 2. Cynghoraf Heddlu De Cymru i barhau i ddatblygu'r casgliad o gyhoeddiadau sy'n codi'n rheolaidd fel bod modd atal unrhyw oedi rhwng cyhoeddi negeseuon brys yn ddwyieithog yn y dyfodol. Amserlen: O fewn 2 fis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar 19/06/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref

CSG623 Ar 27/08/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 19/6/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 19: Ffoniodd yr achwynydd y Cyngor ar 22 Awst 2019 gan dderbyn gwasanaeth uniaith Saesneg sy'n groes

## Sirol Wreccsam

Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd honiad yr achwynydd yn ymwneud â methiant i dderbyn gwasanaeth Cymraeg ar linell ffôn Byd Dŵr Wreccsam. Cyflwynodd yr achwynydd ymholiad ar wefan y Cyngor yn Gymraeg a chael ateb yn Gymraeg i'r ymholiad hwnnw. Roedd yr ymateb yn rhoi gwybod fod angen iddo gysylltu â Byd Dŵr ar y rhif 01978 272300 er mwyn cael ymateb llawn i'w ymholiad oedd yn ymwneud ag argaeledd gwersi nofio i'w blentyn. Dywed yr achwynydd iddo gysylltu â Byd Dŵr ar 22/08/19 a chael gwybod bod y gwasanaeth yr oedd yn ei geisio ar gael yn Saesneg yn unig, ac oherwydd ei fod yn dymuno derbyn y gwasanaeth yn Gymraeg, bod rhaid iddo aros i rywun ei alw yn nôl. Hyd at 27/08/19, honnai nad oedd neb wedi ei alw yn nôl. Galwodd yr achwynydd y rhif 01978 272 300 unwaith eto ar 27/08/19 gan siarad â thri pherson gwahanol. 1.6 Honnai'r achwynydd na wnaeth siaradwr rhif 1 gydnabod ei fod (yr achwynydd) yn siarad Cymraeg gan drosglwyddo'r alwad at siaradwr rhif 2. Honnai'r achwynydd i siaradwr rhif 2 ofyn iddo siarad yn Saesneg cyn iddo ei drosglwyddo i gydweithiwr arall. Honnai i siaradwr

i ofynion safon 19. Roedd yr alwad yn ymwneud ag ymholiad cyffredinol am wersi nofio. Mae'r Cyngor yn cynnig fod rhywun yn ffonio'r achwynydd yn ôl. Nid yw'r safon yn caniatáu hynny. Ffoniodd aelod staff di-gymraeg y Cyngor yr achwynydd yn ôl, er iddo roi gwybod ei fod yn dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg. Dywedodd yr aelod staff di-gymraeg y byddai rhywun arall yn ei ffonio nol. Ffoniodd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yr achwynydd wedyn gan fethu cael ateb.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 19.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 19.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 19 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam gynnal adolygiad o drefniadau Freedom Leisure i ateb galwadau ffôn a wneir i'r canolfannau hamdden y maent yn eu rhedeg drwy drefniant gyda'r Cyngor.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad a chyflwyno polisi a gweithdrefn ar gyfer ateb galwadau ffôn fydd yn ei alluogi i gydymffurfio â safon 19.
3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

rhif 3 ddweud rhywbeth yn Gymraeg i allu cyfleu wrth yr achwynydd nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael (nid yw'r achwynydd yn cofio'r union sgwrs).

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar 19/06/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG636 Ar 06/09/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn ymwneud â methiant honedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam i ddarparu gwersi nofio yn Gymraeg i blentyn yr achwynydd. Wedi iddo gysylltu gydag un o ganolfannau hamdden y sir (nid yw'r gŵyn yn nodi pa ganolfan hamdden), honnai iddo gael gwybod y caiff ei blentyn 4 oed ddysgu nofio "ar yr amod ei fod yn cytuno iddi fynychu gwersi yn Saesneg, neu o bosib, gwers Saesneg gyda rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg".

19/6/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 84: Mae'r safon yn gofyn i gorff os bydd yn cynnig cwrs sy'n agored i'r cyhoedd, bod yn rhaid ei gynnig yn Gymraeg. Dywed y Cyngor bod gwersi Cymraeg ar gael yng Nghanolfan Gwyn Evans, ac y gall ddarparu gwersi 1-1 yn y Gymraeg pe bai galw amdano. Honnai'r achwynydd iddo gael ar ddeall y byddai'n rhaid i'w blentyn fynychu gwersi yn Saesneg gyda rhywfaint o Gymraeg. Rwyf o'r farn bod gwersi nofio Cymraeg yn cael ei ddarparu gan y Cyngor yn ol yr angen, ac mi roedd galw amdano ar yr achlysur hwn, ond ni chafodd y cwrs ei gynnig i'r achwynydd.

Safon 86: Mae'r safon yn ei gwneud hi'n glir bod disgwyl i gorff wrth ddatblygu cwrs addysg, asesu'r angen i'r cwrs gael ei gynnig yn Gymraeg, ac i gyhoeddi'r asesiad hwnnw ar wefan y sefydliad. Nid yw'r Cyngor wedi datblygu cwrs addysg sef gwersi nofio, ers cynnal yr asesiad diwethaf yn Rhagfyr 2016. Cynhaliodd y Cyngor asesiad o'r angen i ddatblygu gwersi nofio yn y Gymraeg bryd hynny drwy ddosbarthu holiaduron i ysgolion cynradd ac uwchradd y sir. Mae canlyniad yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar ffurf datganiad yn ymddangos ar dudalen gwe'r Cyngor. Ni fu

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wreccsam



methiant felly i gydymffurfio â gofynion safon 86 yn yr achos hwn.

Cam gorfodi a roddwyd i'r Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG134: Safon 84 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3) Mesur y Gymraeg Rwyf yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Rwyf wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu. Safon 86 – cyngor yn unol ag adran 76(3) Mesur y Gymraeg Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86. Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor lunio cynllun gweithredu. Gwnaed hynny a noddodd y Cyngor y byddai yn hysbysebu'r ffaith bod gwersi nofio ar gael yn Gymraeg, gan nodi amser a lleoliad y gwersi. Nid yw'r rhestr o'r gwersi nofio a ddarparwyd gan y Cyngor yn nodi iaith y gwersi, ac ni wnaeth Freedom Leisure hysbysebu bod gwersi nofio ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio ag un elfen o'i gynllun gweithredu.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 86, ond bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 84 a cham a nodwyd yn ei gynllun gweithredu ar gyfer achos CSG134.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 84 a cham a nodwyd yn ei gynllun gweithredu ar gyfer achos CSG134.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 84 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ail-redeg yr hysbysebion ar gyfer hyfforddwyd nofio gyda'r Gymraeg yn hanfodol yn rheolaidd hyd nes y bydd wedi llwyddo i recriwtio'n llwyddiannus.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam uwch-sgilio mwy o staff i ymgymryd â gwersi nofio yn y Gymraeg.
3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei gwneud hi'n hysbys bod gwersi nofio yn y Gymraeg yn cael ei ddarparu yn unol a'r galw.
4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3. Amserlen: O fewn 2 fis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam Gorfodi ymchwiliad CSG134: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg 5. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod Freedom Leisure yn nodi'n glir ar ei wefan bod gwersi Cymraeg ar gael.

6. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Pen-y-  
bont ar Ogwr

CSG658 Ar 16 Hydref 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yn ymwneud â neges e-bost gafodd ei hanfon at yr achwynydd yn cydnabod derbyn taliad am dreth y cyngor. Roedd yn ymddangos bod y neges e-bost yn un a gynhyrchiwyd yn awtomatig; cafodd ei hanfon am 14:02 ar 16 Hydref 2019 o'r cyfeiriad AUTOMAILER@E-PAYCAPITA.COM. Roedd y gŵyn yn honni bod y neges e-bost yn wallus. Roedd cyfeiriad ynddi at Gyngor Sir Gâr ac, er mai bod y cynnwys ar y cyfan yn Gymraeg, roedd peth o'r testun yn ymddangos yn Saesneg. Roedd yn ymddangos i'r achwynydd bod cynnwys y neges wedi ei gyfieithu â pheiriant. Hwn oedd yr ail dro i'r achwynydd gwyno i mi am yr union fater hwn. Nododd: Rwy'n credu y

9/6/2020

Amserlen: O fewn 2 fis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 19/06/2020.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 2: Mae'r safon yn gosod sawl gofyniad ar y cyngor. Yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn yw'r gofyniad i ohebu'n Gymraeg ag unigolion sy'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg gan y cyngor. Anfonodd y cyngor ohebiaeth at y achwynydd ar dri achlysur ar ffurf anfonebau am daliadau treth cyngor. Er yn cynnwys gwallau, roedd yr ohebiaeth yn Gymraeg. Ar y sail bod y cyngor wedi sefydlu mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr achwynydd ac wedi gohebu ag o yn Gymraeg, casglaf nad yw wedi methu â chydymffurfio hefo gofynion y safon.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 2.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 2.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 2 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 76(3) (a) a (b) Mesur y Gymraeg

dylai'r ymchwiliad hwn fod yn gysylltiedig â'r un diwethaf a gynhaliwyd gennych ar y mater hwn ac y dylid cosbi'r cyngor yn llym am honni bod gwaith wedi'i wneud i unioni gwallau yn ei system pan mai'r gwir yw nad oes dim wedi'i wneud. Hefyd, hoffwn gyflwyno'r un sylw ag y gwneuthum y tro diwethaf, sef: Mae hyn yn dangos agwedd negyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-ybont ar Ogwr tuag at y Gymraeg, sef gwneud y lleiaf mae'n rhaid ei wneud nes bod rhywun yn cwyno. Derbyniodd negeseuon e-bost tebyg yn cydnabod derbyn taliadau ar 14 Awst a 6 Tachwedd 2019.

1. Rwyf yn argymhell bod y cyngor yn sicrhau bod holl gynnwys yr anfoneb treth cyngor yn cael ei brawf ddarllen gan gyfieithydd neu swyddog cymwys.
2. Rwyf yn argymhell bod y cyngor yna'n cywiro'r cynnwys er mwyn sicrhau ei fod yn gywir o ran ystyr a mynegiant, i'r un graddau ag y byddai pe bai wedi ei gynhyrchu'n Saesneg.
3. Rwyf yn cynghori'r cyngor i ddarparu sylwadau cyflawn a thryloyw i mi mewn perthynas â chwynion sy'n cael eu cyflwyno yn ei erbyn.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ar 09/06/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

CSG595 Ar 5 Gorffennaf 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. Roedd yr achwynydd yn gyflogai ym Mhrifysgol Bangor ar y pryd. Roedd yn honni nad oedd system ar lein, ddi-bapur, oedd gan y brifysgol ar gyfer rheoli absenoldeb o'r gwaith yn caniatáu i gyflogeion wneud cais am wyliau yn Gymraeg. I gefnogi'r gŵyn darparodd yr achwynydd gopi o neges e-bost a dderbyniodd y diwrnod cynt gan

9/6/2020

Prifysgol  
Bangor

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 111: Rhaid i'r brifysgol ofyn i'w chyflogeion a ydynt yn dymuno derbyn ffurflen ar gyfer gwneud cais am wyliau yn Gymraeg. Os yw cyflogai'n mynegi ei fod yn dymuno derbyn ffurflen wyliau yn Gymraeg, rhaid i'r brifysgol ei darparu iddo'n Gymraeg. Dangosodd yr ymchwiliad bod gan y brifysgol drefniant gweinyddol mewn lle sy'n golygu y gall cyflogeion wneud cais am wyliau yn Gymraeg trwy e-bostio gweinyddwyr perthnasol. Dangosodd hefyd bod gan y brifysgol drefniadau priodol ar gyfer cofnodi dewis iaith ei chyflogeion er mwyn sefydlu a ydynt yn dymuno derbyn ffurflenni ganddi'n Gymraeg. Mae'r trefniadau hyn yn bodloni gofynion y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

Bennaeth yr Ysgol Addysgu yn cyflwyno'r system newydd i staff. Roedd yr achwynydd ar ddeall bod modd gwneud cais am wyliau yn Gymraeg ond bod hynny'n golygu llenwi ffurflen bapur fyddai wedyn yn cael ei phrosesu gan swyddog gweinyddol. Dywedodd yr achwynydd bod modd i gyflogeion a ddewisai ddefnyddio'r system ar lein weld, addasu, gwneud cais a chofnodi eu gwyliau yn rhwydd. Roedd yn pryderu nad oedd y system bapur oedd ar gael i ddefnyddwyr y Gymraeg cystal, ac oherwydd hynny bod y brifysgol wedi gweithredu mewn ffordd oedd yn trin y Gymraeg yn anghyfartal ac yn israddol na'r Saesneg.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prifysgol Bangor wedi methu â chydymffurfio â safon 111.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Prifysgol Bangor wedi methu â chydymffurfio â safon 111.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 111 - Cyngor yn unol ag isadran 76(3)(b) Mesur y Gymraeg Dylai'r brifysgol roi ystyriaeth briodol i ofynion safonau gweithredu perthnasol ac anghenion a hawliau ei chyflogeion sy'n dymuno derbyn gwasanaethau'n ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg cyn treialu neu fabwysiadu unrhyw systemau perthnasol yn y dyfodol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Bangor ar 09/06/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG537 Ar 17 Ebrill 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniwyd y gŵyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd oedd yn cyflwyno cwyn ar ran rhywun arall gyda'i ganiatâd. Honnai'r achwynydd i'r sawl a effeithiwyd dderbyn gohebiaeth nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg. Mae'r gŵyn ynghylch gohebiaeth gan Gyngor

4/6/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Os yw corff yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'r Cyngor wedi llunio gohebiaeth 'Hysbysiad Treth Annomestig' sy'n cynnwys gwallau iaith yn y testun Cymraeg ac yn cynnwys peth testun Saesneg yn unig. Rwyf yn canfod fod llunio gohebiaeth sydd yn wallus neu yn cynnwys testun Saesneg yn unig gyfystyr â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac felly bod methiant yma i gydymffurfio â gofynion safon 6. Safon 47: Os yw

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sir  
Wrecsam

Bwrdeistref Sirol Wrecsam, sef hysbysiad i dalu treth annomestig. Mae'r gŵyn ynghylch y 3 darn oedd yn rhan o'r ohebiaeth hon, sef: (1) Hysbysiad Treth Annomestig (2) Dogfen caniatâd debyd uniongyrchol (3) 'Non-domestic Annual Demand FAQs'. Ar gyfer dogfennau (1) a (3) mae'r achwynydd yn nodi'r honiadau isod: (1) Hysbysiad Treth Annomestig (a) Mae rhannau sylweddol o'r ddogfen yn uniaith Saesneg. (b) Mae'r rhannau hynny sy'n ddwyieithog yn trin y testun Cymraeg yn llai ffafriol wrth ei osod islaw neu i'r dde o'r Saesneg. (c) Mae camgymeriadau yn y Gymraeg (8.30 y.b.i. - 5.00 y.p.o.) (ch) Mae gwybodaeth anghywir yn y Gymraeg (dyw'r rhif ffôn "Wrecsam 200000" - ar gefn y ddogfen - ddim yn bodoli.) (d) Mae gwybodaeth ar goll yn y Gymraeg (y darn am gytuno i delerau'r Cyngor wrth dalu dros y rhyngwyd). (3) 'Non-domestic Annual Demand FAQ's' (a) Mae'r ddogfen hon yn Saesneg yn unig.

corff yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, ac os nad oes safon arall eisoes yn gosod dyletswydd ar gorff i lunio'r ddogfen yn Gymraeg, rhaid iddo asesu: a yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu a yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'i disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. Yn dilyn hynny, rhaid i'r corff lunio'r ddogfen yn Gymraeg (neu beidio) yn unol â chanlyniad yr asesiad hwnnw. Mae'r partiön yn gytûn bod y Cyngor wedi llunio'r ddogfen 'Non-domestic Annual Demand FAQs' at ddefnydd y cyhoedd yn Saesneg yn unig. Nid oes tystiolaeth fod y Cyngor wedi cynnal asesasid er mwyn ystyried yr angen i'w llunio yn Gymraeg neu beidio. Ystyrir bod pwnc y ddogfen a'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer y ddogfen dan sylw yn awgrymu y dylid bod wedi llunio'r ddogfen yn Gymraeg. Rwyf yn canfod felly fod y Cyngor wedi gweithredu'n groes i ofynion safon 47 yn yr achos hwn gan nad yw wedi cynnal asesiad ynghylch a ddylid llunio'r ddogfen dan sylw yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safonau 6 a 47.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safonau 6 a 47.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob gohebiaeth sydd yn ymwneud â hysbysiadau treth o unrhyw fath yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion y

safonau. Rhaid sicrhau nad oes gwallau iaith neu ddefnydd o Saesneg yn unig yn cael ei alluogi gan ddefnydd o feddalwedd neu wybodaeth gan drydydd parti. Safon 6 – gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) 2. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn ei adran newyddion. Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 47 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddatblygu pecyn cymorth ymarferol ar gyfer swyddogion sydd yn gyfrifol am lunio unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd. Rhaid i'r pecyn gynnwys dull ymarferol ar gyfer asesu'r angen i lunio dogfen yn Gymraeg yn unol â safon 47 gan gynnwys dull ymarferol o gofnodi a 03/14 chael cymeradwyaeth Uwch Swyddog yn dilyn yr asesiad. Rhaid i'r pecyn gynnwys dull o wirio bod canlyniad asesiad sy'n gofyn am lunio'r ddogfen yn Gymraeg yn cael ei weithredu.

4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1,2, a 3. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 04/06/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Torfaen

CSG660 Ar 25/10/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn ymateb awtomatig uniaith Saesneg yn dilyn gyrru gohebiaeth at y Cyngor drwy'r cyfeiriad [your.call@torfaen.gov.uk](mailto:your.call@torfaen.gov.uk) ar 24/10/2019 mewn ymateb i'w neges e-bost.

27/5/2020

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r Cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen i'r Cyngor ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg i'r Cyngor. Derbyniodd ymateb ar ffurf neges e-bost awtomatig oedd wedi ei hysgrifennu'n Saesneg. Mae'n ymddangos bod gan y Cyngor drefniadau priodol i ymateb yn Gymraeg, ac nad yw'n glir pam fod yr achwynydd wedi derbyn ymateb uniaith Saesneg ar yr achlysur hwn. O ganlyniad, ymddengys bod methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1 ar yr achlysur hwn.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor wirio ei system feddalwedd i sicrhau bod y neges testun ddwyieithog y mae wedi ei lunio yn cael ei anfon mewn ymateb i BOB gohebiaeth sy'n cyrraedd y Cyngor.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cyflawni cam gorfodi 1.



Y Gorfforaeth  
Ddarlledu  
Brydeinig

CSG544 Ar 5 Mai 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynghylch gohebiaeth yr oedd yr achwynydd wedi ei dderbyn gan ymddiriedolwyr cronfa pensiwn y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y BBC). Roedd yr achwynydd wedi cael ymateb Saesneg i e-bost anfonodd at ymddiriedolwyr y gronfa pensiwn yn Gymraeg. Roedd yr e-bost Cymraeg gwreiddiol anfonodd yr achwynydd at yr ymddiriedolwyr yn gais i dderbyn gohebiaeth Cymraeg yn unol â'i dewis iaith ar gyfer gohebiaeth gan Gronfa Pensiwn y BBC.

13/5/2020

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 27/05/2020.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Os yw corff yn cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid i'r corff ateb yr ohebiaeth yn Gymraeg (os oes angen ateb). Nid oes rhaid i gorff ateb yn Gymraeg os yw person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Derbyniais gŵyn ynghylch gohebiaeth yr oedd yr achwynydd wedi ei derbyn gan ymddiriedolwyr cronfa pensiwn y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y BBC). Roedd yr achwynydd wedi cael ymateb Saesneg i e-bost anfonodd at y gronfa pensiwn yn Gymraeg. Rwyf yn canfod fod y partïon yn gytûn fod gohebiaeth Gymraeg yr achwynydd wedi ei ateb yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, nid yw'r ohebiaeth hwn yn ddarostyngedig i safonau'r BBC gan nad yw'r gronfa pensiwn yn gweithredu ar ran y BBC yn y cyd-destun hwn. Safon 96: Rhaid i gorff ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol. Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd gan fod ei gais i dderbyn gohebiaeth oddi wrth Gronfa Pensiwn y BBC yn Gymraeg wedi ei gwrthod. Rwyf yn canfod nad yw'r gofynion o dan safon 96 yn berthnasol i'r cyd-destun hwn gan nad yw'n ohebiaeth bapur sy'n ymwneud a'i gyflogaeth. Nid yw'n ohebiaeth rhwng y cyflogwr a'r

cyflogai, er ei fod wedi ei chyfeirio ato'n bersonol. Nid yw'r gronfa yn gweithredu ar ran y BBC wrth baratoi'r ohebiaeth dan sylw.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 96.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Ni fyddaf yn gweithredu ymhellach yn yr achos hwn.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Ni fyddaf yn gweithredu ymhellach yn yr achos hwn.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ar 13/05/2020.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG610 Ar 18/01/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn honno yn honni nad oedd cyfeiriad yr achwynydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg mewn gohebiaeth gan wasanaethau parcio y cyngor, a'i fod yn uniaith Saesneg yn unig. Darparodd yr achwynydd gopi o lythyr dyddiedig 5/12/2018 a dderbyniodd gan yr adran barcio i'w atgoffa i adnewyddu ei drwydded barcio. Gellir gweld o'r copi a

29/4/2020

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 2: Mae safon 2 yn gosod gofyniad wrth ohebu am y tro cyntaf ag unigolion i ofyn os hoffent dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r safon hefyd yn gosod gofyniad ar gorff i gadw cofnod o unrhyw unigolion sydd yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg, ac i sicrhau bod gohebiaeth a ffurflenni yn cael eu hanfon atynt yn Gymraeg yn unol â'r dymuniad hwnnw o hynny ymlaen. Ystyriaf yn yr achos hwn nad oedd gofyniad ar y cyngor i holi am ddewis iaith yn yr ohebiaeth a dderbyniodd yr achwynydd gan mai nid dyma'r tro cyntaf i'r cyngor ohebu â'r achwynydd. Rwyf hefyd yn ystyried nad oedd y cyngor yn gwybod am ddymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ar sail yr iaith a ddefnyddiodd i

Cyngor  
Caerdydd

dderbyniais mai Saesneg yn unig yw'r cyfeiriad ar y fersiwn Cymraeg o'r llythyr, ac mae'r geiriau 'Sylw – Nid Yw'r Cyfeiriad Yn Gymraeg – Cywirwch Os' wedi ei nodi ar y fersiwn honno gyda chyfeiriad Saesneg i ddilyn.

gwblhau ei gais am drwydded ar y wefan ac ar sail diffyg tystiolaeth bod yr achwynydd wedi rhoi gwybod iddo am ei ddymuniad ychwaith. Ar sail hynny, casglaf nad oedd gofyniad ar y cyngor i gadw cofnod o ddymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ar adeg anfon yr ohebiaeth ato ar 5/12/2018 na chwaith i anfon yr ohebiaeth honno yn Gymraeg yn unol ag elfen (b) o'r safon.

Safon 5: Mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei darparu os nad yw corff yn gwybod os yw'r person â ohebir ag o yn dymuno cael gohebiaeth Gymraeg. Rwyf yn ystyried bod angen i'r holl ohebiaeth fod yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio. Casglaf yn yr achos hwn nad oedd y cyngor yn ymwybodol o ddewis iaith yr achwynydd, ai fod wedi anfon gohebiaeth Gymraeg at yr achwynydd a oedd yn cynnwys cyfeiriad Saesneg yn unig. Rwyf hefyd yn casglu nad oedd cynllun gweithredu CSG192 yn effeithio ar yr achos hwn o ran cydymffurfiaeth y cyngor â safon 5, gan fod y cynllun gweithredu yn ymwneud â sicrhau cydymffurfiaeth y cyngor â safon 6 yn benodol. Gan nad oedd pob elfen o'r ohebiaeth yn Gymraeg, gan fod cyfeiriad Saesneg ar yr ohebiaeth Gymraeg a dderbyniodd yr achwynydd, ystyriaf bod hyn yn groes i ofyniad safon 5.

Safon 6: Gofyniad safon 6 yw sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, a bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin o leiaf yn yr un modd a'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos hwn fe dderbyniodd yr achwynydd llythyr Cymraeg a Saesneg gan y cyngor yn ei atgoffa o'r angen i adnewyddu ei drwydded barcio. Roedd fersiwn Gymraeg o'r llythyr yn cynnwys cyfeiriad aelwyd yn

Saesneg yn unig tra bod y fersiwn Saesneg o'r llythyr yn cynnwys y cyfeiriad yn yr un iaith â gweddill y cynnwys. Er bod y geiriau gwallus 'Sylw – Nid Yw'r Cyfeiriad Yn Gymraeg – Cywirwch Os' wedi eu cynnwys ar fersiwn Gymraeg o'r llythyr, nid wyf yn ystyried bod y fersiwn Gymraeg o'r llythyr wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg gan bod y fersiwn Saesneg hefyd yn cynnwys y geiriad gwallus. Casglaf nad oedd y cyngor yn yr achos hwn yn llwyr ddibynnol ar weithredu pob elfen o gynllun gweithredu CSG192 cyn gallu anfon gohebiaeth oedd â chyfeiriad Cymraeg. Nid wyf wedi fy argyhoeddi o'r ymchwiliad hwn bod rhwystrau i'r cyngor allu sicrhau bod cyfeiriad Cymraeg ar yr ohebiaeth nac ei fod yn llwyr ddibynnol ar systemau'r cyngor i alluogi hynny. Cynllun gweithredu achos CSG192: Roedd y cynllun gweithredu yn sgil ymchwiliad CSG192 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau digonol mewn lle i gydymffurfio â safon 6 ar gyfer gosod cyfeiriadau aelwydydd yn Gymraeg ar ohebiaethau Cymraeg. Daeth y cynllun gweithredu i rym ar 18/09/2018. Wrth ystyried y wybodaeth sydd ar gael i mi, rwyf yn canfod bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â'r cynllun gweithredu. Mae hynny gan iddo beidio â chyflawni unrhyw rai o'r camau o fewn y cynllun gweithredu erbyn y dyddiadau gofynnol. Er bod y cyngor bellach wedi cwblhau camau 1 a 2, mae camau 3 – 7 o'r cynllun gweithredu yn parhau i fod heb eu cyflawni yn llawn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 5, 6 a chynllun gweithredu achos

CSG192. a nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 2.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 5, 6 a chynllun gweithredu achos CSG192.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 5 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, rhaid i chi sicrhau bod pob elfen o'r ohebiaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg, gan gynnwys y cyfeiriad, lle bo cyfeiriad Cymraeg yn bodoli. Os nad yw'r systemau a ddefnyddir i gynhyrchu'r ohebiaeth yn galluogi hynny bydd rhaid cael proses ar wahân i sicrhau bod fersiwn Gymraeg o gyfeiriad yn cael ei gynnwys ar bob gohebiaeth Gymraeg.

4. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi. Amserlen: 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 6 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i adran barcio'r cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau i wirio cynnwys gohebiaeth Gymraeg cyn iddo gael ei anfon er mwyn sicrhau nad yw'r ohebiaeth honno yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn gyfatebol Saesneg.

6. Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid i chi sicrhau bod pob elfen o'r ohebiaeth yn cael ei darparu yn Gymraeg, gan gynnwys y cyfeiriad, lle bo cyfeiriad Cymraeg yn bodoli. Os

nad yw'r systemau a ddefnyddir i gynhyrchu'r ohebiaeth yn galluogi hynny bydd rhaid cael proses ar wahân i sicrhau bod fersiwn Gymraeg o gyfeiriad yn cael ei gynnwys ar bob gohebiaeth Gymraeg.

7. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r camau gorfodi.

Amserlen: 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cynllun gweithredu achos CSG192 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

8. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod cam 3 o gynllun gweithredu CSG192 yn cael ei weithredu yn llawn.

Amserlen: 3 mis o ddyddiad dyfarniad terfynol y Comisiynydd

9. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod cam 4 o gynllun gweithredu CSG192 yn cael ei weithredu yn llawn.

Amserlen: 2 fis o ddyddiad dyfarniad terfynol y Comisiynydd

10. Rhaid i'r cyngor fel rhan o cam 5 o gynllun gweithredu CSG192 addasu ei ffurflen dendro bresennol i gynnwys asesiad bod unrhyw dendrau newydd ar gyfer meddalwedd TG a ddefnyddir i greu llythyrau neu filiau yn ystyried y gofyniad i sicrhau bod y system yn gallu arddangos fersiwn Gymraeg o gyfeiriadau aelwydydd.

Amserlen: 30 diwrnod o ddyddiad dyfarniad terfynol y Comisiynydd

11. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod cam 6 o gynllun gweithredu CSG192 yn cael ei weithredu yn llawn.

Amserlen: 3 mis o ddyddiad dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wreccsam

CSG619 Ar 20 Awst 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo anfon ymholiad am wersi nofio ar dudalen Gymraeg gwefan Freedom Leisure ac iddo dderbyn dwy neges uniaith Saesneg mewn ymateb: I) Y geiriau 'thank you' ar y sgrin yn diolch iddo am gyflwyno ymholiad, II) ac e-bost yn cadarnhau bod ei neges wedi ei dderbyn: Many thanks for your enquiry. We will be in touch shortly. Many thanks, Freedom Leisure

27/4/2020

12. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau yr holl gamau gorfodi uchod. Amserlen: 3 mis o ddyddiad dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 29/04/2020

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r Cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, a bod angen i'r Cyngor ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ymholiad am wersi nofio ar dudalen Gymraeg gwefan Freedom Leisure, a derbyniodd ddwy ohebiaeth Saesneg mewn ymateb. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

			<p>1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad o'r holl negeseuon awtomatig sy'n cael ei anfon at ei wasanaethau hamdden, ac i weithredu ar ei ganfyddiadau er mwyn sicrhau fod pob un yn cael ei anfon yn unol â gofynion safon 1.</p> <p>2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wirio yn gyfnodol fod y negeseuon hyn yn cael eu hanfon yn unol â gofynion y safon, er mwyn sicrhau nad yw materion megis toriadau i ddolen y wefan yn arwain at sefyllfa debyg yn y dyfodol.</p> <p>3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.</p> <p>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 27/04/2020.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe</u></p>	<p>CSG654 Ar 8 Hydref 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn erbyn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ynghylch 3 mater: Bod y Bwrdd Iechyd wedi gosod neu adnewyddu arwydd ar y ffordd wrth adael Ysbyty Singleton, Abertawe gyda thestun Saesneg 'turn left' yn</p>	<p>2/4/2020</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 45: Rhaid i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniais gŵyn yn honni bod y Bwrdd Iechyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei chyfryngau cymdeithasol. Rwyf yn canfod nad oes tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyhoeddi cynnwys ar ei chyfryngau cymdeithasol. Yn gyffredinol mae cynnwys ar gyfrifon Cymraeg a Saesneg y Bwrdd Iechyd yn cyfateb.</p> <p>Safon 47: Os yw corff yn gosod arwydd newydd neu'n</p>



unig. Bod arwyddion/graffeg Saesneg yn unig ar gerbydau trydan newydd y Bwrdd Iechyd. Bod tudalen Facebook y Bwrdd Iechyd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod llai o gynnwys ar y tudalen Gymraeg. Hefyd bod fideo ar y tudalen Facebook Gymraeg gyda sain yn Saesneg yn unig (gydag is-deitlau Cymraeg).

adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid iddo sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn Gymraeg. Gall corff un ai arddangos y testun Cymraeg ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân. Rhaid i gorff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwydd dan sylw. Derbyniais gŵyn ynghylch arwydd wedi ei beintio ar y ffordd gyda thestun Saesneg yn unig ac arwyddion ar gerbydau trydan y Bwrdd Iechyd oedd yn Saesneg yn unig. Rwyf yn canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gosod arwyddion ar gerbydau trydan yn Saesneg yn unig. Rwyf hefyd yn canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi adnewyddu arwydd ar y ffordd drwy ei ail beintio, ac nad oeddynt wedi cynnwys testun Cymraeg wrth adnewyddu'r arwydd.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 47, a heb fethu i gydymffurfio â safon 45.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 47.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 47 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddatblygu canllaw a mabwysiadu weithdrefnau ffurfiol i staff a rheolwyr eu dilyn yn eu gwaith bob dydd i gydymffurfio â safon 47 wrth osod neu adnewyddu arwydd(ion).

Cyngor  
Caerdydd

Ar 09/05/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiadau bod: i. Arwyddion uniaith Saesneg "No tools are kept in this vehicle overnight", "62 MPH" (Milltir yr Awr yn Gymraeg) a "PSI-29" (Pwys y modfedd sgŵar yn Gymraeg) yn ymddangos ar y cerbyd CU67VXK (atodiad 1) ac mae'r achwynydd o'r farn bod pob cerbyd yr un fath. ii. Amryw o arwyddion matrices yn arddangos testun uniaith Saesneg neu destun gyda'r Gymraeg yn wallus, a bod gosod testun Saesneg cyn y Gymraeg ar arwyddion matrices yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol (er mai achosion prin y mae'r Gymraeg yn ymddangos).

19/3/2020

2. Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1. Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 02/04/2020.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 61 a 62: Mae safon 61 yn gofyn i Gyngor Caerdydd sicrhau bod unrhyw arwyddion sydd wedi eu gosod neu eu hadnewyddu ers 30 Mawrth 2016 (gan gynnwys arwyddion dros dro) yn ymddangos yn Gymraeg. Mae safon 62 yn gofyn i Gyngor Caerdydd sicrhau bod unrhyw arwyddion (gan gynnwys arwyddion dros dro) lle bod yr un neges yn cael ei gyfleu yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gosod testun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion uniaith Saesneg yn ymddangos ar gerbydau'r Cyngor ac ar arwyddion matrices ar yr A48 a'r A4232 yn ystod mis Mawrth a Mai 2019. Yn ogystal, darparodd yr achwynydd dystiolaeth gweledol bod arwyddion matrices yn ymddangos testun uniaith Saesneg yn ystod mis Mehefin 2018. Roedd yr achwynydd hefyd yn honni bod arwyddion dwyieithog yn dangos y testun Saesneg uwchlaw'r Gymraeg ar yr arwyddion hynny. Rwy'n canfod bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61 ar sail bod tystiolaeth bod arwyddion uniaith Saesneg yn ymddangos

ar gerbyd sydd wedi ei gofrestru ers y diwrnod gosod; a bod testun uniaith Saesneg wedi ymddangos ar arwyddion electronig yn ystod mis Mawrth a Mai 2019, ac yn ystod Mehefin 2018. Ceir amheuaeth hefyd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61 gan fod arwyddion uniaith Saesneg hefyd yn ymddangos ar gerbydau eraill. Yn yr achos yma nid oedd y dystiolaeth sydd yn fy meddiant yn fy ngalluogi i wybod a chafodd yr arwyddion hynny eu gosod neu eu adnewyddu ers diwrnod gosod y safon. Ar sail hynny nid oes gen i dystiolaeth bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61 mewn perthynas ag unrhyw gerbydau eraill. Rwyf hefyd yn canfod bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 62 ar sail bod gen i dystiolaeth gweledol bod testun Saesneg wedi'i osod uwchlaw y testun Cymraeg ar arwyddion matrices ers diwrnod gosod safon 62, sef 30 Mawrth 2019. Safon 63: Mae safon 63 yn gofyn i Gyngor Caerdydd sicrhau bod testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir ac nad oes unrhyw wallau arnynt. Derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd bod arwydd ar yr A48 tua'r Gorllewin am oddeutu 21:30 ar 6 Mawrth 2019 yn nodi "GYRRWCH YN AFOSUL". Rwy'n canfod bod y dystiolaeth sydd yn fy meddiant yn annigonol i fy ngalluogi i wybod a fu methiant a'i pheidio yn yr achos yma. Ar sail hynny, ni allaf ganfod bod methiant wedi bod.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 61, 62 a cham gorfodi a osodwyd arno mewn hysbysiad penderfynu ar 26/10/2016; a nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 63.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 61, 62 a cham gorfodi a osodwyd arno mewn hysbysiad penderfynu ar 26/10/2016; a nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 63.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 61 a 62 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod pob arwydd matrices yn cydymffurfio â gofynion safon 61.
2. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod unrhyw arwyddion ar gerbydau yn cydymffurfio â gofynion safon 61.
3. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod pob arwydd matrices yn cydymffurfio â gofynion safon 62.
4. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 63– cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg 1. Rwyf yn eich cyngori i gynnal archwiliad o'ch holl arwyddion matrices er mwyn sicrhau bod unrhyw destun Cymraeg ar yr arwyddion hynny yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 19/03/2020

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Ar 28 Awst 2019 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Esboniodd yr achwynydd iddo fethu galwad ar ei ffôn o'r rhif ffôn 01978 292022.

Tybiodd bod y galwad a fethodd wedi dod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, felly ffoniodd y rhif yn ôl. Wrth alw'r rhif yma, roedd neges wedi ei awtomeiddio yn cael ei chwarae yn hysbysebu'r achwynydd bod aelod o staff o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ceisio ei ffonio ac y byddai'r person hwnnw o'r Cyngor yn cysylltu eto maes o law. Mae'r achwynydd wedi cyflwyno'r gŵyn gan fod y neges yma yn cael ei chyfleu yn Saesneg yn gyntaf, ac wedyn yn Gymraeg. Mae'r achwynydd yn honni fod hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

18/3/2020

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Os yw person yn cysylltu â chorff ar rif llinell uniongyrchol (boed yn rhif llinell uniongyrchol adran neu'n rhif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid i'r corff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person hwnnw. Ar 28 Awst 2019 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Esboniodd yr achwynydd iddo fethu galwad ar ei ffôn o'r rhif ffôn 01978 292022. Wrth alw'r rhif yma, roedd neges wedi ei awtomeiddio yn cael ei chwarae yn hysbysebu'r achwynydd bod aelod o staff o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ceisio ei ffonio ac y byddai'r person hwnnw o'r Cyngor yn cysylltu eto maes o law. Roedd y neges yn cael ei rhoi yn Saesneg yn gyntaf ac yna yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn canfod fod y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y cyd-destun hwn gan fod y neges sydd wedi ei recordio i gyfarch person sy'n galw'r rhif llinell uniongyrchol hwn yn cael ei chwarae yn Saesneg yn gyntaf a bod felly rhaid aros cyn clywed y neges Gymraeg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73 (2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd for Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu a chydymffurfio a safon 20.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol wrecsam wedi methu a chydymffurfio a safon 20.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

			<p>Safon 20 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3) Mesur y Gymraeg</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o bob neges gan beiriant sy'n cyfarch galwyr ar eu rhifau llinell ffôn, a gweithredu ar ei ganfyddiadau i sicrhau nad yw'r cyfarchiad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</li> <li>2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1</li> </ol> <p>Amserlen: O fewn 8 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd Hysbysiad Penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 5 Chwefror 2020.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Gweinidogion Cymru</u></p>	<p>Ar 21 Medi 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynghylch gohebiaeth dderbyniodd yr achwynydd oddi wrth gynllun Arbed sy'n cael ei ddarparu gan 'Arbed am Byth' ar ran Gweinidogion Gymru. Honnai'r achwynydd bod yr ohebiaeth yma yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ddefnyddio cyfarchiad ("The Occupier" ) a chyfeiriad Saesneg yn unig ar yr amlenni a</p>	<p>16/3/2020</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 6: Os yw corff yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid iddo beidio â thrin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Roedd cwyn yr achwynydd ynghylch gohebiaeth a dderbyniodd gan gynllun Arbed am Byth ar ran Gweinidogion Cymru. Roedd y cyfeiriadau ar yr ohebiaeth yn cyfarch y derbynnydd yn Saesneg yn unig (the occupier) ac yn defnyddio cyfeiriad Saesneg yn unig. Roedd yr ohebiaeth hefyd yn cynnwys amlenni i ymateb gyda chyfeiriadau Saesneg yn unig. Rwyf yn canfod fod defnydd o gyfeiriadau a chyfarchiad Saesneg ar yr ohebiaeth gan Arbed am Byth yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r</p>

hefyd yn darparu amlenni gyda chyfeiriadau Saesneg ('Freepost') i ddychwelyd y ffurflenni ac ati. Honnai'r achwynydd yn ogystal bod ffurflen wedi ei chynnwys gyda'r ohebiaeth a bod y ffurflen honno yn cael ei darparu yn Saesneg yn unig.

Saesneg yn groes i ofyniad y safon. Safon 50: Rhaid i gorff sicrhau bod pob ffurflen y mae'n ei llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys unrhyw ffurflenni ysgrifenedig, boed yn electronig neu ar ffurf papur. Derbyniodd yr achwynydd ohebiaeth gan gynllun Arbed am Byth, ar ran Gweinidogion Cymru. Roedd yr ohebiaeth yn cynnwys ffurflen at ddefnydd y cyhoedd Saesneg yn unig. Rwyf yn canfod fod Arbed am Byth, ar ran Gweinidogion Cymru wedi llunio ffurflen Saesneg yn unig a'i anfon at y cyhoedd at eu defnydd.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safonau 6 a 50.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safonau 6 a 50.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6 - gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg Rwyf yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant i gydymffurfio â safon 6 rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Rhaid i'r cynllun gweithredu cynnwys camau sy'n arwain at ddefnydd o gyfeiriadau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ohebiaeth anfonwyd gan Arbed am Byth.

Rhaid i'r cynllun gweithredu cynnwys camau sy'n arwain at ddefnydd o amlenni ymateb nad yw'n trin y Gymraeg yn llai na'r Saesneg ar gyfer cynllun Arbed am Byth.

Rhaid i'r cynllun gweithredu cynnwys amserlen bendant ar gyfer cyflawni'r camau hyn.



Gweinidogion  
Cymru

Ar 2 Hydref 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod cyfrif 'Twitter' y Prif Weinidog (@FMWales) wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r cyfrif hwn o dan gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru. Roedd yr achwynydd o'r farn fod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y cyfrif gan ei fod wedi hoelio neges ('Pinned Tweet') Saesneg yn unig i frig y cyfrif ar 2 Hydref 2019. Ar 23 Hydref 2019 ychwanegodd yr achwynydd honiad bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy gynnwys 'trydariad' yn Saesneg yn unig.

16/3/2020

Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 16/03/2020.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 58: Rhaid i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniais gŵyn yn honni bod Gweinidogion Cymru wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar gyfrif cymdeithasol 'Twitter' @FMWales drwy hoelio neges Saesneg yn unig ar frig y dudalen ac mewn neges Saesneg yn unig mewn sgwrs ynghylch cyfarfod y Prif Weinidog gyda Prif Weinidog yr Alban. Yn ogystal ystyriaes weithrediad Gweinidogion Cymru o'r cyfrwng cymdeithasol yn dilyn cyngor a roddais iddynt yn y cyd-destun hwn yn dilyn terfynu ymchwiliad blaenorol. Yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth yr achwynydd a Gweinidogion Cymru rwyf yn canfod fod elfennau o ddefnydd o'r cyfrwng cymdeithasol hwn wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 58.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 58.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**



			<p>Safon 58 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3) Mesur y Gymraeg</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod eu phenderfyniad i beidio defnyddio'r opsiwn i hoelio negeseuon ar 'Twitter' yn cael ei fabwysiadu yn ei ganllaw i'w swyddogion a rhaid sicrhau fod y canllaw yn cael ei rannu gyda phob swyddog sy'n gyfrifol am gyhoeddi cynnwys ar gyfrifon 'Twitter' Gweinidogion Cymru.</li> <li>2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.</li> </ol> <p>Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 16/03/2020.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Prif Gwnstabl</u> <u>Heddlu</u> <u>Gogledd</u> <u>Cymru</u></p>	<p>Ar 10/07/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Aeth swyddogion yr Heddlu i gartref yr achwynydd i arestio ei fab 15 oed. Derbyniwyd cwyn yn honni bod yr achwynydd, Mr T heb dderbyn y rhybuddiad yn Gymraeg wrth gael ei arestio. Mae'r honiadau'n ymwneud â:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>i) chais gan yr unigolyn i gael ei hawliau wedi eu hadrodd yn Gymraeg</li> </ol>	<p>13/3/2020</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 26: Nid yw'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i heddweision roi rhybuddiad o arestiad yn Gymraeg. Mae safon 26 yn gofyn i gorff sicrhau, wrth ei wneud yn ofynnol i Mr T fynd i gyfweiliad, ofyn a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad gan ddarparu gwasanaeth cyfieithu pe bai angen. Gan fod y cyfweiliad wedi ei gynnal yn Gymraeg, rwy'n casglu fod y cynnig hwnnw wedi ei wneud a bod yr heddweision wedi mynd ati i gynnal y cyfweiliad yn Gymraeg.</p> <p>Safon 48: Mae safon 48 yn gofyn i gorff lunio unrhyw ffurflen at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg. Roedd testun Saesneg yn ymddangos ar y</p>

wrth gael ei arestio, ac i Arolygydd A ateb “No, you understand”. ii) Wedi iddo gael ei gyfweld yn Gymraeg yn Swyddfa'r Heddlu Caernarfon yn dilyn ei arestio, derbyniodd y daflen gyhuddo/ffurflen mechnïaeth yn cynnwys y Saesneg. iii) Gofynnodd am dderbyn y cyhuddiad ar bapur yn Gymraeg. Honnwyd iddo gael ei roi mewn cell i aros am chwarter awr. iv) Gofynnodd unwaith yn rhagor am dderbyn y daflen gyhuddo / ffurflen fechnïaeth yn Gymraeg, ac fe'i rhoddwyd yn y gell am chwarter awr bellach cyn derbyn papurau yn ddwyieithog.

cyhuddiad a'r ffurflen fechnïaeth Gymraeg a dderbyniodd Mr T, a bu oedi cyn iddo dderbyn y cyhuddiad a'r ffurflen fechnïaeth yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant i gydymffurfio â safon 48.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 6 a 26 ond bod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 6 a 26 ond bod Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 26 – cyngor yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg 1. Rwy'n cynghori Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i dynnu sylw Heddweision at y deunydd sydd yn y llyfryn nodiadau pceder mwy sicrhau eu bod yn gyfarwydd a'r geiriad, a'u bod yn gwybod ble i ddod o hyd iddo. Safon 48– gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg 2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru sicrhau bod pob elfen o'r daflen gyhuddo, a'r ffurflen fechnïaeth yn cydymffurfio â gofynion safon 48. 3. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG625 Ar 30 Awst 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gwyn ynghylch cyfrif Instagram @datblygiadgweledigabertawe (noder fod camsillafiad yn enw'r cyfrif). Cyngor Abertawe sy'n gyfrifol am y cyfrif hwn. Mae'r achwynydd yn honni i aelod o staff y Cyngor ymateb gyda sylwadau sarhaus am y Gymraeg i sylwadau a chwestiynau anfonodd yr achwynydd at y cyfrif hwn. Honnir hefyd y cafodd ymateb Saesneg yn unig i neges anfonodd yn Gymraeg, cyn cael neges Gymraeg yn ymddiheuro maes o law. Mae'r achwynydd hefyd yn cyflwyno cwyn ynghylch yr oedi a brofodd wrth gyflwyno cwyn i'r Cyngor am y mater yma. Mae'r achwynydd yn honni iddi aros dros wythnos am ymateb i gŵyn anffurfiol a gyflwynodd yn y Gymraeg at y cyfrif Instagram, ond ei bod wedi cael ateb o fewn awr pan gyflwynodd

6/3/2020

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar 13/03/2020.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Os yw corff yn cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid i'r corff ateb yr ohebiaeth yn Gymraeg (os oes angen ateb). Roedd yr achwynydd yn yr achos hwn wedi cyflwyno cwyn ffurfiol i'r Cyngor yn Gymraeg. Bu iddi dderbyn ymateb yn Gymraeg ar ôl cyfnod o ddau fis ar ôl profi oedi oherwydd absenoldeb staff nad oedd wedi rhagweld. Rwy'n canfod yn yr achos hwn y bod y Cyngor wedi ymateb i ohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg, ond bod yr achwynydd wedi profi oedi cyn derbyn yr ymateb hwn. Safon 58: Rhaid i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniais gŵyn ynghylch un o gyfrifon Instagram y Cyngor. Rwyf yn canfod yn yr achos hwn bod y cyfrifon dan sylw bellach wedi eu cau, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyhoeddi cynnwys ar y cyfrifon hyn. Safon 59: Rhaid i gorff ateb person yn Gymraeg (os oes angen ateb) os yw'r person wedi cysylltu ag ef drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg. Cyflwynodd yr achwynydd sylwadau yn Gymraeg i neges ar Instagram oedd yn cael ei rhedeg gan Gyngor Abertawe. Ymatebodd swyddog ar ran y Cyngor yn Saesneg yn unig i'r sylw hwn yn groes i ofynion y safon. Safon 156: Rhaid i gorff sicrhau bod ganddo weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion canlynol: sut y mae'n bwriadu delio â chwynion ynglŷn â

gwyn yn Saesneg. Mae'r achwynydd hefyd yn nodi iddi gyflwyno cwyn ffurfiol at y Cyngor am y mater, a'i bod yn honni iddi profi oedi gan fod y gwyn wedi ei gyflwyno yn Gymraeg.

chydymffurfio gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy; sut y bydd yn darparu hyfforddiant i'w staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny. Yn yr achos hwn roedd yr achwynydd wedi profi oedi wrth dderbyn ymateb i'w chwyn i'r Cyngor. Rwyf yn canfod nad yw weithdrefn cwyno'r Cyngor yn glir o ran sut mae am ddelio gyda chwynion ynghylch gwasanaethau Cymraeg nag yn cyfeirio yn benodol gyda gofynion y safon hon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 58 ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â safon 59 ac 156.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 58 ond bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â safon 59 ac 156.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach ble nad oedd methiant.

Safon 1 – rhoi argymhellion yn unol ag adran 76(3) Mesur y Gymraeg Dylai Cyngor Abertawe ddatblygu trefniadau i sicrhau nad yw absenoldebau staff yn amharu ar ei allu i sicrhau fod ansawdd gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr y Gymraeg yn gyfartal â'r gwasanaeth a ddarperir i ddefnyddwyr y Saesneg.

Safon 58 – rhoi argymhellion yn unol ag adran 76(3) Mesur y Gymraeg Dylai Cyngor Abertawe: (a) cynnal arolwg er mwyn canfod pa gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y mae'n gyfrifol amdanynt. (b) adnabod pob cyfrif a pha swyddog sy'n gyfrifol am gyhoeddi cynnwys ar y cyfrif. (c) sicrhau bod bob un o'r swyddogion sy'n gyfrifol am gyhoeddi cynnwys yn derbyn dogfen gyngor sy'n amlinellu'n glir gofynion safon 58 a chyfrifoldebau'r swyddog ynghylch cydymffurfio â safon 58.

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae manylion y gweithredu pellach isod.

Safon 59 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Abertawe ddatblygu canllaw sy'n amlinellu'n glir sut y dylai ei swyddogion ymateb i gysylltiadau maent yn eu derbyn drwy ei gyfryngau cymdeithasol er mwyn cydymffurfio â gofynion safon 59.
2. Rhaid i Gyngor Abertawe sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am redeg cyfrifon cymdeithasol ar ran y Cyngor yn cael copi o'r canllaw.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 156 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Abertawe adolygu ei weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd a gofynion safon 156.
4. Rhaid i Gyngor Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 06/03/2020

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

CSG514 Ar 17/01/2019, 22/01/2019, a 31/01/2019 derbyniwyd gwynion gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys. Penderfynais gyfuno'r dair gŵyn unigol o dan y cyfeirnod CSG514. Roedd y cwynion yn cynnwys honiadau ynghylch yr isod: bod trwyddedau parcio a tacsis y Cyngor yn cynnwys testun uniaith Saesneg; bod arwyddion Saesneg 'Canton' yn unig wedi eu gosod ac nad yw'r Cyngor yn cydnabod mai Treganna yw'r enw swyddogol; i'r achwynydd dderbyn llythyr a thrwydded parcio uniaith Saesneg gan Adran Gwasanaethau Parcio'r Cyngor (er iddo honni ei fod wedi gwneud cais yn Gymraeg); nad oes datganiad yn nodi bod y Cyngor yn gwahodd ac yn derbyn ymateb yn Gymraeg ar ohebiaeth; nad yw'r Cyngor yn

14/2/2020

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Rwy'n canfod yr anfonodd y Cyngor ohebiaeth yn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth at yr achwynydd yn Saesneg yn unig. Roedd yr achwynydd wedi anfon y cais yn Gymraeg. Corff yr e-bost yn unig oedd yn cynnwys testun Cymraeg. Roedd yr ymateb ei hun oedd ynghlwm â'r e-bost yn ogystal â thestun yr e-bost yn Saesneg yn unig. Safon 5: Mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, wrth anfon gohebiaeth at berson, i anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno os nad ydynt yn gwybod bod y person hwn yn dymuno cael gohebiaeth Gymraeg. Yn yr achos hwn fe anfonodd y Cyngor ohebiaeth uniaith Saesneg at yr achwynydd ynghylch ei drwydded parcio. Nododd y Cyngor eu bod wedi anfon gohebiaeth Saesneg yn unig gan fod y porthol Saesneg wedi ei ddefnyddio gan yr achwynydd i wneud y cais am y drwydded parcio, a bod yr iaith y bydd yn anfon yr ohebiaeth yn ddibynnol ar iaith y porthol. Roedd yr achwynydd yn honni iddo wneud ei gais yn Gymraeg fodd bynnag a darparodd sgrin luniau i gefnogi hynny. Nid wyf yn ystyried bod modd i'r Cyngor wybod bod person yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg ai peidio ar sail yr iaith y mae'r defnyddiwr yn dewis

Cyngor  
Caerdydd

cydymffurfio â safonau'r Gymraeg mewn perthynas a'i adroddiad blynyddol. Honnai'r achwynydd nad yw cwyn y gwnaeth ei chyflwyno i'r Cyngor ym Medi 2017 wedi ei chynnwys yn adroddiad blynyddol y Cyngor am 2017-2018; bod yr achwynydd wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth a anfonwyd ganddo yn Gymraeg.

defnyddio'r porthol neu yn cwblhau'r ffurflen gais ynddi yn unig.

Safon 7: Mae safon 7 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys datganiad ar ohebiaeth, a chyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth at y corff yn nodi bod y corff yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fyddai hynny'n arwain at oedi. Yn yr achos hwn, fe wnaeth y Cyngor anfon gohebiaeth ynghylch trwyddedau parcio nad oedd yn cynnwys datganiad o'r fath.

Safon 42: Mae safon 42 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw drwyddedau neu dystysgrifau a fydd yn eu llunio yn cael eu llunio yn Gymraeg. Casglaf y derbyniodd yr achwynydd drwydded parcio gan y Cyngor ar ddau achlysur. Er bod peth manylion Cymraeg, roedd nifer o elfennau uniaith Saesneg. Mae'r Cyngor yn nodi i'r trwyddedau hynny gael eu hanfon yn Saesneg gan fod y cais wedi ei wneud gan ddefnyddio'r porthol Saesneg. Mae'r achwynydd yn honni iddo wneud ei gais yn Gymraeg a darparodd sgrin luniau i gefnogi hynny. Casglaf bod gofyniad i'w llunio yn Gymraeg bob tro, waeth beth fo dewis iaith yr achwynydd.

Safon 48: Mae safon 48 yn gosod gofyniad i sicrhau nad yw corff yn trin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfennau yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, boed os yw'r wybodaeth Saesneg ar yr un ddogfen, neu ar ddogfen ar wahân. Yn yr achos hwn fe dderbyniodd yr achwynydd, ar ddau achlysur, drwydded parcio a oedd yn cynnwys testun Saesneg yn unig. Roedd manylion 'Red Zone' a chyfeiriad yn Saesneg yn unig wedi ei gynnwys ar y trwyddedau. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod trwyddedau tacsis y Cyngor yn cynnwys y testun 'passengers' yn Saesneg yn unig, a bod

hologram 'bonded security' Saesneg yn unig. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod y testun ar ei drwyddedau tacsis bellach wedi ei gywiro a bod testun Cymraeg wedi ei gynnwys. Yn achos trwyddedau parcio, mae'r Cyngor yn darparu trwyddedau Cymraeg os yw'r defnyddiwr yn defnyddio'r porthol Cymraeg. Rwyf o'r farn bod peidio cynnwys yr holl destun ar drwyddedau parcio a tacsis yn Gymraeg yn groes i ofyniad safon 48 ac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cynnwys.

Safon 61: Mae'r safon hon yn gosod gofyniad i sicrhau bod unrhyw arwydd newydd, neu a adnewyddir (gan gynnwys arwyddion dros dro) yn cynnwys testun Cymraeg, boed os yw'r testun hwnnw ar arwydd sydd hefyd yn cynnwys testun Saesneg, neu ar arwydd ar wahân. Mae'r safon hefyd yn gosod gofyniad os yw'r testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Yn yr achos hwn, mae arwydd wedi ei osod fel rhan o waith gan ddatblygwyr allanol. Nid yw'r arwydd yn cynnwys enw cyfatebol o'r enw Saesneg 'Canton'. Rwyf yn ystyried er bod yr arwydd heb ei lunio gan y Cyngor, ac i ddatblygwyr allanol wneud hynny, ystyriaf bod hynny wedi ei wneud ar ran y Cyngor yn sgil y gwaith datblygu ar y ffordd. Ystyriaf o ganlyniad mai'r Cyngor sydd yn bennaf gyfrifol am yr arwydd, a sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi ei gynnwys arno yn gywir. Rwyf yn ystyried bod peidio darparu testun Cymraeg ar pob elfen o'r arwydd yn groes i ofyniad y safon drwy fod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cynnwys.

Safon 147: Gofyniad y safon hon yw i sefydliad gadw cofnod ar gyfer pob blwyddyn ariannol o nifer y cwynion y mae'n ei gael sy'n ymwneud â'u cydymffurfedd â'r safonau.



Fe ohebodd yr achwynydd â'r Cyngor am ei Hysbysiad tâl cosb a derbyniodd y Cyngor yr ohebiaeth honno ar 12/09/2017. Rwyf yn ystyried bod yr ohebiaeth honno yn cyfeirio at gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau. Nodwyd gan y Cyngor nad oedd wedi ystyried hyn i fod yn gŵyn gan iddo gael ei drin fel apêl yn unig, ac felly na chafodd ei gofnodi ar wahân fel cwyn. Rwyf yn ystyried y dylai'r Cyngor fod wedi ystyried yr ohebiaeth i fod yn gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau, ac felly bod y Cyngor wedi ymddwyn yn groes i ofynion safon 147 yn yr achos hwn wrth beidio eu cofnodi fel cwynion.

Safon 148: Gofyniad y safon hon yw i gorff gadw copi o unrhyw gwyn ysgrifenedig sydd yn ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau y mae'r corff hwnnw o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Fe ohebodd yr achwynydd â'r Cyngor am ei Hysbysiad tâl cosb a derbyniodd y Cyngor yr ohebiaeth honno ar 12/09/2017. Rwyf yn ystyried bod yr ohebiaeth honno yn cyfeirio at gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau. Rwyf o'r farn ei bod yn rhesymol casglu bod y Cyngor wedi cadw copi o'r gŵyn gan yr achwynydd gan ei fod wedi ei ystyried ac ymateb iddo fel rhan o apêl, er nad o reidrydd wedi ei chadw ar ffurf cwyn. Ystyriaf nad yw'r Cyngor wedi ymddwyn yn groes i safon 148 yn yr achos hwn. Safon 149: Gofyniad y safon hon yw i gorff gadw copi o unrhyw gwyn ysgrifenedig sydd yn ymwneud â'r Gymraeg. Sail y gwyn hon yw nad oedd cwynion yr achwynydd wedi ei gynnwys o fewn adroddiad blynyddol 2017-18 Cyngor Caerdydd. Fe ohebodd yr achwynydd â'r Cyngor ynghylch ei apêl Hysbysiad tal cosb a derbyniodd y Cyngor yr ohebiaeth honno ar 12/09/2017. Rwyf yn ystyried

bod yr ohebiaeth honno yn cyfeirio at gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Rwyf o'r farn ei bod yn rhesymol ystyried bod y Cyngor wedi cadw copi o'r ohebiaeth gan yr achwynydd gan ei fod wedi ei ystyried fel rhan o apêl, er nad o reidrwydd wedi ei chadw ar ffurf cwyn. Ystyriaf nad yw'r Cyngor wedi ymddwyn yn groes i safon 149 yn yr achos hwn.

Safon 158: Gofyniad safon 158 yw i gorff lunio adroddiad blynyddol yn Gymraeg sy'n delio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oedd dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Fel rhan o'r adroddiad hwnnw, mae'n ofynnol iddo gynnwys nifer y cwynion y cafodd yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae'r corff hwnnw dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Fe ohebodd yr achwynydd â'r Cyngor am ei Hysbysiad tâl cosb a derbyniodd y Cyngor yr ohebiaeth honno ar 12/09/2017. Rwyf yn ystyried bod yr ohebiaeth honno yn cyfeirio at gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Nid oedd y Cyngor wedi ystyried hyn i fod yn gŵyn gan iddo gael ei drin fel apêl yn unig, ac felly na chafodd ei gofnodi ar wahân fel cwyn. Rwyf yn ystyried y dylai'r Cyngor fod wedi ystyried yr apêl i fod yn gwynion hefyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau, ac felly y dylent fod wedi eu cynnwys yn nifer y cwynion a dderbyniodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn berthnasol o fewn adroddiad blynyddol y Cyngor.

Cam gorfodi CSG197: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i Gyngor Caerdydd sicrhau bod gan y Cyngor weithdrefnau cadarn mewn lle er mwyn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth mewn perthynas â cheisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbynnir

yn Gymraeg. Roedd y cam gorfodi hwn hefyd yn gosod camau i sicrhau nad oedd cais rhyddid gwybodaeth Cymraeg yn arwain at oedi i'r ymgeisydd, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ymdrin â'r ceisiadau hynny. Cafodd ymateb i gais rhyddid gwybodaeth cyfrwng Cymraeg ei anfon at yr achwynydd ar 31/01/2019 ac nid oedd yr holl destun yn cynnwys testun Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi cyfaddef ei fod wedi anfon ymateb Saesneg, ac ymhellach i hynny wedi rhoi camau mewn lle i atgoffa Swyddogion Achos bod angen brosesu ceisiadau rhyddid gwybodaeth Cymraeg yn briodol. Mae'r ohebiaeth a anfonwyd gan y Cyngor yn dangos methiant gan Gyngor Caerdydd i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 1, 5, 7, 42, 48, 61, 147, 158 (rhan 2) a cham gorfodi CSG197; a nad yw Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 148 ac 149.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 1, 5, 7, 42, 48, 61, 147, 158 (rhan 2) a cham gorfodi CSG197.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod pob elfen o ymateb i gais rhyddid gwybodaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei anfon yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 1, gan gynnwys sicrhau bod teitl pob gohebiaeth yn cynnwys testun Cymraeg.

2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi.  
Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 5 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Os nad yw'n ymwybodol o ddewis iaith person rhaid i'r Cyngor sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg am drwyddedau parcio yn cael ei hanfon hyd nes ei fod yn gwybod â sicrwydd nad yw'r person yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg.

4. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi. Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 7 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod datganiad yn unol â safon 7 yn cael ei ychwanegu ar unrhyw ohebiaeth trwyddedau parcio.

6. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Safon 42 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

7. Mae'n ofynnol i Gyngor Caerdydd sicrhau bod pob trwydded parcio yn cael ei llunio yn Gymraeg waeth beth

yw'r iaith sydd yn cael ei defnyddio i wneud y cais am drwydded..

8. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 48 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

9. Mae'n ofynnol i Gyngor Caerdydd sicrhau bod unrhyw destun sydd ar gael ar drwyddedau parcio a thacsi ar gael yn Gymraeg. 10. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi.

Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd ar gyfer trwyddedau tacsi, ac o fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd ar gyfer trwyddedau parcio.

Safon 61 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

11. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau nad yw'r arwydd ffordd sydd yn destun I Ymchwiliad CSG514 yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a bod unrhyw destun sydd yn cael ei arddangos ar yr arwydd ar gael yn Gymraeg pan fo enw Cymraeg ar gael.

12. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod arwyddion yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg pan fo trydydd partion yn llunio'r arwyddion hynny ar ei ran, gan sicrhau bod gweithdrefnau clir yn cael eu llunio at y diben hwnnw.

Dylai'r weithdrefn hon gynnwys gwybodaeth am y meysydd i'w gwirio o ran y Gymraeg ar yr arwyddion hynny.

13. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2.

Amserlen: Cam gorfodi 11 – o fewn 4 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Cam gorfodi 12 – o fewn 2 fis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 147 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

14. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod ganddo brosesau cadarn i sicrhau ei fod yn cadw cofnod o bob cwyn y mae'n ei gael sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau, gan gynnwys cwynion a wneir tu allan i'r broses gwyno gorfforaethol.

15. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod holl staff y Cyngor yn ymwybodol o'r prosesau hynny. 16. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 14 – 15.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 158 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

17. Mae'n rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod y nifer cywir o'r holl gwynion yn ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn cael eu gynnwys yn ei adroddiad blynyddol yn unol â rhan (2) safon 158.

18. Mae'n rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod ganddo brosesau clir mewn lle er mwyn sicrhau bod pob cwyn am gydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

19. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod holl staff y Cyngor yn ymwybodol o'r prosesau hynny.

20. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 18 – 19.

Amserlen: Bydd yn ofynnol i Gyngor Caerdydd weithredu ar gam gorfodi 17 erbyn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20. Mae'n rhaid gweithredu camau gorfodi 18-19 o fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Gofyniad i gymryd camau yn unol â hysbysiad penderfynu ymchwiliad CSG197 Yn achos fy nyfarniad fod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi ymchwiliad CSG197 ni fyddaf yn gweithredu ymhellach.

Rwyf o'r farn bod y camau gorfodi yr wyf eisoes wedi eu rhoi i'r Cyngor a'r camau gorfodi newydd mewn perthynas â safon 1 Safon 147 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

14. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod ganddo brosesau cadarn i sicrhau ei fod yn cadw cofnod o bob cwyn y mae'n ei gael sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth â'r safonau, gan gynnwys cwynion a wneir tu allan i'r broses gwyno gorfforaethol.

15. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod holl staff y Cyngor yn ymwybodol o'r prosesau hynny. 16. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n

bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 14 – 15.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 158 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

17. Mae'n rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod y nifer cywir o'r holl gwynion yn ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn cael eu gynnwys yn ei adroddiad blynyddol yn unol â rhan (2) safon 158.

18. Mae'n rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod ganddo brosesau clir mewn lle er mwyn sicrhau bod pob cwyn am gydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol.

19. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod holl staff y Cyngor yn ymwybodol o'r prosesau hynny.

20. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 18 – 19.

Amserlen: Bydd yn ofynnol i Gyngor Caerdydd weithredu ar gam gorfodi 17 erbyn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20. Mae'n rhaid gweithredu camau gorfodi 18-19 o fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd yn ddigonol ar gyfer atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Mae'r Cyngor yn ogystal wedi cyflwyno mesurau ychwanegol er mwyn sicrhau bod ceisiadau rhyddid gwybodaeth Cymraeg yn cael eu prosesu'n briodol .

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**



Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 14/02/2020

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor Dinas  
Casnewydd

CSG613 Ar 12/08/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniodd yr achwynydd hysbysiad addasiad treth y cyngor gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 12 Awst 2019. Roedd rhan fwyaf o'r ohebiaeth yn Saesneg yn unig ac ar waelod yr ohebiaeth roedd nodyn yn dweud "Mae'r Hysbysiad hwn ar gael yn Gymraeg ar gais".

5/2/2020

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Mae safon 5 yn gofyn i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth pan maent yn anfon fersiwn Saesneg os nad ydynt yn gwybod nad yw unigolyn yn dymuno derbyn fersiwn Gymraeg. Yn yr achos yma roedd y Cyngor yn gwybod bod yr achwynydd yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg ond er gwaethaf hynny fe anfonwyd yr ohebiaeth yn Saesneg yn unig. Nid yw'r Cyngor yn anfon gohebiaeth Gymraeg i unigolion os nad ydynt wedi gofyn yn benodol am ohebiaeth Gymraeg. Gan bod y Cyngor wedi anfon yr ohebiaeth yn Saesneg yn unig at yr achwynydd oedd yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg ac at unigolion eraill heb wybod nad oeddynt yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg ai pheidio rwy'n dyfarnu na wnaeth y Cyngor gydymffurfio â safon 5 yn yr achos yma.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu cydymffurfio â safon 5.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu cydymffurfio â safon 5.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 5: Safon 5 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff o'r angen i anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad yw dewis iaith y derbynnydd wedi ei sefydlu.

2. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd gynnal adolygiad o lythyrau safonol Adran Dreth y Cyngor a gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 5 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3) Mesur y Gymraeg.

3. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 5 mewn perthynas â'r ddogfen 'Council Tax Adjustment Notice'. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf a darparu copi i mi o fewn 3 mis. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

4. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi [1 – 3].

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 05/02/2020

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

CSG578 Ar 3 Mehefin 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo barcio ei gar ger neuadd Brangwyn, Abertawe ar 13 Ebrill 2019. Honnai: i) fod rhan helaeth o'r Gymraeg ar yr arwydd yn y maes parcio wedi ei orchuddio dan arwydd newydd neu dros dro, ond bod y fersiwn Saesneg yn parhau i fod yn weladwy. ii) fod enw'r maes parcio yn Gymraeg ar ben yr arwydd – sef Glan y Mor, yn wahanol i'r enw ar yr arwydd dros dro, sef Blaendraeth. iii) fod yr hysbysiad tâl cosb yn cynnwys enw'r maes parcio yn Saesneg yn unig ar y fersiwn Gymraeg, a bod y Gymraeg yn ymddangos ar ôl y Saesneg ar gefn y ddogfen. iv) wedi iddo apelio yn erbyn y ddirwy drwy ddefnyddio ffurflen ar-lein ar wefan y Cyngor, cafodd yr achwynydd dderbynneb e-bost. Roedd y dderbynneb Gymraeg yn cynnwys penawdau ac ymadroddion Saesneg. v) fod yr apêl wedi ei gyfieithu i'r Saesneg, ac mai rhannau Saesneg o'r hysbysfwrdd yn unig sydd wedi eu gwirio. Mae'r hysbysfwrdd yn y maes parcio yn nodi

22/1/2020

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn dderbynneb apêl ar e-bost, a llythyr. Roedd y dderbynneb apêl Gymraeg yn cynnwys testun Saesneg, ac o ganlyniad yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Mae'r llythyr yn cynnwys testun Cymraeg ac er y ceir dryswch bod enw'r maes parcio a gofnodwyd yn y llythyr yn wahanol i'r enw a ddefnyddiwyd ar yr hysbysfwrdd, nid yw'n arddangos methiant i gydymffurfio â safon ond yn hytrach yn flerwch gweinyddol gan y Cyngor. Safon 48: Mae safon 48 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio dogfen, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ddogfen hysbysiad tâl cosb ddwyieithog oedd yn cynnwys enw'r maes parcio dan sylw yn Saesneg yn unig. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 48. Safon 50B: Mae safon 50B yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio ffurflen, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ffurflen hysbysiad tâl cosb ddwyieithog oedd yn cynnwys enw'r maes parcio dan sylw yn Saesneg yn unig. Lluniodd y Cyngor ffurflen apêl i'w hanfon ar ffurf e-bost a oedd yn cynnwys pennawd, is-benawdau ac ymadroddion Saesneg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 50B. Safon 61: Mae safon 61 yn gofyn i gorff sy'n gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd i sicrhau bod unrhyw

Blaendraeth ar yr hysbysiad dros dro a Glan y Mor ar yr hysbysiad parhaol, ac mae'r Hysbysiad Tâl Cosb a dderbyniodd yr achwynydd yn nodi "The Baths Car Park" yn Saesneg yn unig. vi) Defnyddiwyd tri enw gwahanol ar yr un maes parcio.

destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd yn Gymraeg, ac i beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Gosododd Cyngor Abertawe arwydd dros dro a oedd yn cuddio rhan helaeth o'r testun Cymraeg ar arwydd parhaol ym maes parcio Blaendraeth. Ryw'n canfod fod hyn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon 61.

Safon 62: Mae safon 62 yn gofyn i gorff sy'n gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd i sicrhau bod y testun Cymraeg wedi ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Gosododd Cyngor Abertawe arwydd dros dro ar ran isaf arwydd parhaol, a oedd yn cuddio rhan helaeth o'r testun Cymraeg ym maes parcio Blaendraeth. Roedd y Saesneg i'w weld yn flaenllaw ar ran isaf yr arwydd. Ryw'n canfod fod hyn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â safon 62.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Abertawe wedi methu cydymffurfio â safonau 6, 48, 50B, 61 a 62.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Abertawe wedi methu cydymffurfio â safonau 6, 48, 50B, 61 a 62.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Abertawe gynnal arolwg er mwyn adnabod pob neges awtomataidd a anfonir gan yr adran Priffyrdd a Chludiant a chymryd camau i sicrhau bod pob neges e-bost awtomataidd a anfonir mewn ymateb i negeseuon yn Gymraeg, yn cael eu hanfon yn Gymraeg,

ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn gohebiaeth.

2. Rhaid i Gyngor Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 48 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Abertawe addasu'r ddogfen Hysbysiad Tâl Cosb i gwrdd â gofynion safonau'r Gymraeg. Pan fydd enw Cymraeg ar faes parcio, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr enw hwnnw'n cael ei arddangos ar yr hysbysiad.

4. Rhaid i Gyngor Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 3.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 61 –Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i Gyngor Abertawe lunio canllaw i dynnu sylw staff yr adran Priffyrdd a Chludiant sy'n gyfrifol am lunio a gosod arwyddion newydd neu adnewyddu arwyddion o ofynion safonau'r Gymraeg.

6. Rhaid i Gyngor Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Abertawe ar 22/01/2020

CSG582 Ar 23 Mehefin, 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag arwydd oedd yn ymddangos fel un oedd yn perthyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor). Disgrifiodd yr arwydd fel arwydd ffordd parhaol nad oedd yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg, nag ychwaith ofynion perthnasol a osodwyd ar y Cyngor yn sgil ymchwiliad blaenorol gan fy rhagflaenydd. Rhif cyfeirnod yr ymchwiliad hwnnw oedd CSG237. Roedd yr arwydd wedi ei leoli ar y B5605 ar y ffordd i Riwabon o gyfeiriad Johnstown. Arwydd electronig oedd yn atgoffa gyrwyr mai 30mya yw'r terfyn cyflymder. Yn ôl y dystiolaeth roedd testun Saesneg yr arwydd, SLOW, wedi ei osod uwchben y testun Cymraeg, ARAF, yn groes i ofynion y safonau.

17/1/2020

## Apelau a wnaed i'r tribiwnlys

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 62: Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw arwydd sy'n cael ei osod ganddo ar ôl y diwrnod gosod yn cydymffurfio hefo gofynion safon 62. Mae hynny'n golygu bod rhaid i destun Cymraeg yr arwydd gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Gosododd y Cyngor arwydd ffordd ar y B5605 ar 4 Ebrill, 2017, ar ôl y diwrnod gosod. Roedd testun Cymraeg yr arwydd hwnnw wedi ei roi mewn safle fel nad hwnnw oedd yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio hefo gofynion y safon.

### Dyfarniad y Comisiynydd

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 62.

Datganiad gweithredu pellach

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 62.

### Datganiad ar y gweithredu pellach

Safon 62 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag isadran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg.

1. Rhaid i'r Cyngor adnabod pob arwydd o'r math hwn y mae'n gyfrifol amdano o fewn ardal y fwrdeistref.
2. O'r arwyddion a adnabuwyd ganddo fel rhan o gam gorfodi 1, rhaid i'r Cyngor adnabod pa rai a osodwyd ar ôl 30 Mawrth, 2016.

3. Rhaid i'r Cyngor ymchwilio i'r posibilrwydd o newid trefn testun yr arwyddion a adnabuwyd ganddo fel rhan o gam gorfodi 2.

4. Os yw'r Cyngor yn canfod bod modd newid trefn testun yr arwyddion rhaid iddo wneud hynny, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, er mwyn sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw oedd yn debygol o gael ei ddarllen gyntaf.

5. Os yw'r Cyngor yn canfod nad yw'n bosib newid trefn testun yr arwyddion a adnabuwyd ganddo fel rhan o gam gorfodi 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio hefo'r safon rhaid i'r Cyngor eu tynnu a'u disodli.

6. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-5.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

7. Dylai'r Cyngor ddiwygio'r ddogfen 'Safonau'r Iaith Gymraeg: Canllawiau ar gyfer arwyddion dwyieithog cywir' er mwyn sicrhau ei fod yn rhybuddio'n erbyn ail-osod arwyddion a gynhyrchwyd cyn i'r safonau ddod i rym nad ydynt yn cydymffurfio hefo'r gofynion.

8. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 7.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 17/01/2020

### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys



Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG470 Derbyniwyd dwy gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch materion yn ymwneud â chynnig Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre (YGG Felindre). Derbyniwyd y gŵyn gyntaf ar 6 Rhagfyr 2018. Mae'n yn ymwneud â'r modd y cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar y cynnig i gau'r ysgol. Derbyniwyd yr ail gŵyn ar 7 Ionawr 2019. Mae'n ymwneud â diffygion honedig yn y modd yr aseswyd effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r achwynydd yn honni: 1. na wnaeth y Cyngor gynnal ymgynghoriad priodol am nad oedd y dogfennau ymgynghori yn ystyried nac yn ceisio barn ynghylch sut y byddai'r penderfyniad yr ymgynghorwyd arno'n effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. 2. fod y Cyngor wedi methu ag ymateb yn briodol i sylwadau a gyflwynwyd am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad. 3. fod dogfennau'r ymgynghoriad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y gofod a roddwyd ar gyfer cynnwys

16/1/2020

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 48: Yn dilyn ystyried a chymharu'r ffurflenni ymateb, dof i'r casgliad bod y bylchau ar gyfer llunio ymateb ysgrifenedig yn y ffurflen copi caled yn llai yn y fersiwn Gymraeg na'r fersiwn Saesneg. Nodaf nad yw'r gwahaniaeth ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn un sylweddol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi gasglu, pe bai unigolyn yn dymuno cwblhau'r ffurflen copi caled (yn hytrach nac un electronig), yna nid yw'r llinellau sydd wedi eu darparu ar y fersiwn Gymraeg yn cynnig llawer o le i geisio ysgrifennu ymateb llawer mwy nag un brawddeg o hyd. Yn sicr byddai'n rhwyddach ysgrifennu yn y blwch ar y fersiwn Saesneg sydd yn cynnig mwy o le i lunio ymateb. Credaf bod y ffaith bod y bylchau i lunio ymateb yn y fersiwn Gymraeg yn llai na'r bylchau cyfatebol yn y fersiwn Saesneg, yn golygu bod unigolyn oedd yn dymuno ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio copi caled o'r ffurflen Gymraeg o dan anfantais. Safon 52: Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth sydd wrth law, mae'n amlwg bod gwrthdaro yn yr hyn y mae'r achwynydd yn honni a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor. Er hynny, mae'n rhaid i mi ddyfarnu a gydymffurfio y Cyngor â'r safon ai peidio. Yn absenoldeb tystiolaeth digamsyniol sy'n profi nad oedd copi Cymraeg o'r Aseiad Effaith Iaith Gymraeg wedi bod ar gael ar y wefan trwy gydol yr ymgynghoriad, yr unig gasgliad y gallaf ddod iddo yw nad yw'r Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safon. Safonau 88, 89 a 90: Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i mi gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'n ymddangos i mi fod y Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig i gau YGG Felindre ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor wedi cyfeirio sawl tro ac mewn sawl dogfen bod y cynnig yn rhan o'r Cynllun



ymateb i rai cwestiynau yn llai yn y fersiynau Cymraeg o'u cymharu â'r fersiynau Saesneg. 4. Na chyhoeddwyd yr asesiad ar addysg Gymraeg ar dudalennau Cymraeg y gwefan y Cyngor yn ystod y broses ymgynghori. 5. Na wnaeth y Cyngor gynnal asesiad priodol o effaith y penderfyniad i gau'r ysgol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymuned yr ysgol, ac nad yw'r asesiad o'r effaith ar addysg Gymraeg yn cwrdd gofynion safonau'r Gymraeg sydd wedi eu gosod ar y Cyngor wrth iddynt lunio, adolygu neu addasu polisi. Ar 21 Mehefin 2018 cymeradwyodd Gabinet y Cyngor argymhelliad i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig i gau YGG Felindre. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig rhwng Medi a Hydref 2018. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r cynnig i gau YGG Felindre (yn weithredol o 31 Awst 2019). Cynigir bod y dalgylch ysgol presennol yn cael ei drosglwyddo i Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw fel yr ysgol agosaf nesaf, oni bai bod cynnig ar wahân i adleoli Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan i leoliad newydd yn cael ei gymeradwyo, ac os felly honno fyddai'r ysgol agosaf fyddai'n

Strategol y Gymraeg mewn Addysg sydd yn cynllunio ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth a gefais fel rhan o'r ymchwiliad wedi fy narbwyllo bod yr un sylw a'r un ystyriaeth wedi ei roi i effaith y penderfyniad ar y Gymraeg mewn cyd-destun ehangach. Mae'n glir fod y Cyngor wedi cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg cyn y broses ymgynghori, a'u bod wedi ailymweld â'r ddogfen honno i'w diwygio yn sgil ymgynghori ar y cynnig. Mae'n glir hefyd fod ystyriaeth wedi ei roi i'r effaith ar y Gymraeg mewn dogfennau eraill, megis yr asesiad effaith cydraddoldeb a'r asesiad effaith cymunedol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ystyried i ba raddau yr oedd yr asesiadau hynny, gyda'u gilydd, yn ystyrllon ac yn ddigonol i sicrhau bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â gofynion ac amcanion y safonau llunio polisi. Mae'r achwynydd yn honni bod gan yr ysgol rôl allweddol mwyn cynnal y Gymraeg yn yr ardal ac wrth gynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. O edrych ar ofynion y safonau, mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried i ba raddau y mae'r cynnig yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi treftadaeth a diwylliant yr ardal mewn perthynas â'r Gymraeg. Yr wyf eisoes wedi trafod cynnwys y ddogfen Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ym mharagraffau 2.33 i 2.37. Tynnais sylw at y ffaith mai dim ond 2 baragraff allan o'r 19 oedd yn trafod effaith ar y Gymraeg. Casglaf bod paragraffau 1 i 16 yn trafod y rhesymau a arweiniodd at y penderfyniad i gynnig cau YGG Felindre, yn hytrach na'u bod yn cynnig asesiad trylwyr o effaith y penderfyniad. Mae'r paragraffau clo yn casglu bod y Cyngor yn credu y byddai'r cynnig yn arwain at effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r Gymraeg yn ardal Abertawe, er nad oes

derbyn y disgyblion o ddalgylch YGG Felindre. Ar 20 Rhagfyr 2018 cymeradwyodd Cabinet y Cyngor argymhelliad i gyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y bwriad i gau YGG Felindre. Ar sail ystyried yr uchod â'r safonau gosodedig (Atodiad A), yr oeddwn o'r farn bod y cynnig a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori yn debygol o gael effaith ar y Gymraeg. Roedd yma hefyd amheuaeth nad oedd asesiad priodol wedi ei gynnal ar effaith posib y cynigion ar y Gymraeg. Penderfynais felly gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn dyfarnu â fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau a bodloni ei hun bod unrhyw benderfyniadau polisi a wneir ganddo (ynghyd â'r broses o'u llunio ac unrhyw ymgynghoriadau arnynt) yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau neu ddeddfau sy'n berthnasol. Bwriad fy ymchwiliad yn yr achos hwn yw dod i benderfyniad ynglŷn â p'un a yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth gyrraedd ei benderfyniad. Ble mae penderfyniad polisi eisoes wedi ei wneud, nid yw'n agored i mi ei wneud yn ofynnol i'r

unrhyw dystiolaeth gadarn yn cael ei gyflwyno i gefnogi hynny. Nid yw'r asesiad yn ystyried effaith posibl ar y Gymraeg o fewn y gymuned nac yn ystyried unrhyw effeithiau y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol. Nid yw'r asesiad yn ystyried y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a chyfraniad yr ysgol at hynny. Byddwn wedi disgwyl gweld data neu wybodaeth fyddai'n dystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried demograffeg ieithyddol yr ardal a'u bod wedi craffu a phwyso a mesur effaith cau'r ysgol ar arferion ieithyddol y bobol. Nid yw'n ddigonol bod y Cyngor yn casglu bod yr effaith yn "niwtral" heb hefyd gyflwyno dadleuon neu dystiolaeth i gefnogi hynny. Nid oes ychwaith unrhyw dystiolaeth o'r ddogfen Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, na'r dogfennau a'r asesiadau eraill a gynhaliwyd, fod y Cyngor wedi ystyried sut gellir llunio'r polisi neu'r cynnig fel ei bod yn cael effaith cadarnhaol neu llai andwyol ar y Gymraeg. Er bod y Cyngor wedi nodi bod y cynnig yn cael effaith "niwtral" ar y Gymraeg, mae gofynion safon 89 a 90 yn parhau'n berthnasol ac yn weithredol. Wrth gyflwyno ei chŵyn i mi, mae'r achwynydd wedi cyfeirio at y ffyrdd y mae'r ysgol yn cyfrannu at ffactorau cymunedol ehangach sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Eglura fod yr ysgol yn cyfrannu at gynnal yr iaith Gymraeg yn y pentref drwy roi'r cyfle i drigolion y pentref, disgyblion a'u rhieni ddod ynghyd i drefnu a chymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r enghreifftiau hynny'n cynnwys y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, eisteddfod y pentref, digwyddiad Cawl a Thwmpath dydd Gŵyl Dewi, cwrdd y cynhaeaf yn y capel, a'r ddrama Nadolig sy'n cael ei gynnal yn y pentref. Eglura'r achwynydd hefyd fod aelodau'r gymuned wedi bod yn weithgar wrth wirfoddoli i godi arian i'r ysgol ar gyfer adnoddau megis bws mini, adeiladu gofod

Cyngor ail wneud y penderfyniad hwnnw. Felly, mae'r camau yr wyf yn gofyn i'r Cyngor eu cymryd yn berthnasol i benderfyniadau a wneir yn y dyfodol yn unig, mewn perthynas â'r broses o ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ac ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgynghori ar y penderfyniadau hynny. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i'r Cyngor a'r achwynydd ar 21 Ionawr 2019. Rhoddais hysbysiad o gylch gorchwyl terfynol yr ymchwiliad ar 6 Chwefror 2019.

gwlyb a sych i'r disgyblion a datblygu gardd natur. Trefnwyd yn ogystal brosiectau gan aelodau'r gymuned ar gyfer galluogi plant y pentref i gystadlu yn eisteddfodau'r Urdd ac i gymryd rhan mewn prosiect dan nawdd y Cyngor Celfyddydau oedd yn ymwneud â hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol. Pe bai asesiad priodol o effaith y penderfyniad i gau'r ysgol ar y Gymraeg yn y gymuned wedi ei chynnal, fe fyddai'r Cyngor yn debygol o fod wedi dod yn ymwybodol o ddigwyddiadau megis rhain, ac wedi gallu gwneud asesiad o'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gweithgareddau, a dadansoddi'r effaith y byddai'r cau'r ysgol yn debygol o'i gael ar allu'r gymuned i barhau i'w cynnal yn sgil cau'r ysgol, neu i gynnal gweithgareddau cyffelyb fyddai'n eu galluogi i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg. Yna, ar sail yr asesiad, fe fyddai wedi bod mewn sefyllfa i ystyried pa gamau y gallai eu cymryd yn sgil gwneud asesiad o'r fath. Mae'r safonau yn ei gwneud yn agored i'r Cyngor i barhau gyda'r penderfyniad doed a ddêl neu, gall gasglu bod yr effeithiau andwyol mor sylweddol fel nad oes modd parhau gyda'r penderfyniad. Mae modd iddo hefyd barhau i wneud y penderfyniad mewn ffordd a fyddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif ar y Gymraeg na'r hyn yr arfaethwyd yn y lle cyntaf, neu wneud y penderfyniad gan gyflwyno mesurau lleddfu gyda'r bwriad o atal neu leihau effaith andwyol y penderfyniad. Y Cyngor ddylai ddod fyny â chynigion ar sut mae gwneud hynny. Heb asesiad, ymchwil a chanfyddiadau priodol, nid oes modd rhagweld beth allai cynigion o'r fath fod, ond fe allai'r enghreifftiau isod fod y mathau o bethau y gellir fod wedi eu hystyried mewn cymuned ble mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn rhan o wead y gymdeithas: • Ariannu mentrau neu weithgareddau dan arweiniad y fenter iaith • Sicrhau fod

cyfleusterau ac adnoddau'r ysgol yn parhau i fod ar gael i'r gymuned er mwyn, er enghraifft, fod yn fan cyfarfod neu'n ganolfan ar gyfer derbyn gwasanaethau lleol megis gwasanaeth llyfrgelloedd, mynediad i dechnoleg gwybodaeth ayb • Arweiniad neu gefnogaeth y Cyngor i'r gymuned er mwyn eu galluogi i sefydlu mentrau cymdeithasol er budd y gymuned. Gan ystyried paragraff 2.66 nid yw'n bosibl i Gomisiynydd y Gymraeg wybod beth allasai penderfyniad y Cyngor fod wedi bod pe bai wedi gweithredu yn unol a safonau'r Gymraeg. Yr unig gasgliad y gellir dod iddo yw y gallasai'r penderfyniad fod wedi bod yn wahanol i'r un a wnaed. Yn sgil yr uchod, yr wyf o'r farn nad oedd yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn ddigonol i gyflawni gofynion safonau 88, 89 a 90. Casglaf felly nad yw'r Cyngor wedi gweithredu gofynion safonau 88, 89 a 90 wrth wneud ei benderfyniad polisi i gau YGG Felindre. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried a nodi pa effeithiau y gall ei benderfyniad gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg nag i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydynt ychwaith wedi ystyried sut y gallant wneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif, neu llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Safonau 91, 92 a 93: Mae gofynion y safonau hyn yn glir. Wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori, mae'n rhaid ceisio barn am yr effeithiau posib y bydd y penderfyniad polisi dan sylw yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cydymffurfio â'r safonau, byddwn wedi disgwyl bod y dogfennau ymgynghori yn cynnwys adrannau penodol sydd yn annog personau i ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg ac i leisio barn ar sut y gellir llunio'r polisi fel ei fod yn cael

effaith mwy cadarnhaol neu llai andwyol ar y Gymraeg. I gyflawni hynny, dylid cynnwys cwestiynau penodol sydd yn gofyn am farn personau ar hynny. Yn wir, byddwn yn disgwyl i sefydliadau sydd yn ddarostyngedig i'r safonau i ddatblygu cyfres o gwestiynau safonol i'w cynnwys mewn templedi neu ddogfennau ymgynghori. Ni lwyddwyd i wneud hyn yn yr achos hwn. Casglaf nad oedd yr un o'r dogfennau oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau ynghylch unrhyw ystyriaethau pellach ar ba effaith y byddai penderfyniad i agor ysgol yn ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd ychwaith yn ceisio barn ar sut i wneud y penderfyniad yn un ble byddai yn cael effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd neu rhai llai andwyol. Credaf y dylai'r Cyngor fod wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth geisio barn ar effaith y cynnig ar y Gymraeg y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg. Er bod y Cyngor wedi derbyn sylwadau am yr effaith posib ar y Gymraeg, nid oedd hynny o ganlyniad i unrhyw ymdrech benodol gan y Cyngor. Yr wyf o'r farn nad yw'n briodol rhoi'r baich ar y gynulleidfa darged i gofio ystyried effeithiau posib penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Mae dyletswydd ar y Cyngor i gymell a sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy yn ystyried y Gymraeg, a'r dull arferol o wneud hynny, a'r mwyaf effeithiol yn fy marn i, yw drwy ofyn cwestiynau penodol yng nghorff y dogfennau ymgynghori neu'r ffurflenni ymateb. Yn ei ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys unrhyw gwestiynau penodol yn ymwneud ag effeithiau posib y cynnig ar y Gymraeg. O ganlyniad casglaf na wnaeth y Cyngor sicrhau bod y ddogfen ymgynghori yn ceisio barn

ynghylch effeithiau posib ar y Gymraeg yn unol â gofynion y safonau.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52 ond bod Cyngor Sir a Dinas Abertawe wedi methu cydymffurfio â safonau 48, 88, 89, 90, 91, 92 a 93.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 52 ond bod Cyngor Sir a Dinas Abertawe wedi methu cydymffurfio â safonau 48, 88, 89, 90, 91, 92 a 93.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 48 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer llunio dogfennau sy'n gwahodd ymateb i ymgynghoriad, gan weithredu ar ei ganfyddiadau, ble mae angen, i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amserlen: O fewn 8 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Safonau 88, 89 a 90 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau y tynnir sylw'r Cabinet at ddyfarniad a chanfyddiadau'r ymchwiliad hwn ar y graddau yr ystyriwyd yn ddigonol effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg.

3. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y

Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.

4. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.

5. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol.

6. Rhaid i'r Cyngor lunio canllawiau (neu adolygu ei ganllawiau presennol) i staff sydd yn gyfrifol am gynnal asesiadau effaith o benderfyniadau polisi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol yng nghyd-destun yr effaith posibl ar y Gymraeg. Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90 – Gofyniad i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg

7. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 trwy gyhoeddi'r



adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion ei wefan.

Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 88, 89 a 90 – Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg 8. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau drwy gymryd y camau canlynol:- cyhoeddi datganiad yn dweud fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safonau - cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad ar fy ngwefan. Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safonau 91, 92 a 93 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

9. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau y tynnir sylw'r Cabinet at ddyfarniad a chanfyddiadau'r ymchwiliad hwn ar y graddau y ceisiwyd barn mewn modd priodol a digonol yng nghyswllt y Gymraeg fel rhan o benderfyniad wnaed ganddo i gau YGG Felindre.

10. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu cyfres o gwestiynau safonol i'w ddefnyddio mewn dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi fel ei fod yn ceisio barn yn unol â gofynion safonau 91, 92 a 93.

11. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ei brosesau ar gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi, er mwyn sicrhau fod dogfennau ymgynghori'r dyfodol yn cydymffurfio â safonau 91, 92 a 93.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol Comisiynydd.



Safonau 91, 92 a 93 – Gofyniad i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(d) Mesur y Gymraeg  
12. Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 trwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion ei wefan.  
Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

13. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 12.

Amserlen: O fewn 16 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Safonau 91, 92 a 93 – Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â safonau yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

14. Byddaf yn rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 91, 92 a 93 drwy gymryd y camau canlynol:- cyhoeddi datganiad yn dweud fod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â'r safonau - cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymchwiliad ar fy ngwefan. Amserlen: O fewn 6 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 16/01/2020

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Sirol  
Wrecsam

gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo ymweld â derbynfa Tŷ Pawb ychydig wedi 13.30yp ar 11/04/2019 gan ddymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg. Honnai nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael iddo.

Safon 64: Mae safon 64 yn gofyn i unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg. Honnai'r achwynydd na chafodd wasanaeth derbynfa Cymraeg ychydig wedi 13.30yp ar 11/04/2019. Nododd y Cyngor iddo sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael i gyfarch mynychwyr yn y dderbynfa hyd 13.30yp, ond i'r achwynydd gyrraedd yn hwyr, ac i'r swyddog ymadael i fynychu'r cyfarfod. Wrth ystyried y dystiolaeth, casglaf fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu a chydymffurfio â gofynion safon 64 ar yr achlysur hwn.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 64.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 64.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 64 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau ei fod yn rhoi ar gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn barhaus yn Tŷ Pawb, er mwyn cydymffurfio gyda safon 64.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 20/12/2019

## Apelau a wnaed i'r tribiwnlys

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

CSG542 Ar 1/05/2019 a 3/06/2019 derbyniwyd gwynion gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion dilys. Mae'r achwynydd yn honni (P): honiad (i) - bod y Brifysgol wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei gwefan ar 01 Mai 2019, drwy beidio â chyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ffioedd dysgu (myfyrwyr Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd) ar gyfer 2019-2020 ar y dudalen Gymraeg (yn Gymraeg) ar y un pryd ag y gwnaeth gyhoeddi'r wybodaeth gyfatebol (yn Saesneg) ar y dudalen Saesneg gyfatebol; honiad (ii) – bod y Brifysgol wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriannau hunanwasanaeth ar gyfer dychwelyd llyfrau i lyfrgell Hugh Owen ar 15 Ebrill 2019, gan fod y peiriannau'n gweithredu'n Saesneg yn ddiodyn a gan fod rhaid cymryd camau ychwanegol o chwilio am y botwm 'Cymraeg', a phwyso'r botwm hwnnw, er mwyn i'r peiriannau weithredu'n

20/12/2019

## Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 55: Nid oedd y dudalen Gymraeg <https://www.aber.ac.uk/cy/postgrad/fees-finance/all-fees/> yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ganlynol yn Gymraeg ar 01 Mai 2019, er i'r dudalen Saesneg gyfatebol <https://www.aber.ac.uk/en/postgrad/fees-finance/all-fees/> gynnwys yr wybodaeth honno'n Saesneg: Ffioedd Dysgu (Myfyrwyr Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd) Rhaglenni Meistr a Ddysgir Trwy Gwrs ar gyfer 2019-2020; Ffioedd Dysgu (Myfyrwyr Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd) Rhaglenni Ymchwil ar gyfer 2019-2020. Roedd gofynion rhan (a) o'r safon yn golygu yr oedd rhaid i'r Brifysgol wneud yn siŵr bod pob tudalen ar wefan y Brifysgol ar gael yn Gymraeg ar y dyddiad dan sylw. Roedd hynny'n cynnwys sicrhau, os oedd tudalen Saesneg yn cynnwys testun penodol yn Saesneg, bod y dudalen Gymraeg gyfatebol hefyd yn cynnwys y testun cyfatebol yn Gymraeg. Oherwydd bod yr wybodaeth ddiweddaraf dan sylw, a oedd ar gael (yn Saesneg) ar y dudalen Saesneg, yn llwyr absennol o'r dudalen gyfatebol Gymraeg (yn Gymraeg), gwnaeth y Brifysgol fethu â chydymffurfio â rhan (a) o'r safon yn yr achos hwn. Rwyf hefyd yn canfod y gwnaeth y Brifysgol fethu â chydymffurfio â rhan (b) o'r safon yn yr achos hwn. Ni wnaeth sicrhau bod y dudalen Gymraeg ar ei gwefan yn gweithredu'n llawn ar 01 Mai 2019. Ni wnaeth sicrhau bod y dudalen Gymraeg yn gweithredu yn yr un modd neu gystal â'r fersiwn Saesneg o'r dudalen. Roedd hynny oherwydd nad oedd y dudalen

Prifysgol  
Aberystwyth

Gymraeg; a honiad (iii) - nad oedd gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael yn aml yn y dderbynfa ar Lefel D yn Llyfrgell Hugh Owen yn y cyfnod o gwmpas mis Mai 2019.

Gymraeg wedi'i diweddarau gyda'r wybodaeth ddiweddaraf fel ag yr oedd y dudalen Saesneg gyfatebol. Effaith hynny oedd bod y dudalen Gymraeg ond yn cynnwys wybodaeth ynghylch ffioedd dysgu oedd wedi dyddio. Hefyd, nid oedd y Brifysgol wedi sicrhau bod y dudalen Gymraeg wedi'i chyhoeddi gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn Gymraeg cyn neu ar yr un pryd ag yr oedd y dudalen Saesneg wedi'i chyhoeddi gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn Saesneg. Oherwydd hynny, rwyf yn casglu y gwnaeth y Brifysgol fethu â chydymffurfio â rhan (c) o'r safon yn yr achos hwn, drwy drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran pryd y cafodd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ffioedd dysgu ei chyhoeddi ar y dudalen Gymraeg o'i gymharu â phryd y digwyddodd hynny ar y dudalen Saesneg gyfatebol. Casglaf fod hyn wedi digwydd oherwydd nad oedd trefniadau a phrosesau gweinyddol y Brifysgol i ddiweddarau tudalennau gwe yn ddigonol i sicrhau: bod y Brifysgol yn cyhoeddi cynnwys ar y dudalen Gymraeg (yn Gymraeg) cyn neu ar yr un pryd â'r cynnwys cyfatebol (Saesneg) ar y dudalen Saesneg gyfatebol pob amser; nad yw'r Brifysgol yn cyhoeddi cynnwys ar y dudalen Saesneg (yn Saesneg) cyn cyhoeddi cynnwys cyfatebol (Cymraeg) ar y dudalen Gymraeg gyfatebol. Safon 64: Roedd y peiriant dychwelyd llyfrau i lyfrgell Hugh Owen y gwnaeth P ei ddefnyddio ar 15 Ebrill 2019 yn gweithredu'n Saesneg yn ddiodyn. Oherwydd hynny, roedd y rhyngwyneb Saesneg wedi'i wneud yn fwy amlwg i P na'r rhyngwyneb Cymraeg ar y peiriant dan sylw. Rwyf yn casglu felly bod y Brifysgol wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran amlygrwydd y rhyngwyneb Cymraeg yn yr achos hwn. Hefyd, gan mai iaith ddiodyn y peiriant oedd y Saesneg, roedd rhaid i P gymryd camau ychwanegol o fod yn chwilio

am, a phwyso'r botwm 'Cymraeg', i ddechrau defnyddio'r peiriant yn Gymraeg. Roedd rhain yn gamau ychwanegol na fuasai P wedi gorfod eu cymryd pe byddai wedi dewis defnyddio'r peiriant yn Saesneg. O'i gymharu â'r nifer o gamau y buasai personau a fyddai wedi dymuno defnyddio'r peiriant yn Saesneg wedi gorfod eu cymryd, roedd y Brifysgol wedi gorfodi P i gymryd camau ychwanegol i ddefnyddio'r peiriant yn Gymraeg. O ganlyniad, ystyriaf y gwnaeth y Brifysgol, yn yr achos hwn, drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran argaeledd y fersiwn Gymraeg o'r peiriant. Safon 68: Roedd rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa a oedd ar gael yn Saesneg yn y dderbynfa ar Lefel D yn Llyfrgell Hugh Owen yn ystod y cyfnod o gwmpas mis Mai 2019, hefyd ar gael yn Gymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Rwyf yn casglu y byddai "gwasanaeth derbynfa" ond wedi bod ar gael yn ystod y cyfnod hwnnw yn ystod yr oriau o 08:30 – 22:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio rhwng 09:00 – 10:00 ar ddydd Mercher lle nad oedd gwasanaeth o gwbl ar gael). Nid oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau â sicrwydd nad oedd y Brifysgol wedi rhoi gwasanaeth derbynfa ar gael yn Gymraeg i P ar unrhyw achlysur yn ystod yr oriau hyn, yn ystod y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, ystyriaf fod y gŵyn hon yn creu amheuon nad yw'r Brifysgol yn gallu sicrhau cydymffurfiaeth llawn â'r safon pob amser yn y dderbynfa dan sylw. Yn fwy penodol, ystyriaf fod y gŵyn wedi amlygu'r angen i'r Brifysgol wella ei threfniadau i sicrhau bod gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael yn y dderbynfa dan sylw yn ystod y cyfnodau canlynol: pan nad yw'r staff, sydd fel arfer yn gwasanaethu'r dderbynfa yn ystod oriau craidd, yn y swyddfa – ac felly - bod rhaid i'r Brifysgol ddewis o blith

staff eraill i gymryd lle'r aelodau staff hynny; yn ystod oriau y tu allan i oriau craidd, sef o 08:30-09:00 a 17:00-22:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Er mwyn sicrhau bod unrhyw wasanaeth derbynfa sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg ar unrhyw adeg, rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod aelodau staff sy'n gallu darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg ar gael pob amser, gan gynnwys yr adegau pan fo'r aelodau staff, sydd fel arfer yn gwasanaethu'r dderbynfa, yn absennol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prifysgol Aberystwyth wedi methu â chydymffurfio â safon 68 ond bod Prifysgol Aberystwyth wedi methu cydymffurfio â safon 55 a 64.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Prifysgol Aberystwyth wedi methu â chydymffurfio â safon 68 ond bod Prifysgol Aberystwyth wedi methu cydymffurfio â safon 55 a 64.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 55 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Brifysgol Aberystwyth ystyried ac addasu ei threfniadau a'i phrosesau gweinyddol ar gyfer diweddarau tudalennau gwe, er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cyhoeddi cynnwys ar y dudalen Gymraeg (yn Gymraeg) cyn neu ar yr un pryd â'r cynnwys cyfatebol (Saesneg) ar y dudalen Saesneg gyfatebol pob amser. Fel rhan o'r cam hwn, gall y Brifysgol ystyried priodoldeb gosod rhwystrau neu flychau atgoffa o fewn y System Rheoli Cynnwys i sicrhau'r uchod.

			<p>2. Rhaid i'r Brifysgol ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei bod wedi cwblhau camau gorfodi 1.</p> <p>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p>Safon 68 – cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg</p> <p>3. Dylai'r Brifysgol sicrhau bod unrhyw aelod staff, sydd wedi'i restru i fod yn gyfrifol am roi gwasanaeth derbynfa ar gael yn y dderbynfa ar Lefel D yn Llyfrgell Hugh Owen, yn gallu rhoi gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael yn unol â gofynion safon 68.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b></p> <p>Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Aberystwyth ar 20/12/2019</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b></p> <p>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Dinas</u> <u>a Sir</u> <u>Abertawe</u></p>	<p>CSG499 Ar 03/02/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Yn y gŵyn roedd yr achwynydd yn honni ei fod wedi derbyn e-bost Saesneg yn unig gan y Cyngor ar 24 Ionawr 2019. Roedd yr e-bost hwn yn holi am berfformwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn digwyddiad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Abertawe. Roedd yr achwynydd wrth gyflwyno'r gŵyn wedi nodi ei fod cyn hynny wedi anfon neges at y Cyngor</p>	<p>20/12/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 2: Rwy'n canfod nad gohebiaeth dyddiedig 24 Ebrill 2019 oedd y tro cyntaf i'r Cyngor ohebu â'r achwynydd ac felly nad oedd dyletswydd i ofyn yn benodol am ei ddewis iaith yn yr ohebiaeth hwnnw. Er bod y Cyngor eisoes yn ymwybodol o ddymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ganddo, yn yr achos hwn, ni lwyddodd y Cyngor i sicrhau bod cofnod o'r dymuniad hwnnw yn cael ei gadw. Ystyriaf bod methiant y tîm digwyddiadau i gadw cofnod o ddewis iaith yr achwynydd wedi arwain at y sefyllfa benodol hon, ac nad oedd modd felly i wybod os oedd yr unigolyn yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Effaith hynny yw bod y Cyngor hefyd wedi methu ag anfon gohebiaeth ddilynol at yr</p>

yn eu hysbysu am gig, gan nodi bod y neges honno yn Gymraeg, ac iddo dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y Cyngor yn ddiweddarach, heb gynnig gwasanaeth Cymraeg.

achwynydd yn Gymraeg, er eu bod yn ymwybodol mai dyna oedd ei ddymuniad. Rwy'n canfod felly bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â rhan a) a b) o'r safon ac felly ei fod wedi methu â chydymffurfio yn llawn â gofynion safon 2.

Safon 5: Mae safon 5 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff i ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad ydynt yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth ganddynt yn Gymraeg. Mae tystiolaeth y Cyngor yn awgrymu ei fod yn ymwybodol o ddewis iaith yr achwynydd cyn anfon yr ohebiaeth yn Saesneg ato ar 24/01/2019. Ymddengys bod y dystiolaeth a dderbyniwyd yn amlygu nad yw safon 5 felly yn berthnasol yn yr achos hwn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â rhan a) a b) o safon 2, ond heb fethu cydymffurfio â safon 5.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â rhan a) a b) o safon 2.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 2 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Mae'n rhaid i'r tîm digwyddiadau sicrhau bod ganddo broses mewn lle er mwyn cadw cofnod o unrhyw unigolyn sydd yn dymuno derbyn gohebiaeth ganddo yn Gymraeg.
2. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod holl swyddogion y tîm yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a bod yn ymwybodol o'r unigolion hynny sydd yn dymuno cael gohebiaeth Gymraeg, a sicrhau bod trefniadau digonol



			<p>mewn lle er mwyn sicrhau bod gan holl staff perthnasol fynediad at y wybodaeth honno wrth ohebu ag unigolion.</p> <p>3. Mae'n rhaid i dîm digwyddiadau'r Cyngor sicrhau eu bod yn anfon gohebiaeth yn Gymraeg ar bob achlysur at unrhyw unigolyn sydd wedi nodi ei fod yn dymuno cael gohebiaeth Gymraeg.</p> <p>4. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi [1 – 3] Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 20/12/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Sir Powys</u></p>	<p>CSG532 Mae Cyngor Sir Powys yn cynnig cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin a sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd ar safleoedd yr ysgolion presennol. Mae'r ysgol gynradd bresennol yn ysgol ddwyieithog dwy ffrwd, a'r ysgol uwchradd yn ysgol ddwyieithog categori 2C (sef eu bod yn cynnig ffrwd Gymraeg lle mae 50-79% o'r cwricwlwm ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg). Rhwng 27 Tachwedd 2018 a 31 Ionawr 2019 fe gynhaliodd Cyngor Sir Powys ymgynghoriad ar sefydlu'r ysgol</p>	<p>19/12/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safonau 88, 89 a 90: Mae'r safonau llunio polisi yn ymwneud â'r ffordd y mae corff yn ystyried effeithiau ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Mae angen i gorff ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad polisi i adrefnu ysgolion cymuned Llanfyllin, ac i gau'r ysgol gynradd ac ysgol uwchradd gyfredol ac agor ysgol pob oes ar yr un safle. Rwy'n canfod, nad oedd y Cyngor wrth wneud y penderfyniad polisi hwn, wedi ystyried yn ddigonol pa effeithiau byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael yn unol â gofynion y safon.</p>

newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin. Yn dilyn ymholiad gan aelod o'r cyhoedd ynghylch yr ymgynghoriad, edrychodd fy swyddogion ar y dogfennau oedd yn y pau cyhoeddus. Roedd yr adolygiad hyn creu amheuaeth nad oedd yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn unol â gofynion y safonau gan nad oedd y ddogfen ymgynghori a'r holiadur cysylltiedig yn ystyried yn ddigonol nac yn ceisio barn ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae dogfen o'r enw 'Updated Impact Assessments' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2019 ar gael ar wefan y Cyngor . Mae'n cynnwys asesiad effaith ar y Gymraeg yn ogystal ag asesiadau effaith ar faterion eraill. Nid oedd yn ymddangos fod yr asesiad wedi ystyried y materion sy'n ofynnol o'r safonau. Yr hyn a geir yn yr asesiad yw: o gwybodaeth am safonau llythrennedd a chyfathrebu o rhestr o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol o rhestr o weithgareddau Cymraeg eraill yr ysgol a'r gymuned o crynodeb o sylwadau'r ymgynghoriad ar effaith y penderfyniad ar y Gymraeg o ymateb

Safonau 91, 92 a 93: Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod dogfennau ymgynghori corff sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn ystyried ac yn ceisio barn gan bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio. Cyhoeddodd Cyngor Sir Powys ddogfen ymgynghori ar gyfer penderfyniad polisi arfaethedig i adrefnu ysgolion Llanfyllin gan agor ysgol pob oes ar safle'r ysgolion presennol. Rwyf yn canfod nad oedd y ddogfen ymgynghori yn ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg nac ychwaith yn cynnwys cwestiynau penodol a oedd yn ceisio barn y cyhoedd ynghylch sut yr oedd y penderfyniad polisi arfaethedig yn mynd i effeithio ar gyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r safonau yn gosod gofyniad clir bod rhaid ceisio barn ynghylch yr effeithiau posib yn ogystal â gofyn sut mae modd newid neu addasu'r penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif neu lai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd y ddogfen ymgynghori dan sylw yn cynnwys cwestiynau penodol o'r fath.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Powys wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89, 90, 91, 92 a 93.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Powys wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89, 90, 91, 92 a 93.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 88, 89 a 90 cyngor/gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

y Cyngor i sylwadau'r ymgynghoriad. Nid oedd yn ymddangos fod asesiad a dadansoddiad wedi ei wneud o gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a sut y gellid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar 12 Mawrth 2019 fe gyhoeddwyd hysbysiad statudol gan y Cyngor yn datgan ei benderfyniad i greu ysgol pob oed yn Llanfyllin. Wrth ystyried y wybodaeth oedd ar gael yn y pau cyhoeddus, ystyriais fod amheuaeth nad oedd y Cyngor wedi ystyried yn ddigonol, yn unol â gofynion y safonau llunio polisi, effeithiau posib y penderfyniad ar gyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

1. Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'i weithdrefnau a'i ganllawiau ei hun wrth gynnal asesiadau o effaith ei benderfyniadau polisi ar y Gymraeg . Er mwyn cyflawni hynny rhaid i'r Cyngor : (d) Godi ymwybyddiaeth aelodau'r etholedig sy'n gwneud ei benderfyniadau polisi o'r camau sy'n rhaid eu cymryd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth wneud eu penderfyniadau (e) Ddarparu hyfforddiant i bob aelod o staff sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau effaith ar sut i asesu effaith ar y Gymraeg, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o ddogfen cyngor y Comisiynydd. (f) Ddatblygu proses o wirio a chymeradwyo asesiadau effaith ar y Gymraeg a gwbleir gan Uwch Swyddogion fel ffordd o sicrhau y dilynr gweithdrefnau a chanllawiau'r Cyngor. Safonau 91, 92 a 93 gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg
2. Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau bod dogfennau ymgynghori yn cynnwys ystyriaethau wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn o effaith cynigion arfaethedig ar y Gymraeg er mwyn galluogi rhanddeliaid i ymateb yn wybodus i'r ymgynghoriad. Rhaid i'r Cyngor datblygu canllaw neu addasu canllaw sydd eisoes yn bodoli, er mwyn sicrhau bod swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu dogfennau ymgynghori yn ymwybodol o ofynion y safonau ac yn gweithredu yn unol â'r gofynion hynny.
3. Rhaid i Gyngor Sir Powys gymryd camau i sicrhau, wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi, bod y dogfennau hynny yn ceisio barn ar effeithiau posib y cynigion ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylid ystyried cyd-

destun y penderfyniad polisi wrth lunio unrhyw gwestiynau a ddefnyddir i geisio barn ar effeithiau posib y cynigion.

4. Rhaid i Gyngor Sir Powys gymryd camau i sicrhau, wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud a phenderfyniadau polisi, bod y dogfennau hynny yn ceisio barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylid ystyried cyd-destun y penderfyniad polisi wrth lunio unrhyw gwestiynau a ddefnyddir i geisio barn ar effeithiau posib y cynigion.

5. Rhaid i Gyngor Sir Powys gymryd camau i sicrhau, wrth gyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud a phenderfyniadau polisi, bod y dogfennau hynny yn ceisio barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r polisi dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylid ystyried cyd-destun y penderfyniad polisi wrth lunio unrhyw gwestiynau a ddefnyddir i geisio barn ar effeithiau posib y cynigion.

Amserlen: O fewn 3 mis diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd 6. Rhaid i Gyngor Sir Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Comisiynydd ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-5.

Amserlen: O fewn 4 mis diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol â 77(3)(c) Mesur y Gymraeg Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safonau 88, 89, 90, 91, 92 a 93 trwy

gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan, a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad yn adran newyddion y wefan.

Amserlen: O fewn 4 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 19/12/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Bwrdd Iechyd  
Prifysgol  
Hywel Dda

CSG584 Ar 24/06/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Derbyniodd yr achwynydd llythyr uniaith Saesneg ynglŷn ag apwyntiad ar gyfer sgan MRI a ffurflen uniaith Saesneg i'w llenwi cyn y sgan.

12/12/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Er mwyn cydymffurfio â safon 5 roedd angen i'r Bwrdd Iechyd anfon y llythyr apwyntiad yn ddwyieithog at unrhyw gleifion nad ydynt wedi hysbysu'r Bwrdd Iechyd eu bod am dderbyn gohebiaeth Saesneg. Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn i mi gan ei fod yn anhapus ei fod wedi derbyn llythyr apwyntiad Saesneg. Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd nad oedd fersiwn Gymraeg o'r llythyr apwyntiad ar gael ar y dyddiad yr anfonwyd y llythyr at yr achwynydd. Gan bod y Bwrdd Iechyd wedi anfon y llythyr apwyntiad yn Saesneg i'r achwynydd gan nad oedd fersiwn Gymraeg ar gael ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gydymffurfio â safon 5 yn yr achos yma.

Safon 36: Mae safon 36 yn gofyn i sefydliad sicrhau os y bydd yn llunio ffurflen yn Gymraeg sydd i gael ei gwblhau gan unigolyn eu bod yn eu llunio yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe anfonodd y Bwrdd Iechyd ffurflen i'r achwynydd ei llenwi yn uniaith Saesneg ac fe gadarnhaodd y Bwrdd Iechyd nad oedd y ffurflen ar gael yn Gymraeg ar y pryd. Gan nad oedd y ffurflen a anfonwyd at yr achwynydd ar

gael yn Gymraeg ar y pryd ni wnaeth y Bwrdd lechyd gydymffurfio â safon 36 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu cydymffurfio â safonau 5 a 36.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Bwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda wedi methu cydymffurfio â safonau 5 a 36.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 5 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg 1. Rhaid i'r Bwrdd lechyd gynnal arolwg i wirio bod llythyrau apwyntiad a anfonir o adrannau eraill yn cydymffurfio â safon 5 a gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 36 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i'r Bwrdd lechyd gynnal arolwg i wirio bod ffurflenni a ddarperir i'r cyhoedd gan adrannau eraill yn cydymffurfio â safon 36 a gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

3. Rhaid i Fwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Fwrdd lechyd Prifysgol Hywel Dda ar 12/12/2019

## Apelau a wnaed i'r tribiwnlys

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-  
nedd Port  
Talbot

CSG459 Ar 22 Tachwedd, 2018 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â defnydd y Cyngor o'r Gymraeg ar ei wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn honni bod dolenni ar fersiwn Gymraeg y wefan oedd yn tywys y defnyddiwr o un rhan o'r wefan i ran arall yn arwain at dudalennau Saesneg. Cyfeiriodd yr achwynydd yn benodol at ddolenni oedd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio a gwybodaeth am aelodau'r Cyngor. Roedd hefyd yn honni nad oedd y Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl ar sawl cyfrif Facebook oedd yn perthyn iddo, sef: Neath Port Talbot CBC, Recycle4NPT, NPT Waste Crime, NPT Family. Dywedodd hefyd bod y Cyngor wedi ail-drydar gwybodaeth oedd yn Saesneg ar ei gyfrif Trydar cyfrwng Cymraeg @CyngorCnPT ar 22 Tachwedd, 2018. Rhannodd yr achwynydd sawl sgrin lun a dynnodd o wefan a chyfrifon cyfryngau

4/12/2019

## Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 52: Mae'r safon yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg, ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Mae'n berthnasol i bob tudalen ar wefan y Cyngor gan gynnwys unrhyw dudalennau sy'n cael eu cynnal gan drydydd partiön ar ran y Cyngor. Mae'r ymchwiliad hwn wedi dangos bod dolenni ar fersiwn Gymraeg gwefan y Cyngor wedi arwain ar ddau achlysur at dudalennau oedd yn Saesneg. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan ac felly'n fethiant ganddo i gydymffurfio â chymal (c) o safon 52. Dangosodd yr ymchwiliad hefyd nad oedd y dudalen yr arweiniodd un o'r dolenni ati ar gael yn Gymraeg, ac mae'n parhau i beidio bod ar gael yn Gymraeg. Caiff y rhan hon o'r wefan yn cael ei chynnal gan ddarparwr trydydd parti ar ran y Cyngor. Mae hyn yn fethiant gan y Cyngor i sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg ac felly'n fethiant ganddo i gydymffurfio â chymal (a) o safon 52. Safon 58: Mae'r safon yn gofyn i'r Cyngor sicrhau nad yw'n trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'n berthnasol i bob cyfrif cyfrwng cymdeithasol sydd gan y Cyngor ac i unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi ganddo ar y cyfrifon hynny, waeth bynnag yr amgylchiadau. Er mwyn cydymffurfio hefo'r safon rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chyhoeddi ganddo'n



cymdeithasol y Cyngor fel tystiolaeth i gefnogi ei honiadau.

Saesneg hefyd yn cael ei chyhoeddi'n Gymraeg ar yr un pryd a'r wybodaeth Saesneg. Dangosodd yr ymchwiliad hwn bod gan y Cyngor nifer o gyfrifon Facebook lle mae'r Saesneg oedd yr unig iaith a ddefnyddiwyd ganddo ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 58. Dangosodd yr ymchwiliad hefyd bod y Cyngor wedi cyhoeddi gwybodaeth yn Saesneg yn unig ar gyfrif Twitter cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn hefyd fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 58.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 58.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 58.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg.

1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu yn amlinellu: i. camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr adran o'i wefan sy'n dal manylion ceisiadau cynllunio yn cydymffurfio hefo gofynion y safon; ii. pa ymrwymiad staffio fydd ei angen; iii. pa ymrwymiad cyllidebol fydd ei angen; yn ogystal â iv. phwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol am y gwaith. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'r amserlen ar gyfer gyflawni pob cam ac ar gyfer cwblhau'r gwaith. Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.



Safon 52 – Cyngor yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg

2. Rwyf yn cynghori'r Cyngor i drafod ag awdurdodau cynllunio lleol eraill sut y mae nhw'n mynd ati i ddarparu gwasanaethau tebyg mewn modd sy'n cydymffurfio hefo gofynion y safon. Safon 58 – Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg.

3. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu yn amlinellu camau i'w cymryd er mwyn: i. arolygu ei ddefnydd o'r Gymraeg ar ei holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol; aii. sicrhau bod pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llawn hefo gofynion y safon. Dylai'r cynllun gweithredu adnabod gofynion y safon yn llawn gan dalu sylw penodol i ddehongliad Rhan 3, paragraff 34 o Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Dylai nodi'r amserlen ar gyfer gyflawni pob cam ac ar gyfer cwblhau'r gwaith, a phwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol. Amserlen:

Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol. Safon 58 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg.

4. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau priodol mewn lle ar gyfer cyfieithu gwybodaeth sydd angen ei chyhoeddi ar frys ar y cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn cydymffurfio hefo'r cam gorfodi hwn rhaid i'r Cyngor ddatblygu proses a chanllaw cysylltiedig ar gyfer cyfieithu gwybodaeth ar frys, a mynd ati i godi ymwybyddiaeth o'r broses a'r canllaw ymysg swyddogion perthnasol. 5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol i Gomisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 4.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-  
nedd Port  
Talbot

Ar 5 Gorffennaf 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynghylch nifer o ffactorau yn ymwneud ag ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ym mis Mehefin 2019. Roedd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar gyfer ymgynghori gyda rhan ddeiliaid ar newidiadau arfaethedig i bolisi'r Cyngor ar gyfer trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol; sef 'Polisi Teithio o'r Cartref i'r Ysgol 2020' Un honiad a wnaed gan yr achwynydd oedd na chafodd wahoddiad i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dinesig Castell-nedd ar 2 Gorffennaf 2019 i drafod y polisi dan sylw,

3/12/2019

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gymryd y camau uchod o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 04/12/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 36: Rhaid i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal digwyddiad cyhoeddus. Cynhaliodd y Cyngor bedwar digwyddiad 'galw i mewn' yn ystod proses ymgynghori ar gynigion i newid polisi teithio o'r cartref i'r ysgol y Cyngor. Honnai'r achwynydd nad oedd wedi derbyn cynnig i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y digwyddiad a fynychodd. Mae'r Comisiynydd yn canfod yn yr achos hwn bod y Cyngor wedi trefnu a chynllunio'r digwyddiadau hyn fel na fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal gwasanaeth ymateb i ymholiadau. Fodd bynnag, oherwydd materion tu hwnt i'w disgwyliadau, nid oedd modd gwireddu'r bwriad hwnnw yn llawn yn ystod un o'r digwyddiadau.

Safon 81: Rhaid i gorff hybu a hysbysebu pob gwasanaeth Cymraeg a ddarperir ganddo, a gwneud hynny yn Gymraeg. Yn yr achos hwn, roedd y Cyngor wedi trefnu bod gwasanaeth Cymraeg ar gael mewn digwyddiad 'galw i mewn' yr oedd yn ei gynnal. Fodd bynnag, nid oedd yr achwynydd yn ymwybodol o'r cynnig hwn i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn canfod yn yr achos hwn, fod y Cyngor wedi colli cyfle i hybu'r gwasanaeth Cymraeg oedd ar gael i fynychwyr y digwyddiad dan sylw.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu cydymffurfio â safonau 36 a 81.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 81. Datganiad ar y gweithredu pellach Safon 81 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3(b)) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot datblygu rhestr wirio at ddefnydd swyddogion wrth iddynt drefnu a mynychu digwyddiadau. Rhaid i'r rhestr wirio rhoi cefnogaeth ymarferol er mwyn eu galluogi i hybu'r gwasanaeth Cymraeg. Gall y rhestr cynnwys materion megis sicrhau fod adnoddau iaith gwaith ar gael, bod deunyddiau Cymraeg ar gael, bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei hysbysebu cyn ac yn ystod y digwyddiadau, ymysg materion eraill. 2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot rhoi tystiolaeth ysgrifenedig digonol ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1. Amserlen: O fewn 60 diwrnod gwaith o dderbyn dyfarniad terfynol Comisiynydd y Gymraeg.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 03/12/2019

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r broses o ymgeisio am swydd 'Arweinydd Datblygu MDPHau' gydag ERW (Ein Rhanbarth ar Waith – Cyngor Sir Penfro). Ymgeisiodd yr achwynydd am y swydd drwy wefan y Cyngor. Y dyddiad cau swyddogol oedd 1 Mai 2019. Mewn perthynas â'r broses ymgeisio, honnai'r achwynydd: i) nad oedd y wefan wedi ei chyfieithu'n llawn a bod nifer o'r dewislenni disgyn 'drop down' yn ymddangos yn Saesneg neu gymysgedd o'r ddwy iaith. ii) nad oedd y wefan yn adnabod llythrennau gyda thô bach. iii) iddo e-bostio'r Cyngor yn codi'r broblem. Cynigodd anfon copi o'i ddatganiad personol ar ffurf Word gyda gramadeg cywir er mwyn sicrhau bod y cais yn ddealladwy. Ni dderbyniodd ymateb. iv) derbyniodd neges e-bost uniaith Saesneg ar 9 Mai 2019 yn ei hysbysu bod ei gais wedi bod yn aflwyddiannus. v) bod ei ddatganiad personol yn cynnwys gwallau gramadegol oherwydd bod y wefan yn ddiffygiol, yn ogystal â bod y datganiad personol heb gael ei gyfieithu neu ei ddarllen yn gywir gan

Safon 52: Mae'r safon yn gofyn i gorff sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan fod ar gael yn Gymraeg, yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Honnir bod tudalennau ar wefan y Cyngor yn cynnwys cwymplenni Saesneg nad oedd ar gael yn Gymraeg, ac nad oedd y wefan yn adnabod acenion a thô bach yn y Gymraeg wrth i'r achwynydd ymgeisio am swydd ar-lein. Mae'r Cyngor yn cydnabod anallu'r system i adnabod cymeriadau ac acenion yn y Gymraeg, ac yn derbyn bod y gwymplen cymwysterau ar gael yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, casglaf nad oedd y tudalennau'n gweithredu'n llawn ar yr adeg y cyflwynwyd y gŵyn, ac o ganlyniad roedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn gyfystyr a methiant i gydymffurfio â'r safon.

Safon 56: Mae safon 56 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Gall dewislenni gynnwys rhestr o ddewisiadau, eitemau neu orchmynion i ddefnyddiwr ddewis ohonynt (e.e. cwymplen sy'n agor i lawr i ddangos rhestr o ddewisiadau posibl). Honnai'r achwynydd bod nifer o'r dewisiadau cwymplenni yn ymddangos yn Saesneg ar y tudalennau Cymraeg. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gwymplen 'cymwysterau' ar gael yn Saesneg yn unig. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniais, casglaf nad yw pob dewislen ar wefan y Cyngor yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Safon 137b: Mae'r safon yn gofyn i gorff beidio a thrin cais am swydd yn y Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg. Honnai'r achwynydd bod ei gais am swydd heb gael ystyriaeth deg ac iddo gael ei drin yn anffafriol o achos ei ddewis i gyflwyno'r cais yn y Gymraeg. Eglura'r Cyngor

y sefydliad. Teimlai'r achwynydd bod ei gais heb gael ystyriaeth deg ac o bosib heb gael ei gyfieithu o gwbl gan fod yr adborth a dderbyniodd yn gwrth-ddweud cynnwys ei ddatganiad personol.

heb fod modd gwirio cais yr achwynydd nad oedd modd iddo wneud sylw ynghylch y modd yr ymdriniwyd â'r cais am swydd.

Safon 140: Mae Safon 140 yn gofyn i Gyngor Sir Penfro roi gwybod i ymgeiswyr swydd wedi ymgeisio am swydd yn Gymraeg beth yw eu penderfyniad yn Gymraeg.

Cyflwynodd yr achwynydd gais am swydd yn Gymraeg ond fe dderbyniodd e-bost penderfyniad yn Saesneg. Gan bod yr achwynydd wedi derbyn e-bost Saesneg o'r penderfyniad, ni lwyddodd Cyngor Sir Penfro i weithredu safon 140 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 137b ond bod Cyngor Sir Penfro wedi methu cydymffurfio â safon 52, 56 a 140.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 137b ond bod Cyngor Sir Penfro wedi methu cydymffurfio â safon 52, 56 a 140.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – Cyfarwyddiadau i Gyngor Sir Penfro i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Penfro sicrhau bod pob tudalen Gymraeg o'i wefan, sy'n ymwneud â recriwtio yn cynnwys cwymplenni yn y Gymraeg.

2. Rhaid i Gyngor Sir Penfro sicrhau bod ei wefan yn galluogi'r defnydd o acenion yn y wyddor Gymraeg fel nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

		<p>3. Rhaid i Gyngor Sir Penfro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol Comisiynydd y Gymraeg.</p> <p>4. Rhaid i Gyngor Sir Penfro ddarparu canllawiau i swyddogion sy'n gweithredu proses recriwtio â llaw sy'n esbonio sut i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth anfon llythyrau penderfyniad.</p> <p>5. Rhaid i Gyngor Sir Penfro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 4. Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol Comisiynydd y Gymraeg.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Penfro ar 03/12/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)</u></p>	<p>CSG567 Ar 05/06/2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn ymwneud ag e-bost awtomatig y gwnaeth yr achwynydd ei dderbyn mewn ymateb i e-bost anfonodd at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr achwynydd o'r farn bod yr e-bost yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg oherwydd bod teitl yr e-bost</p> <p>3/12/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 6: Mae Safon 6 yn gofyn i sefydliadau sy'n anfon yr un ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg i beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Roedd yr e-bost cydnabyddiaeth dderbyniodd yr achwynydd yn mewn ymateb i e-bost Gymraeg yn cynnwys teitl uniaith Saesneg a thestun Cymraeg nad oedd modd ei weld hyd nes bod y derbynnydd wedi darllen y testun Saesneg hir iawn. Er mwyn cydymffurfio â safon 6 byddai angen i deitl yr e-bost fod yn ddwyieithog a'r ddwy iaith i'w gweld yr un mor amlwg yn nhestun yr e-bost heb i'r derbynnydd orfod cymryd unrhyw gamau ychwanegol i</p>

yn Saesneg yn unig a bod y testun Saesneg wedi ei osod uwchben y testun Gymraeg.

weld y fersiwn Gymraeg na sydd angen i weld y fersiwn Saesneg. Gan nad oedd modd i dderbynnydd yr e-bost weld y fersiwn Gymraeg wrth agor yr e-bost nid wyf o'r farn bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cydymffurfio â safon 6 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi methu cydymffurfio â safonau 6.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi methu cydymffurfio â safon 6.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gymryd camau i sicrhau nad yw'r e-bost cydnabyddiaeth y mae'r cyfeiriad casework@ico.org.uk yn ei anfon yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.
2. Rhaid i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 03/12/2019

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

CSG553 Ar 15/05/2019 ac ar 18/06/2019 derbyniwyd gwynion gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n ddilys. 1.2 Mae'r cwynion yn ymwneud â pheiriannau talu mewn meysydd parcio yn ardal Wrecsam. Roedd y geiriau 'follow prompts' a 'press key' yn ymddangos fel cyfarwyddiadau yn uniaith Saesneg ar un peiriant, a'r geiriau Pay Parking Here yn ymddangos ar y peiriant arall oedd wedi ei leoli ym maes parcio Tŷ Pawb.

3/12/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 60: Mae safon 60 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob peiriant hunanwasanaeth sydd ganddynt yn gweithio'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y peiriant hwnnw. Mae tystiolaeth yr achwynydd yn dangos bod dau beiriant talu ac arddangos ym meddiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn arddangos cyfarwyddiadau'n Saesneg yn unig. Er i'r Cyngor gywiro'r methiant wedi iddo ddod yn ymwybodol ohono, roedd y peiriannau, ar adeg cyflwyno'r gŵyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 60.

### **Datganiad gweithredu pellach**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 60.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 60– Cyngor i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unol ag adran 779(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynnal adolygiad o'r holl beiriannau talu ac arddangos yn ei feddiant er mwyn cael sicrwydd bod pob un peiriant yn cynnwys sticeri pwrpasol a chyfarwyddiadau sydd ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gywiro unrhyw destun nad sy'n cydymffurfio â gofynion safon 60 o fewn 6 mis i ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.



		<p>3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam Gorfodi 1 a 2 uchod. Amserlen: o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi cyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 03/12/2019</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Gweinidogion Cymru</u></p> <p>CSG557 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 22/05/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â honiad nad oedd memorandwm esboniadol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaeth Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 ar gael yn Gymraeg ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.</p>	<p>14/11/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 47: Er mwyn cydymffurfio â safon 47 roedd angen i Weiniogion Cymru asesu a oedd pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg yn ogystal ag asesu a yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg. Yna dylai Gweinidogion Cymru fod wedi llunio'r ddogfen yn Gymraeg neu beidio yn unol â chanlyniad yr asesiad. Yn yr achos yma fe osodwyd y ddogfen Memorandwm Esboniadol ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaeth Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 yn Saesneg yn unig er bod pwnc y ddogfen yn amlwg yn awgrymu y dylid fod wedi ei gosod yn Gymraeg hefyd. Roedd ymateb rhai o Aelodau'r Cynulliad sef rhai o gynulleidfa disgwylidig y ddogfen hefyd yn awgrymu y dylid ei osod yn Gymraeg. Ond dim ond yn Saesneg y gosodwyd y ddogfen ar 09/05/2019. Gan bod Gweinidogion Cymru wedi gosod y Memorandwm Esboniadol ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaeth Gofal Sylfaenol)</p>

(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 yn Saesneg yn unig heb asesu'r angen i'w osod yn Gymraeg pan osodwyd y ddeddfwriaeth gysylltiedig rwy'n dyfarnu fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 47. Safon 48: Pan mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dogfen rhaid peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfen yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg o'r ddogfen honno. Mae hynny yn cynnwys peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi. Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaeth Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 ei gyhoeddi yn Gymraeg pythefnos ar ôl y fersiwn Saesneg. Gan fod y Memorandwm Esboniadol wedi cael ei gyhoeddi yn Gymraeg pythefnos ar ôl y fersiwn Saesneg nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â safon 48.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safonau 47 a 48.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safonau 47 a 48.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 47 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau eu bod yn asesu a oes angen i Femoranda Esboniadol gael eu gosod yn Gymraeg gan ystyried pwnc y ddogfen a'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliadau. Safon 47 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw fersiynau Cymraeg o Femoranda Esboniadol yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r fersiynau Saesneg.

3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi [1 – 2].

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 14/11/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG564 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 31/05/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Mae'r achwynydd yn yr achos yn gweithredu ar ran unigolyn arall. Mae'r person a effeithiwyd yn honni iddo ffonio prif rif ffôn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar bedwar achlysur dros gyfnod o 20 munud ar 31 Mai 2019 yn ystod diwedd y bore. Mae'r person yn honni iddo bwysu botwm ar gyfer nodi ei ddewis i dderbyn gwasanaeth Cymraeg ar y pedwar achlysur, ond iddo dderbyn ymateb yn nodi nad

12/11/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 11: Mae safon 11 yn gosod gofyniad ar y Cyngor i ymateb i alwadau ffôn yn Gymraeg, ac i ddelio gyda'r galwadau yn Gymraeg hyd nes bod angen i drosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni iddo ffonio prif rif ffôn y Cyngor ar y 31 Mai 2019 a'i bod wedi nodi dymuniad i gael gwasanaeth Cymraeg. Trosglwyddodd yr atebwyr y galwadau gan beidio darparu gwasanaeth yn Gymraeg neu esbonio pam nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gorffennwyd yr alwad gan neges safonol gan y Cyngor yn nodi dylid ffonio yn ôl yfory. Rhaid i'r Cyngor barhau i fagu hyder ei staff a threfnu ei weithle i ddelio â galwadau yn Gymraeg ac i ddarparu gwasanaeth gwirioneddol yn Gymraeg sy'n ddibynadwy a'r un mor hwylus i'w ddefnyddio ag yw'r gwasanaeth Saesneg. Rwyf yn canfod

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

oedd siaradwr Cymraeg ar gael.  
Honnai iddo gael ei drosglwyddo i  
atebydd nad oedd yn medru'r  
Gymraeg cyn cael cynnig i ffonio yn ôl  
os oedd yn dymuno siarad gyda  
rhywun yn Gymraeg.

fod y Cyngor wedi methu â chwrdd a gofynion safon 11 yn  
yr achos hwn gan nad oedd wedi delio â galwad yr  
achwynydd yn Gymraeg unwaith y daeth yn ymwybodol o'i  
ddymunid i dderbyn gwasanaeth Cymraeg. Ni esboniodd y  
Cyngor i'r achwynydd (yn Gymraeg) bod agen ei  
drosglwyddo i siaradwr Saesneg i ddelio â'i ymholiad  
oherwydd ei fod ar bwnc penodol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y  
Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi  
methu â chydymffurfio â gofynion safon 11 yn yr achos  
hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor  
Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â  
gofynion safon 11 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 11 – gofyniad i gymryd camau/etc yn unol ag adran  
77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ddatblygu  
canllawiau sy'n cefnogi staff i deall a diwallu gofynion safon  
11 ym mhob cyd-destun. Rhaid i'r canllawiau a'r  
hyfforddiant cynnwys, fel isafswm: (g) eglurhad o sut mae  
'delio gyda galwad yn Gymraeg', (nid dim ond cyfarchiad  
ddwyieithog); (h) eglurhad o pam fod darparu  
gwasanaethau Cymraeg yn bwysig, a sut i'w hybu a sut i'w  
hyrwyddo; (i) esiamplau neu 'senarios' o alwadau a sut i  
ddelio â hwy er mwyn cydymffurfio a darparu  
gwasanaethau da a hwylus i ddefnyddwyr y Gymraeg; (j)  
esboniad llawn o beth ystyrir yn 'pwnc penodol' o fewn cyd-  
destun gwasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys sut i esbonio  
i gwsmeriaid os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael

			<p>oherwydd ei fod ei ymholiad ar yn pwnc penodol. Gellid darparu esiamplau o eiriad (yn Gymraeg) i'w ddefnyddio; (k) dulliau hwylus i ddarganfod siaradwyr Cymraeg o fewn y timoedd; (l) technegau neu geiriad i ymateb i gwynion neu pryderon cwsmeriaid am wasanaethau ffôn Cymraeg y Cyngor.</p> <p>2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam datblygu cynllun hyfforddiant at gyfer bob aelod o staff sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen ffôn ar ran y Cyngor. Rhaid sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r canllawiau uchod ac yn hyderus yn eu gweithredu. 3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 12/11/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</u></p>	<p>CSG500 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 07/02/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Honiad bod cyfarfod (neu weithdy) er mwyn trafod ad-drefnu addysg ôl-16 yn y Sir wedi ei gynnal yn Saesneg gan swyddog o'r Cyngor yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd am 6yp ar 7 Chwefror</p>	<p>11/11/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safonau 27, 27A a 27D: Casgla'r Comisiynydd mai'r Cyngor oedd yn gyfrifol am y cyfarfod dan sylw gan ei fod yn ffurfio rhan o weithgareddau ymgynghori'r Cyngor ar ad-drefnu darpariaeth ôl-16 yn y Sir ag oherwydd bod y Comisiynydd yn ystyried bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau i'r ysgol drefnu'r cyfarfod ar eu rhan, ac felly mai cyfrifoldeb y Cyngor oedd sicrhau bod gwahoddiadau a darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu yn unol â gofynion safonau 27, 27A a 27D. Ar sail y dystiolaeth sydd yn ei feddiant, canfu'r Comisiynydd bod y Cyngor wedi</p>

2019. Darparodd yr achwynydd gopi o lythyr oedd ar bapur pennawd yr ysgol, ac yn enw'r swyddog o'r Cyngor oedd yn gwahodd rhieni a gwarcheidwaid yn benodol i fynychu'r cyfarfod (neu weithdy) dan sylw.

methu â chydymffurfio â safon 27 trwy beidio â gofyn i'r rheiny a gafodd eu gwahodd i gyfarfod a oeddynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod mewn gwahoddiad a anfonwyd atynt ar 30 Ionawr 2019. Canfu bod y gwahoddiad hwnnw wedi ei anfon gan yr ysgol ar ran y Cyngor. Mae safonau 27, 27A a 27D yn ddibynnol ar ei gilydd, gyda'r nod eu bod yn cael eu gweithredu ar y cyd. Trwy fethu â chydymffurfio â safon 27, mae'n rhesymol casglu na fyddai personau yn gwybod bod modd iddyn nhw nodi eu dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac felly nad oedd y Cyngor o reidrwydd yn gwybod a oedd angen iddo ddarparu gwasanaethau cyfieithu yn y cyfarfod (neu weithdy) dan sylw yn unol â gofynion safonau 27A a 27D. O ran ystyried cydymffurfiaeth gyda safonau 27A a 27D yn benodol, nid yw'r dystiolaeth sydd yn fy meddiant yn fy ngalluogi i wybod a oedd o leiaf 10% o'r rheiny gafodd eu gwahodd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod (neu'r gweithdy) dan sylw. Ar sail hynny, rwy'n canfod nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 27A a 27D.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu cydymffurfio â safonau 27 ond nad ydynt wedi methu cydymffurfio â safonau 27A a 27D.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgol y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu cydymffurfio â safonau 27.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 27– gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

CSG554 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 17/05/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â dogfennau a luniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ac a oedd ar gael ar ei wefan. Roedd y dogfennau'n ymwneud â Chynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2013-2028 (CDLI). Honnodd yr achwynydd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg gan y Cyngor mewn rhai dogfennau. Dywedodd bod

11/11/2019

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr sicrhau bod unrhyw wahoddiadau sydd yn cael eu hanfon mewn perthynas â chyfarfod sydd yn gyfrifoldeb i'r Cyngor (boed yn uniongyrchol neu drwy drefniant i berson arall wneud ar ei ran) yn gofyn i bob person sydd wedi'u gwahodd a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 11/11/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 48: Os yw'r Cyngor yn llunio dogfen yn y ddwy iaith, rhaid iddo sicrhau nad yw'n trin fersiwn Gymraeg y ddogfen mewn ffordd sy'n llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni. Mae hynny'n golygu na ddylai'r fersiwn Gymraeg gael ei drin yn llai ffafriol o ran, ymysg pethau eraill, sut y mae'n edrych. Dangosodd yr ymchwiliad hwn bod y Cyngor wedi trin fersiwn Gymraeg y ddogfen KSD04 yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni o ran ei olwg. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 48. Rwyf yn ystyried bod y 'pethau eraill' y cyfeirir atynt yn nehongliad Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o'r safon yn golygu na ddylai'r fersiwn Gymraeg o ddogfen gael ei drin yn llai ffafriol gan y Cyngor o ran ei gywirdeb. Dangosodd yr ymchwiliad bod y Cyngor wedi trin fersiwn Gymraeg y ddogfen KSD04 yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni o



hynny'n creu anawsterau wrth eu darllen ac yn ei osod ef, a defnyddwyr eraill, dan anfantais wrth geisio defnyddio fersiynau Cymraeg y dogfennau. Roedd y gŵyn yn cyfeirio at un ddogfen yn benodol, sef Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2013-2028: Cynllun Adneuo Mawrth 2018 (cyfeirnod KDS04). Roedd yn honni nad oedd paragraffau'r fersiwn Gymraeg wedi eu rhifo. Dywedodd yr achwynydd bod gan y Cyngor ddogfennau eraill yn ymwneud â'r CDLI oedd yn cyfeirio at rifau'r paragraffau yn y ddogfen hon. Yn ôl yr achwynydd roedd hynny'n golygu bod rhaid defnyddio fersiwn Saesneg y ddogfen ar gyfer croesgyfeirio gan fod y rhifau yn absennol o'r fersiwn Gymraeg. Roedd y gŵyn yn honni bod fersiwn Saesneg y ddogfen yn cynnwys 156 o droednodiadau o gymharu â 149 yn y Gymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod hyn yn awgrymu bod gwybodaeth ar goll o'r fersiwn Gymraeg. Dywedodd hefyd bod dyluniad y ddwy fersiwn yn wahanol iawn i'w gilydd gyda defnydd o liwiau a fformatio arbennig yn absennol o'r fersiwn Gymraeg.

ran ei gywirdeb. Roedd hyn hefyd yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 48.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 48 – Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau nad yw'n trin fersiynau Cymraeg o ddogfennau ymgynghori yn llai ffafriol na'r fersiynau Saesneg ohonynt. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu camau i'w cymryd er mwyn sicrhau nad yw fersiynau Cymraeg dogfennau ymgynghori sy'n cael eu llunio ganddo yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran eu golwg. Dylai gynnwys ymrwymiad i ymchwilio i'r hyn y mae sefydliadau eraill yn ei wneud er mwyn sicrhau bod dogfennau o'r fath yn cydymffurfio hefo gofynion y safon. Rhaid i'r cynllun gweithredu adnabod gofynion y safon yn llawn gan dalu sylw penodol i ddehongliad Rhan 3, paragraff 29 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Rhaid nodi amserlen ar gyfer cyflawni pob cam ac ar gyfer cwblhau'r gwaith, a phwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol. Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol. Safon 48 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg



			<p>2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau prawf ddarllen priodol mewn lle. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu proses a chanllaw cysylltiedig ar gyfer prawf ddarllen, a mynd ati i godi ymwybyddiaeth o'r broses a'r canllaw ymysg swyddogion perthnasol. Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gymryd y cam uchod o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.</p> <p>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol i Gomisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 2.</p> <p>Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gymryd y cam uchod o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 11/11/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor</u> <u>Bwrdeistref</u> <u>Sirol</u> <u>Wrecsam</u></p>	<p>CSG554 Ar 17 Mai, 2019 derbyniwyd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â dogfennau a luniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ac a oedd ar gael ar ei wefan. Roedd y dogfennau'n ymwneud â Chynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2013-2028 (CDLI). Honnodd yr achwynydd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg gan y Cyngor mewn</p>	<p>11/11/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 48: Os yw'r Cyngor yn llunio dogfen yn y ddwy iaith, rhaid iddo sicrhau nad yw'n trin fersiwn Gymraeg y ddogfen mewn ffordd sy'n llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni. Mae hynny'n golygu na ddylai'r fersiwn Gymraeg gael ei drin yn llai ffafriol o ran, ymysg pethau eraill, sut y mae'n edrych. Dangosodd yr ymchwiliad hwn bod y Cyngor wedi trin fersiwn Gymraeg y ddogfen KSD04 yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni o ran ei olwg. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 48. Rwyf yn ystyried bod y 'pethau eraill' y cyfeirir atynt yn nehongliad Rheoliadau Safonau'r Gymraeg o'r safon yn golygu na ddylai'r fersiwn Gymraeg o ddogfen gael ei drin yn llai ffafriol gan y Cyngor o ran ei gywirdeb. Dangosodd yr</p>

rhai dogfennau. Dywedodd bod hynny'n creu anawsterau wrth eu darllen ac yn ei osod ef, a defnyddwyr eraill, dan anfantais wrth geisio defnyddio fersiynau Gymraeg y dogfennau. Roedd y gŵyn yn cyfeirio at un ddogfen yn benodol, sef Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2013-2028: Cynllun Adneuo Mawrth 2018 (cyfeirnod KDS04). Roedd yn honni nad oedd paragraffau'r fersiwn Gymraeg wedi eu rhifo. Dywedodd yr achwynydd bod gan y Cyngor ddogfennau eraill yn ymwneud â'r CDLI oedd yn cyfeirio at rifau'r paragraffau yn y ddogfen hon. Yn ôl yr achwynydd roedd hynny'n golygu bod rhaid defnyddio fersiwn Saesneg y ddogfen ar gyfer croesgyfeirio gan fod y rhifau yn absennol o'r fersiwn Gymraeg. Roedd y gŵyn yn honni bod fersiwn Saesneg y ddogfen yn cynnwys 156 o droednodiadau o gymharu â 149 yn y Gymraeg. Dywedodd yr achwynydd bod hyn yn awgrymu bod gwybodaeth ar goll o'r fersiwn Gymraeg. Dywedodd hefyd bod dyluniad y ddwy fersiwn yn wahanol iawn i'w gilydd gyda defnydd o liwiau a fformatio arbennig yn absennol o'r fersiwn Gymraeg.

ymchwiliad bod y Cyngor wedi trin fersiwn Gymraeg y ddogfen KSD04 yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg ohoni o ran ei gywirdeb. Roedd hyn hefyd yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 48.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 48 – Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau nad yw'n trin fersiynau Gymraeg o ddogfennau ymgynghori yn llai ffafriol na'r fersiynau Saesneg ohonynt. Rhaid i'r cynllun gweithredu amlinellu camau i'w cymryd er mwyn sicrhau nad yw fersiynau Gymraeg dogfennau ymgynghori sy'n cael eu llunio ganddo yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran eu golwg. Dylai gynnwys ymrwymiad i ymchwilio i'r hyn y mae sefydliadau eraill yn ei wneud er mwyn sicrhau bod dogfennau o'r fath yn cydymffurfio hefo gofynion y safon. Rhaid i'r cynllun gweithredu adnabod gofynion y safon yn llawn gan dalu sylw penodol i ddehongliad Rhan 3, paragraff 29 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Rhaid nodi amserlen ar gyfer cyflawni pob cam ac ar gyfer cwblhau'r gwaith, a phwy fydd yn gyfrifol ac yn atebol. Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu

		<p>terfynol. Safon 48 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg</p> <p>2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau prawf ddarllen priodol mewn lle. Rhaid i'r Cyngor ddatblygu proses a chanllaw cysylltiedig ar gyfer prawf ddarllen, a mynd ati i godi ymwybyddiaeth o'r broses a'r canllaw ymysg swyddogion perthnasol. Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gymryd y cam uchod o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.</p> <p>3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol i Gomisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 2.</p> <p>Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gymryd y cam uchod o fewn 3 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 11/11/2019</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Prifysgol Glyndŵr</u></p>	<p>CSG558 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 23/05/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Mae'r gŵyn yn honni bod y Brifysgol yn cynnal ymgyrch hysbysebu ar gefn bysys ble mae'r testun ar y hysbysebion yn Saesneg yn unig.</p> <p>28/10/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 37: Rhaid i Brifysgol Glyndŵr lunio unrhyw ddeunydd hysbysebu neu ddeunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg. Os bydd yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid iddynt beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos yma, mae'r Brifysgol wedi llunio deunydd hysbysebu ar gyfer hysbysebu ei ddiwrnodau agored. Mae'r Brifysgol wedi llunio hysbysebion dwyieithog ar gyfer Cymru a hysbysebion uniaith Saesneg ar gyfer defnydd yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r hysbysebion yn cael eu harddangos ar fysys, ac nid oes sicrwydd nad yw'r hysbysebion Saesneg</p>

yn unig yn teithio i Gymru ac felly'n cael eu darllen gan y cyhoedd yng Nghymru. Yn yr achos hwn, mae'r Brifysgol wedi llunio deunydd hysbysebu dwyieithog yn unol â gofynion y safon ar gyfer defnydd yng Nghymru ac mae'r deunydd hwn yn cydymffurfio â gofynion y safon. Fodd bynnag, mae hefyd wedi llunio deunydd Saesneg yn unig ar gyfer Lloegr, ac mae risg sylweddol bod y deunydd Saesneg yn unig sydd ar fsys yn teithio i mewn i Gymru ac yn cael ei gweld gan ddefnyddwyr y Gymraeg yn groes i fwiad Mesur y Gymraeg. Er nad oes modd gwybod i sicrwydd â oedd y bws oedd yn sail i'r y gwyn wedi teithio i Gymru, mae risg yn parhau y gall methiant ddigwydd yn y dyfodol os bydd y Brifysgol yn parhau gyda'i pholisi o greu deunydd Saesneg yn unig mewn rhai amgylchiadau.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prifysgol Glyndŵr wedi methu â chydymffurfio â safon 37 yn yr achos yma.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Prifysgol Glyndŵr wedi methu â chydymffurfio â safon 37 yn yr achos yma.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 37 – argymhelliad yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg Dylai Prifysgol Glyndŵr adolygu ei pholisi cyfredol o lunio deunydd marchnata Saesneg yn unig ar gyfer amgylchiadau ble mae risg nad ydy yn gallu rheoli ble mae'r hysbysebion yn gael eu gweld. Dylai'r adolygiad sicrhau nad yw deunydd marchnata neu hysbysebu Saesneg yn unig cael eu defnyddio yng Nghymru mewn unrhyw amgylchiadau.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Glyndŵr ar 28/10/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

CSG501 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar 08/06/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cysylltodd aelod o'r cyhoedd gyda mi yn dilyn digwyddiad lle cafodd yr achwynydd a'i wraig eu holi yn Saesneg o dan lw ynglŷn â methiant honedig i dalu am docyn trê. Yn ôl yr achwynydd nid oedd aelodau o staff yn gallu'r Gymraeg yng ngorsaf drenau Cathays ar 23 Ionawr 2019 ac maent yn honni hefyd nad oedd ffurflen Ticket Irregularity Report ar gael yn Gymraeg. Yn ystod y digwyddiad tra roedd yr arolygwyr trê yn ceisio dod o hyd i siaradwr Cymraeg fe glywodd gwraig yr achwynydd y sylw canlynol gan un o aelodau staff Trafnidiaeth Cymru (nid yr arolygwyr) "What's the point doing it in Welsh? She can speak English fine". Fe dderbyniodd yr achwynydd lythyr a thaflen uniaith Saesneg ynglŷn â'r cyhuddiad o beidio talu am docyn gan TIL

21/10/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Mae safon 5 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau bod llythyrau a anfonir ganddo, neu ar ei ran, yn cael eu hanfon yn Gymraeg os nad ydynt yn gwybod a yw person yn dymuno derbyn llythyr yn Gymraeg ai pheidio. Yn yr achos yma fe anfonodd cwmni sydd ar gontract i Drafnidiaeth Cymru sy'n is-gwmni dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru lythyr yn Saesneg yn unig at yr achwynydd. Gan bod contractwr wedi anfon llythyr yn Saesneg yn unig at yr achwynydd ni lwyddodd Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 5 yn yr achos yma. Safon 40: Er mwyn cydymffurfio â safon 40 roedd angen i Transport Investigation Ltd pan yn gweithredu ar ran Trafnidiaeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddogfen roeddynt yn eu llunio gael ei llunio yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe dderbyniodd yr achwynydd daflen Saesneg 'Gwirio Tocynnau / Ticket' drwy'r post gan TIL a oedd yn gweithredu ar ran Trafnidiaeth Cymru. Roedd y daflen wedi ei dylunio gyda brandio Trafnidiaeth Cymru. 3.35 Gan fod yr achwynydd wedi derbyn taflen Saesneg gan gwmni oedd yn gweithredu ar ran Trafnidiaeth Cymru, is-gwmni dan berchnogaeth lawn Llywodraeth Cymru, nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â safon 40 yn yr achos yma. Safon 50: Mae safon 50 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod pob ffurflen maent yn eu llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Darparodd yr achwynydd gopi o'r ffurflen Saesneg y bu'n rhaid iddo ei

Gweinidogion  
Cymru

(Transport Investigation Ltd) drwy'r post yn dilyn y digwyddiad. Yn y llythyr fe esbonnir bod TIL yn gweithredu ar ran Trafnidiaeth Cymru.

llenwi yn yr orsaf drên. Yn ôl tystiolaeth Gweinidogion Cymru mae'r ffurflen yma ar gael yn Gymraeg. Gan bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg rwyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â safon 50 yn yr achos yma. Safon 50A: Er mwyn cydymffurfio â safon 50A dylai Gweinidogion Cymru fod wedi sicrhau bod fersiwn Saesneg y ffurflen yn cynnwys geiriad oedd yn esbonio bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg os nad oedd y ffurflenni Cymraeg a Saesneg yn rhan o'r un ddogfen. Yn yr achos yma darparodd yr achwynydd gopi o'r ffurflen Saesneg y bu'n rhaid iddo ei llenwi yn yr orsaf drenau yn Cathays. Nid oes datganiad wedi ei gynnwys ar y ffurflen yma yn esbonio bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Gan nad oedd datganiad wedi ei gynnwys ar y ffurflen yma yn esbonio bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â safon 50A yn yr achos yma. Safon 132: Er mwyn cydymffurfio â safon 50A dylai Gweinidogion Cymru fod wedi sicrhau bod fersiwn Saesneg y ffurflen yn cynnwys geiriad oedd yn esbonio bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg os nad oedd y ffurflenni Cymraeg a Saesneg yn rhan o'r un ddogfen. Yn yr achos yma darparodd yr achwynydd gopi o'r ffurflen Saesneg y bu'n rhaid iddo ei llenwi yn yr orsaf drenau yn Cathays. Nid oes datganiad wedi ei gynnwys ar y ffurflen yma yn esbonio bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Gan nad oedd datganiad wedi ei gynnwys ar y ffurflen yma yn esbonio bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg nid wyf o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â safon 50A yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu

cydymffurfio â safonau 5, 40, 50A ond nad ydynt wedi methu cydymffurfio â safonau 50 a 132.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safonau 5, 40, 50A ond nad ydynt wedi methu cydymffurfio â safonau 50 a 132.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 5–gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'r broses o anfon llythyrau gan Transport Investigation Limited (TIL). 2. Rhaid i Weinidogion Cymru weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau er mwyn sicrhau bod gohebiaeth a anfonir gan TIL ar eu rhan yn cael ei anfon mewn modd sy'n cydymffurfio â safon 5. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 40–gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o daflenni Transport Investigation Limited (TIL) sy'n cael eu darparu ar ran Trafnidiaeth Cymru.

4. Rhaid i Weinidogion Cymru weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau er mwyn sicrhau bod taflenni a ddefnyddir gan TIL ar eu rhan yn cydymffurfio â safon 40. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 50 – argymhelliad yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg Rwy'n argymhell bod Gweinidogion Cymru yn

cymryd camau i sicrhau bod y ffurflen 'Ticket Irregularity Report' ar gael i'w defnyddio mewn gorsafoedd yng Nghymru yn yr un diwyg ac i'r un graddau â'r fersiwn Saesneg.

50A – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o'r ffurflenni gorfodaeth a ddefnyddir yn y gorsafoedd trên a chymryd camau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon 50A

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 132 – argymhelliad yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg Rwy'n argymhell bod Gweinidogion Cymru yn cymryd camau i sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn cael ei gynnegi i holl staff Trafnidiaeth Cymru sy'n gweithio mewn gorsafoedd trên yng Nghymru.

6. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1- 5 o fewn 30 diwrnod o ddyddiad cwblhau y cam gorfodi olaf.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/10/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### Gweinidogion Cymru

CSG505 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 16/02/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn

21/10/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 61: Mae safon 61 yn gofyn i Weinidogion Cymru, neu rywun sy'n gweithio ar ei ran, i sicrhau bod unrhyw destun sy'n ymddangos ar arwyddion electronig yn ymddangos yn Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion electronig



ynghylch methiant honedig gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae'r gŵyn, dyddiedig 16/02/2019, yn ymwneud â'r honiadau canlynol ynglŷn â gwasanaethau Trafnidiaeth Cymru: i. Strip symudol sydd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r orsaf nesaf o fewn y trêen yn uniaith Saesneg ii. Arwyddion oren electronig yn uniaith Saesneg yng ngorsaf Caerfyrddin

uniaith Saesneg yng ngorsaf Caerfyrddin ac ar drên o Abertawe i Gaerfyrddin ar 8 Chwefror 2019. Gan nad oedd yr arwyddion electronig ar y trêen y teithiodd yr achwynydd arni ac yn yr orsaf y gorffennodd yr achwynydd ei siwrne ar 8 Chwefror 2019 yn Gymraeg yna nid yw' Comisiynydd o'r farn bod Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â safon 61 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 61.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 61.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 61 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg 1. Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno cynllun gweithredu sy'n amlinellu sut y bydd arwyddion electronig ar drenau ac mewn gorsafoedd yn cydymffurfio â safon 61. Dylai Gweinidogion Cymru baratoi'r cynllun gweithredu drafft o fewn 12 wythnos. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. 2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/10/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor Sir  
Gâr

CSG476 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 10/12/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd cwyn yr achwynydd yn ymwneud â nifer o agweddau gwahanol a ddeilliodd o gyswllt yr achwynydd gyda adrannau gwahanol o fewn Cyngor Sir Gâr. Dyma'r materion y mae'r achwynydd yn cyfeirio atynt: • Mae'r achwynydd yn honni iddo dderbyn gohebiaeth Saesneg gan Adran Treth y Cyngor ynglŷn â'r angen i ad-dalu treth Cyngor (yn ystod haf 2018), • Darparodd yr achwynydd gopi o lythyr Saesneg 'Council Tax Reduction Statement of Reason' (20 Rhagfyr 2018). • Yn ôl yr achwynydd fe dderbyniodd lythyron a ffurflenni uniaith Saesneg oddi wrth y Cyngor ynglŷn â chais am drwydded aml breswyl. • Mae'r achwynydd yn honni iddo dderbyn llythyr Saesneg gan yr Adran Opsiynau a Chyngor Tai (Rhagfyr 2018), ynghyd â dogfen Saesneg a anfonwyd ato – Licensing of Private Rented Housing, Housing Act 2004, Application Form – Guidance Notes. • Mae'r achwynydd yn honni iddo dderbyn e-bost a

10/10/2019

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1 Mae'r safon yn gofyn i'r Cyngor ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg. Anfonodd yr achwynydd e-bost Cymraeg i'r Cyngor ar 29 Rhagfyr 2018. Darparodd y Cyngor gopi o'r llythyr Cymraeg a anfonwyd i'r achwynydd ar 7 Ionawr 2019 yn ymateb i'w ohebiaeth Gymraeg. Gan bod y Cyngor wedi anfon ymateb Cymraeg i ohebiaeth Gymraeg yr achwynydd dyfarnu'r Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma. Safon 5 Er mwyn cydymffurfio â safon 5 mae angen i'r Cyngor, os nad ydynt yn gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu â hwy. Anfonodd y Cyngor dri darn o ohebiaeth i'r achwynydd yn Saesneg er nad oedd yr adrannau yn ymwybodol o ddewis iaith yr achwynydd. Gan bod y Cyngor wedi anfon tri darn o ohebiaeth i'r achwynydd yn Saesneg heb wybod beth oedd ei ddewis iaith ni wnaeth y Cyngor gydymffurfio â safon 5 yn yr achos yma. Safon 50 Mae safon 50 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod pob ffurflen maent yn eu llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Darparodd yr achwynydd gopïau Saesneg o dair ffurflen gan y Cyngor. Yn ôl tystiolaeth y Cyngor mae pob un o'r ffurflenni yma ar gael yn Gymraeg. Gan bod y ffurflenni hyn ar gael yn Gymraeg mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio â safon 50 yn yr achos yma. Safon 50A Gofynnwyd i'r Cyngor am fanylion ynglŷn â'r ffurflenni yr oedd yr achwynydd yn honni nad oedd ar gael yn Gymraeg. Gofynnwyd i'r Cyngor gadarnhau a oedd y ffurflenni yn cynnwys datganiad yn esbonio bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Yn ôl tystiolaeth y Cyngor roedd y dair ffurflen y gofynnwyd am fanylion amdanynt sef

ffurflen Saesneg gan Adran Enwi a Rhifo Strydoedd y Cyngor (dyddiedig 19/12/18). Darparodd yr achwynydd gopi o'r ffurflen Saesneg 'Street Naming and Numbering Application Form (SNN2)' a chopi o e-bost Saesneg. • Mae'r achwynydd hefyd yn honni iddo fynd i Swyddfa'r Cyngor yn Stryd Spillman Caerfyrddin a dywedodd y swyddog yno nad oedd copi Cymraeg ganddynt o "Application for Housing Benefit, Local Housing Allowance and Council Tax Reduction" ac y bu'n rhaid iddo gymryd un Saesneg. • Mae'r achwynydd yn honni na dderbyniodd ymateb i e-bost Cymraeg yr anfonodd i Budd.Daliadau@sirgar.gov.uk ar 29 Rhagfyr 2018.

SNN2, y cais am Budd-dal Tai a'r ddogfen am drwyddedu Tai Rhentu preifat yn cynnwys datganiad i esbonio bod fersiwn Gymraeg ar gael. Fodd bynnag, pan dderbyniodd yr achwynydd y ffurflen SNN2 nid oedd y ffurflen yn cynnwys y datganiad. Nid yw'r achwynydd wedi darparu dyddiad union ar gyfer pa bryd y derbyniodd yr achwynydd y ffurflen ond mae priodweddau'r ddogfen yn dangos i'r ffurflen gael ei haddasu ar 1/10/2018 ac fe anfonodd yr achwynydd gopi i mi ar 19/12/2018, felly mae'n ymddangos i'r achwynydd dderbyn y ffurflen rhwng y dyddiadau hyn. Safon 50B Er mwyn cydymffurfio â safon 50B roedd angen i'r Cyngor sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen ar gael i'r un graddau â'r fersiwn Saesneg pan ymwelodd yr achwynydd â swyddfa'r Cyngor. Pan ymwelodd yr achwynydd â Swyddfa'r Cyngor ar Stryd Spilman yng Nghaerfyrddin mae'n honni bod aelod o staff y Cyngor wedi dweud wrtho nad oedd fersiwn Gymraeg o'r ffurflen 'Cais am Fudd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol a Gostyngiad y Dreth Gyngor' ar gael iddo ac iddo dderbyn fersiwn Saesneg. Yn ôl y Cyngor mae'r holl swyddogion cynghori sy'n gweithio yn y Ganolfan yn gwbl ddwyieithog ac yn gwbl ymwybodol o'r cyfrifoldeb i argraffu fersiwn o ffurflen os nad oes ffurflen ar ôl yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Gan nad oes tystiolaeth ddigonol i gadarnhau un ffordd neu'r llall a oedd ffurflen Gymraeg 'Cais am Fudd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol a Gostyngiad y Dreth Gyngor' ar gael i'r achwynydd ar y diwrnod yr aeth i swyddfa'r Cyngor dyfarna'r Comisiynydd nad yw y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 50B yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â

chydymffurfio â safon 1, 50, 50A a 50B ond bod Cyngor Sir Gâr wedi methu cydymffurfio â safon 5.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 1, 50, 50A a 50B ond bod Cyngor Sir Gâr wedi methu cydymffurfio â safon 5.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 5 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff o'r angen i anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad yw dewis iaith y derbynnydd wedi ei sefydlu.

2. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gynnal adolygiad o lythyrau safonol y Tîm Budd-daliadau Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor a gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon 5.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 5 – argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg Rwyf yn argymhell bod Cyngor Sir Gâr yn cynnal arolwg o lythyrau safonol yr Adran Gyllid a gweithredu ar ganfyddiadau'r arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon 5.

Safon 5 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3) Mesur y Gymraeg.

3. Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 5 mewn perthynas â'r ddogfen 'Council Tax Statement of Reason'. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf a chyflwyno copi i

mi o fewn 3 mis. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Safon 50A – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Gyngor Sir Gâr gynnal arolwg o'r holl ffurflenni a ddefnyddir gan yr Adran Enwi a Rhifo Strydoedd a gweithredu ar ganfyddiadau'r arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon 50A.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 50A – argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Rwyf yn argymhell bod Cyngor Sir Gâr yn cynnal arolwg o'r holl ffurflenni a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Cynllunio a gweithredu ar ganfyddiadau'r arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safon 50A.

Safon 50B – cyngor i gymryd camau yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg Dylai Cyngor Sir Gâr rhoi cyngor i'w staff i wirio stoc ffurflenni sy'n cael eu cynhyrchu ar wahân yn rheolaidd.

5. Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 –4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Gâr ar 10/10/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG484 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 08/01/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad gan yr achwynydd bod ffurflen Ymholiad Eiddo (Council Tax Property Enquiry Form) a adawyd yn ei eiddo ar 28 Rhagfyr 2018 yn uniaith Saesneg. Mae'r achwynydd hefyd yn honni iddi hi ffonio Adran Treth Cyngor ar 01792 635382 am 11:23yb ar 2 Ionawr 2019 a derbyn ymateb uniaith Saesneg. Mae'r achwynydd yn honni y bu rhaid iddi hi aros am alwad nôl gan aelod o staff oedd yn medru'r Gymraeg er mwyn gallu derbyn gwasanaeth Cymraeg, gan dderbyn galwad yn ôl gan aelod o staff oedd yn medru'r Gymraeg am 11:37yb. Dywedodd yr achwynydd mai pwrpas yr alwad oedd i ofyn am fersiwn Gymraeg o'r ffurflen Council Tax Property Enquiry Form a'i bod wedi mynegi ei siom am y diffyg Cymraeg a nad oedd y ffurflen yn ddwyieithog yn y man cyntaf. Mae'r achwynydd hefyd yn honni iddi dderbyn llythyr ymateb Cymraeg gan y Cyngor ynghylch y mater hwn ar 7 Ionawr 2019 (dyddiedig 4 Ionawr

6/9/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad oedd y ffurflen dan sylw ar gael yn Gymraeg ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr achwynydd wedi nodi wrth y Cyngor nad oedd yn dymuno cael gohebiaeth ganddo yn Gymraeg. Ar sail yr uchod, canfu'r Comisiynydd nad oedd y Cyngor yn gwybod nad oedd yr achwynydd yn dymuno gohebiaeth ganddo yn Gymraeg, ac felly bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion safon 5 trwy adael ffurflen uniaith Saesneg yn eiddo'r achwynydd ar 28 Rhagfyr 2018. Safon 7: Mae tystiolaeth gan yr achwynydd yn dangos iddi hi, ar 4 Ionawr 20149, dderbyn llythyr gan Adran Treth y Cyngor oedd yn cynnwys ffurflen Ymholiad Eiddo i'w gwblhau a'i hanfon yn ôl at y Cyngor. Roedd y llythyr yn cynnwys y datganiad canlynol: "To receive this information in an alternative format, or in Welsh, please contact the above. I dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat arall, neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r uchod." a'r ffurflen yn cynnwys y datganiad isod: "A Welsh language version of this form is available – Please contact us if you would like one." Safon 19: Ar sail y dystiolaeth sydd yn meddiant y Comisiynydd, canfu'r Comisiynydd na lwyddodd y Cyngor i ddelio â galwad yr achwynydd, oedd yn ymwneud ag ymholiad cyffredinol, yn Gymraeg pan ffoniodd Adran Treth y Cyngor ar 2 Ionawr 2019 a'i bod o ganlyniad wedi gorfod aros oddeutu 15 munud am alwad yn ôl er mwyn cael gwasanaeth ffôn yn Gymraeg. Safon 20: Mae safon 20 yn gosod gofyniad i sicrhau bod cyfarchiad Cymraeg ar gael ar linellau ffôn uniongyrchol aelodau o staff ac adrannau, ac nad yw'r cyfarchiad hwnnw yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae honiad yr achwynydd yn ymwneud â ffonio Adran Treth y Cyngor gan ddewis yr

2019). Nododd ei bod wedi derbyn fersiwn Cymraeg o'r ffurflen honedig erbyn hyn ond nid oedd yn gwerthfawrogi tŷn na chynnwys y llythyr gan honni bod fersiwn Saesneg arall o'r ffurflen ynghlwm wrth y llythyr gyda'r testun "A Welsh language version of this form is available – Please contact us for one" wedi ei huwcholeuo. Darparodd yr achwynydd gopi o'r llythyr a'r ffurflen honedig wrth gyflwyno'r gŵyn. Mae gwybodaeth pellach gan yr achwynydd mewn ymateb i'r cylch gorchwyl arfaethedig yn nodi y bu'n rhaid iddi hi lenwi manylion cyfeiriad a rhif cyfrif treth ar gyfer y fersiwn Gymraeg o'r ffurflen tra bod y wybodaeth yna wedi ei fewnosod yn barod ar y fersiwn Saesneg.

opsiwn Cymraeg a chael ymateb uniaith Saesneg. Canfu'r Comisiynydd nad oes tystiolaeth digonol i ddyfarnu pa un ai bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 20 yn yr achos yma. Safon 50: Canfu'r Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 50 yn yr achos yma gan nad oedd y ffurflen a adawyd yn eiddo'r achwynydd ar 28 Rhagfyr 2018 wedi ei llunio yn Gymraeg. Safon 50B: Canfu'r Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 50B yn yr achos yma gan nad oedd y ffurflen Gymraeg dan sylw wedi ei chyhoeddi na'i darparu ar yr un pryd nac yn yr un modd â'r ffurflen Saesneg, a bod gwybodaeth wedi ei fewnosod ar y ffurflen y Saesneg. Ymhellach at hynny, canfu'r Comisiynydd bod fersiwn Gymraeg y ffurflen dan sylw a ddarparwyd fel tystiolaeth gan y Cyngor yn anghyson â'r fersiwn Saesneg ac Safon 51: Mae'r safon yn gosod gofyniad ar y Cyngor, pan ei fod yn mewnosod gwybodaeth ar ffurflen Gymraeg, i wneud hynny yn Gymraeg. Canfu'r Comisiynydd nad oedd unrhyw wybodaeth wedi ei fewnosod ar fersiwn Gymraeg o'r ffurflen, ac felly nad yw gofynion y safon yn berthnasol yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe methu â chydymffurfio â safonau 5, 7 19, 50 a 50B ac nad yw wedi methu â chydymffurfio â safon 51. Ni ddaeth y Comisiynydd i ddyfarniad ynghylch cydymffurfiaeth Cyngor Dinas a Sir Abertawe gyda safon 20.

#### **Datganiad gweithredu pellach**



Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe methu â chydymffurfio â safonau 5, 7 19, 50 a 50B.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 5, 7 a 50B – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe sicrhau bod ganddo drefniadau digonol mewn lle fel ei fod yn darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn unol â gofynion safon 5 hyd nes ei fod yn gwybod nad yw person yn dymuno hynny.
2. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff o ofynion safon 5.
4. Rhaid i Adran Treth y Cyngor gynnal adolygiad o dempledi sydd ganddyn nhw ar gyfer gohebu gyda phersonau gan sicrhau bod datganiad sy'n cydymffurfio'n llawn gyda gofynion safon 7 wedi ei gynnwys mewn gohebiaeth a chyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gofyn i bersonau ymateb neu anfon gohebiaeth at y Cyngor.
5. Rhaid i Adran Treth y Cyngor gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth a darparu canllawiau i staff ynghylch sicrhau bod datganiad sydd yn cydymffurfio gyda gofynion safon 7 wedi ei gynnwys mewn gohebiaeth a chyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gofyn i bersonau ymateb neu anfon gohebiaeth at y Cyngor.
9. Rhaid i Adran Treth Cyngor Dinas a Sir Abertawe adolygu'r ffurflen Ymholiad Eiddo gan sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.
10. Rhaid i Adran Treth Cyngor Dinas a Sir Abertawe sicrhau, pan ei fod yn llunio fersiwn Cymraeg a Saesneg o



ffurflen, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â gofynion safon 50B gan sicrhau bod y ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi a'u darparu ar yr un pryd.

11. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff Adran Treth y Cyngor o ofynion safon 50B.

12. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi [1 – 2, 4-5, 9-11].

Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd Safon 19– gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg 7. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe adolygu'r trefniadau sydd gan Adran Treth y Cyngor mewn lle ar hyn o bryd, gan sicrhau bod ganddo drefniadau digonol mewn lle er mwyn gallu darparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg hyd nes bod rhaid trosglwyddo'r alwad at aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol, a hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol.

8. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi [7].

Amserlen: O fewn 2 fis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 06/09/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Powys

CSG493 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 26/01/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod ei gyfeiriad, ac enw'r stryd ('Brook Street') yn Llanidloes yn benodol, yn ymddangos yn uniaith Saesneg ar filiau treth Cyngor Sir Powys (y Cyngor) a llythyrau cysylltiedig, er iddo wneud sawl cais i'r Cyngor am gael gohebiaeth oedd yn cynnwys fersiwn Cymraeg o'i gyfeiriad. Mae'r achwynydd hefyd yn honni iddo dderbyn ymateb uniaith Saesneg gan y Cyngor ar 23 Tachwedd 2018 i lythyr a anfonwyd at y Cyngor yn Gymraeg ynghylch y mater hwn. Dywed yr achwynydd iddo gwyno wrth y Cyngor am yr ymateb di-Gymraeg a chael ymateb Cymraeg i hynny ond bod ei gyfeiriad yn parhau yn Saesneg ar ohebiaeth. Mae'r achwynydd wedi darparu copiâu o'r ohebiaeth honedig fel tystiolaeth i gefnogi rhai o'i honiadau, gan gynnwys copi o arwydd gydag enw'r stryd dan sylw yn ddwyieithog (Heol y Nant / Brook Street). Gellir gweld yr arwydd hwnnw yn atodiad 1 o'r cylch

6/9/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff anfon ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg oni bai nad oes angen ymateb i'r ohebiaeth hwnnw, neu bod y person a anfonodd yr ohebiaeth Cymraeg wedi nodi nad oes angen ymateb yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni bod ei gyfeiriad ac enw'r stryd yn benodol yn ymddangos yn uniaith Saesneg ar ohebiaeth gan Adran Treth y Cyngor, a'i fod hefyd wedi derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y Cyngor. Mae'r dystiolaeth yn sefydlu bod honiad yr achwynydd ynghylch derbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y Cyngor ar 23 Tachwedd 2018 a 29 Ionawr 2019 mewn ymateb i'w ohebiaeth Cymraeg, yn gywir ac mae'r Cyngor yn derbyn yr honiadau hynny. Ar sail yr uchod, canfu'r Comisiynydd na atebodd y Cyngor yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg gan yr achwynydd ar ddau achlysur gwahanol. Canfu'r Comisiynydd yn ogystal nad oes dyletswydd ar y Cyngor i gyfieithu enw stryd i'r Gymraeg os nad oes enw Cymraeg wedi'i gofnodi ar gyfer stryd yn unol â'r Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925. Yn yr achos hwn, mae'r Comisiynydd hefyd wedi ei fodloni mai enw uniaith Saesneg sydd wedi ei gofnodi ar gyfer y stryd dan sylw yn unol â'r Ddeddf. Serch hynny, nid yw'r Comisiynydd yn ystyried bod y Ddeddf yn atal y Cyngor rhag mabwysiadau'n swyddogol enw Cymraeg (boed yn enw uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog) ar gyfer y stryd dan sylw yn y dyfodol.

Safon 2: Pwrpas y safon hon yw sicrhau trefn ar gyfer gofyn am a chadw cofnod o ddymuniad unigolyn i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a bod hynny'n cael ei wneud wrth ohebu gydag unigolyn am y tro cyntaf ers diwrnod gosod y safon. Mae'r safon hefyd yn sicrhau bod y wybodaeth

gorchwyl. Ymhellach i'r uchod, mae'r achwynydd yn honni iddo dderbyn llythyr uniaith Saesneg arall gan y Cyngor ar 29/01/2019 mewn ymateb i ohebiaeth Cymraeg oedd yn hysbysu'r Cyngor ei fod wedi gwneud cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg.

honnio yn cael ei defnyddio er mwyn i sefydliadau ohebu â'r unigolyn hwnnw yn Gymraeg o hynny ymlaen yn ogystal ag anfon unrhyw ffurflenni atynt yn Gymraeg, os mai dyna yw ei dymuniad. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor ohebu gyda'r unigolyn dan sylw ac nad oedd gan Adran Treth y Cyngor unrhyw gofnod o ddymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg cyn 12 Rhagfyr 2018. Mae'r Comisiynydd o'r farn nad yw'r dystiolaeth sydd wedi ei chyflwyno yn ei alluogi i wybod pa un ai bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio gyda gofynion safon 2 ai peidio ar yr achlysur yma. Serch hynny, ac ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno nid yw'r Comisiynydd wedi ei argyhoeddi bod trefniadau digonol mewn lle yn ystod yr adeg dan sylw er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda safon 2. Safon 5: Mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, os nad yw'n gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth ganddyn nhw yn Gymraeg, i ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth wrth ohebu gyda'r person hwnnw. Ystyria'r Comisiynydd mai pwrpas y safon yw sicrhau bod personau yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, ac eithrio pan fod y corff yn gwybod nad ydy'r person hwnnw yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd yn derbyn bil treth Cyngor dwyieithog ond gyda'i gyfeiriad, ac enw'r stryd yn benodol, yn uniaith Saesneg, yn ogystal â honiad bod y Cyngor wedi gohebu yn uniaith Saesneg gydag ef ar 23 Tachwedd 2018 a 29 Ionawr 2019 mewn ymateb i ohebiaeth Cymraeg a anfonodd at y Cyngor mewn perthynas â'r bil treth cyngor. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau ei fod wedi cofnodi dymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ar 12 Rhagfyr 2018. Canfu'r Comisiynydd bod y Cyngor

wedi anfon fersiwn Gymraeg o'r bil treth cyngor at yr achwynydd ond bod enw'r stryd ar gyfeiriad yr ohebiaeth hwnnw yn uniaith Saesneg yn unol â'r hyn sydd wedi ei gofnodi ar Rhestr Enwau Strydoedd, a Rhestr Enwau Strydoedd Lleol. Ymhellach at hynny, canfu'r Comisiynydd bod y Cyngor, ers anfon bil treth Cyngor at yr achwynydd, wedi dod yn ymwybodol o ddymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth gan y Cyngor yn Gymraeg, ac felly nad yw gofynion safon 5 yn berthnasol ar gyfer unrhyw ohebiaeth o'r pwynt hwnnw ymlaen. Safon 6: Pwrpas safon 6 yw sicrhau nad yw fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei thrin yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohoni. Canfu'r Comisiynydd nad oes dyletswydd ar y Cyngor i gyfieithu enw stryd i'r Gymraeg os nad oes enw Cymraeg wedi'i gofnodi ar gyfer stryd yn unol â'r Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925. Yn yr achos hwn, mae'r Comisiynydd wedi ei fodloni mai enw uniaith Saesneg sydd wedi ei gofnodi ar gyfer y stryd dan sylw yn unol â'r Ddeddf ac felly nad oedd gofyniad ar y Cyngor i gynnwys fersiwn Cymraeg o'r enw ar yr ohebiaeth dan sylw. Serch hynny, nid yw'r Comisiynydd yn ystyried bod y Ddeddf yn atal y Cyngor rhag mabwysiadu'n swyddogol enw Cymraeg (boed yn enw uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog) ar gyfer y stryd dan sylw yn y dyfodol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 1, a nad yw Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safonau 5, 6 a chamau gorfodi a osodwyd arno mewn hysbysiad penderfynu. Mae'r Comisiynydd wedi methu â dod i ddyfarniad ynghylch cydymffurfiaeth Cyngor Sir Powys gyda safon 2.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil dyfarniad y Comisiynydd.

Datganiad ar y gweithredu pellach

Safon 2 – rhoi cyngor yn unol ag adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg

1. Dylai Cyngor Sir Powys sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle er mwyn sicrhau bod Adran Treth y Cyngor: 'yn gallu sefydlu ai dyna'r tro cyntaf i'r Cyngor (ac nid o reidrwydd yr adran) ohebu ag unigolyn er mwyn gwybod a oes angen gofyn iddyn nhw a ydynt yn dymuno gael gohebiaeth yn Gymraeg gan y Cyngor; 'yn gwybod (os nad dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor ohebu gyda'r unigolyn hwnnw) a yw'n dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg ai peidio; ac 'yn gallu defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn gweithredu ar ofynion y safon fel sy'n berthnasol.

Safon 5 – cyngor yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg

2. Rwyf yn cynghori'r Cyngor i: 'godi ymwybyddiaeth staff Adran Treth y Cyngor o unrhyw drefniadau sydd mewn lle gan y Cyngor i adnabod os yw person yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg, gan sicrhau bod rheiny sydd yn dymuno gohebiaeth yn Gymraeg yn ei dderbyn; ac 'atgoffa staff Adran Treth y Cyngor o'r angen i ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad ydynt yn gwybod a yw person yn dymuno gohebiaeth yn Gymraeg.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 06/09/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

CSG478 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 19/12/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod yr achwynydd, ar 19/12/2018 (oddeutu 16:50) ac ar 15/01/2019 (am 9:34 a 9:38) wedi ffonio rhif 'ymholiadau cyffredinol' y Cyngor sef 01978 298997. Cafodd y rhif oddi ar wefan y Cyngor. Nododd iddo ddewis opsiwn 2 am y Gymraeg ac aros i rywun ateb yr alwad. Ymhen ychydig, clywodd neges arall yn ei hysbysu i bwysu 1 am Saesneg neu i alw nôl rhywbryd eto ac yna daeth yr alwad i ben.

29/8/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 11: Dengys tystiolaeth y Cyngor, ar ffurf recordiad o'r galwadau ffôn a wnaeth yr achwynydd, iddynt gael eu hateb a'u trin yn Gymraeg. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Cyngor ei fod yn cytuno gyda'r achwynydd bod y neges ar y peiriant ateb yn nodi gwasgwch 2 am y Gymraeg, ac os nad oes neb ar gael i ddelio â'r alwad yn Gymraeg, y clywir neges yn nodi gwasgwch 1 am y Saesneg. Casglâ'r Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gweithredu yn unol â gofynion safon 11.

Safon 17: Mae safon 17 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff hysbysu unigolyn pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael ar ei brif rifau ffôn. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor; mae'r Comisiynydd o'r farn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 17 gan nad oedd yn hysbysu'r galwr pryd fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safonau 11 a 17 yn yr achos hwn.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safonau 11 a 17 yn yr achos hwn.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safonau 11 ac 17– cyfarwyddiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

Cam Gorfodi 1 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:  
i) gynnal adolygiad o'i drefniadau o ddelio â galwadau ffôn i'w rifau llinell gymorth neu rifau canolfannau galwadau ble

mae'r galwr yn dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg ii) gweithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol iii) monitro'r graddau y delir â galwadau ffôn Cymraeg yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor iv) adrodd ar y gwaith monitro i bwyllgor perthnasol o fewn y Cyngor v) hysbysu'r Comisiynydd beth yw canfyddiad yr arolwg gan egluro'n llawn pa gamau rydych wedi eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol. Amserlen: Rhaid cyflawni'r camau hyn o fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd, sef 27 Tachwedd 2019.

Cam gorfodi 2: Yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd camau wrth uwchraddio neu adnewyddu unrhyw system ffôn i wirio bod y systemau hyn yn galluogi cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol. Amserlen: Mae'r cam gorfodi yn weithredol 28 diwrnod ar ôl i'r sefydliad dderbyn yr Hysbysiad Penderfynu terfynol.

Cam gorfodi 3: Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan. Amserlen: Mae'r cam gorfodi yn weithredol 28 diwrnod ar ôl i'r sefydliad dderbyn yr Hysbysiad Penderfynu terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 29/08/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Ynys Mon

CSG418 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 18/09/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y 28/8/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 40: Mae safon 40 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sicrhau bod pob dogfen a lunnir at ddefnydd y cyhoedd yn



Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod dogfennau yn ymwneud â phroses ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio i adeiladu ysgol newydd yn Llangefni ar gael yn uniaith Saesneg ar 18/09/2018 drwy ddilyn y ddolen

<http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgyngghori/ysgol-gynradd-newydd-llangefni-ymgyngghoriad-cyn-ymgeisio-am-ganiatd-cynllunio/135180.article>.  
Bwriad y Cyngor yw ymgeisio am ganiatâd cynllunio o dan Erthyglau 2C a 2D i adeiladu ysgol newydd yn Llangefni yn lle Ysgolion Corn Hir a Bodffordd.

cael eu llunio yn Gymraeg. Honnai'r achwynydd bod dogfennau yn ymwneud â phroses ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio i adeiladu ysgol newydd yn Llangefni ar gael yn uniaith Saesneg. Mae'r Cyngor yn cydnabod iddo gyhoeddi'r dogfennau yn uniaith Saesneg. Dywed bod y dogfennau, ac eithrio'r dogfennau technegol, bellach ar gael yn Gymraeg ar ei wefan. O roi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth, canfu'r Comisiynydd nad yw dogfennau technegol wedi eu heithrio o fewn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd ar Gyngor Sir Ynys Môn.

Safon 48: Mae safon 48 yn gofyn i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn dogfennau y mae'n eu llunio. Honnai'r achwynydd i Gyngor Sir Ynys Môn lunio dogfennau yn ymwneud a chais cyn-gynllunio ar ei wefan yn uniaith Saesneg. O ganlyniad, canfu'r Comisiynydd fod y fersiynau Cymraeg wedi eu trin yn llai ffafriol na fersiynau cyfatebol Saesneg o'r dogfennau.

Safon 49: Lle bo'n ofynnol i gorff gydymffurfio â safon 49, disgwylir i'r fersiwn Saesneg ddatgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg. Cyhoeddwyd y dogfennau'n ymwneud â chyn-gais cynllunio gan y Cyngor yn Saesneg yn unig. O ystyried tystiolaeth yr achwynydd sy'n nodi nad oes un o'r dogfennau'n datgan bod fersiynau Cymraeg ar gael, a thystiolaeth y Cyngor sy'n cydnabod iddynt lunio a chyhoeddi'r dogfennau'n uniaith Saesneg, mae'r Comisiynydd o'r farn bod hyn yn groes i ofynion safon 49.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi methu cydymffurfio â safonau 1 a 40, 48 a 49 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**



Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi methu cydymffurfio â safonau 1 a 40, 48 a 49 yn yr achos hwn.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 40 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn sicrhau fod pob dogfen ymgynghori at ddefnydd y cyhoedd yn cael eu llunio (a'u cyhoeddi) yn Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth o fodolaeth y fersiwn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 40.

2. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi uchod. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 48 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn sicrhau bod dogfennau ymgynghori sy'n cael eu llunio ganddo yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahan yn cael eu cyhoeddi'r un pryd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion safon 48.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi uchod.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 49 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

5. Er mwyn cydymffurfio â gofynion safon 49 rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn sicrhau ei fod yn datgan yn glir ar fersiynau Saesneg o ddogfennau ymgynghori bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Cyngor  
Caerdydd

CSG473 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 13/12/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gohebiaeth e-bost a dderbyniodd yr achwynydd mewn ymateb i sylwadau ar gais cynllunio. Ar 13 Rhagfyr, 2018 derbyniodd yr achwynydd e-bost gan Gyngor Caerdydd yn cadarnhau ei fod wedi cofrestru er mwyn gallu rhoi sylwadau ar gais cynllunio. Ar yr un dyddiad derbyniodd e-bost arall gan Gyngor Caerdydd yn cadarnhau bod ei sylwadau ar y cais cynllunio eu derbyn ac yn crynhoi'r sylwadau hynny. Cwynodd bod y ddau e-bost, oedd yn ymddangos fel rhai a

2/8/2019

6. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi uchod.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Ynys Môn ar 28/08/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo Cyngor Caerdydd yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen iddo ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg i Gyngor Caerdydd. Ni ddywedodd nad oedd angen i Gyngor Caerdydd ei hateb yn Gymraeg. Daeth ateb Cyngor Caerdydd ar ffurf dwy neges e-bost oedd wedi eu hysgrifennu'n Saesneg. Mae hyn yn dangos methiant gan Gyngor Caerdydd i gydymffurfio â safon 1.

Safon 2: Wrth ohebu ag unigolyn am y tro cyntaf wedi i'r safonau ddod i rym, rhaid i Gyngor Caerdydd ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno derbyn gohebiaeth ganddo'n Gymraeg. Mae'r dystiolaeth yn dangos mai'r achwynydd a ddechreuodd ohebu hefo Cyngor Caerdydd ar y ddau achlysur dan sylw. Mae safon 2 yn berthnasol pan fo Cyngor Caerdydd yn dechrau gohebiaeth gydag unigolyn. Safon 5 yw'r safon berthnasol felly yn yr achos hwn. Caiff cydymffurfiaeth Cyngor Caerdydd â safon 5 ei ystyried isod.

gynhyrchwyd yn awtomatig, wedi eu hysgrifennu'n Saesneg.

Safon 5: Mae safon 5 yn golygu bod rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth y mae'n ei hanfon at berson os nad yw'n gwybod beth yw ei ddewis iaith. Cafodd gohebiaeth ar ffurf dwy neges e-bost ei chynhyrchu a'i hanfon at yr achwynydd gan Gyngor Caerdydd. Er mai ateb gohebiaeth oedd wedi ei hysgrifennu'n Gymraeg wnaeth Gyngor Caerdydd, gan fod y broses yn un oedd wedi ei hawtomeiddio ni chafodd dewis iaith yr achwynydd ei adnabod. Roedd yr ohebiaeth a anfonwyd gan Gyngor Caerdydd wedi ei hysgrifennu'n Saesneg. Mae hyn yn dangos methiant gan Gyngor Caerdydd i gydymffurfio â safon 5.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 1 a 5 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach.**

Ni weithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad ar y sail bod Cyngor Caerdydd wedi cymryd camau i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. O ddiwedd Gorffennaf 2019 bydd negeseuon sy'n cael eu cynhyrchu a'u hanfon yn awtomatig ar ran Cyngor Caerdydd gan wasanaeth Idox Public Access yn ddwyieithog.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 02/08/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod gwefan y Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth iddo geisio cofrestru ar gyfer gwersi cerddoriaeth. Honnai bod dilyn y ddolen [http://live186.paritor.com/p\\_web/04\\_001\\_192/2306/](http://live186.paritor.com/p_web/04_001_192/2306/) oddi ar dudalen Gymraeg ar wefan y Cyngor i greu cyfrif i dalu am wersi offerynnol i'w ferch yn arwain at dudalen uniaith Saesneg.

Safon 50: Mae safon 50 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar Gyngor Caerdydd i lunio unrhyw ffurflen at ddefnydd y cyhoedd yn Gymraeg. Lluniwyd ffurflen gofrestru Schooble, ar ran y Cyngor, yn Saesneg yn unig. Drwy hynny, ymddengys bod Cyngor Caerdydd wedi methu a chydymffurfio â safon 50 gan iddo gydnabod bod y dudalen dan sylw ar gael yn Saesneg yn unig "ar hyn o bryd". Safon 52: Mae safon 52 yn nodi'n glir yr angen i sicrhau bod pob tudalen ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Derbyniodd yr achwynydd neges e-bost gan Gyngor Caerdydd oedd yn cynnwys doler a arweinai at dudalen Schooble (tudalen oddi ar system feddalwedd gyfrifiadurol Paritor a ddefnyddir gan y Cyngor). Nid yw tudalen Schooble sy'n cynnwys ffurflen i'w chwblhau er mwyn greu cyfrif, ar gael yn y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod defnydd o'r geiriau 'Create an Account' a 'Sign In' yn Saesneg yn unig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 50 a 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 50 a 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 50 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd adnabod pob ffurflen sydd ganddo a lunir gan drydydd parti, a pharatoi cynllun gweithredu i ddangos pa gamau y bydd yn eu cymryd i

			<p>sicrhau bod ffurflenni yn cael eu llunio at ddefnydd y cyhoedd yn y Gymraeg, a hynny er mwyn cwrdd â gofynion safon 50.</p> <p>2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.</p> <p>Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p>Safon 52 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg</p> <p>3. Rhaid i Gyngor Caerdydd gynnal arolwg o'i wefannau i ganfod ble mae'r botymau gorchymyn gosodedig Saesneg, gan roi amserlen mewn lle er mwyn mynd i'r afael â'r methiant i gydymffurfio â safon 52.</p> <p>4. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'r amserlen o fewn 60 diwrnod sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.</p> <p>Amserlen: Cwblhau cam gorfodi 3 o fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 30/07/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><a href="#">Corff</a> <a href="#">Adnoddau</a> <a href="#">Naturiol</a> <a href="#">Cymru</a></p>	<p>CSG481 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 02/01/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r</p>	<p>29/7/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 10: Mae safon 10 yn gosod gofyniad ar gorff i ddelio gyda galwadau at ei brif rifau ffôn, yn eu cyfanrwydd yn Gymraeg, os dymunir y galwr hynny. Ar 2 Ionawr 2019, galwodd yr achwynydd ganolfan Blwch Nant yr Arian sy'n cael ei rhedeg gan CNC, ac nid oedd modd iddi gwblhau ei</p>

achwynydd ei bod wedi ffonio canolfan 'Bwlch Nant yr Arian' a bod neb ar gael i siarad Cymraeg gyda hi ar y ffôn. Roedd yr achwynydd wedi galw'r ganolfan ar ddydd Mercher 2 Ionawr 2019 am 9:57 y bore. Y rhif ffôn a alwyd oedd 01970 890453.

galwad yn Gymraeg. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth CNC a'r achwynydd, canfu'r Comisiynydd nad oedd CNC wedi delio gyda galwad yr achwynydd yn ei chyfanrwydd yn Gymraeg, er ei bod wedi nodi ei dymuniad i dderbyn gwasanaeth Cymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Corff Adnoddau Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru datblygu trefniadau, un ai drwy ddefnydd o staff sy'n medru darparu gwasanaeth Cymraeg, neu drwy ddefnydd o dechnoleg; er mwyn sicrhau ei fod yn delio gyda galwadau Cymraeg yn eu cyfanrwydd yn Gymraeg, heb doriad yn y gwasanaeth Cymraeg.

2. Rhaid i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1 o fewn 90 diwrnod gwaith.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ar 29/07/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Prifysgol  
Glyndŵr

CSG438 Honnai'r achwynydd iddi gysylltu â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar 23 Hydref 2018. Gofynnodd i'r derbynydd yn Gymraeg ei throsglwyddo at 'Person A' yn yr adran chwaraeon. Cafodd ei chyfarch yn Gymraeg ac eglurodd y derbynydd yn Saesneg ei bod yn dysgu Cymraeg ac felly bu i'r sgwrs barhau yn Saesneg. 1.3 Gan nad oedd 'Person A' ar gael, cafodd gynnig i siarad ag aelod arall o fewn yr un adran, 'Person B', neu gael ei throsglwyddo at siaradwr Cymraeg o fewn adran arall. Eglurodd y rheswm dros yr alwad yn Saesneg a chafodd ei throsglwyddo at aelod o staff di-Gymraeg yn y ganolfan hamdden, 'Person B'. 1.4 Honnai'r achwynydd iddi ofyn yn Gymraeg i 'Person B' os oedd yn siarad Cymraeg deirgwaith a chael ateb ganddo yn dweud nad oedd yn ei chlywed. Gofynnodd yr achwynydd yn Saesneg "you can't hear me?" ac fe atebodd Person B "I can hear you now".

17/7/2019

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 9 Mae'n ofynnol ar Brifysgol Glyndŵr Wrecsam roi gwybod i'r sawl sydd yn galw bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Ond nid oes rhaid gwneud hynny yn Gymraeg. Mae safon 11 yn gofyn am ddelio gyda'r alwad yn Gymraeg hyd nes bod angen ei throsglwyddo. Honnai'r achwynydd iddi ffonio Prifysgol Glyndŵr Wrecsam gan dderbyn cyfarchiad Cymraeg ond iddi fethu a derbyn gwasanaeth Cymraeg. Eglurodd y Brifysgol iddo gynnig trosglwyddo'r alwad at siaradwr Cymraeg o fewn adran arall, ac i'r galwr ddatgan nad oedd hyn yn angenrheidiol. O roi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth, mae'r Comisiynydd o'r farn bod cynnig trosglwyddo'r alwad at siaradwr Cymraeg (ymha bynnag iaith) gyfystyr a hysbysu'r galwr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Safon 11 Mae'r safon yn nodi bod yn rhaid i gorff ddelio gyda'r alwad ffôn yn Gymraeg hyd nes bod angen ei throsglwyddo. Nid oes modd osgoi'r ffaith fod y Brifysgol wedi methu a chydymffurfio â safon 11 ar yr achlysur dan sylw. Sefydlwyd dymuniad yr achwynydd i dderbyn gwasanaeth Cymraeg wrth iddi gychwyn y sgwrs yn Gymraeg. Nid oes bai wrth gwrs ar yr Uwch Dderbynydd wnaeth ddelio â'r alwad. Roedd wedi dilyn gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer delio gyda galwadau gan siaradwyr Cymraeg, ond nid yw'r weithdrefn ei hun yn cyd-fynd â gofynion y safon. Mae angen sicrhau bod y derbynydd yn egluro na all siarad Cymraeg ac y byddir yn throsglwyddo'r alwad at rywun sy'n medru sefydlu natur yr alwad, gan wneud hynny yn Gymraeg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Prifysgol Glyndŵr wedi methu cydymffurfio â safon 9 ond bod y Brifysgol wedi methu cydymffurfio â safon 11.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod y Brifysgol wedi methu cydymffurfio â safon 11.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 11 –Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg 1. Rhaid i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam addasu ei weithdrefn ar gyfer delio gyda galwadau ffôn yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 11. Mater i'r Brifysgol yw sut y bydd yn gweithredu'r gofyniad, ond gall y weithdrefn gynnwys y defnydd o beiriant wedi ei awtomeiddio fyddai'n cynnig opsiwn yn Gymraeg pan nad oes staff ar gael sy'n hyderus, neu gynyddu nifer o aelodau staff ar y dderbynfa sydd â sgiliau digonol i gyflawni gofynion y safon. 2.

Rhaid i Brifysgol Glyndŵr Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd sef erbyn 15/10/2019.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Glyndŵr ar 17/07/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.



amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag ymgynghoriad oedd yn cael ei gynnal ar y cyd rhwng llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru. Roedd pwnc yr ymgynghoriad yn ymwneud â chynigion i ddiwygio'r canfasiad blynyddol ac roedd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn dod i ben ar 30 Tachwedd, 2018. Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal ar wefan Llywodraeth yr Alban ac, yn ôl yr achwynydd, dim ond fersiwn Saesneg o'r ddogfen ymgynghori berthnasol oedd i'w weld ar y wefan.

Safon 40 Mae'r safon yn ymwneud â dogfennau sy'n cael eu llunio gan gorff at ddefnydd y cyhoedd. Mae'n dweud bod rhaid i'r corff sicrhau bod y dogfennau hynny yn cael eu llunio'n Gymraeg. Lluniodd Lywodraeth y DU ddogfen at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Cafodd y ddogfen ei llunio fel rhan o ymgynghoriad ar y cyd rhwng llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU. Ni luniwyd y ddogfen yn Gymraeg. Trwy fethu â sicrhau bod y ddogfen yn cael ei llunio'n Gymraeg, methodd Gweinidogion Cymru â chydymffurfio â'r safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 40.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 40.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 40 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod papurau ymgynghori at ddefnydd y cyhoedd, sy'n cael eu llunio fel rhan o ymgynghoriadau ar y cyd, yn cael eu llunio'n Gymraeg.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Canllawiau Ymgynghori Cyffredinol ar gyfer Polisi a Deddfwriaeth er mwyn adlewyrchu canfyddiadau'r ymchwiliad hwn.
3. Rhaid i Weinidogion ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cyngor Bro  
Morgannwg

CSG429 Honnai'r achwynydd iddo dderbyn e-bost yn cynnwys testun uniaith Saesneg gan Adran Gwella Ysgolion a Chynhwysiant Cyngor Bro Morgannwg ar 08/10/2018. Roedd yr e-bost yn hysbysu rhieni bod yn rhaid gohirio pleidlais ar gyfer etholiad rhieni a llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pen y Garth.

11/7/2019

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 12/07/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4 Mae'n ofynnol ar Gyngor Bro Morgannwg i anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yr un pryd â'r Saesneg wrth anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau. Derbyniodd yr achwynydd, a gweddill rhieni ysgol Gymraeg Pen y Garth neges e-bost uniaith Saesneg ar 08/10/2018 gan y Cyngor. Eglura'r Cyngor mai camgymeriad oedd hyn yn sgil diffyg amser. Ymddengys mai penderfyniad bwriadol oedd peidio a chyfieithu'r testun oherwydd y brys i anfon y neges benodol oedd yn ymwneud ag etholiadau rhiant-lywodraethwyr. Nid oes modd osgoi'r ffaith fod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu a chydymffurfio â safon 4 ar yr achlysur dan sylw gan iddo gydnabod mai camgymeriad oedd anfon y neges e-bost yn uniaith Saesneg. Ni ddilynwyd gweithdrefn y Cyngor wrth ddelio gyda gohebiaeth brys ar yr achlysur hwn.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safon 4.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safon 4.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 4 –Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

		<p>1. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddiwygio ei weithdrefnau a'i ganllawiau cyfieithu er mwyn rhoi arweiniad clir i staff ynghylch y camau y dylid eu cymryd er mwyn cydymffurfio â gofynion y safon pan fydd angen gohebu ar frys.</p> <p>2. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.</p> <p>Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 11/07/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor Bro Morgannwg</u></p> <p>CSG494: Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 27/01/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod yr achwynydd wedi derbyn e-bost uniaith Saesneg gan y Cyngor yn cadarnhau trefniadau ar gyfer gweithdy ar gynllun gweithredol y Cyngor.</p>	<p>11/7/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 4: Yn yr achos yma, fe anfonodd y Cyngor neges yn rhoi manylion am weithdy at yr holl rhanddeiliad yn Saesneg yn unig i roi gwybod iddynt am drefniadau'r sesiwn. Nid oedd y Cyngor wedi anfon y neges yn Gymraeg am eu bod wedi cymryd yn ganiataol bod y cynrychiolydd yn dymuno delio â nhw yn Saesneg gan fod yr ymateb a dderbyniwyd ar ei ran yn Saesneg yn hytrach na Chymraeg. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn bod anfon gohebiaeth yn Saesneg yn unig a heb gynnwys fersiwn Gymraeg yn yr achos hwn yn groes i ofynion safon 4.</p> <p>Safon 5: Mae safon 5 yn gofyn i sefydliadau ddarparu gohebiaeth yn Gymraeg os nad ydynt yn ymwybodol bod y person hwnnw yn dymuno cael gohebiaeth Gymraeg. Yn yr achos hwn fe anfonodd y Cyngor ohebiaeth uniaith</p>

Saesneg at lawer o bersonau, a nododd y Cyngor eu bod wedi anfon gohebiaeth Saesneg yn unig gan eu bod wedi cymryd mai dyma oedd dewis iaith yr achwynydd gan iddynt derbyn ffurflen llogi lle mewn Saesneg. Cwblhawyd y ffurflen hon ar ran yr achwynydd.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 4 ond nad yw Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safon 4.

Datganiad ar y gweithredu pellach

Safon 4 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg sicrhau bod ganddo drefniadau mewn lle i sicrhau bod fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn cael ei anfon ar yr un pryd a gohebiaeth Saesneg pan anfonir yr ohebiaeth honno at nifer o bersonau. Bydd angen sicrhau bod y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn cael ei hanfon waeth beth yw dewis iaith y personau hynny, ac ymhob sefyllfa, nid yn unig wrth anfon gohebiaeth gychwynol at y personau hynny.
2. Rhaid sicrhau bod holl staff y Cyngor yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.
3. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2.

Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Gweinidogion  
Cymru

CSG442 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 25/10/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd yn ymwneud â dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, Brexit a'n tir; Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru. Honnodd yr achwynydd bod camgymeriadau i'w gweld yn fersiwn Gymraeg y ddogfen.

3/7/2019

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 11/07/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 48: Ni ddylai corff wrth iddo lunio dogfen drin fersiwn Gymraeg y ddogfen yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd Gweinidogion Cymru ddogfen ymgynghori oedd yn cynnwys gwybodaeth anghywir mewn ffigur yn fersiwn Gymraeg y ddogfen. O ganlyniad, cafodd fersiwn Gymraeg y ddogfen ymgynghori ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei gywirdeb.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 48.

**Datganiad gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach ar y sail:

- i. bod gan Lywodraeth Cymru drefniadau priodol mewn lle ar gyfer prawf ddarllen dogfennau sydd wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg; ac
- ii. bydd ymgynghoriad arall yn cael ei gynnal bydd yn cynnig cyfle pellach i gynnwys y wybodaeth gywir.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 03/07/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys

Prif Gwnstabl  
Heddlu De  
Cymru

CSG451 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 09/11/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd yn ymwneud a gwasanaeth ffôn pan nad oes brys Heddlu De Cymru. Dywedodd yr achwynydd ei fod wedi ffonio'r rhif ffôn priodol '101' am oddeutu 13.00 ar 9 Tachwedd, 2018. Eglurodd ei fod wedi 'dewis yr opsiwn Cymraeg, a nifer o opsiynau awtomatig Cymraeg eraill' cyn clywed llais wedi ei awtomeiddio yn gofyn, yn Saesneg, pa adran o'r Heddlu roedd am siarad â hi. Dywedodd nad oedd y gwasanaeth awtomatig yn adnabod geiriau Cymraeg pan geisiodd ymateb.

3/7/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 22: Mae'r safon yn golygu bod rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei awtomeiddio sydd gan Heddlu De Cymru fod ar gael, yn gyfan gwbl, yn Gymraeg. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r gwasanaeth ffôn 101, sydd yn system ffôn wedi ei hawtomeiddio, yn darparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan Heddlu De Cymru i gydymffurfio â safon 22.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fod Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 22.

### **Datganiad gweithredu pellach**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fod Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 22.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 22 – Cyngor yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg Rwy'n cynghori Heddlu De Cymru i barhau i gynnal trafodaeth gyda'i ddarparwr ynglŷn â darparu'r gwasanaeth ffôn 101 cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg ac, o bosib, gwneud addasiadau i'w gytundeb gyda'r darparwr fyddai'n galluogi i hynny ddigwydd. Mae'n hanfodol bod Heddlu De Cymru yn sicrhau bod gofyniad safon 22 yn ystyriaeth ganolog wrth newid neu ddatblygu ei systemau ffôn wedi ei hawtomeiddio, neu bwrcasu system debyg o'r newydd yn y dyfodol. Mae cyngor pellach ar gontractio i'w gael yn y cyhoeddiad Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg sydd ar gael er fy ngwefan.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Torfaen

CSG468 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 04/12/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â chylchlythyr ar gyfer aelodau Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) o'r enw 'Gwent Grapevine'. Dywedodd yr achwynydd ei fod wedi derbyn rhifyn gaeaf 2018 y cylchlythyr yn Saesneg yn unig.

3/7/2019

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru ar 03/07/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Anfonodd y Cyngor gylchlythyr yn Saesneg i'r achwynydd ac aelodau eraill Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwent Fwyaf (Torfaen). Cafodd ei anfon gan y Cyngor gan mai ef yw awdurdod gweinyddu'r Gronfa. Wrth arfer ei gyfrifoldeb statudol fel awdurdod gweinyddu, roedd y Cyngor yn 'cyflenwi gwasanaeth' i aelodau'r Gronfa. Wrth gyflenwi gwasanaethau, boed yn uniongyrchol neu drwy law'r Gronfa, mae'n ofynnol ar y Cyngor i gydymffurfio â'r safonau a osodwyd arno mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Er mwyn cydymffurfio â safon 4 rhaid i unrhyw ohebiaeth y mae'r Cyngor yn ei anfon at nifer o bersonau gael ei hanfon yn Gymraeg. Trwy anfon y cylchlythyr yn Saesneg fe fethodd y Cyngor â chydymffurfio â'r safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu cydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu cydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 4 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o'r cylchlythyr Gwent Grapevine/Llais Torfaen ar yr un pryd ag y mae'n

			<p>anfon y fersiwn Saesneg at aelodau Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).</p> <p>2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.</p> <p>Amserlen: Mewn pryd ar gyfer y cyhoeddiad nesaf o'r cylchlythyr sy'n dilyn ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p>Safon 4 – Cyngor yn unol ag adran 74(4)(b) Mesur y Gymraeg Fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwent Fwyaf (Torfaen), rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y gwasanaethau y mae'n ei ddarparu i aelodau'r Gronfa yn cydymffurfio â'r safonau a osodwyd ar y Cyngor mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 03/07/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor</u> <u>Bwrdeistref</u> <u>Sirol</u> <u>Wrecsam</u></p>	<p>CSG364 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 14/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Mae'r achwynydd yn cyflwyno cwyn am fethiannau honedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar ei gwefannau. Mae'r gwyn yn cyfeirio yn benodol at wefan 'Tŷ Pawb'</p>	<p>3/7/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 52: Yn dilyn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, casgla'r Comisiynydd nad oes gweithdrefnau na phrosesau digonol mewn lle i wirio cynnwys Cymraeg gwefan Tŷ Pawb er mwyn sicrhau bod y cynnwys Cymraeg o'r un safon a chywirdeb a'r Saesneg. O ganlyniad, casgla'r Comisiynydd bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol ar wefan Tŷ Pawb. Cred y Comisiynydd bod yna fanteision clir i ddiffinio iaith yn gywir o fewn cod gwefan, fodd bynnag nid yw fy ymchwiliad wedi profi nac fy narbwylllo bod siaradwyr Cymraeg sydd yn ceisio cyrchu gwybodaeth Gymraeg am Tŷ Pawb ar y we wedi profi</p>



([www.typawb.cymru](http://www.typawb.cymru)) a hefyd prif wefan y Cyngor ([www.wreccsam.gov.uk](http://www.wreccsam.gov.uk)). Mae sawl agwedd wahanol i'r gŵyn.

unrhyw anfantais yn sgil y ffaith bod cod y wefan yn ei diffinio yn Saesneg. Yn sgil diffyg tystiolaeth gadarn o sut mae diffiniad iaith o fewn cod HTML yn effeithio ar ganlyniadau chwilio defnyddwyr gwasanaeth ni allaf ddod i ddyfarniad ynglŷn â chydymffurfiaeth â safon 52 ar yr agwedd yma o'r gŵyn. Noda'r Comisiynydd fodd bynnag bod yr achos hwn wedi amlygu rhai materion technegol sydd angen eu hystyried wrth allanoli gwasanaethau sydd yn ymwneud â chreu gwefannau, a chroesawaf ymrwymiad y Cyngor i fod yn fwy gwylidwrus o'r materion hyn wrth gomisiynu gwaith o'r fath yn y dyfodol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam gynnal adolygiad llawn o wefan Tŷ Pawb er mwyn sicrhau bod y tudalennau Cymraeg yn cyfateb yn llawn o ran safon a chywirdeb â'r tudalennau Saesneg er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam adolygu a diweddarau'r canllaw Guidelines for Publishing Information on The Council's Web site er mwyn cynnig arweiniad clir i staff ar ofynion safonau'r Gymraeg sydd yn ymwneud â gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff. Dylid hefyd

sicrhau bod unrhyw ganllaw electroneg neu ar-lein hefyd yn cael ei ddiweddarau i ystyried gofynion safonau'r Gymraeg.

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2 o fewn 12 wythnos o gyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Safon 52 - argymhellion yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg

4. Wrth gomisiynu gwaith o ddylunio a chreu gwefannau gan drydydd parti, dylai'r Gyngor sicrhau bod unrhyw fanyleb neu gytundeb yn manylu ar yr angen i ystyried sut mae iaith y wefan neu'r tudalennau gwe yn cael eu diffinio er mwyn ei gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg.

5. Pan fo'r Gyngor yn arddangos mapiau statig ar ei gwefannau, dylid arddangos enwau'r strydoedd yn Gymraeg ar dudalennau Cymraeg ei gwefannau.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 03/07/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig

CSG378 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 27/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynghylch hysbysebion y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y BBC) yr oedd yn ymddangos o fewn rhaglen Gŵyl y

13/6/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 33: Mae safon 33 yn ei wneud yn ofynnol ar gorff i lunio unrhyw ddeunydd hysbysebu neu ddeunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg. Os bydd y corff yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid iddynt beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, rwyf o'r farn, er bod y Gorfforaeth wedi llunio deunydd hysbysebu

Gelli ym Mis Mai 2018. Roedd yr hysbysebion yn hybu'r rhaglenni a digwyddiadau yr oedd y BBC yn cynnal yn ystod yr Ŵyl. Darparodd yr achwynydd luniau o'r hysbysebion dan sylw (gweler atodiad 1). Honnai'r achwynydd bod yr hysbysebion yn Saesneg yn unig a'i fod o'r farn fod hyn yn groes i ofynion safonau'r Gymraeg.

yn Saesneg yn unig ar gyfer rhaglen Gŵyl y Gelli, nad yw hyn yn groes i'w Hysbysiad Cydymffurfio sydd yn gosod cyd-destun cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau. Gan fod yr hysbysebion dan sylw yn gysylltiedig â rhaglenni a darlledwyd gan y Gorfforaeth, maent wedi eu heithrio o ofynion y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw'r Gorfforaeth Ddarledu Brydeinig wedi methu cydymffurfio â safon 33.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad nad yw'r Gorfforaeth Ddarledu Brydeinig wedi methu cydymffurfio â safon 33.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Gorfforaeth Ddarledu Brydeinig ar 13/06/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### Gweinidogion Cymru

CSG365 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 13/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod yr achwynydd wedi derbyn llythyr a holiadur uniaith Saesneg gan Gynllun Nyth Cartrefi Clyd Cymru er mwyn darparu adborth am y gwasanaeth

6/6/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 2: Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael, ac er sawl ymgais i geisio sefydlu ffeithiau'r achos er mwyn gallu ystyried yn llawn cydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru gyda safon 2 mae'r Comisiynydd o'r farn nad yw'r dystiolaeth sydd wedi ei chyflwyno yn ei alluogi i wybod pa un ai bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio gyda gofynion safon 2 ai peidio. Heb wybod gyda sicrwydd ai dyma'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru ohebu gyda'r achwynydd ers diwrnod gosod y safon, sef 30 Mawrth 2016, ai peidio nid ydyw mewn sefyllfa yn yr achos hwn i

ffôn a dderbyniodd. Dywedodd yr achwynydd bod y gwasanaeth ffôn a dderbyniodd yn Gymraeg.

ddyfarnu ar gydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru gyda safon 2. Serch hynny, ac ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno nid yw wedi ei argyhoeddi bod trefniadau digonol mewn lle yn ystod yr adeg dan sylw er mwyn galluogi staff cynllun Nyth i sefydlu ai dyma'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru ohebu gyda'r achwynydd er mwyn gwybod a oedd angen gofyn i'r achwynydd wrth anfon y llythyr a'r holiadur a oedd yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg. Nid yw chwaith wedi ei argyhoeddi bod trefniadau digonol mewn lle er mwyn sicrhau bod y cwestiwn hwnnw yn cael ei sefydlu yn ysgrifenedig wrth ohebu gydag unigolyn am y tro cyntaf gan bod awgrym bod hynny yn cael ei gofnodi yn dilyn cyswllt ffôn yn unig. Safon 5: Canfu'r Comisiynydd nad oedd Gweinidogion Cymru yn gwybod a oedd yr achwynydd yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthynt yn Gymraeg a bod dewis iaith yr achwynydd wedi ei gofnodi fel Saesneg mewn camgymeriad. Gan ystyried hynny, rwy'n canfod y dylai Gweinidogion Cymru fod wedi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth at yr achwynydd. Camau Gorfodi CSG196 & CSG204: Roedd y cam gorfodi a osodwyd ar Weinidogion Cymru ar 30 Tachwedd 2017 yn sgil ymchwiliadau CSG196 a CSG204 yn gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth staff oedd yn destun cwynion am fethiannau i weithredu'r safonau; a sydd â chyswllt rheolaidd gydag aelodau o'r cyhoedd o ofynion y safonau gohebiaeth yn benodol. Fodd bynnag, ar ôl ystyriaeth pellach, nid yw'r Comisiynydd yn ystyried bod y camau gorfodi yn rhai sy'n berthnasol i'r achos hwn gan nad aelodau staff uniongyrchol Gweinidogion Cymru oedd yn gyfrifol am anfon yr ohebiaeth dan sylw. Serch hynny, ar ôl ystyried y wybodaeth sydd ar gael, nid yw wedi ei fodloni

bod trefniadau digonol mewn lle i godi ymwybyddiaeth cyflenwyr sydd yn darparu gwasanaethau ar ran Gweinidogion Cymru o'r gofynion sydd arnyn nhw i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae hynny oherwydd nad oes gan staff cynllun Nyth fynediad at ganllawiau ar fewnrwyd Gweinidogion Cymru, a nid oes tystiolaeth wedi ei ddarparu bod y canllawiau yma yn cael eu darparu i staff cynllun Nyth mewn modd arall. Ymhellach at hynny, nid yw wedi ei fodloni bod y cymal sydd wedi ei gynnwys yn y fanyleb gyda Nwy Prydain ynddo'i hun yn ddigonol er mwyn sicrhau eglurder o ran gofynion pa safonau sydd angen i'r cyflenwr sicrhau cydymffurfiaeth â hwy. Rwyf yn ystyried y dylai Gweinidogion Cymru nodi'n glir mewn unrhyw gytundeb gyda'r trydydd parti hwnnw yr union safonau sydd angen i'r trydydd parti gydymffurfio â nhw yn hytrach na chynnwys cymal mwy cyffredinol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg nid oedd modd i'r Comisiynydd ddod i ddyfarniad mewn perthynas â chydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru â safon 2, dyfarnodd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 5, dyfarnodd nad oedd methiant i gydymffurfio â chmau gorfodi CSG196 a CSG204.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil dyfarniad y Comisiynydd.

Datganiad ar y gweithredu pellach

Safon 2 –rhoi cyngor yn unol ag adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg

1. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle er mwyn: 'galluogi staff cynllun Nyth i sefydlu ai dyna'r tro cyntaf i Weinidogion Cymru ohebu gydag unigolyn er mwyn gwybod a

oes angen gofyn i'r unigolyn hwnnw yn yr ohebiaeth a yw'n dymuno cael gohebiaeth ddilynol yn Gymraeg; 'a sicrhau bod cofnod cywir o ddymuniad unigolyn i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg yn cael ei gadw.

Safon 5 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle gan gynllun Nyth i sicrhau bod pob person yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, oni bai eu bod yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle i rannu gwybodaeth ynghylch dymuniad unigolyn i gael ohebiaeth yn Gymraeg gydag adrannau gwahanol gan gynnwys trydydd parti sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn iddynt allu gwirio a gweithredu arno, yn unol â'r safonau gohebu.
3. Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth bellach ynghylch gofynion safonau'r Gymraeg ar gyfer gohebiaeth gan dargedu yn benodol staff cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod gan aelodau o staff trydydd parti sydd yn gweithredu ar eu rhan fynediad at unrhyw ganllawiau, dogfennau cyngor neu gyfarwyddiadau / dogfennau perthnasol eraill ynghylch sut i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth(au) y maent yn darparu ar ran Gweinidogion Cymru.

5. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad y Comisiynydd

Safon 5 – argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rwyf yn argymhell bod Gweinidogion Cymru yn adolygu contractau gyda thrydydd partion er mwyn sicrhau bod cymalau cyffredinol ynghylch cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg yn cael eu disodli gan gymalau mwy penodol sydd yn nodi'n glir wrth y trydydd parti yr union safonau a'r gofynion sydd angen iddyn nhw gydymffurfio â hwy.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 06/06/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Penfro

CSG3535 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 25/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn anhapus na wnaeth dderbyn ymateb i e-bost Cymraeg a anfonodd at Arweinydd y Cyngor ar 16/10/2017. Ail anfonodd yr e-bost ar 15/12/2017 ac eto ar 12/03/2018 a

5/6/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae Safon 1 yn gofyn i'r Cyngor ateb gohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg os nad yw'r person wedi dweud nad oes angen ymateb yn Gymraeg. Yn yr achos yma anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg at Arweinydd y Cyngor ar dri achlysur cyn derbyn ymateb dros chwe mis yn ddiweddarach. Mae angen i'r cyhoedd gael sicrwydd na fydd gohebu yn Gymraeg gyda sefydliad cyhoeddus yn arwain at oedi neu hyd yn oed at beidio a derbyn ymateb o gwbl. Gan na wnaeth yr achwynydd dderbyn ymateb i'w ohebiaeth Gymraeg o fewn amser

25/04/2018. Roedd yr e-bost yn gofyn i'r Cyngor ymateb i gwestiynau ynglŷn ag addysg Gymraeg.

rhesymol ni wnaeth y Cyngor lwyddo i gydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Penfro wedi methu cydymffurfio â safon 1 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Sir Penfro wedi methu cydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r modd y mae'n delio â gohebiaeth Gymraeg sy'n cyrraedd aelodau Cabinet y Cyngor.
2. Rhaid i'r Cyngor weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau er mwyn sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg: - yn cael ei ddarllen gan berson priodol o fewn y Cyngor; - yn cael ei gyfieithu (os oes angen); -yn derbyn ymateb (os oes angen) yn unol a thargedau corfforaethol y Cyngor
3. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod aelodau etholedig a swyddogion sy'n eu cefnogi yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.
4. Rhaid i Gyngor Sir Penfro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 - 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Penfro 05/06/2019.



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

CSG402 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 08/08/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd ei fod wedi cwblhau holiadur ar wefan y Cyngor drwy ddilyn dolen sydd wedi ei darparu gan y Cyngor. Honnai fod i) dolen i'r arolwg ar waelod y dudalen yn ymddangos yn uniaith Saesneg ar dudalen Gymraeg, ii) bod y ddolen yn arwain at fersiwn Saesneg o'r arolwg; a iii) bod gwallau cyfieithu a chamsillafu o fewn yr arolwg.

5/6/2019

## **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Cwblhaodd yr achwynydd holiadur oddi ar dudalen Gymraeg gwefan y Cyngor. Roedd y ddolen i gwblhau arolwg yn ymddangos yn Saesneg, gan arwain at fersiwn Saesneg o'r holiadur. Honnai hefyd bod yr arolwg yn cynnwys gwallau cyfieithu a gwallau sillafu. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, canfu'r Comisiynydd bod gwall ar ddolen un o dudalennau Cymraeg y wefan sy'n arwain at holiadur Eich Llais Wrecsam – Astudiaeth o Anghenion Tai, a bod hyn yn arwain at sefyllfa ble mae'r gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael yn un sy'n llai ffafriol na'r gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 52 yn yr achos hwn.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3) Mesur y Gymraeg

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Merthyr  
Tudful

CSG423 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 27/03/2019 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Honnai'r achwynydd ei bod wedi galw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y "Cyngor") ar 26 Medi 2018 a bod y derbynnydd wedi nodi nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael. Honnai'r achwynydd ei bod wedi galw'r Cyngor eto ar y rhif 01685 725 000 rhwng 10 ac 11 o'r gloch ar fore 27 Medi 2018 gan ofyn am siaradwr Cymraeg.

5/6/2019

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob tudalen o'i wefan ar gael yn Gymraeg.
  2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod dolenni ar y tudalennau Cymraeg yn arwain at wybodaeth neu ddogfennau Cymraeg.
  3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi uchod.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 05/06/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 8: Mae safon 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gyfarch person yn Gymraeg pan fo'r person hwnnw'n cysylltu â'r corff ar y rhifau ffôn perthnasol. Honnai'r achwynydd ei bod wedi galw'r Cyngor ar 26 Medi 2018 a bod y derbynnydd wedi nodi nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael. Dywed y Cyngor mai'r cyfarchiad a glywodd yr achwynydd oedd 'Mae'n flin da fi, dydw i ddim yn siarad Cymraeg'. Ymddengys bod yr achwynydd wedi derbyn cyfarchiad yn Gymraeg yn ôl y cofnod sydd gan y Cyngor o'r alwad a wnaeth yr achwynydd ar 26 Medi 2018. Safon 9: Mae safon 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi gwybod i berson sy'n eu galw bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael gan y corff. Nid yw'r rheoliadau yn nodi sut dylai corff fynd ati i wneud hynny. Nid yw'r rheoliadau chwaith yn nodi bod rhaid gwneud hynny yn Gymraeg.

Honnai'r achwynydd bod y derbynnydd wedi rhoi'r ffôn i lawr.

Wrth alw'r rhif 01685 725 000 ceir neges awtomatig yn croesawu'r galwr yn Gymraeg yn gyntaf i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gan ofyn i'r galwr bwysu '2' os am dderbyn gwasanaeth Cymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor yn rhoi gwybod i alwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael drwy eu cyfarch yn Gymraeg a thrwy ofyn iddynt am bwysu '2' os am dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg. Safon 11: Mae safon 11 yn eu gwneud yn ofynnol i gorff ddelio â galwad yn Gymraeg unwaith y maent yn ymwybodol bod y person yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn, gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r pwnc penodol yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i gorff sefydlu dymuniad y person i dderbyn gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn ar y cyfle cyntaf posib. Pan hysbysodd y derbynnydd yr achwynydd nad oedd yn gallu siarad Cymraeg, nid oedd unrhyw ofyniad iddo ddarparu gwybodaeth ar bwnc penodol ac felly, yn unol â safon 11, roedd disgwyl i'r Cyngor ddelio â galwad yr achwynydd yn Gymraeg. Mae honiad yr achwynydd yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio a'r safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi methu cydymffurfio â safon 11 ond ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi methu cydymffurfio â safon 11.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 11 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr fabwysiadu dehongliad cywir o safon 11 yn unol â chynnwys yr adroddiad hwn.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.  
Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 11 – Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3)(a) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful baratoi cynllun gweithredu ar gyfer:
  - i. Adolygu trefniadau cyfredol y Cyngor ar gyfer cydymffurfio â safon 11
  - ii. Amlinellu pa gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd er mwyn gweithredu canfyddiadau'r adolygiad
  - iii. Amlinellu sut y bydd y Cyngor yn diwygio eu trefniadau cyfredol er mwyn bod yn gyson a'r dehongliad cywir o safon 11
  - iv. Amlinellu sut y bydd y Cyngor yn hyfforddi staff Siop Un Stop y Cyngor mewn perthynas â threfniadau diwygiedig y Cyngor Dylai'r cynllun gweithredu nodi'r amserlen ar gyfer gyflawni pob cam ac ar gyfer cwblhau'r gwaith. Amserlen: Rhaid i'r Cyngor cyflwyno cynllun gweithredu drafft o fewn 90 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful ar 05/06/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

CSG407 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 15/08/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn ynghylch dau fater cysylltiedig sy'n ymwneud â phrofiad yr achwynydd o ddefnyddio un o wefannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam: <https://wrexham-consult-cy.objective.co.uk/portal/>. Mae'r gwefan hwn yn borth penodol ar gyfer rhannu dogfennau ymgynghori gyda'r cyhoedd ac yn galluogi trigolion i gyflwyno sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriadau. Wrth gyflwyno sylwadau ar ymgynghoriad yn Gymraeg drwy'r porth uchod, honnai'r achwynydd iddo dderbyn neges o gydnabyddiaeth uniaith Saesneg mewn ymateb. Honnai'r achwynydd yn ogystal bod rhyngwyneb a'r dewislenni'r wefan yn ymddangos yn Saesneg yn unig, ac nad oedd y botwm 'Cymraeg' ar frig y dudalen yn newid y tudalennau na'r rhyngwyneb i gynnig opsiynau pellach. Mae'r achwynydd hefyd yn honni bod tudalennau ar y wefan gyda thestun

20/5/2019

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon1: Yn yr achos hwn mae'r partion yn gytûn fod y Cyngor wedi ymateb gyda neges e-bost cydnabod safonol yn Saesneg i sylwadau a gyflwynwyd gan yr achwynydd drwy borth ymgynghori yn Gymraeg.

Safon 52: Canfu'r Comisiynydd nad oedd tudalennau porth ymgynghori'r Cyngor yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg ac roedd tudalennau ar y porth hwn ble yr oedd y testun Gymraeg yn cael triniaeth lai ffafriol na'r testun Saesneg, ar y dyddiad y defnyddiodd yr achwynydd y wefan i gyflwyno sylwadau ar un o ymgynghoriadau'r Cyngor.

Safon 55: Canfu'r Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â gofynion safon 55 yn yr achos hwn oherwydd bod dolen wedi ei darparu o dudalennau Saesneg y wefan hon at dudalen Gymraeg mewn amgylchiadau ble mae tudalen cyfatebol Cymraeg yn bodoli.

Safon 56: Canfu'r Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â sicrhau bod rhyngwyneb a dewislenni ar ei borth ymgynghori ar gael yn Gymraeg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safonau 1, 52 a 56 ond ei fod yn cydymffurfio â safon 55 yn yr achos hwn.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 61.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un dudalen, a bod y testun Gymraeg yn cael ei arddangos islaw'r testun Saesneg, a bod hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 1 –gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal arolwg o'i holl systemau sy'n cynhyrchu gohebiaeth safonol (megis e-byst cydnabod derbyn gohebiaeth) a gweithredu ar ganfyddiadau'r arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn cynhyrchu ymateb Cymraeg pan maent yn derbyn gohebiaeth Gymraeg.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**  
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 20/05/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**  
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Ynys Mon

CSG391 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 17/07/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Dywedodd yr achwynydd bod dolen ar brif wefan y Cyngor, sef [www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk), oedd yn arwain at is-wefan oedd yn darlledu cyfarfodydd y Cyngor. Cyfeiriad yr is-wefan oedd <https://ynysmon.public-i.tv>. Cwynodd bod y ddolen wedi ei henwi'n

9/5/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae'r safon yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg, ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Mae'n berthnasol i bob gwefan sydd gan y Cyngor gan gynnwys yr is-wefan sy'n darlledu cyfarfodydd rhai o'i bwyllgorau'r. Mae'r is-wefan yn cael ei gynnal ar ran y Cyngor gan drydydd parti drwy drefniant. Roedd dolen ag enw Saesneg 'View Webcast' i'w weld ar fersiwn Gymraeg prif wefan y Cyngor. Roedd y ddolen hon yn arwain o fersiwn Gymraeg y brif wefan i fersiwn Saesneg yr is-wefan gwe-ddarlledu. Roedd hyn yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 52.

Saesneg, gyda'r enw 'View Webcast', er ei bod yn ymddangos ar fersiwn Gymraeg prif wefan y Cyngor. Cwynodd hefyd bod y ddolen yn arwain defnyddwyr yn ddiodyn at fersiwn Saesneg yr is-wefan. Dywedodd ei fod ar ddeall bod y wefan <https://ynysmon.public-i.tv> yn arwain yn ddiodyn at y fersiwn Saesneg yn mhob achos, sut bynnag y ceisia'r defnyddiwr gael mynediad ati. Dywedodd fod y sefyllfa'n gyffredin i bob awdurdod lleol sy'n defnyddio'r un system ar gyfer gwe-ddarlledu eu cyfarfodydd.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi methu cydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad a hynny oherwydd bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Ynys Môn 09/05/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

CSG356 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 26/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn neges e-bost generig gan Gyngor Bro Morgannwg ar 26/04/2018 yn gofyn iddo gwblhau holiadur Dweud eich Dweud. Neges ydoedd gan y Cyngor i hysbysu pobl o'r newidiadau yn ymwneud ag ailgylchu a chasglu gwastraff gan ofyn iddynt am eu barn. Honnai'r achwynydd: 'bod y neges Saesneg yn ymddangos cyn y

9/5/2019

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 6: Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn testun e-bost, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Nid oedd y testun Cymraeg i'w weld ar dudalen flaen y neges a rhaid i'r darlennydd gymryd cam ychwanegol o sgrolio i lawr y neges i ganfod bodolaeth testun Cymraeg.

Safon 48: Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn i'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o'r ddogfen gan fod dolen o'r holiadur Cymraeg yn arwain at dudalen Saesneg.

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny.

Cyngor Bro  
Morgannwg



Gymraeg ar yr e-bost (gweler Atodiad 1) 'iddo gael ei gyfeirio at y wefan Saesneg ganlynol yn dilyn cwblhau'r holiadur Dweud eich Dweud yn Gymraeg:

Derbyniodd yr achwynydd e-bost gan y Cyngor yn ei wahodd i gwblhau holiadur ar –lein. Wedi cwblhau'r holiadur yn Gymraeg, arweiniodd yr unig ddolen o'r arolwg at dudalen Saesneg ar wefan y Cyngor yn diolch iddo am gyflwyno sylwadau ar yr arolwg. Roedd y dudalen y cyfeiriwyd yr achwynydd ati ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg serch bod angen gwasgu'r botwm 'Cymraeg' i gael mynediad ati.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safonau 6 a 48 ond ei fod yn cydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu cydymffurfio â safon 6.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg sicrhau bod pob elfen o'i negeseuon e-byst yn cydymffurfio â safon 6.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r cam gorfodi.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg 09/05/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys



CSG321 a CSG349 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 12/03/2018 a 25/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ar 12/03/2018, honnai'r achwynydd iddo dderbyn ymateb awtomatig uniaith Saesneg yn dilyn anfon gohebiaeth yn Gymraeg at y cyfeiriad your.call@torfaen.gov.uk. Ar 25/04/2018 honnai'r achwynydd na dderbyniodd ymateb i e-bost Cymraeg a anfonodd at Arweinydd y Cyngor ar 16/10/2017. Ail anfonodd yr e-bost ar 15/12/2017 ac eto ar 12/03/2018 a 25/04/2018. Ar 12/03/2018 a 25/04/2018 anfonwyd y neges i your.call@torfaen.gov.uk hefyd. Roedd yr e-bost yn gofyn i'r Cyngor ymateb i gwestiynau ynglŷn ag addysg Gymraeg.

9/5/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae Safon 1 yn gofyn i'r Cyngor, os bydd yn derbyn unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg, i ymateb yn Gymraeg os nad yw'r aelod o'r cyhoedd wedi dweud nad yw am dderbyn ymateb yn Gymraeg. Ar 16/10/17 derbyniodd yr achwynydd ymateb awtomataidd Saesneg i'r ohebiaeth Gymraeg a anfonwyd at your.call@torfaen.gov.uk. Anfonodd yr achwynydd e-bost yn Gymraeg ar Arweinydd y Cyngor ar 16/10/17, 15/12/17 ac 12/03/18. Ni dderbyniodd gydnabyddiaeth nac ymateb i'r un o'r tri e-bost yma. Gan bod yr achwynydd wedi derbyn ymateb awtomataidd Saesneg i'w e-bost dyddiedig 16/10/17 ac na dderbyniodd ymateb i'r e-byst anfonwyd ar 16/10/17, 15/12/17 ac 12/03/18 at Arweinydd y Cyngor nid yw' Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu cydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu cydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1—gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wirio bob pob ymateb awtomatig i e-byst yn cydymffurfio â safon 1.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen greu canllaw clir ac eglur ynglŷn a fydd yn cynorthwyo staff i gydymffurfio â safon 1.

		<p>3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff o ofynion safon 1.</p> <p>4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi [1 – 3].</p> <p>Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 09/05/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Gweinidogion Cymru</u></p> <p>CSG398 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 04/08/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â chyfrifon y Prif Weinidog (@FMWales) a Llywodraeth Cymru (@LlywodraethCym). Honnodd yr achwynydd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol, a nododd: • bod trydariad trwy'r cyfrif @FMWales ar 2 Awst 2018 mewn tair iaith – Saesneg, Ffrangeg a Llydaweg, ond nid yn Gymraeg ac nad yw'n rhesymol bod negeseuon yn yr ieithoedd hyn yn cael eu cyhoeddi ar draul y Gymraeg; a • bod ail drydariadau @FMWales o gyfrifon @LlywodraethCym a</p>	<p>9/5/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 58: Gofyniad safon 58 yw i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar gyfrifon cymdeithasol. Yn achos y neges ar 1 Awst am ddiwrnod chwarae cenedlaethol ar gyfrif @LlywodraethCym, casglaf bod peidio â chynnwys y ddelwedd dan sylw o fewn y neges Cymraeg, tra bod hynny wedi ei chynnwys o fewn y neges Saesneg cyfatebol ar y cyfrif Saesneg @WelshGovernment yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran cynnwys. Casgla'r Comisiynydd bod @FMWales wedi ail drydar y neges honno yn Gymraeg a Saesneg ar ei gyfrif. Nid oedd delwedd wedi ei chynnwys yn y neges Gymraeg tra bod hynny wedi ei chynnwys o fewn y neges Saesneg, ac felly, casgla'r Comisiynydd bod hyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran y cynnwys. Yn achos y neges gan y Prif Weinidog ar 2 Awst, casgla'r Comisiynydd bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol wrth bod y neges wedi ei thrydar yn Saesneg, Ffrangeg a Llydaweg, ond nid yn Gymraeg.</p>

@WelshGovernment ar 1 Awst 2018 ddim yn cynnwys delwedd yn y neges Gymraeg a bod y ddelwedd yn uniaith Saesneg yn unig. Anfonodd yr achwynydd sgrin lun o drydariad 2 Awst 2018 i mi gyda'i gŵyn. Gwnaeth swyddogion y Comisiynydd ymchwil pen desg er mwyn edrych ar gynnwys y neges trydar a wnaethpwyd ar 1 Awst. Ymddengys o hynny bod y neges wedi'i gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg ond nad oedd delwedd ynghlwm â'r neges Gymraeg tra bod delwedd uniaith Saesneg ynghlwm â'r neges Saesneg.

Cam Gorfodi CSG95: Roedd y cam gorfodi yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw negeseuon trydar Saesneg a gyhoeddir ganddo yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg hefyd. Roedd y cam gorfodi yn berthnasol i unrhyw negeseuon a anfonir o gyfrifon Gweinidogion Cymru. Ar 1 Awst 2018, casgla'r Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi neges trydar yn Saesneg am ddiwrnod chwarae cenedlaethol ar ei gyfrif @WelshGovernment. Er bod testun Cymraeg cyfatebol o'r neges Saesneg wedi'i chyhoeddi ar gyfrif Cymraeg y corff, @LlywodraethCym, nid oedd y neges honno yn cynnwys delwedd fel yr oedd o fewn y neges Saesneg. Casgla'r Comisiynydd elly nad oedd fersiwn cyfatebol llawn o'r neges Saesneg wedi'i chyhoeddi yn Gymraeg. Casgla'r Comisiynydd hefyd ar 1 Awst bod Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi yr un neges trydar ar gyfrif @FMWales. Er bod y testun Cymraeg cyfatebol o'r neges Saesneg wedi ei chyhoeddi ar y cyfrif hwnnw, nid oedd y neges Gymraeg ar y cyfrif yn cynnwys delwedd fel yr oedd o fewn y neges Saesneg. Casgla'r Comisiynydd felly nad oedd fersiwn cyfatebol llawn o'r neges Saesneg wedi ei chyhoeddi yn Gymraeg. Ar 2 Awst 2018, casglaf bod y Prif Weinidog wedi cyhoeddi neges trydar yn Saesneg, Ffrangeg a Llydaweg, ac nad oedd fersiwn Cymraeg wedi'i chyhoeddi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 58 a cham gorfodi CSG95.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 58 a cham gorfodi CSG95.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 58 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg Er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â gofynion safon 58 rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau:

1. Bod pob elfen o negeseuon Cymraeg a gyhoeddir yn cyfateb yn llawn i'w negeseuon cyfatebol Saesneg.
2. Bod ail drydariadau o'i negeseuon Cymraeg yn cyfateb yn llawn i'w negeseuon cyfatebol Saesneg.
3. Ei fod yn ymateb yn Gymraeg i neges os yw'n gwneud hynny yn Saesneg pan fo'r ymateb hwnnw o ddiddordeb eang (nid yw hynny yn effeithio ar y gofyniad i gydymffurfio â safon 59).
4. Bod ei drefniadau yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu camau gorfodi 1- 3.
5. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/05/2019.

### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### Gweinidogion Cymru

CSG422 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 27/09/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Honnodd yr

8/5/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5: Mae safon 5 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad ydynt yn gwybod beth yw dewis iaith y derbynnydd. Nod y safon yn sicrhau nad yw gohebiaeth yn cael ei hanfon yn uniaith Saesneg oni bai bod y derbynnydd wedi

achwynydd ei bod wedi ffonio llinell gyswllt cyfrwng Cymraeg y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am 08:49 ar 5 Medi, 2018. Cafodd yr achwynydd ei chyfarch yn Saesneg. Gofynnodd am wasanaeth Cymraeg ac fe ddywedodd yr atebydd nad oedd gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr linell gyswllt cyfrwng Cymraeg. Ffoniodd yr achwynydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr eilwaith am 08:58 ar 20 Medi, 2018. Cafodd yr achwynydd ei chyfarch yn Gymraeg. Wrth roi manylion ei cherdyn banc, ni wnaeth y derbynnydd ddeall y rhif 'ugain'. Methodd y taliad a bu'n rhaid i'r achwynydd gysylltu â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am y trydydd tro. Cwynodd hefyd ei bod wedi derbyn llythyr Saesneg gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn dilyn yr alwad ffôn yn cadarnhau'r taliad.

datgan mai dyna yw ei ddewis. Yn yr achos yma ni wnaeth Gweinidogion Cymru ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth er eu bod yn gwybod mai Cymraeg oedd dewis iaith yr achwynydd. Gan na wnaeth Gweinidogion Cymru anfon fersiwn Cymraeg o'r ohebiaeth i'r achwynydd, er eu bod yn gwybod mai dyna oedd ei dewis iaith, nid yw' Comisiynydd o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â nod safon 5.

Safon 10: Mae safon 10 yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn delio â galwadau i'w rhifau llinell gymorth yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd, os yw'r person sy'n galw yn dymuno hynny. Yn yr achos hwn ffoniodd yr achwynydd ddau wahanol rif llinell gymorth ar ddau wahanol achlysur. Ar yr achlysur cyntaf ffoniodd rif llinell gymorth sy'n berthnasol i gwsmeriaid mewn rhannau eraill o'r DU. Nid yw'r llinell gymorth hon yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gan nad yw'n gwasanaethu unigolion yng Nghymru. Mae'n cynnig dargyfeirio galwadau gan gwsmeriaid o Gymru i'r llinell gyswllt berthnasol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn na wnaeth yr achwynydd ddatgan ei bod yn byw yng Nghymru ac mai dyma pam atebwyd yr alwad gan swyddog nad oedd yn medru siarad Gymraeg. Ar yr ail achlysur ffoniodd yr achwynydd rhif llinell gymorth ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru. Cafodd yr alwad ei hateb gan swyddog oedd yn medru siarad Cymraeg. Yn ystod yr alwad fe roddodd yr achwynydd fanylion ei cherdyn banc er mwyn gwneud taliad. Mae'r achwynydd yn amau bod y swyddog wedi camddeall y manylion gan nad oedd ei ddealltwriaeth o'r Gymraeg yn ddigonol a bod hynny'n golygu bod y taliad wedi methu. Mae Gweinidogion Cymru yn anghytuno â amheuaeth yr achwynydd; mae disgwyl i'r swyddog allu ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg ac mae

recordiad o'r alwad yn dangos na wnaeth oedi wrth fewnbynnu'r manylion. Nid yw'n bosib gwirio'r union fanylion a fewnbynwyd. Nid yw'r dystiolaeth yn galluogi'r Comisiynydd i ddod i gasgliad pendant ynglŷn a chydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru â safon 10 yn yr achos hwn. Ar yr achlysur cyntaf ffoniodd yr achwynydd rif llinell gymorth ar gyfer cwsmeriaid mewn rhannau eraill o'r DU. Yn absenoldeb cadarnhad pendant bod yr achwynydd wedi datgan ei bod yn byw yng Nghymru ni all y Comisiynydd gasglu bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â'r safon ar yr achlysur hwn. Ar yr ail achlysur, nid oes dystiolaeth i gadarnhau mai methiant gan y swyddog i ddeall gwybodaeth a roddwyd iddo'n Gymraeg a olygodd bod taliad yr achwynydd wedi methu. Ni all y Comisiynydd felly gasglu bod y swyddog wedi methu ag ymdrin â'r alwad yn ei chyfanrwydd yn Gymraeg. Cam Gorfodi CSG189: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i Weinidogion Cymru sefydlu rhif ffôn ad-dalu newydd ar gyfer cwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru sy'n cyfarch galwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei derbyn gan Weinidogion Cymru yn dangos bod rhif ffôn o'r fath wedi ei sefydlu yn unol â gofynion cynllun gweithredu CSG189. Mae hyn yn dangos na fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn hysbysiad penderfynu CSG189.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 5, ni lwyddodd i ddod i ddyfarniad ar safon 10 a dyfarnwyd nad oedd methiant i gydymffurfio â cham gorfodi CSG189.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Cyngor  
Caerdydd

CSG413: Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 07/09/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â gohebiaeth a anfonwyd gan y Cyngor. Eglurodd yr achwynydd ei fod wedi anfon neges e-bost, yn Gymraeg, at y cyfeiriad SPHTT-BusinessSupport@caerdydd.gov.uk am 14:33 ar 13 Awst, 2018. Honnodd fod y Cyngor wedi ymateb i'r neges honno yn Saesneg. Cafodd yr ymateb, oedd yn cynnwys neges e-bost a llythyr wedi ei atodi, ei anfon gan yr adran Gynllunio, Trafnidiaeth ac yr Amgylchedd am 08:53 ar 7 Medi, 2018. Roedd y llythyr wedi ei lofnodi gan aelod o staff yr adran.

8/5/2019

Ni weithredwyd ymhellach mewn perthynas â'r methiant i gydymffurfio â safon 5. Mae hynny oherwydd bod Gweinidogion Cymru wedi cymryd camau i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd.

**Datganiad ar y gweithredu pellach  
Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 08/05/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r Cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen i'r Cyngor ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg i'r Cyngor. Ni ddywedodd nad oedd angen i'r Cyngor ei hateb yn Gymraeg. Daeth ateb y Cyngor ar ffurf llythyr a neges e-bost oedd wedi eu hysgrifennu'n Saesneg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1. Cam Gorfodi CSG190: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor barhau â'r trefniadau sydd ganddo ar gyfer cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â gohebiaeth. Mae hefyd yn gofyn iddo fonitro ac adolygu'r trefniadau hynny. Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei derbyn gan y Cyngor yn dangos bod ganddo drefniadau priodol mewn lle ar gyfer cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â gohebiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn arddangos sut y mae'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu'r trefniadau hynny. Ni all y



Darparodd yr achwynydd gopïau o'r ohebiaeth dan sylw i gefnogi ei gŵyn.

Comisiynydd ddyfarnu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r cam gorfodi neu beidio.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 1 ond ni lwyddodd i ddyfarnu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r cam gorfodi neu beidio.

Datganiad gweithredu pellach

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach oherwydd fod y dystiolaeth wedi dangos mai camgymeriad unigol oedd achos y methiant a bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd 08/05/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

CSG432 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 15/10/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Anfonodd yr achwynydd gwyn i mi yn honni nad yw'r cyfleuster talu am dreth y cyngor ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg. Honnai'r achwynydd bod y dudalen Cymraeg ar gyfer gwneud taliadau yn

8/5/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn ei wneud yn ofynnol ar y Cyngor , os yw'n cael gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid i'r corff ateb yr ohebiaeth yn Gymraeg (os oes angen ateb). Rwyf yn canfod fod y Cyngor wedi cynnwys atodiadau gyda thestun Saesneg mewn neges e-bost Gymraeg yn groes i ofynion safon 1. Safon 52: Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Rwyf yn canfod nad yw platform ar lein y Cyngor ar gyfer prosesu taliadau yn gweithredu'n

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Pen-y-  
bont ar Ogwr



troi i'r Saesneg wrth geisio mewnbynnu manylion banc wrth geisio talu'r dreth cyngor. Mae'r achwynydd hefyd yn cyfeirio at ymateb i e-bost a dderbyniodd gan y Cyngor wedi iddo godi'r mater gyda nhw. Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r e-bost gyda thestun Cymraeg ond yn cynnwys llun o'r wefan o fewn corff yr e-bost sydd yn lun o dudalen Saesneg sy'n cynnwys testun Saesneg.

llawn yn Gymraeg a bod hyn yn arwain at driniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg i ddefnyddwyr sy'n dymuno talu'r dreth Cyngor ar lein.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu cydymffurfio â safonau 1 a 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu cydymffurfio â safona 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52– gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gymryd camau er mwyn sicrhau fod modd i'r cyhoedd gwneud taliadau iddo drwy ei wefan yn Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth brosesu taliadau.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.  
Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 08/05/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

CSG411 Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 29/08/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Dywed yr achwynydd iddi gysylltu ag Adran Parcio, Rheoli Traffig a Rhwydwaith Priffyrdd (yr "Adran") Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y "Cyngor ") am y tro cyntaf ar 27 Gorffennaf 2018 drwy gyfrwng y Saesneg. Roedd yr achwynydd eisiau apelio Hysbysiad Tâl Cosb. Derbyniodd ateb gan y Cyngor ar yr un diwrnod yn Saesneg yn ei chyfeirio at ffurflen apêl y Cyngor ar eu gwefan. Dywedodd yr achwynydd iddi lenwi'r ffurflen apelio yn Gymraeg ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y ddolen

<https://www.abertawe.gov.uk/apelpcn> ar 27 Gorffennaf 2018 . Derbyniodd e-bost yn cydnabod derbyn y ffurflen ond chlywodd ddim wedi hynny. E-bostiodd yr Adran yn Gymraeg i'r cyfeiriad

meysydd.parcio@abertawe.gov.uk ar 7 Awst 2018 ac 14 Awst 2018 gan dderbyn dim ymateb. Cysylltodd â'r Cyngor ar y cyfeiriad [car.parks@swansea.gov.uk](mailto:car.parks@swansea.gov.uk) ar 15 Awst gan dderbyn ymateb o fewn

8/5/2019

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynient gan berson, yn Gymraeg (os oes angen ateb). Nid oes rhaid i'r Cyngor wneud hynny mewn sefyllfaoedd pan fo person wedi dweud wrthynt nad oes angen ateb yn Gymraeg arnynt. Anfonodd yr achwynydd e-byst Cymraeg i'r Cyngor ar 7 Awst 2018 a 14 Awst 2018. Ni dderbyniodd ymateb. Anfonodd e-bost Saesneg i'r Cyngor ar 15 Awst 2018 a derbyniodd ymateb o fewn hanner awr. Targed amser corfforaethol y Cyngor ar gyfer ymateb i ohebiaeth Cymraeg a Saesneg yw 28 diwrnod. Cyflwynwyd y gwyn hon i'r Comisiynydd i o fewn 28 diwrnod o anfon yr e-bost cyntaf i'r Cyngor.

Safon 7: Mae safon 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgan mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atynt, eu bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddant yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Derbyniodd yr achwynydd ymateb uniaith Saesneg gan y Cyngor ar 15 Awst 2018. Nid oedd yr e-bost yn cynnwys datganiad yn nodi bod y Cyngor yn gwahodd personau i ymateb neu i anfon gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cydnabod nad oedd y datganiad wedi ei gynnwys yn eu he-byst. Mae'r sefyllfa uchod yn cyfateb a methiant i gydymffurfio a safon 7. Nid oedd unrhyw fath o ddatganiad yn croesawu gohebiaeth wedi ei gynnwys ar ddiwedd yr e-bost a dderbyniodd yr achwynydd gan y Cyngor .

Cam Gorfodi CSG201 (Safon 1): Mae'r cam gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau eu bod yn ymateb i

hanner awr gan swyddog oedd yn gofyn iddi am fwy o wybodaeth gan nad oedd cofnod o'i apêl ar y system. Honnai'r achwynydd na chafodd ymateb gan y Cyngor oherwydd ei bod yn gohebu â nhw yn Gymraeg. Darparodd yr achwynydd gopïau o'r e-byst y gwnaeth ei anfon i'r cyfeiriadau meysydd.parcio@abertawe.gov.uk a car.parks@swansea.gov.uk yn ogystal â'r ymateb a dderbyniodd yn Saesneg. Wrth ddarllen yr e-byst, sylweddolodd fy swyddogion nad oedd datganiad wedi ei gynnwys ar ddiwedd yr e-bost a dderbyniodd yr achwynydd gan y Cyngor yn nodi eu bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

bob gohebiaeth sydd wedi ei hysgrifennu yn Gymraeg, yn Gymraeg os oes angen ateb yr ohebiaeth. Anfonodd yr achwynydd e-byst Cymraeg i'r Cyngor ar 7 Awst 2018 a 14 Awst 2018. Ni dderbyniodd ymateb. Anfonodd e-bost Saesneg i'r Cyngor ar 15 Awst 2018 a derbyniodd ymateb o fewn hanner awr. Targed amser corfforaethol y Cyngor ar gyfer ymateb i ohebiaeth Cymraeg a Saesneg yw 28 diwrnod. Cyflwynwyd y gŵyn hon i'r Comisiynydd o fewn 28 diwrnod o ddyddiad anfon yr e-bost cyntaf i'r Cyngor. Cam Gorfodi CSG201 (Safon 7): Mae'r cam gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod eu e-byst yn cynnwys datganiad sydd yn nodi eu bod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd y Cyngor yn ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Derbyniodd yr achwynydd ymateb uniaith Saesneg gan y Cyngor ar 15 Awst 2018. Nid oedd yr e-bost yn cynnwys datganiad yn nodi bod y Cyngor yn gwahodd personau i ymateb neu i anfon gohebiaeth yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cydnabod nad oedd y datganiad wedi ei gynnwys yn eu he-byst. Mae'r sefyllfa uchod yn cyfateb a methiant i gydymffurfio a'r cam gorfodi. Nid oedd unrhyw fath o ddatganiad yn croesawu gohebiaeth wedi ei gynnwys ar ddiwedd yr e-bost a dderbyniodd yr achwynydd gan y Cyngor ac mae'r Cyngor yn cydnabod hynny.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â safon 7 a cham gorfodi CSG201 (safon 7).

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â safon 7 a cham gorfodi CSG201 (safon 7).

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – Argymhellion yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r Cyngor lunio proses ysgrifenedig ar gyfer ymateb i ohebiaeth Gymraeg sydd yn dod i law ac sydd angen ymateb.
2. Dylai'r Cyngor hyfforddi aelodau o staff y Cyngor ac aelodau o staff asiantaethau sydd yn gweithio ar eu rhan er mwyn sicrhau bod aelodau o staff o fewn yr Adran yn derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd clir mewn perthynas â gofynion y safonau cyn cychwyn ar eu swydd.
3. Dylai'r Cyngor ystyried gofynion safon 136 pan fydd yr Adran yn recriwtio staff.

Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad y Comisiynydd

Safon 7 – Camau Gorfodi yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg

1. Dylai'r Adran baratoi geiriad safonol ar gyfer datganiad sydd yn gwahodd personau i anfon gohebiaeth at yr Adran yn Gymraeg, y byddant yn ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
2. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob aelod o staff y Cyngor yn cynnwys y datganiad drwy rhoi'r geiriad safonol yn rhan o dempled e-byst aelodau o staff a hynny mewn lle amlwg yn yr e-bost.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-2. Amserlen:

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-  
nedd Port  
Talbot

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 27/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd nad oedd wedi derbyn gwasanaeth ffôn Cymraeg wrth ffonio prif linell ffôn y Cyngor (sef 01639 686 868). Honnai'r achwynydd iddo ffonio'r llinell hon am 10.43yb ar 22 Fai 2018 a gwneud cais i siarad â rhywun yn Gymraeg. Honnai fod ceisiadau i drosglwyddo i siaradwyr Cymraeg yn arwain at ateb safonol yn nodi 'this line is engaged' a bod yr alwad wedi cael ei drosglwyddo i siaradwr Saesneg. Dwedodd yr achwynydd ei fod wedi gofyn eto i siarad gyda rhywun yn Gymraeg, ond bod yr atebwr wedi dweud yn Saesneg y gallai un ai barhau i siarad gyda nhw yn Saesneg neu ffonio nôl er mwyn derbyn gwasanaeth Cymraeg.

29/4/2019

O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe 08/05/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 8: Mae safon 8 yn ei wneud yn ofynnol i gorff gyfarch person yn Gymraeg pan fo'r person hwnnw'n cysylltu â'r corff ar un o'i rifau ffôn perthnasol. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd o'r farn fod y Cyngor yn rhoi cyfarchiad yn Gymraeg i bersonau sydd yn galw ei brif rif ffôn.

Safon 9: Mae safon 9 yn ei wneud yn ofynnol a'r gorff i roi gwybod i berson bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd o'r farn fod y Cyngor yn rhoi gwybod i bersonau sydd yn ffonio ei brif linell ffôn, bod gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael.

Safon 10: Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddelio â galwadau at ei brif linell ffôn yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny. Os oes angen trosglwyddo'r alwad i aelod arall o staff er mwyn delio â'r alwad, rhaid i'r aelod o staff hwnnw ddelio â'r alwad yn Gymraeg. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth y Cyngor a'r achwynydd yn yr achos yma, mae'r Comisiynydd o'r farn nad oedd y Cyngor wedi delio gyda galwad yr achwynydd yn ei chyfanrwydd yn Gymraeg, er bod y Cyngor wedi sefydlu ei ddymuniad i gael gwasanaeth Cymraeg. Yn ogystal nid yw trefniadau'r Cyngor i

drosoglwyddo galwyr i siaradwr Saesneg mewn achosion ble mae siaradwyr Cymraeg yn brysur, yn cydymffurfio â gofynion y safon.

Safon 17: Mae safon 17 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff roi gwybod i'r person sy'n galw pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn neu linell berthnasol. Yn dilyn ystyried tystiolaeth y Cyngor a'r achwynydd, canfu'r Comisiynydd nad yw'r Cyngor yn rhoi gwybod i alwyr ar ei brif linell ffôn, pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Cam Gorfodi CSG114: Canfu'r Comisiynydd yn yr achos hwn nad yw'r Cyngor wedi gweithredu'r camau gorfodi osodwyd yn dilyn ymchwiliad CSG114 gan fod yr ymchwiliad cyfredol (CSG375) wedi canfod bod y Cyngor yn parhau i fethu â chydymffurfio â safon 17, ac nad yw wedi sefydlu trefniadau digonol i ddelio gyda galwadau yn Gymraeg ar ei brif rhif ffôn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu cydymffurfio â safonau 10, 17 a cham gorfodi CSG114 ond eu bod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu cydymffurfio â safon 17.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 17 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3) (3) Mesur y Gymraeg

		<p>1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyflwyno trefn pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar ei brif rif ffôn, rhifau llinell gymorth neu rifau canolfannau alwadau sy'n rhoi gwybod i'r personau sy'n galw pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.</p> <p>2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.</p> <p>Amserlen: Rhaid darparu'r tystiolaeth erbyn 15 Medi 2019</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 29/04/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor Dinas Casnewydd</u></p> <p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 09/02/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Ysgrifennodd yr achwynydd at Brif Weithredwr y Cyngor drwy'r post ar 22 Hydref 2017 yn holi paham nad oedd wedi derbyn ymatebion i ymholiadau a anfonwyd at y Swyddog Etholiadau yn Gymraeg. Roedd llythyr yr achwynydd yn holi beth yw polisi y Cyngor ar yr iaith Gymraeg o ran ymateb i ohebiaeth Gymraeg. Ni dderbyniodd yr achwynydd ymateb i'r llythyr</p>	<p>18/4/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 1: Mae safon 1 yn gofyn i'r Cyngor ymateb i unrhyw ohebiaeth Gymraeg a anfonir i'r Cyngor yn Gymraeg. Yn yr achos yma derbyniodd y Cyngor llythyr Cymraeg yr achwynydd ac fe gysylltodd aelod o staff gyda'r gwasanaeth cyfieithu er mwyn trefnu cyfieithu'r llythyr ond cyn cwblhau'r broses o ateb yr ohebiaeth fe fu'r aelod o staff yn absennol ac ni dderbyniodd yr achwynydd ymateb. Ysgrifennodd yr achwynydd at y Cyngor yn Gymraeg ac roedd yn disgwyl ymateb i'w ohebiaeth. Gan na wnaeth yr achwynydd dderbyn ymateb i'w ohebiaeth Gymraeg ni lwyddodd y Cyngor i gydymffurfio â safon 1.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu cydymffurfio â safon 1.</p>



anfonodd ar 22 Hydref 2017 ac mae hyn yn codi amheuaeth na dderbyniodd ymateb oherwydd bod ei lythyr yn Gymraeg.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu cydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1–gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd greu canllaw clir ac eglur ynglŷn a fydd yn cynorthwyo staff i gydymffurfio â safon 1.

2. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff o ofynion safon 1.

3. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 18/04/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Pen-y-  
bont ar Ogwr

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 25/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn anhapus na wnaeth dderbyn ymateb i e-bost Cymraeg a anfonodd at Arweinydd y Cyngor ar 16/10/2017. Ail anfonodd yr e-bost ar 15/12/2017

18/4/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn gofyn i'r Cyngor ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, oni bai bod y person wedi dweud nad oedd angen ateb yn Gymraeg. Derbyniodd Arweinydd y Cyngor e-byst gan yr achwynydd ar 15/12/17, 12/03/18 a 25/04/18 Ni anfonwyd ymateb i'r achwynydd hyd 25/04/18. Yn ôl y Cyngor y rheswm dros yr oedi oedd llwyth gwaith y Cyfarwyddwr oedd yn paratoi'r ymateb yn hytrach na iaith yr ohebiaeth. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth Gymraeg i'r Cyngor ar



ac eto ar 12/03/2018 a 25/04/2018. Ar 12/03/2018 a 25/04/2018 anfonwyd y neges i talktous@bridgend.gov.uk hefyd. Roedd yr e-bost yn gofyn i'r Cyngor ymateb i gwestiynau ynglŷn ag addysg Gymraeg.

dri achlysur ac ni dderbyniodd ymateb. Gan na wnaeth yr achwynydd dderbyn ymateb i ohebiaeth Cymraeg a anfonodd at y Cyngor nid wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cydymffurfio â safon 1.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu cydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi methu cydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1—gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr greu canllaw clir ac eglur ynglŷn a fydd yn cynorthwyo staff i gydymffurfio â safon 1.
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff o ofynion safon 1.
3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 18/04/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 25/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn anfodlon na wnaeth dderbyn ymateb i e-bost Cymraeg a anfonodd at Arweinydd y Cyngor ar 16/10/2017. Ail anfonodd yr e-bost ar 15/12/2017 ac eto ar 12/03/2018 a 25/04/2018. Roedd yr e-bost yn gofyn i'r Cyngor ymateb i gwestiynau ynglŷn ag addysg Gymraeg.

18/4/2019

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae Safon 1 yn gofyn i'r Cyngor ateb gohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg os nad yw'r person wedi dweud nad oes angen ymateb yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe dderbyniodd Arweinydd y Cyngor yr e-bost cyntaf ar 16/10/17 ac o fewn 24 awr roedd wedi ei gyfieithu ac fe'i anfonwyd yn ddwyieithog i'r adran berthnasol. Fodd bynnag, am ba bynnag reswm, ni dderbyniodd yr achwynydd ymateb i'w ohebiaeth Gymraeg. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg i'r Cyngor ar dri achlysur. Gan na wnaeth yr achwynydd dderbyn ymateb i ohebiaeth Gymraeg a anfonodd ar y Cyngor, nid wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cydymffurfio â Safon 1.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Powys wedi methu cydymffurfio â safon 1.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Sir Powys wedi methu cydymffurfio â safon 1.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1—gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Powys greu canllaw clir ac eglur ynglŷn a fydd yn cynorthwyo staff i gydymffurfio â safon 1.
2. Rhaid i Gyngor Powys gymryd camau i godi ymwybyddiaeth staff o ofynion safon 1.
3. Rhaid i Gyngor Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 2.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 26/02/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddo ef (a'i gyd-breswylwyr) dderbyn hysbysiad am ddirwy cosb benodedig gan Gyngor Caerdydd ar 10/01/2018 am fethu a rheoli eu gwastraff o dan y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Honnir: i. bod yr hysbysiad Cymraeg a dderbyniodd yn wallus o ran ystyr a mynegiant, ac nad oedd yn cynnwys yr un wybodaeth ag ymddangosai yn yr Hysbysiad Saesneg; ii. bod testun Saesneg yn ymddangos ar y llythyr Cymraeg; iii. nad oedd dyddiad cyflwyno'r Hysbysiad yn ymddangos ar yr ochr Gymraeg; iv. bod dolen o'r dudalen Gymraeg ar gyfer dilyn y broses i dalu'r ddirwy yn arwain at dudalen Saesneg ar wefan y Cyngor; v. ei fod wedi methu derbyn

5/4/2019

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 18/04/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6; Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg cyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Cosb Benodedig, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg a bod gwallau yn y fersiwn Gymraeg o ran ystyr a mynegiant yn ogystal â sawl enghraifft o destun oedd ar goll yn y Gymraeg. Mae hyn yn amlygu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â gofynion safon 6.

Safon 12: Mae safon 12 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n hysbysebu rhifau ffôn i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd fersiwn Gymraeg Hysbysiad Cosb Benodedig y Cyngor yn cynnwys y rhif ffôn ar gyfer derbyn gwasanaeth Saesneg ac felly'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn amlygu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â gofynion safon 12.

Safon 22: Mae safon 22 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod ei system ffôn wedi awtomeiddio yn darparu'r gwasanaeth yn gyflawn yn Gymraeg. Methodd yr achwynydd a chlywed neges Gymraeg ar y peiriant ateb pan ffoniodd y rhif 029 2097 2087, y rhif a gofnodwyd yn yr ohebiaeth a dderbyniodd. Mae hynny oherwydd i'r rhif a gofnodwyd

gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn i dalu'r ddirwy.

arwain at y llinell Saesneg yn hytrach na bod methiant gan y Cyngor i ddarparu neges wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 6 a 12 ond eu bod yn cydymffurfio â safon 22.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 6 a 12.

Datganiad ar y gweithredu pellach

Safon 6 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd gynnal adolygiad o'u trefniadau ar gyfer llunio dogfennau a hysbysiadau gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau Gorfodi .

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 12 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau pan fydd yn hysbysebu ei rifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau bod y rhif ffôn cywir ar gyfer gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gofnodi ar bob dogfen neu hysbyseb o'i eiddo.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 29/03/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni iddo/iddi gyflwyno ffurflen ar 18 Gorffennaf 2018 i Gyngor Caerdydd yn Gymraeg drwy ddilyn y ddolen: <https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/Business/Trwyddedau/busking/Pages/default.aspx> Pwrpas cwblhau'r ffurflen oedd gwneud cais ar gyfer trwydded 'bysgio' ar y stryd ar gyfer dyddiad penodol ym mis Gorffennaf 2018. Derbyniodd yr achwynydd ymateb cydnabyddiaeth safonol yn Gymraeg ar 18 Gorffennaf 2018 yn cydnabod derbyn y ffurflen. Fe ddilynodd y gydnabyddiaeth safonol gydag e-bost yn Saesneg o gyfeiriad e-bost un o 5/4/2019

2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 05/04/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Canfu'r Comisiynydd yn yr achos hwn bod Cyngor Caerdydd wedi ymateb yn Saesneg i ohebiaeth anfonwyd ato yn Gymraeg. Gwnaeth hynny am ei fod yn ymddangos nad oedd yr aelod staff oedd yn delio â chais yr achwynydd yn ymwybodol o ofynion safonau'r Gymraeg wrth ymateb i ohebiaeth. Cam Gorfodi CSG190: Canfu'r Comisiynydd yn yr achos hwn nad yw'r Cyngor wedi gweithredu'r cam gorfodi osodais yn dilyn ymchwiliad CSG190 yn ddigonol gan nad oes tystiolaeth bod y Cyngor yn monitro neu adolygu ei drefniadau gohebu yn rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 1 a cham gorfodi CSG190.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 1 a cham gorfodi CSG190.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

swyddogion y Cyngor yn gofyn i'r achwynydd ail anfon y wybodaeth a gyflwynwyd yn Saesneg, gan nad oedd y swyddog yn siarad Cymraeg. Cyflwynodd yr achwynydd gwyn i'r swyddog yma yn Gymraeg mewn ymateb i'r e-bost Saesneg, gan dynnu sylw'r swyddog a'r Cyngor at eu dyletswyddau o dan y safonau. Honnai'r achwynydd na dderbyniodd ymateb i'r e-bost yma. Mae'r achwynydd yn nodi hefyd na dderbyniodd ymateb i'w gais am drwydded, a phasiodd y dyddiad yr oedd angen y drwydded ar ei gyfer heb i'r achwynydd dderbyn ymateb.

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd gynnal ymgyrch ar gyfer yr aelodau staff hynny sy'n darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o ofynion safonau'r Gymraeg a phrosesau'r Cyngor ar gyfer cydymffurfio â nhw.

2. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Methiant I gydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu ai peidio – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddatblygu trefniadau ar gyfer hunan rheoleiddio a fydd yn ei alluogi i fonitro ei berfformiad ei hun o wasanaeth ymateb i ohebiaeth Cymraeg.

4. Rhaid i Gyngor Caerdydd gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw fater sy'n codi o ran diffyg cydymffurfiaeth wrth fonitro ei berfformiad ei hun.

5. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 3 a 4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 05/04/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 13/08/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd ynglŷn ag arwydd stryd newydd yng Ngresffordd. Darparodd yr achwynydd lun o'r arwydd a gellir gweld o'r llun bod y Saesneg "Hollyfields" wedi ei osod uwchben y Gymraeg a bod camgymeriad sillafu yn y Gymraeg "Maes y Cleyn".

5/4/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 62: Mae safon 62 yn gofyn i'r Cyngor osod arwydd gyda'r Gymraeg mewn lle y mae'n debygol o gael ei ddarllen gyntaf. Yn yr achos yma gosododd y Cyngor arwydd enw stryd yng Ngresffordd gyda'r Saesneg uwchben y Gymraeg. Gan bod y Cyngor wedi gosod arwydd gyda'r Saesneg mewn lle y byddai'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ar arwydd newydd yna ni wnaeth y Cyngor gydymffurfio â safon 62. Safon 63: Mae safon 63 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran mynegiant ac ystyr. Yn yr achos yma roedd camgymeriad sillafu ar yr awydd stryd sydd o dan sylw'r ymchwiliad. Gan bod camgymeriad sillafu yn y testun Cymraeg ar yr arwydd stryd ni wnaeth y Cyngor gydymffurfio â safon 63 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safonau 62 a 63.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 â safonau 62 a 63 oherwydd bod camau gorfodi eraill eisoes ar waith.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 05/04/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

<p><u>Prifysgol Caerdydd</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 19/09/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd iddi dderbyn llythyr uniaith Saesneg gan y Brifysgol wedi iddi gwblhau cwrs Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion.</p>	<p>5/4/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b>  Safon 5: Mae Safon 5 yn gofyn i'r Brifysgol sicrhau eu bod yn darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth os nad ydy'r Brifysgol yn gwybod a yw'r derbynnydd am dderbyn gohebiaeth Gymraeg ai peidio. Yn yr achos yma ni wnaeth y Brifysgol anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth er eu bod yn gwybod mai Cymraeg oedd dewis iaith yr achwynydd. Gan na wnaeth y Brifysgol anfon fersiwn Cymraeg o'r ohebiaeth i'r achwynydd er bod y Brifysgol yn gwybod mai Cymraeg oedd dewis iaith yr achwynydd nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod y Brifysgol wedi cydymffurfio â nod safon 5 yn yr achos yma.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b>  O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prifysgol Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 5.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b>  Ni weithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Prifysgol Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 5 ar y sail bod y Brifysgol wedi cymryd camau er mwyn sicrhau na fydd yr un camgymeriad yn digwydd eto.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b>  <b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b>  Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Caerdydd ar 05/04/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b>  Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Gweinidogion Cymru</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 27/03/2018 oedd yn bodloni amodau</p>	<p>29/3/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p>



adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod yr achwynydd, ar 26 Mawrth 2018, wedi derbyn neges e-bost uniaith Saesneg mewn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg ar 2 Mawrth 2018. Roedd y neges e-bost yn amgáu gohebiaeth Cymraeg gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a Dysgu Gydol Oes1 mewn ymateb i ohebiaeth yr achwynydd. Darparodd yr achwynydd gopi o'r neges e-bost sy'n dangos bod neges uniaith Saesneg wedi ei anfon gan Lywodraeth Cymru ar 26 Mawrth 2018.

Safon 1: Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff anfon ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg oni bai nad oes angen ymateb i'r ohebiaeth hwnnw, neu bod y person a anfonodd yr ohebiaeth Cymraeg wedi nodi nad oes angen ymateb yn Gymraeg. Roedd honiad yr achwynydd yn ymwneud â derbyn neges e-bost uniaith Saesneg ar 26 Mawrth 2018 mewn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg at y Gweinidog ar 2 Mawrth 2018. Roedd y neges e-bost yn ymwneud ac yn amgáu gohebiaeth Cymraeg gan y Gweinidog. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio gyda gofynion safon 1 wrth anfon e-bost eglurhaol, oedd yn atodi ymateb Gymraeg gan y Gweinidog, yn uniaith Saesneg. Camau Gorfodi CSG181: Roedd y cam gorfodi a osodwyd ar Weinidogion Cymru yn sgil ymchwiliad CSG181 yn gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau fod ganddynt drefniadau digonol mewn lle i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â gohebiaeth mewn perthynas ag e-byst. Roedd y cam gorfodi hefyd yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i sicrhau eu bod yn monitro ac yn adolygu'r trefniadau hynny er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Daeth y cam gweithredu yn weithredol ar 12 Medi 2017, sef 28 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad penderfynu. Ar 27 Mawrth 2018 derbyniwyd cwyn gan achwynydd yn honni ei bod, ar 26 Mawrth 2018, wedi derbyn neges e-bost uniaith Saesneg mewn ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar 2 Mawrth 2018. Roedd y neges e-bost yn ymwneud ac yn amgáu gohebiaeth Cymraeg gany Gweinidog. Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r Comisiynydd, mae'r Comisiynydd o'r farn bod Gweinidogion Cymru wedi methu

â chydymffurfio gyda gofynion y cam gorfodi a osodwyd arnynt. Mae hynny oherwydd bod y trefniant oedd mewn lle ar gyfer anfon gohebiaeth e-bost ar adeg y gohebu ddim wedi atal aelod o staff rhag anfon e-bost uniaith Saesneg at yr achwynydd mewn ymateb i ohebiaeth Cymraeg a dderbyniwyd drwy ddefnyddio'r templed e-bost anghywir. Effaith hynny oedd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio gyda gofynion safon 1.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 1 a chamau gorfodi CSG181.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 1 a chamau gorfodi CSG181.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Dylai Gweinidogion Cymru adolygu'r cyfarwyddiadau desg sydd yn cael eu darparu i glercod er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol bod rhaid anfon ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg oni bai nad oes angen ymateb i'r ohebiaeth hwnnw, neu bod y person wedi nodi nad oes angen ymateb yn Gymraeg.
2. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau nad yw templed e-bost eglurhaol ar gyfer ateb terfynol, sy'n cael eu darparu i staff eu defnyddio wrth ohebu, yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cam Gweithredu– Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Prif Gwnstabl  
Heddlu  
Dyfed-Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 21/06/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynghylch gwasanaeth ffôn a ddarperir gan 'DriveTech', sef cwmni sydd yn cynnal cyrsiau ar ran Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys (Heddlu Dyfed Powys) wedi i aelodau o'r cyhoedd gael eu dal heb wregys diogelwch wrth yrru car. Honnai'r achwynydd iddo ffonio llinell ffôn Gymraeg cwmni 'Drive Tech' (0345 264605) er mwyn cael gwybodaeth ynghylch y cyrsiau. Ni atebwyd yr alwad, er iddo aros am 20 munud, cyn rhoi'r ffidil yn y to. Honnai'r achwynydd iddo ffonio'r llinell gyfatebol Saesneg (0345 264 6349) a'i fod wedi cael ymateb yn syth.

27/3/2019

1. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau nad yw templedi sy'n cael eu darparu i staff eu defnyddio wrth ohebu yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 29/03/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 13: Os yw corff yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar un o'i rifau ffôn perthnasol, rhaid iddo sicrhau bod rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg hwnnw'r un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. Mae hyn yn golygu na chaniateir rhif ffôn ar wahân ar gyfer cynnig gwasanaeth Cymraeg (sy'n cyfateb i wasanaeth Saesneg) dros y ffôn. Canfu'r Comisiynydd fod gwasanaeth ffôn sydd yn cael ei gynnal ar ran Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn gwneud defnydd o ddau rif gwahanol ar gyfer darparu gwasanaeth Cymraeg nag yw darparu gwasanaeth Saesneg cyfatebol, yn groes i ofynion y safon.

Safon 15: Ystyria'r Comisiynydd fod y dystiolaeth sydd wedi dod i law yn amlygu nad oes triniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg wrth osod dangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn yn y cyd-destun penodol hwn. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau fod yr Heddlu yn disgwyl i'r cwmni trydydd parti gadw at yr un dangosyddion perfformiad a darparu gwasanaeth o'r un safon yn yn Gymraeg ag a wna ar gyfer gwasanaeth ffôn Saesneg, a'i fod yn monitro perfformiad i sicrhau hyn.

Safon 17: Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar brif rif ffôn (neu ar brif rifau

ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, i gorff roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Canfu'r Comisiynydd ar ddyddiad y gŵyn nad oedd y cwmni oedd yn darparu gwasanaeth ffôn ar ran Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, yn rhoi gwybod i bersonau oedd yn galw pryd y byddai gwasanaeth Cymraeg ar gael.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu cydymffurfio â safonau 13 a 17 ond ei fod yn cydymffurfio â safon 15.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys wedi methu cydymffurfio â safonau 13 a 17.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 13 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys sicrhau bod rhifau ffôn ble mae yn cynnig gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg.

2. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ar 27/03/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwynion ar y 17/01/2018 ac ar 02/02/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y cwynion yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwynion ddilys. Roedd y cwynion yn ymwneud â honiad bod arwyddion dros dro uniaith Saesneg ar y pafin ger Heol y Dug ar y 16/01/2018 ac arwyddion dros dro uniaith Saesneg eraill ar gornel Heol Penarth a Taff Embankment yn ardal Grangetown ar 01/02/2018.

22/3/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 61: Mae safon 61 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun ar arwydd (gan gynnwys arwydd dros dro) yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Gall hyn fod ar yr un arwydd neu ar arwydd ar wahân. Derbyniodd y Comisiynydd gwynion gan ddau aelod o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion dros dro uniaith Saesneg a osodwyd gan gontractwyr mewn dau le gwahanol ar ran Cyngor Caerdydd. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi gosod arwyddion ble nad oedd y testun yn Gymraeg, yn groes i ofynion y safon. Camau Gorfodi CSG48 a CSG56: Roedd y cam gorfodi a osodwyd ar y Cyngor yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion dros dro yn cael ei arddangos yn Gymraeg (unai ar yr un arwydd sy'n dangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân) a sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cododd cwynion a dderbyniodd y Comisiynydd gan aelodau o'r cyhoedd amheuaeth nad oedd y Cyngor wedi gweithredu'r cam gorfodi. Fodd bynnag, darparodd y Cyngor dystiolaeth eu bod wedi cynnwys amodau o fewn contractau oedd yn cynnwys gwirio arwyddion dwyieithog penodol cyn dechrau gwaith, defnyddio arwyddion dwyieithog safonol a dirwyo contractwyr sy'n gosod arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dangosodd tystiolaeth y Cyngor felly eu bod wedi cymryd camau i sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion dros dro sy'n cael eu gosod yn cael ei arddangos yn Gymraeg a

			<p>sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 61.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b> Ni weithredwyd ymhellach ar y sail bod Cyngor Caerdydd wedi cymryd camau rhesymol er mwyn ceisio sicrhau nad oes arwyddion uniaith Saesneg yn cael eu gosod gan gontractwyr sy'n gweithio ar eu rhan, rwyf wedi penderfynu peidio â gweithredu ymhellach yn yr achos hwn.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b> <b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 22 Mawrth 2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor</u> <u>Bwrdeistref</u> <u>Sirol Caerffili</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar 25/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn anhapus na wnaeth dderbyn ymateb i e-bost Cymraeg a anfonodd at Arweinydd y Cyngor ar 16/10/2017. Ail anfonodd yr e-bost ar 15/12/2017 ac eto ar 12/03/2018 a 25/04/2018. Roedd yr e-bost yn gofyn i'r Cyngor</p>	<p>22/3/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 1: Mae Safon 1 yn gofyn i'r Cyngor ateb gohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg os nad yw'r person wedi dweud nad oes angen ymateb yn Gymraeg. Anfonodd yr achwynydd e-bost at Arweinydd y Cyngor dair gwaith heb dderbyn ymateb. Dealltwriaeth y Comisiynydd yw mai'r rheswm na dderbyniodd yr achwynydd ymateb oedd bod y Cyngor wedi camgymryd yr ohebiaeth am gylchlythyr. Mae'r Comisiynydd o'r farn petai'r ohebiaeth wedi cael ei anfon yn Saesneg neu yn ddwyieithog y byddai'r Cyngor wedi gweld bod angen ymateb i'r ohebiaeth. Gan na wnaeth y Cyngor anfon yr ohebiaeth i'w gyfieithu neu i siaradwr</p>

ymateb i gwestiynau ynglŷn ag addysg Gymraeg.

Cymraeg i'w ddarllen ni sylweddolwyd bod angen ymateb ac ni dderbyniodd yr achwynydd ymateb i'w ohebiaeth. Gan na wnaeth y Cyngor ymateb i'r tri e-bost Cymraeg cyntaf a anfonodd yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor ar 16/10/17, 15/12/17 a 12/03/18 ni wnaeth y Cyngor lwyddo i gydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu cydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu cydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau i sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei dderbyn gan Swyddfa Arweinydd y Cyngor yn cael ei ddarllen gan siaradwr Cymraeg neu yn cael ei gyfieithu.
  2. Rhaid cynnal adolygiad o'r ohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei dderbyn.
  3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.
- Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 22/03/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir y  
Fflint

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 25/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn anhapus na wnaeth dderbyn ymateb i e-bost Cymraeg a anfonodd at Arweinydd y Cyngor ar 16/10/2017. Ail anfonodd yr e-bost ar 15/12/2017 ac eto ar 12/03/2018 a 25/04/2018. Anfonwyd y neges i CustomerServices@flintshire.gov.uk hefyd. Roedd yr e-bost yn gofyn i'r Cyngor ymateb i gwestiynau ynglŷn ag addysg Gymraeg. Mae'r achwynydd yn honni iddynt dderbyn ymateb Saesneg yn dilyn gyrru gohebiaeth Gymraeg at y Cyngor ar 25/04/2018.

22/3/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae Safon 1 yn gofyn i'r Cyngor ateb gohebiaeth Cymraeg yn Gymraeg os nad yw'r person wedi dweud nad oes angen ymateb yn Gymraeg. Yn yr achos yma fe wnaeth yr achwynydd anfon e-bost at Arweinydd y Cyngor ar dri achlysur heb dderbyn ymateb ar y pedwerydd achlysur fe dderbyniodd ymateb yn Saesneg. Gan na wnaeth yr achwynydd dderbyn ymateb i'w e-byst Cymraeg i'r Cyngor ar dri achlysur a chan iddo dderbyn ymateb yn Saesneg i e-bost Cymraeg nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi cydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu cydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Sir y Fflint wedi methu cydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'r modd y mae'n delio â gohebiaeth Gymraeg sy'n cyrraedd aelodau Cabinet y Cyngor. Rhaid i'r Cyngor weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau er mwyn sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg:

- - yn cael ei ddarllen gan berson priodol o fewn y Cyngor;
- - yn cael ei gyfieithu (os oes angen);
- - yn derbyn ymateb (os oes angen) yn unol a thargedau corfforaethol y Cyngor.



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wreccsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 25/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod hysbysiad swyddogol o eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r hysbysiad swyddogol, sy'n cyfeirio at Ymgynghoriad Cyhoeddus parthed Cynllun Datblygu Lleol Wreccsam yn arddangos y testun Cymraeg ar yr ochr dde, a'r Saesneg ar yr ochr chwith, a gwelir bod y pennawd Cymraeg islaw'r pennawd Saesneg.

22/3/2019

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod aelodau etholedig a swyddogion sy'n eu cefnogi yn ymwybodol o'r trefniadau hyn. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 22/03/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 70: Mae safon 70 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod testun Cymraeg ar hysbysiad swyddogol dwyieithog yn cael ei osod mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Ystyrir bod testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf fel arfer pe caiff ei osod ar y chwith neu uwchben unrhyw destun Saesneg cyfatebol, a hynny ar sail yr arfer safonol o ddarllen o'r chwith i'r dde ac o frig testun i'w waelod. Cyhoeddodd y Cyngor hysbysiad swyddogol, yn yr achos hwn, ymgynghoriad cyhoeddus parthed Cynllun Datblygu Lleol Wreccsam gan arddangos y testun Cymraeg ar yr ochr dde, a'r Saesneg ar yr ochr chwith, a chan osod y pennawd Cymraeg islaw'r pennawd Saesneg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu cydymffurfio â safon 70.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 70.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 70 – Gofyniad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam lunio canllawiau penodol ynghylch cyhoeddi ac arddangos hysbysiadau cyhoeddus. Rhaid i'r Cyngor dynnu sylw staff at y canllawiau diwygiedig a'u gwneud ar gael iddynt.  
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal arolwg o'r templedi cyfredol y mae'n ei ddefnyddio ar gyfer cyhoeddi ac arddangos hysbysiadau swyddogol, gan gymryd camau i sicrhau fod testun pob hysbysiad cyhoeddus sydd mewn defnydd yn gosod y testun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Golyga hyn bod rhaid i'r Gymraeg ymddangos ar yr ochr chwith, a bod y pennawd yn Gymraeg yn ymddangos uwchlaw'r pennawd Saesneg.  
3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau'r camau gorfodi uchod.  
Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 22/03/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â llythyr Saesneg dyddiedig 12 Mehefin 2018 gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr mewn perthynas â chais am oedi taliadau benthyciad. Honnwyd bod y llythyr yn nodi nad oedd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn fodlon derbyn tystiolaeth Gymraeg ynghylch incwm yr achwynydd.

Safon 1: Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ateb gohebiaeth yn Gymraeg (os oes angen ateb), os ydynt yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg gan berson. Nid yw' n ofynnol i gorff wneud hynny mewn sefyllfaoedd ble mae person wedi cadarnhau nad oes angen ateb yn Gymraeg. Ar 12 Mehefin 2018, gohebodd y Cwmni Benthyciadau â'r achwynydd trwy gyfrwng llythyr Saesneg mewn perthynas â chais am oedi taliadau benthyciad. Roedd y llythyr yn nodi nad oedd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn fodlon derbyn tystiolaeth Gymraeg ynghylch i ncwm yr achwynydd, gan nodi, "Income evidence provided must be in English or accompanied with a translation". Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Gweinidogion Cymru, mae'r Comisiynydd o'r farn bod anfon ymateb Saesneg i ohebiaeth Cymraeg yn yr achos hwn, yn groes i ofynion safon 1.

Safon 7: Mae safon 7 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad ddatgan mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atynt, eu bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddant yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Ar 12 Mehefin 2018, gohebodd y Cwmni Benthyciadau â'r achwynydd trwy gyfrwng llythyr Saesneg mewn perthynas â chais am oedi taliadau benthyciad. Nid oedd y llythyr yn nodi bod y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg gan nodi, yn hytrach, "Income evidence provided must be in English or accompanied with a translation". Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Gweinidogion Cymru, mae'r Comisiynydd o'r farn bod yr ymateb a gafwyd yn yr achos hwn, yn groes i ofynion safon 7.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safonau 1 a 7.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safonau 1 a 7.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sefydlu proses ffurfiol i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn unol â gofynion safon 1 mewn perthynas â'r broses oedi ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr.
  2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu canllawiau clir i staff y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ac unrhyw drydydd parti arall sydd yn gyfrifol am weithredu ad-daliadau ar ei ran mewn perthynas â derbyn ac ymateb i ohebiaeth yn unol â gofynion safon 1.
  3. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy' n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1 a 2. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.
- Safon 7 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg
1. Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â safon 7 mewn perthynas â oedi taliadau benthyciadau trwy sicrhau bod datganiad ynghylch y Gymraeg yn cael ei gynnwys ar ohebiaeth.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 09/08/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod yr achwynydd wedi ffonio rhif ffôn gwasanaethau safonau masnach ar gyfer Cyngor Caerdydd ('y Cyngor') - 0300 123 6696 - ar 9 Awst 2018 am tua 10:00. Honnodd iddo bwysu '#' ar gyfer dewis gwasanaeth Cymraeg a bod y ffôn wedi canu am sawl munud ac nad oedd wedi derbyn ateb. Honnodd iddo ffonio'r rhif eto yn syth, gan ddewis yr opsiwn Saesneg. Honnodd fod nifer o is-opsiynau awtomatig yn cael eu cynnig wrth ddewis yr opsiwn Saesneg, nad oedd ar gael wrth ddewis yr opsiwn Gymraeg. Honnodd

22/3/2019

2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy' n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi  
4. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 22/03/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10: Pan fo person yn cysylltu â'r Cyngor ar ei brif rif ffôn (neu ar un o'i brif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid iddo delio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg, os yw hynny'n angenrheidiol). Nid wyf wedi gallu casglu a oedd yr achwynydd wedi pwyso yr opsiwn cywir ar gyfer derbyn gwasanaeth Cymraeg yn ystod yr alwad ffôn cyntaf, a hynny oherwydd bod gwrthdaro mewn tystiolaeth ynghylch pa fotwm oedd yr un perthnasol ar adeg yr alwad. Ni yw'r Comisiynydd felly wedi gallu casglu bod y Cyngor wedi methu â delio â'r alwad ffôn cyntaf yn Gymraeg. Casgla'r Comisiynydd bod yr achwynydd wedi ffonio'r Cyngor yr eildro ac wedi dewis pwyso'r opsiwn ar gyfer derbyn gwasanaeth Saesneg gan y Cyngor yn hytrach na'r gwasanaeth Cymraeg. Fodd bynnag, casgla'r Comisiynydd ei fod wedi amlygu ar lafar yn ddiweddarach ei fod yn dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg. Derbyniodd wasanaeth ffôn uniaith Saesneg ac addewid i gael rhywun

iddo gael ymateb yn syth wrth ddefnyddio'r opsiwn Saesneg a bod yr ymateb hwnnw'n uniaith Saesneg. Nododd na dderbyniodd alwad yn ôl yn Gymraeg, fel yr addawyd ar adeg yr alwad, ar yr adeg y cyflwynodd ei gŵyn.

i'w ffonio yn ôl yn Gymraeg. Casgla'r Comisiynydd nad oedd y Cyngor wedi delio â'r achwynydd yn Gymraeg unwaith yr oedd yn ymwybodol bod yr achwynydd yn dymuno gwasanaeth Cymraeg. Casgla'r Comisiynydd hefyd bod mwy o opsiynau Saesneg ar gael wedi'u hawtomeiddio nad oedd ar gael wedi'u hawtomeiddio yn Gymraeg, ond nad yw hynny o reidrwydd yn golygu na fyddai'r Cyngor wedi delio â galwad ffôn yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd. Er nad yw hynny yn golygu bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 10, mae'n codi amheuon ynghylch methiant i gydymffurfio â safon 22, er ddim yn rhan o gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn. Honnodd yr achwynydd ei fod wedi derbyn ateb yn syth wrth ddewis yr opsiwn Saesneg o'i gymharu â dim ateb o gwbl wrth ddewis yr opsiwn Cymraeg. Gan nad yw'r Comisiynydd wedi gallu casglu bod yr achwynydd wedi dewis yr opsiwn cywir yn ystod yr alwad cyntaf, nid oes modd i'r Comisiynydd ddod i gasgliad bod yr honiad hwn yn gywir. Hyd yn oed pe byddai modd canfod hynny'n gywir, nid yw'r Comisiynydd yn credu y byddai hynny ynddo'i hyn yn golygu na fyddai'r Cyngor wedi methu â delio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd, ac felly wedi methu â chydymffurfio â'r safon hon.

Safon 17: Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael brif rif ffôn (neu ar un o brif rifau ffôn) corff, neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i'r corff sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i'r personau sy'n galw pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Casgla'r Comisiynydd fod yr achwynydd wedi pwysu '#' er mwyn ceisio derbyn gwasanaeth Cymraeg ond bod y ffôn wedi canu am sawl munud ac nad oedd wedi derbyn ateb gan y Cyngor. Casgla'r Comisiynydd fod yr achwynydd wedi ffonio'r

Cyngor yr eildro ac wedi dewis derbyn gwasanaeth Saesneg gan y Cyngor ac wedi derbyn gwasanaeth ffôn uniaith Saesneg. Casgla'r Comisiynydd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar adeg y ddau alwad dan sylw, ond nad oedd yr achwynydd, am wahanol resymau, wedi derbyn y gwasanaeth Cymraeg hwnnw.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 10 ond nad yw wedi methu â chydymffurfio â safon 17.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safon 10.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 10 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gynnal adolygiad o'i wasanaeth ffôn 0300 1236696, gan gynnwys yr opsiynau sydd wedi'u hawtomeiddio.
2. Ar sail yr adolygiad, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo (neu unrhyw drydydd parti ar ei ran) weithdrefnau cadarn mewn lle i allu delio â galwadau i'r rhif ffôn 0300 1236696 yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys os yw galwr yn dewis yr opsiwn i dderbyn gwasanaeth ffôn Saesneg i gychwyn, ond yn newid ei ddymuniad i gael gwasanaeth ffôn Cymraeg yn ddiweddarach.
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-  
nedd Port  
Talbot

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 28/11/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Derbyniwyd cwyn bod cyfrifon cymdeithasol y Cyngor ar Twitter ar gael yn Saesneg yn unig. Cyfeiriodd yr achwynydd at nifer o gyfrifon fel enghreifftiau.

14/3/2019

Safon 17 – argymhellion yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg 1.

Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar rif ffôn 0300 123 6696, dylai'r Cyngor sicrhau bod gweithdrefnau digonol mewn lle i sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i bersonau sy'n galw pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 22/03/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 58: Mae safon 58 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn cydymffurfio â safon 58 mae angen i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ddeunydd sydd yn Saesneg ar eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol hefyd ar gael yn Gymraeg. Cadarnhaodd y Cyngor nad yw'r cyfrifon Twitter y cyfeiriodd yr achwynydd atynt sy'n cael eu cynnal gan adrannau unigol ar gael yn Gymraeg. Mae'r Cyngor felly yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd drwy gyfrifon cyfrifon Twitter felly yn yr achos yma nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â safon 58.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu cydymffurfio â safon 58.

#### **Datganiad gweithredu pellach**



Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu cydymffurfio â safon 58.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cam gorfodi 1 Safon 58 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77(3) Mesur y Gymraeg Rwyf yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Castell-Nedd Port Talbot baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 58 wrth gyhoeddi cyfrifon Twitter adrannol. Ar gyfer pob un o'r camau a nodir yn y cynllun gweithredu, dylid nodi pa ymrwymiad staffio fydd ei angen, pa ymrwymiad cyllidebol fydd ei angen, amserlen bendant a chyfrifoldeb ac atebolrwydd. Gweithredaf y gofyniad yma yn unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg. Mae'r cam uchod i'w weithredu o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 2 Safon 58 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sydd yn bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau ymrwymadau'r cynllun gweithredu. Mae'r cam uchod i'w weithredu o fewn 20 diwrnod gwaith yn dilyn y dyddiad olaf yn amserlen y cynllun gweithredu.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 14/03/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sir  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 29/03/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Cyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Daeth y gŵyn ar ffurf copi o e-bost gafodd ei anfon gan yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor. Yn yr e-bost i'r Arweinydd dywedodd yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn sawl gwahanol ffordd. Honnodd bod y Cyngor wedi cael gwybod am gamgymeriadau yn yr Hysbysiad Treth Cyngor yn 2014 a'i fod wedi derbyn cwyn am y mater yn 2015. Dywedodd bod y Cyngor wedi anwybyddu'r safonau a osodwyd arno gennyf i, yn ogystal a chyfarwyddyd a roddwyd iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyd-destun yr Hysbysiad Treth Cyngor. Dywedodd ei fod yn gwrthod talu ei fil treth Cyngor hyd nes ei fod yn cael Hysbysiad Treth Cyngor newydd sy'n cydymffurfio a safonau'r

4/3/2019

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol

Gymraeg. Gofynnodd i'r Cyngor anfon Hysbysiad Treth Cyngor newydd ato erbyn 14 Ebrill, 2018.

i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chatau gorfodi CSG172 a CSG233.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chatau gorfodi CSG172 a CSG233.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6.

Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.

		<p>4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor Sir Penfro</u></p> <p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 28/06/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd ei fod wedi cysylltu â'r Gyngor ar 26 Mehefin 2018 drwy alw'r rhif 01437 764 551. Wedi iddo ddewis yr opsiwn Gymraeg, mae'r achwynydd yn honni iddo ddisgwyl am 40 munud cyn cael ateb. Roedd yr ateb hwnnw yn Saesneg. Pan holodd yr achwynydd pam nad oedd yr alwad wedi ei ateb yn Gymraeg, dywedodd yr atebydd bod llai o bobl yn siarad Cymraeg yn y Sir. Honnai'r achwynydd yn ogystal, bod cydweithiwr iddo wedi cysylltu â'r Gyngor ar yr un rhif gan ddewis yr opsiwn Saesneg, a'i fod wedi cael ateb o fewn munudau.</p>	<p>22/2/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 11: Mae safon 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Penfro ddelio a galwad yn Gymraeg unwaith y maent yn ymwybodol bod y galwr yn dymuno cael gwasanaeth yn Gymraeg dros y ffôn gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio a'r pwnc yn Saesneg mewn sefyllfaoedd ble mae hynny yn angenrheidiol yn unig. Honnai'r achwynydd iddo ddisgwyl 40 munud cyn cael ateb yn Saesneg wedi iddo ddewis y linell Gymraeg pan alwodd y Gyngor ar y rhif 01437 764 551 ar 26 Mehefin 2018. Yn dilyn ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Gyngor, rwyf o'r farn na ddeliodd y Gyngor a'r alwad dan sylw yn Gymraeg unwaith y daethant yn ymwybodol o ddymuniad iaith y galwr. Nid oedd ateb yr alwad yn y man cyntaf, yn gofyn am unrhyw wasanaeth ar bwnc penodol ac felly nid yw eithriadau adrannau (a) a (b) o safon 11 yn berthnasol yn y sefyllfa hon.</p> <p>Safon 15: Mae safon 15 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw dangosyddion perfformiad ar gyfer delio a galwadau ffôn yn gosod mesuriadau a fyddai'n trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na</p>

galwadau a wneir yn Saesneg. Honnai'r achwynydd iddo ddisgwyl 40 munud cyn cael ateb yn Saesneg wedi iddo ddewis y linell Gymraeg pan alwodd y Cyngor ar y rhif 01437 764 551 ar 26 Mehefin 2018. Honnai'r achwynydd yn ogystal, bod cydweithiwr iddo wedi cysylltu â'r Cyngor ar yr un rhif gan ddewis yr opsiwn Saesneg, a'i fod wedi cael ateb o fewn munudau. Nid yw'r Cyngor yn gallu cadarnhau a yw honiad yr achwynydd sef bod ei gydweithiwr wedi cysylltu â'r Cyngor ar yr un rhif ffôn, dewis yr opsiwn Saesneg a chael ateb o fewn munudau yn gywir.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Penfro wedi methu cydymffurfio â safon 11 .

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 11. Rhoddwyd Cyngor yn sgil y dyfarniad nad yw Cyngor Sir Penfro wedi methu cydymffurfio â safon 15.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 11 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Penfro wneud trefniadau i ddelio â galwadau yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 11.
2. Rhaid i Gyngor Sir Penfro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 15 – Cyngor yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Dylai Cyngor Sir Penfro, os y bydd yn mabwysiadu

		<p>dangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, fabwysiadu dangosyddion nad yw'n trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.</p> <p>2. Rwyf yn argymhell bod Cyngor Sir Penfro yn gwneud trefniadau ar gyfer monitro ei berfformiad wrth ddelio â galwadau ffôn ac adrodd ar ei berfformiad i un o bwyllgorau priodol y Cyngor.</p> <p>Amserlen: O fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b></p> <p>Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Penfro ar 22/02/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b></p> <p>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Caerdydd</u></p> <p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 21/03/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynghylch diffyg argaeledd arolwg (ffurflen ar-lein) Cymraeg ar gyfer arolwg oedd wedi ei hybu ar gyfrif 'Twitter' Cymraeg Cyngor Caerdydd. Roedd yr arolwg yn cael ei gynnal gan gwmni 'Sound Diplomacy' ac yn ymwneud â phrosiect creu 'Music City' ar gyfer dinas Caerdydd. Honnai'r achwynydd yn ogystal, nid oedd yr arolwg dan sylw yn cyfeirio at y Gymraeg, er mai</p>	<p>22/2/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 50: Mae safon 50 yn gwneud yn ofynnol ar gorff sicrhau bod pob ffurflen y mae'n ei llunio at ddefnydd y cyhoedd yn cael ei llunio yn Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys unrhyw ffurflenni ysgrifenedig, boed yn electronig neu ar ffurf papur. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth y Cyngor a'r achwynydd, canfu'r Comisiynydd bod y Cyngor wedi llunio a chyhoeddi ffurflen electronig at ddefnydd y cyhoedd yn Saesneg yn unig ar ddyddiad y gŵyn.</p> <p>Safon 58: Mae safon 58 yn ei wneud yn ofynnol ar gorff i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth y Cyngor a'r achwynydd, canfu'r Comisiynydd bod y Cyngor wedi darparu dolen at arolwg Saesneg yn unig ar ei gyfrif cyfrwng cymdeithasol Cymraeg ac felly wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>

bwriad yr ymchwil yn ôl y neges trydar oedd yn hyrwyddo'r arolwg oedd 'datblygu a diogelu diwydiant cerdd Caerdydd'.

Safonau 95, 96 a 97: Mae'r safonau hyn yn fodd o sicrhau bod unrhyw waith ymchwil y mae corff yn ei wneud neu yn ei gomisiynu y bwriedir i'w gynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, yn ystyried ac yn ymdrin yn benodol â'r effeithiau y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio. Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r dystiolaeth sydd ar gael, canfu'r Comisiynydd nad oedd y Cyngor wedi comisiynu'r gwaith ymchwil yma yn unol â gofynion safonau 95, 96 a 97.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 50, 58, 95, 96 a 97.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 50, 58, 95, 96 a 97.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 50 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3) (3) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd sicrhau bod ei gytundebau gyda thrydydd partion yn cynnwys cymalau clir sydd yn ymrwymo'r trydydd parti i gydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyswllt â'r cyhoedd.
2. Rhaid i Gyngor Caerdydd darparu cyngor a chanllawiau i'w staff ar sut i sicrhau fod trydydd partion sydd sy'n weithredu ar ei ran yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, dylai'r cyngor hwn rhoi arweiniad ar sut i gynnwys cymalau perthnasol mewn contractau, gan dalu sylw i ddogfen gyngor y Comisiynydd wrth wneud hynny.

3. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 50 – cyngor yn unol ag adran 77 (4) (b) Mesur y Gymraeg

Dylid Cyngor Caerdydd datblygu trefniadau ar gyfer gwirio a chymeradwyo unrhyw ffurflenni neu arolygon electronig sydd yn cael eu rhannu gan drydydd parti ar ei rhan, cyn iddynt gael ei anfon, er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg.

Safon 58 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3) (3) Mesur y Gymraeg

4. Rhaid i Gyngor Caerdydd datblygu trefniadau i wirio defnydd o'i gyfryngau cymdeithasol i sicrhau nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid iddo sicrhau nad yw negeseuon neu gyfrifon Cymraeg yn darparu dolenni at ddeunydd nad yw yn Gymraeg. 5. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 4.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safonau 95, 96 a 97 - gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3) (3) Mesur y Gymraeg

6. Rhaid i Gyngor Caerdydd datblygu trefniadau a chanllawiau, gan gynnwys trefniadau hyfforddi staff, er mwyn sicrhau bod gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg.



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Caerffili

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 11/12/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad i'r achwynydd yrru gohebiaeth cyfrwng Cymraeg i dîm Therapi Galwedigaethol Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 7 Rhagfyr 2017 drwy'r ffurflen electroneg ar wefan y Cyngor (ar adran 'Cysylltwch â ni' / Gwasanaethau'r Cyngor / Cysylltiadau Plant a Theuluoedd). Dywed yr achwynydd nad yw wedi derbyn ymateb i'r ohebiaeth ac yn honni mai'r rheswm am hynny yw am iddo ddewis gohebu â'r Cyngor yn Gymraeg. Darparodd yr achwynydd ddolen i'r dudalen berthnasol oedd

24/1/2019

7. Rhaid i Gyngor Caerdydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 6.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 22/02/2019.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae Safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor i ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynient gan berson, yn Gymraeg (os oes angen ateb). Yn ei dystiolaeth mae'r Cyngor wedi datgan ei fod wedi ateb yr ohebiaeth ar 22/12/2017. Mae'r Cyngor hefyd wedi egluro mai'r rheswm am yr oedi wrth yrru'r ymateb oedd gan fod y swyddog priodol o fewn y Tîm Ailalluogi ar ei wyliau ac i'r achwynydd wrthod y cynnig gan y Cyngor bod siaradwr Cymraeg arall yn delio â'r ymholiad. Casglu'r Comisiynydd felly bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i gynnig ymateb i ymholiad yr achwynydd trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn amser rhesymol ond i'r achwynydd wrthod y gwasanaeth a gynigwyd.

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol ar y Cyngor i sicrhau bod testun pob tudalen ar y wefan yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod testun y pennawd 'Information, Advice and Assistance (IAA) for Children's Social Services' wedi ymddangos yn uniaith Saesneg ar dudalen Gymraeg y wefan ym mis Rhagfyr 2017.

hefyd yn dangos bod pennawd uniaith Saesneg i'r dudalen honno sef 'Information, Advice and Assistance (IAA) for Children's Social Services'.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu cydymffurfio â safon 52 yn yr achos hwn.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 52 Mesur y Gymraeg 1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gynnal adolygiad o'i wefan i sicrhau bod testun pob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 52. Amserlen: O fewn 24 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gymryd camau i sicrhau bod staff sydd yn gyfrifol am gynnwys y wefan yn ymwybodol o ofynion safon 52 Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili lunio a darparu canllawiau i staff sydd yn gyfrifol am lwytho a monitro cynnwys ar y wefan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 52. Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 3. Amserlen: O fewn 24 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 23/02/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â defnydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) o'r Gymraeg ar beiriant talu hunanwasanaeth ac mewn gohebiaeth. Dywedodd yr achwynydd bod peiriant talu am docynnau parcio ger Tŷ Tawe yn Abertawe yn rhoi'r blaenoriaeth i'r Saesneg gan bod rhaid pwysu botwm er mwyn derbyn cyfarwyddiadau'n Gymraeg. Anfonodd ataf luniau o'r peiriant hunanwasanaeth fel tystiolaeth i gefnogi ei gwyn. Eglurodd yr achwynydd ei fod wedi cwyno i'r Cyngor am y peiriant hunanwasanaeth ac anfonodd ataf gopi o'i gwyn. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod yr achwynydd wedi anfon neges e-bost i'r gyfeiriad [contact@swansea.gov.uk](mailto:contact@swansea.gov.uk) ar 30 Ionawr, 2018. Roedd y neges e-bost wedi ei hysgrifennu'n Gymraeg.

24/1/2019

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 24/01/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Pan fo'r Cyngor yn cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac mae angen i'r Cyngor ateb yr ohebiaeth honno, rhaid iddo ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person a anfonodd yr ohebiaeth wedi dweud wrtho nad oes angen gwneud hynny. Anfonodd yr achwynydd ohebiaeth yn Gymraeg i'r Cyngor. Ni ddywedodd nad oedd angen i'r Cyngor ei hateb yn Gymraeg. Daeth ateb y Cyngor ar ffurf llythyr, oedd yn Gymraeg, ond roedd y neges e-bost yn cyflwyno'r ateb wedi ei hysgrifennu'n Saesneg. Ystyriaf y neges e-bost i fod yn rhan o ateb y Cyngor; dylai felly fod wedi bod yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1.

Safon 7: Rhaid i'r Cyngor gynnwys datganiad mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Anfonodd y Cyngor ohebiaeth, ar ffurf llythyr, at yr achwynydd nad oedd yn cynnwys datganiad o'r fath. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 7. Safon 60: Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob un o'i beiriannau hunanwasanaeth (1) yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, ac (2) nad ydynt yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Wedi ystyried y dystiolaeth a gefais gan yr achwynydd a'r Cyngor, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy osod y Saesneg fel yr iaith ddiodyn ar beiriant hunanwasanaeth ar gyfer talu am

Roedd yn amlinellu ei gŵyn am y peiriant hunanwasanaeth ac wedi eu hatodi oedd dau lun o'r peiriant dan sylw yn arddangos testun yn Saesneg yn unig. Ar 23 Chwefror, 2018 fe wnaeth y Cyngor ymateb i'r gŵyn. Yn ôl tystiolaeth yr achwynydd roedd y neges e-bost yn cyflwyno ymateb Rheolwr Gwasanaethau Parcio y Cyngor i'r gŵyn wedi ei hysgrifennu'n Saesneg gan ddweud: Good Afternoon Please find attached response to your email.  
Cofion/Regards

docynnau parcio. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 60. Cydymffurfiaeth â cham gorfodi Safon 1:Roedd y cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ateb pob gohebiaeth Gymraeg oedd angen ymateb, yn Gymraeg erbyn 13 Rhagfyr, 2017. Roedd yn berthnasol i unrhyw ohebiaeth at sylw'r Cyngor. Ar 23 Chwefror, 2018 anfonodd aelod o staff y Cyngor llythyr wedi'i ysgrifennu'n Gymraeg yn ateb gohebiaeth Gymraeg gan yr achwynydd, ond roedd y neges e-bost oedd yn cyflwyno'r ateb wedi ei hysgrifennu'n Saesneg. Roedd anfon neges e-bost wedi'i hysgrifennu'n Saesneg yn fethiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Safon 7: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor datgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd yn gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi er mwyn cydymffurfio a gofynion safon 7. Dangosodd y dystiolaeth bod y Cyngor wedi anfon llythyr at yr achwynydd nad oedd yn cynnwys datganiad o'r fath. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â safonau 1, 7 a 60 a'r gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a osodwyd ar y Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG201.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 1, 7 a 60 a'r gofyniad i gymryd camau yn unol ag

adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a osodwyd ar y Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG201.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sefydlu proses ffurfiol i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn unol â gofynion safon 1 a chynhyrchu canllaw i staff ar y broses honno. Amserlen: o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad y Comisiynydd

Safon 7 – Gofyniad i gymryd camau unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu a chyhoeddi datganiad sy'n cyd-fynd â gofynion safon 7 yn ei ohebiaeth (a'i gyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth ato).

Safon 7 – Cyngor yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg

3. Dylai'r Cyngor ystyried amlygrwydd y datganiad yn unol â safon 7 ar waelod negeseuon e-bost sy'n cael eu hanfon ganddo.

4. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad y Comisiynydd

Safon 60 – Gofyniad i gymryd camau unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

5. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod pob peiriant hunanwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano un ai'n cynnig dewis iaith gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar y sgrin flaen, neu'n rhagosod y Gymraeg fel dewis diodyn ar y peiriant.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wreccsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 28/03/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Cyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Dywedodd yr achwynydd nad oedd yr Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg mewn nifer o ffyrdd ac amlinellodd y canlynol fel enghreifftiau: •nifer o rannau sylweddol yn uniaith Saesneg; •y Saesneg mewn print trwm a mwy o faint na'r Gymraeg; •y Saesneg yn ymddangos o flaen y Gymraeg. Dywedodd ei fod wedi dwyn ei gŵyn

24/1/2019

6. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar 24/01/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol Am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg

at sylw'r Cyngor am y tro cyntaf yn 2014.

cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Gymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6. Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r



			<p>adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion.  Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd  Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg  3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.  4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3.  Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd  <b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b>  Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.  <b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b>  Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor</u>  <u>Bwrdeistref</u>  <u>Sirol</u>  <u>Wrecsam</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 29/03/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Daeth y gŵyn ar ffurf copi o e-bost gafodd ei anfon gan</p>	<p>24/1/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b>  Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6.</p>



yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor. Yn yr e-bost i'r Arweinydd dywedodd yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn sawl gwahanol ffordd. Honnodd bod y Cyngor wedi cael gwybod am gamgymeriadau yn yr Hysbysiad Treth Cyngor yn 2014 a'i fod wedi derbyn cwyn am y mater yn 2015. Dywedodd bod y Cyngor wedi anwybyddu'r safonau a osodwyd arno gennyf i, yn ogystal a chyfarwyddyd a roddwyd iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyd-destun yr Hysbysiad Treth Cyngor. Dywedodd ei fod yn gwrthod talu ei fil treth Cyngor hyd nes ei fod yn cael Hysbysiad Treth Cyngor newydd sy'n cydymffurfio a safonau'r Gymraeg. Gofynnodd i'r Cyngor anfon Hysbysiad Treth Cyngor newydd ato erbyn 14 Ebrill, 2018.

Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6. Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.

4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Sirol  
Wreccsam

adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Daeth y gŵyn ar ffurf copi o e-bost gafodd ei anfon gan yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor. Yn yr e-bost i'r Arweinydd dywedodd yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn sawl gwahanol ffordd. Honnodd bod y Cyngor wedi cael gwybod am gamgymeriadau yn yr Hysbysiad Treth Cyngor yn 2014 a'i fod wedi derbyn cwyn am y mater yn 2015. Dywedodd bod y Cyngor wedi anwybyddu'r safonau a osodwyd arno gennyf i, yn ogystal a chyfarwyddyd a roddwyd iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyd-destun yr Hysbysiad Treth Cyngor. Dywedodd ei fod yn gwrthod talu ei fil treth Cyngor hyd nes ei fod yn cael Hysbysiad Treth Cyngor newydd sy'n cydymffurfio a safonau'r Gymraeg. Gofynnodd i'r Cyngor anfon

Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor

Hysbysiad Treth Cyngor newydd ato  
erbyn 14 Ebrill, 2018.

ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y  
Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y  
Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi  
methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a  
CSG233.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor  
Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu cydymffurfio â  
safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran  
77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam sicrhau bod  
pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â  
safon 6. Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran  
77(3)(c) Mesur y Gymraeg
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam roi  
cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn  
perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r  
adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys  
eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion. Amserlen: O  
fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y  
Comisiynydd Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i  
gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg
3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam gynnal  
adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf  
darllen gohebiaeth yn ddigonol.
4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ddarparu  
tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd  
y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirof  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 30/03/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Daeth y gŵyn ar ffurf copi o e-bost gafodd ei anfon gan yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor. Yn yr e-bost i'r Arweinydd dywedodd yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn sawl gwahanol ffordd. Honnodd bod y Cyngor wedi cael gwybod am gamgymeriadau yn yr Hysbysiad Treth Cyngor yn 2014 a'i fod wedi derbyn cwyn am y mater yn 2015. Dywedodd bod y Cyngor wedi anwybyddu'r safonau a osodwyd arno

24/1/2019

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn

gennyf i, yn ogystal a chyfarwyddyd a roddwyd iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyd-destun yr Hysbysiad Treth Cyngor. Dywedodd ei fod yn gwrthod talu ei fil treth Cyngor hyd nes ei fod yn cael Hysbysiad Treth Cyngor newydd sy'n cydymffurfio a safonau'r Gymraeg. Gofynnodd i'r Cyngor anfon Hysbysiad Treth Cyngor newydd ato erbyn 14 Ebrill, 2018.

Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a champau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a champau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6. Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion. Amserlen: O

			<p>fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p>Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg 3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.</p> <p>4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b></p> <p>Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b></p> <p>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor</u> <u>Bwrdeistref</u> <u>Sirol</u> <u>Wrecsam</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 09/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Daeth y gŵyn ar ffurf copi o e-bost gafodd ei anfon gan yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor. Yn yr e-bost i'r Arweinydd dywedodd</p>	<p>24/1/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn</p>



yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn sawl gwahanol ffordd. Honnodd bod y Cyngor wedi cael gwybod am gamgymeriadau yn yr Hysbysiad Treth Cyngor yn 2014 a'i fod wedi derbyn cwyn am y mater yn 2015. Dywedodd bod y Cyngor wedi anwybyddu'r safonau a osodwyd arno gennyf i, yn ogystal a chyfarwyddyd a roddwyd iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyd-destun yr Hysbysiad Treth Cyngor. Dywedodd ei fod yn gwrthod talu ei fil treth Cyngor hyd nes ei fod yn cael Hysbysiad Treth Cyngor newydd sy'n cydymffurfio a safonau'r Gymraeg. Gofynnodd i'r Cyngor anfon Hysbysiad Treth Cyngor newydd ato erbyn 14 Ebrill, 2018.

gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**



Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6. Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg 3.

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.

4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 08/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg.

24/1/2019

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o

Sirol  
Wreccsam

Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Daeth y gŵyn ar ffurf copi o e-bost gafodd ei anfon gan yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor. Yn yr e-bost i'r Arweinydd dywedodd yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn sawl gwahanol ffordd. Honnodd bod y Cyngor wedi cael gwybod am gamgymeriadau yn yr Hysbysiad Treth Cyngor yn 2014 a'i fod wedi derbyn cwyn am y mater yn 2015. Dywedodd bod y Cyngor wedi anwybyddu'r safonau a osodwyd arno gennyf i, yn ogystal a chyfarwyddyd a roddwyd iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyd-destun yr Hysbysiad Treth Cyngor. Dywedodd ei fod yn gwrthod talu ei fil treth Cyngor hyd nes ei fod yn cael Hysbysiad Treth Cyngor newydd sy'n cydymffurfio a safonau'r Gymraeg. Gofynnodd i'r Cyngor anfon Hysbysiad Treth Cyngor newydd ato erbyn 14 Ebrill, 2018.

ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi. Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a chamau gorfodi CSG172 a CSG233.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6. Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg
2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg 3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.

4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirof  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 10/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â Hysbysiad Galw am Dalu'r Dreth Gyngor (yr Hysbysiad Treth Cyngor), Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Daeth y gwyn ar ffurf copi o e-bost gafodd ei anfon gan yr achwynydd at Arweinydd y Cyngor. Yn yr e-bost i'r Arweinydd dywedodd yr achwynydd bod yr Hysbysiad Treth Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn sawl gwahanol ffordd. Honnodd bod y Cyngor wedi cael gwybod am gamgymeriadau yn yr Hysbysiad Treth Cyngor yn 2014 a'i fod wedi derbyn cwyn am y mater yn 2015. Dywedodd bod y Cyngor wedi anwybyddu'r safonau a osodwyd arno

24/1/2019

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Mae safon 6 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau, pan fo'n llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, nad yw yn trin y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Lluniodd y Cyngor ohebiaeth, yn yr achos hwn Hysbysiad Treth Cyngor, oedd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg o ran ei olwg. Roedd testun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor yn ymddangos yn llai blaenllaw na'r testun Saesneg gyfatebol, ac roedd sawl enghraifft yn yr hysbysiad o destun oedd ar goll yn Gymraeg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 6. Cam Gorfodi CSG172: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun Saesneg mewn gohebiaeth hefyd yn cael ei anfon yn Gymraeg. Mae'n gofyn iddo sicrhau bod y testun yn cael ei brawf ddarllen er mwyn gwneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'n berthnasol i unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon gan y Cyngor, waeth bynnag pa adran sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Cafodd testun Saesneg ei anfon mewn gohebiaeth - Hysbysiad Treth Cyngor yn yr achos hwn - heb destun Cymraeg cyfatebol. Ni chafodd yr Hysbysiad Treth Cyngor ei brawf ddarllen mewn modd wnaeth adnabod bod y fersiwn

gennyf i, yn ogystal a chyfarwyddyd a roddwyd iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyd-destun yr Hysbysiad Treth Cyngor. Dywedodd ei fod yn gwrthod talu ei fil treth Cyngor hyd nes ei fod yn cael Hysbysiad Treth Cyngor newydd sy'n cydymffurfio a safonau'r Gymraeg. Gofynnodd i'r Cyngor anfon Hysbysiad Treth Cyngor newydd ato erbyn 14 Ebrill, 2018.

Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran ei olwg. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

Cam Gorfodi CSG233: Mae'r cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw wallau ieithyddol mewn gohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei hanfon gan yr adran Dreth Cyngor. Ni chafodd camau digonol eu cymryd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gwallau ieithyddol i'w gweld yn nhestun Cymraeg yr Hysbysiad Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn dangos methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â'r cam gorfodi.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a champau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu cydymffurfio â safon 6 a champau gorfodi CSG172 a CSG233.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam sicrhau bod pob elfen o'i Hysbysiad Treth Cyngor yn cydymffurfio â safon 6. Gofyniad i roi cyhoeddusrwydd yn unol ag adran 77(3)(c) Mesur y Gymraeg

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant i gydymffurfio â safon 6 mewn perthynas â'i Hysbysiad Treth Cyngor. Dylai gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion. Amserlen: O

			<p>fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p>Cam gorfodi ymchwiliad CSG172: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg 3. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer prawf darllen gohebiaeth yn ddigonol.</p> <p>4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2, a 3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b></p> <p>Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 24/01/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b></p> <p>Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Dinas a Sir Abertawe</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 14/01/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig y Cyngor i ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg. Mae'r achwynydd yn honni iddo ohebu ag aelod o staff y Cyngor rhwng 29 Tachwedd 2017 a 14 Ionawr 2018. Honnir bod yr aelod staff wedi ymateb yn uniaith Saesneg i ohebiaeth Gymraeg ar 3 Ionawr</p>	<p>11/1/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b></p> <p>Safon 1: Mae Safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynient gan berson, yn Gymraeg (os oes angen ateb). Mae'r cam gorfodi a roddwyd i'r Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG201 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ateb pob gohebiaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg, yn Gymraeg, oes angen ateb ar yr ohebiaeth. Ar 3 Ionawr 2018 a 10 Ionawr 2018 gohebodd swyddog o'r Cyngor yn uniaith Saesneg ag aelod o'r cyhoedd oedd wedi gohebu yn Gymraeg â'r Cyngor.</p> <p>Safon 7: Mae Safon 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na</p>

2018 a 10 Ionawr 2018. Nid oedd e-bost yr aelod staff yn cynnwys datganiad bod Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac na fyddai gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

fydd yn gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r cam gorfodi a roddwyd i'r Cyngor yn sgil ymchwiliad CSG201 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau ei fod yn datgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd yn gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Roedd e-bost cychwynnol y Cyngor at yr achwynydd dyddiedig 29 Tachwedd 2017 yn cynnwys y datganid canlynol ar waelod y neges: "Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni".

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu cydymffurfio â safon 1 a'r gofyniad i gymryd camau yn sgil ymchwiliad CSG201.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a'r gofyniad i gymryd camau yn sgil ymchwiliad CSG201.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor a Dinas Abertawe gymryd camau i sefydlu proses ffurfiol i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn unol â gofynion safon 1 a chynhyrchu canllaw i staff ar y broses honno .
2. Rhaid i Gyngor a Dinas Abertawe atgoffa / codi ymwybyddiaeth staff sydd yn derbyn ac ymateb i ohebiaeth o'r trefniadau a'r canllawiau sydd mewn lle mewn perthynas â phrosesau delio â gohebiaeth yn unol â gofynion Safon 1.



			<p>3. Rhaid i Gyngor a Dinas Abertawe ymddiheuro yn ffurfiol i'r achwynydd am fethu a pharchu ei ddewis iaith ac am beidio ag ymateb i'w gŵyn yn ei e-bost dyddiedig 7 Ionawr 2018</p> <p>4. Rhaid i Gyngor a Dinas Abertawe ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 i 3.</p> <p>Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 11/01/2019.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Prifysgol Glyndŵr</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 11/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod Prifysgol Glyndŵr yn hysbysebu swyddi ar ei gwefan yn Saesneg yn unig. Yn ogystal honnai nad oedd modd cyflwyno cais ar gyfer y swyddi hynny yn Gymraeg. Hefyd honnai'r achwynydd nad oedd gwasanaeth Cymraeg digonol ar wefan y Brifysgol ac ychwanegodd bod brif gyfrif 'Twitter' Cymraeg y Brifysgol yn cyhoeddi llai o negeseuon na'r cyfrif Saesneg, a bod y Gymraeg felly yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r</p>	<p>11/1/2019</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 57: Mae safon 57 yn ei wneud yn ofynnol i Brifysgol Glyndŵr sicrhau bod unrhyw dudalen ar ei wefan sydd yn newydd neu wedi ei diwygio, ar gael yn Gymraeg; yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod Prifysgol Glyndŵr wedi cyhoeddi hysbysebion am swyddi ar ei wefan yn Saesneg yn unig. Yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth yr achwynydd a'r Brifysgol, mae'r Comisiynydd yn canfod bod Prifysgol Glyndŵr wedi cyhoeddi tudalennau newydd ar ei wefan at bwrpas hysbysebu swyddi, a bod y tudalennau gyda thestun Saesneg yn unig am gyfnod.</p> <p>Safon 62: Mae safon 62 yn ei wneud yn ofynnol i gorff peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn oedd yn honni bod y Brifysgol yn</p>



Saesneg ar y cyfrwng cymdeithasol yma.

cyhoeddi llai o gynnwys yn Gymraeg ar ei brif gyfrif 'Twitter' (@PrifGlyndwr) na'r cyfrif Saesneg cyfatebol (@GlyndwrUni) yn ystod mis Mai 2018. Derbyniodd y Brifysgol yr honiad yma. Canfu'r Comisiynydd bod tystiolaeth yr achwynydd a'r Brifysgol yn cadarnhau yn ystod mis Mai 2018 yr oedd y Brifysgol yn cyhoeddi llai o gynnwys ar gyfrif Cymraeg ei chyfrwng cymdeithasol 'Twitter' nag ar y cyfrif Saesneg cyfatebol, ac felly yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 145A: Mae safon 145A yn ei wneud yn ofynnol i gorff pennu sgiliau Cymraeg sydd wedi ei asesu ar gyfer bob swydd yn yr hysbyseb, ac os oes ofyniad am sgiliau Cymraeg, bod y swydd yn cael ei hysbysebu yn Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn yn honni bod y Brifysgol yn hysbysebu swyddi yn Saesneg yn unig. Derbyniodd y Brifysgol yr honiad ei fod wedi hysbysebu rhai swyddi ym mis Mai 2018, drwy gamgymeriad, yn Saesneg yn unig, ac roedd sgiliau Cymraeg wedi eu pennu i'r swyddi Canfu'r Comisiynydd, yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth y Brifysgol a'r achwynydd, y bod y Brifysgol wedi hysbysebu swyddi yn Saesneg yn unig ym mis Mai 2018 er bod sgiliau Cymraeg wedi eu pennu i'r swyddi hynny.

Safon 146: Mae safon 146 yn ei wneud yn ofynnol i Brifysgol Glyndŵr sicrhau ei bod yn datgan yn glir mewn bob hysbyseb swydd ei bod yn caniatáu ceisiadau Cymraeg a ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd modd cyflwyno cais yn Gymraeg ar gyfer swyddi hysbysebwyd gan y Brifysgol. Canfu'r Comisiynydd bod y Brifysgol yn datgan yn unol â safon 146 bod modd

gwneud cais yn Gymraeg a na fydd cais Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Prifysgol Glyndŵr wedi methu cydymffurfio â safonau 57, 62, 145A a 146.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Prifysgol Glyndŵr wedi methu â chydymffurfio â safonau 57, 62, 145A a 146.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 62 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Brifysgol Glyndŵr sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth iddi ddefnyddio cyfyngau cymdeithasol. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod y cynnwys y mae yn cyhoeddi yn cyfateb yn llawn rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol sydd yn ddarostyngedig i'r safon. Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd
2. Rhaid i Brifysgol Glyndŵr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Brifysgol Glyndŵr ar 11/01/2019.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas  
Casnewydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 07/12/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn amlinellu pryder yr achwynydd ynghylch ymgynghoriad a phenderfyniad Cyngor Dinas Casnewydd i agor ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn ardal Glan Llyn, Llanwern, Casnewydd. Roedd y gŵyn yn amlinellu pryder yr achwynydd ynghylch ymgynghoriad a phenderfyniad Cyngor Dinas Casnewydd i agor ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn ardal Glan Llyn, Llanwern, Casnewydd.

17/12/2018

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 88, 89 a 90: Mae'r safonau llunio polisi yn ei wneud yn ofynnol i gorff ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i gorff ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd y Cyngor wedi ystyried yr effaith ar y Gymraeg yn ddigonol wrth gynnal astudiaeth effaith ei benderfyniad polisi i agor ysgol newydd. Yn dilyn ystyriaeth llawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn nad yw'r Cyngor wedi gweithredu gofynion safonau 88, 89 a 90 wrth wneud ei benderfyniad polisi i agor ysgol newydd. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried a nodi pa effeithiau y gall ei benderfyniad gael ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg nag i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydynt ychwaith wedi ystyried sut y gallant wneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif, neu llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Safonau 91, 92 a 93: Mae safonau 91, 92 a 93 yn ei gwneud yn ofynnol bod dogfennau ymgynghori corff sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn ystyried ac yn ceisio barn gan bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio. Rhaid cynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori sy'n gofyn am ymateb iddynt. Dylai corff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon wrth wneud y penderfyniad polisi, fel y

byddai'r corff yn gweithredu ar unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd y Cyngor wedi gofyn barn y cyhoedd yn ddigonol ar effeithiau posib ar y Gymraeg wrth ymgynghori ar ei benderfyniad i agor ysgol newydd. Yn dilyn ystyriaeth llawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn nad yw'r Cyngor wedi gweithredu gofynion safonau 91, 92 a 93 wrth ymgynghori ar ei benderfyniad polisi i agor ysgol newydd. Nid yw'r Cyngor wedi gofyn barn yn y ddogfen ymgynghori ar pa effeithiau y gallai ei benderfyniad gael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg nag i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydynt ychwaith wedi gofyn sut y gallent wneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif, neu llai andwyol, ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89, 90, 91, 92 a 93.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 88, 89, 90, 91, 92 a 93.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar unrhyw effeithiau y byddai penderfyniad polisi ei ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y

Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

2. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel ei bod yn cael effeithiau mwy positif ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

3. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd fabwysiadu proses gadarn ar gyfer cynnal a chofnodi ystyriaethau ar sut y gellid llunio penderfyniad polisi fel nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bersonau defnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r broses gynnwys canllaw clir ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ynghylch sut y dylid cwblhau a chofnodi'r ystyriaethau perthnasol. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

4. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1, 2 a 3. Amserlen: O fewn 110 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

5. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ddatblygu cyfres o gwestiynau safonol i'w ddefnyddio mewn dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi fel ei bod yn ceisio barn yn unol â gofynion safonau 91,92 a 93.

			<p>6. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ymgorffori ystyriaethau ar gydymffurfio â safonau'r Gymraeg i unrhyw brosesau ymgynghori y mae yn ei weithredu. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p>7. Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5 a 6. Amserlen: O fewn 110 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 17/12/18.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 05/06/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â pheiriant tocyn parcio mewn maes parcio o eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sef maes parcio Glannau'r Harbwr, Parcfordd, ym Mhort Talbot. Honnir mai'r Saesneg yw iaith ddiodyn y peiriant. Honnir fod yn rhaid pwyso botwm er mwyn derbyn gwasanaeth Cymraeg.</p>	<p>12/12/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 60: Mae safon 60 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob peiriant hunan wasanaeth weithio'n llawn yn y Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni mai Saesneg oedd yr iaith ddiodyn ar y peiriant tocyn parcio ym maes parcio Glannau'r Harbwr, Port Talbot. Cadarnhaodd y Cyngor: "The machines' default language is indeed English; but the Welsh Language Service can be accessed at a press of a button." Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor a'r achwynydd, mae'r Comisiynydd o'r farn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth i'r peiriant talu am barcio sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor ragosod y Saesneg fel iaith ddiodyn y peiriant.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b></p>

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 60 yn yr achos hwn.

**Datganiad gweithredu pellach**

Yn achos y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 60, gweithredwyd ymhellach.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 60 – gofyniad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot weithredu yn unol ag adran 77(3)(b)

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn newid yr iaith ddiodyn i'r Gymraeg mewn peiriannau tocynnau parcio a all ddarparu ar gyfer dangosydd iaith arall (botwm). Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol: • Prif gamau'r broses wrth gynllunio'r gwaith • Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith (ni ddylai fid yn fwy na 12 mis ar gyfer cyflawni'r dasg) • Y gyllideb ar gyfer cwblhau'r gwaith • Enw'r person sydd â chyfrifoldeb dros y prosiect Amserlen: Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 60 mewn perthynas â pheiriannau lle mae maint y sgrin ar y peiriannau tocynnau parcio yn rhy fach i ddarparu

dangosydd iaith arall (botwm). Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys y wybodaeth ganlynol: - Prif gamau'r broses wrth gynllunio'r gwaith - Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith - Y gyllideb ar gyfer cwblhau'r gwaith - Enw'r person sydd 6a chyfrifoldeb dros y prosiect

Amserlen: Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 12/12/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 25/04/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud a honiad nad yw gwefan Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg. Honnai'r achwynydd ei fod wedi clicio ar 'C' dan yr adran 'A-Z of Services' ar frig tudalen Cymraeg yr hafan: <http://www.newport.gov.uk/cy/Hafan.aspx> a bod y dewis hwnnw wedi arwain at dudalen Saesneg yn unig. Honnai

12/12/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob tudalen ar eu gwefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 25 Ebrill 2018 yn honni bod clicio ar 'C' dan yr adran 'A-Z of Services' ar frig tudalen Gymraeg yr hafan <http://www.newport.gov.uk/cy/Hafan.aspx> yn arwain at dudalen Saesneg yn unig. Honnai'r achwynydd yn ogystal bod arolwg "pop-up" ar wefan y Cyngor yn uniaith Saesneg. Wrth ystyried y dystiolaeth, casgla'r Comisiynydd nad yw pob tudalen ar wefan y Cyngor ar gael ac yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg ac mae'r Cyngor yn cydnabod hynny.

Cyngor Dinas  
Casnewydd



yn ogystal bob arolwg 'pop-up' uniaith Saesneg yn ymddangos ar y tudalennau Cymraeg.

Safon 56: Mae safon 56 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Bydd natur rhyngwynebau a dewislenni yn newid fesul gwefan yn benodol, ond gellir eu hystyried i gynnwys y rhannau hynny o wefan nad ydynt yn arddangos cynnwys ond yn hytrach sydd yn rhan o'u hisadeiledd ac sy'n galluogi defnyddiwr i gyfathrebu a rhaglen. Gall dewislenni gynnwys opsiynau a rhestrau y gellir dewis ohonynt. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd ar 25 Ebrill 2018 yn honni bod clicio ar 'C' dan yr adran 'A-Z of Services' ar frig tudalen Gymraeg yr hafan <http://www.newport.gov.uk/cy/Hafan.aspx> yn arwain at dudalen Saesneg yn unig. Honnai'r achwynydd yn ogystal bod arolwg "pop-up" ar wefan y Cyngor yn uniaith Saesneg. Wrth ystyried y dystiolaeth casgla'r Comisiynydd nad yw pob dewislen ar wefan y Cyngor yn cael eu darparu yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu cydymffurfio â safonau 52 a 56.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 56.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

Cam Gorfodi 1: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd sicrhau ar gyfer ei gwefan: a) bod pob tudalen ar gael yn Gymraeg b) bod dolenni ar y tudalennau Cymraeg yn arwain at wybodaeth neu ddogfennau Cymraeg.

Cam Gorfodi 2: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd sicrhau nad yw arolygon 'pop-up' yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cynnig i ddefnyddwyr ymateb i arolygon yn Gymraeg ar bob achlysur.

Cam Gorfodi 3: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi [1 – 2].

Safon 56 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

Cam gorfodi 4: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd sicrhau bod pob rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan bod ar gael yn Gymraeg.

Cam gorfodi 5: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 5.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 12/12/18.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 14/05/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honni'r achwynydd bod un o wefannau'r Cyngor

10/12/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob tudalen ar eu gwefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Honnai'r achwynydd bod un o wefannau'r Cyngor

(www.keepingcardiffmoving.co.uk) gyda thudalennau ble nad oedd tudalen Cymraeg ar gael ar gyfer y dudalen Saesneg cyfatebol. Honnai'r achwynydd bod y botwm 'Cymraeg' sydd ar dop bob tudalen yn arwain y defnyddiwr at dudalennau nad oeddynt yn cyfateb i'r dudalen Saesneg.

(www.keepingcardiffmoving.co.uk) gyda thudalennau ble nad oedd tudalen Cymraeg ar gael ar gyfer y dudalen Saesneg cyfatebol. Yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd yn casglu bod tudalennau ble nad oedd y Gymraeg ar gael ar y wefan dan sylw, ac yn ogystal nad oedd y wefan yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg.

Safon 55: Mae safon 55 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, os oes ganddynt dudalen Gymraeg ar ei gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg. Rhaid hefyd ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Honnai'r achwynydd bod y botwm 'Cymraeg' ar dop bob tudalen yn arwain y defnyddiwr at dudalennau nad oeddynt yn cyfateb â'r dudalen Saesneg. Yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd yn casglu er bod botwm 'Cymraeg' yn hysbysebu'r defnyddiwr y wefan bod tudalen Cymraeg cyfatebol ar gael, nid oedd y ddolen honno yn gweithio yn gywir ac yn arwain y defnyddiwr at dudalennau nad oeddynt yn cyfateb.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 52 a 55.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Caerdydd wedi methu cydymffurfio â safonau 52 a 55.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – cyngor yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg Wrth i Gyngor Dinas Caerdydd gwblhau'r gwaith

The National  
Theatre of  
Wales

Ar 23/11/2017 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod National Theatre Wales (NTW) yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth rannu'r cylchlythyr ar ffurf e-bost yn Saesneg a'i gwneud yn ofynnol i'r rhai hynny sydd yn dymuno darllen y cylchlythyr i glicio ar ddolen sydd yn arwain y darllenydd i'r wybodaeth yn Gymraeg ar wefan y sefydliad. Cyflwynodd yr

6/12/2018

o greu'r wefan o'r newydd, dylid sicrhau ei bod yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 52. Dylid gwirio a phrofi bod y wefan yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg cyn ei chyhoeddi.

Safon 55 – cyngor yn unol ag adran 77(4)(b) Mesur y Gymraeg Wrth i Gyngor Dinas Caerdydd gwblhau'r gwaith o greu'r wefan dan sylw o'r newydd, dylid sicrhau ei fod yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 55. Dylid gwirio a phrofi bod unrhyw defnydd o dolenni megis botwm 'Cymraeg' ar ben dudalennau gwe yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg cyn ei chyhoeddi.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Caerdydd ar 10/12/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol ar gorff i ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg. Ymddengys bod NTW wedi ymateb i'r ohebiaeth, er iddi gymryd 4 wythnos i wneud hynny. Ni cheir dehongliad pellach o fewn y rheoliadau yn manylu ar yr hyn a ystyrir yn gyfnod rhesymol ble disgwylir i sefydliad ymateb i ohebiaeth. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd felly ystyried beth yw polisïau neu'r arfer arferol o fewn y sefydliad. Nid oes gan NTW amserlen benodol wedi ei chytuno ar draws y sefydliad ar gyfer ymateb i ohebiaeth, ond dywed yn y dystiolaeth y gall gymryd 4 wythnos a mwy i ymateb i ohebiaeth. Mae NTW wedi cydnabod nad oedd wedi ymateb i ohebiaeth yr achwynydd mewn amser rhesymol yn yr achos hwn. Mae'r achwynydd o'r farn bod NTW wedi oedi wrth ymateb i'w e-

achwynydd gopi o'r cylchlythyr oedd â'r teitl "What's New at NTW?"

bost o ganlyniad iddo ohebu yn Gymraeg â NTW. Yn dilyn ystyried tystiolaeth gan NTW fodd bynnag, nid oes dim i awgrymu mai cyfrwng iaith yr ohebiaeth a arweiniodd at yr oedi wrth ymateb. Mae NTW wedi cadarnhau bod yr ohebiaeth wedi ei dderbyn gan y tîm cyfathrebu sydd yn cynnwys 2 aelod sydd yn siaradwyr Cymraeg. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd felly dderbyn safbwynt NTW mai camgymeriad dynol a arweiniodd at yr oedi wrth ymateb i'r e-bost gwreiddiol cyn y 24 Tachwedd 2017.

Safonau 6 a 33: Mae Safon 6 a safon 33 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio gohebiaeth a deunydd cyhoeddusrwydd. Ar 26 Hydref 2017 dosbarthodd NTW gylchlythyr 'What's New at NTW?' drwy e- bost i danysgrifwyr NTW oedd â theitl uniaith Saesneg a'r fersiwn Saesneg yng nghorff yr e-bost a dolen at y fersiwn Gymraeg. Wrth gyhoeddi'r cylchlythyr 'What's New at NTW' gyda theitl uniaith Saesneg a'r fersiwn Saesneg o'r cylchlythyr wedi ei chynnwys yn yr e-bost a'i gwneud yn ofynnol i'r darllenydd glicio ar ddolen i weld y fersiwn Gymraeg, mae NTW yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Theatr Genedlaethol Cymru wedi methu a chydymffurfio a safon 1 yn yr achos hwn ond bod Theatr Genedlaethol Cymru wedi methu cydymffurfio a safonau 6 a 33.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Theatr Genedlaethol Cymru wedi methu a chydymffurfio a safonau 6 a 33.

Cyngor Sir y Fflint

Ar 19/07/2017 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd nad yw holl gynnwys ar dudalen 'Gwneud Ar Lein' ar wefan Cyngor Sir y Fflint ([www.siryfflint.gov.uk](http://www.siryfflint.gov.uk)) ar gael yn Gymraeg. Mae'r achwynydd yn cyfeirio yn benodol at 3 adran a oedd yn ymddangos yn uniaith Saesneg ar y dudalen gwe 'Gwneud Ar Lein' sef 'Apply for it', 'Pay for it', a 'Report it'. Darparwyd sgrinlun o'r dudalen dan sylw fel rhan o'r gŵyn. Mae'r sgrinlun

19/11/2018

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Dylai National Theatre Wales gymryd camau i sicrhau nad yw fersiwn Gymraeg o unrhyw gylchlythyr sydd yn cael ei lunio a'i gyhoeddi gan y sefydliad yn y dyfodol yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i National Theatre Wales ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1. Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Theatr Genedlaethol Cymru ar 06/12/2018.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Sir y Fflint sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael, ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er bod y Cyngor bellach wedi cymryd camau i gywiro'r camgymeriadau oedd yn ymddangos ar y dudalen 'Gwneud Ar-Lein' mae'n cydnabod bod adrannau uniaith Saesneg wedi ymddangos ar y dudalen we ar yr amser y cyflwynodd yr achwynydd ei gŵyn. Drwy beidio a sicrhau bod tudalennau gwe 'Gwneud Ar-Lein' ar wefan y Cyngor yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny cred y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

Safon 56: Mae safon 56 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Sir y Fflint i sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar ei wefan yn Gymraeg. Er bod y Cyngor bellach

i'w gweld gyda'r cylch gorchwyl  
terfynol yn atodiad 1.

wedi cymryd camau i gywiro'r camgymeriadau oedd yn ymddangos ar y dudalen 'Gwneud Ar-Lein' mae'n cydnabod bod penawdau uniaith Saesneg wedi ymddangos ar y dudalen we ar yr amser y cyflwynodd yr achwynydd ei gŵyn. Drwy beidio a sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni yn Gymraeg ar dudalen 'Gwneud Ar-Lein' ar wefan y Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 56.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu a chydymffurfio a safonau 52 a 56.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu a chydymffurfio a safonau 52 a 56.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint adolygu'r trefniadau a'r canllawiau sydd mewn lle ar gyfer cyhoeddi ac uwchlwytho testun ar y wefan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 52.
  2. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint gymryd camau i atgoffa staff o fewn y gwasanaethau unigol sydd yn gyfrifol am gynnwys sydd yn ymddangos ar wefan y Cyngor o ofynion safon 52.
- Safon 56 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg
3. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint adolygu'r trefniadau a'r canllawiau sydd mewn lle ar gyfer cyhoeddi ac uwchlwytho testun ar y wefan er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safon 56.

Cyngor Sir  
Penfro

Ar 18/10/2017 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn honni bod gwefan [www.visitpembrokeshire.com](http://www.visitpembrokeshire.com) a chyfrif cyfryngau cymdeithasol Visit Pembrokeshire ar Twitter a Facebook yn uniaith Saesneg. Wrth gyflwyno'r gŵyn, darparodd yr achwynydd gopïau o ohebiaeth a fu rhwng yr achwynydd â'r Cyngor rhwng Ebrill 2016 a Hydref 2017 yn trafod diffyg cynnwys Cymraeg ar y wefan a'r cyfrifon twitter a facebook.

16/11/2018

4. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint gymryd camau i atgoffa staff o fewn y gwasanaethau unigol sydd yn gyfrifol am gynnwys sydd yn ymddangos ar wefan y Cyngor o ofynion safon 56.  
5. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 4.

Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 19/11/2018.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Sir Penfro sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael, ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwefan Visit Pembrokeshire yn uniaith Saesneg ers ei sefydlu yn 2014 ac wedi datgan na fydd y wefan yn ddwyieithog hyd nes Hydref 2018. Nododd y Cyngor bod rhesymau technegol ac ariannol pam nad yw'r wefan wedi ei datblygu i fod yn ddwyieithog.

Safon 56: Mae safon 56 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Sir Penfro sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar ei wefan yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi datgan bod gwefan [www.visitpembrokeshire.com](http://www.visitpembrokeshire.com) yn uniaith Saesneg ac na fydd y gwaith o greu gwefan ddwyieithog wedi cwblhau hyn nes Hydref 2018. Nododd y Cyngor bod rhesymau technegol ac ariannol pam nad yw'r wefan wedi ei datblygu i fod yn ddwyieithog.



Safon 58: Mae safon 58 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Penfro beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â'r safon ers 30 Mawrth 2016. Wrth ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth mae'r Cyngor wedi datgan nad ydynt wedi ymgymryd â gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg hyd yma ac na fydd cynnwys Cymraeg yn cael ei ddatblygu ar gyfrifon Twitter a Facebook Visit Pembrokeshire hyd nes bod gwefan ddwyieithog Visit Pembrokeshire wedi ei chwblhau. Nid yw' Comisiynydd o'r farn bod unrhyw beth yn rhwystro'r Cyngor rhag sicrhau bod negeseuon a gyhoeddir ar gyfrifon Twitter a Facebook Visit Pembrokeshire ar gael yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Penfro wedi methu a chydymffurfio a safonau 52, 56 a 58.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Penfro wedi methu a chydymffurfio a safon 52, 56 a 58.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

1. Mae'n rhaid i Gyngor Sir Penfro gymryd camau i sicrhau bod gwefan Visit Pembrokeshire yn gweithredu yn gyflawn ddwyieithog a bod y cynnwys Cymraeg a'r Saesneg yn cyfateb yn llawn.

Amserlen: Erbyn 31 Ionawr 2019

Safon 56 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

2. Mae'n rhaid i Gyngor Sir Penfro gymryd camau i sicrhau bod rhyngwyneb a dewislenni gwefan Visit Pembrokeshire ar gael yn Gymraeg. Amserlen: Erbyn 31 Ionawr 2019 Safon 58 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 79(1)(b)(ii) Mesur y Gymraeg

3. Rhaid i Gyngor Sir Penfro baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei gyfryngau cymdeithasol. Rhaid i'r cynllun gweithredu ymdrin â: 'Pholisi'r Cyngor ar gyhoeddi cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol 'Gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi cynnwys Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol 'Ymwybyddiaeth staff o ofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â chyhoeddi cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol 'Hyfforddiant i staff

Amserlen: Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 8 wythnos o ddyddiad hysbysiad penderfynu yr achos hwn gyda'r nod o'r Cyngor yn cydymffurfio yn llawn â Safon 58 erbyn 31 Ionawr 2019.

4. Rhaid i Gyngor Sir Penfro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 – 3.

Amserlen: 28 Chwefror 2019

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Penfro ar 16/11/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Ddinbych

Ar 25 Ebrill, 2018 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni

15/11/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 48: Wedi ystyried y dystiolaeth a gafodd yng ngoleuni dehongliad rhan 3 paragraff 29 o Reoliadau'r

amodau adran 93 Mesur y Gymraeg ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â gwasanaeth parcio Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor). Dywedodd yr achwynydd bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar docynnau parcio'r Cyngor. Honnodd: • a) bod testun Cymraeg yn ymddangos mewn llythrennau bach a'r Saesneg mewn priflythrennau; b) bod maint y testun Cymraeg yn llai; c) bod y gair 'Date' yn ymddangos uwchben 'Dyddiad'; ch) bod y gair 'Fee' yn ymddangos yn Saesneg yn unig. Dywedodd hefyd bod nodyn 'post-it' wedi ei osod ar beiriant talu mewn un o feysydd parcio'r Cyngor ym mis Ebrill 2018. Yn ôl tystiolaeth yr achwynydd roedd y nodyn hwnnw'n darllen: "Please use other machine other side of stairwell."

Gymraeg o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae'r Comisiynydd o'r farn bod y tocyn parcio yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran golwg y deunydd. Er bod yr un wybodaeth yn cael ei chyfleu yn y ddwy iaith, gyda'r Gymraeg gan amlaf yn ymddangos yn gyntaf, mae'n amlwg bod y testun Saesneg yn ymddangos yn fwy blaenllaw ar y tocyn parcio. Mae'r testun Saesneg yn ymddangos mewn priflythrennau gyda'r Gymraeg cyfatebol unai mewn llythrennau bach neu mewn ffont maint llai. Nid oes gair Cymraeg am 'fee' ar y tocyn. Mae hyn hefyd yn golygu bod y tocyn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Safon 61: Mae'r safon yn glir bod angen i'r Cyngor sicrhau bod testun unrhyw arwydd dros dro y mae'n ei osod, gael ei arddangos yn Gymraeg. Cafodd arwydd dros dro - nodyn 'post it' yn yr achos hwn - gyda thestun Saesneg yn unig arno ei osod ar beiriant talu am docynnau parcio.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safon 48 a safon 61 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu a chydymffurfio a safonau 48 a 61 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 48: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych sicrhau bod tocynnau parcio sy'n cael eu llunio ganddo yn cydymffurfio â safon 48.

		<p>2. Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.  Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd Safon 61:  Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg</p> <p>3. Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych sicrhau bod unrhyw arwyddion dros dro y mae'n eu gosod ar beiriannau talu am docynnau parcio yn cydymffurfio â safon 61. 4. Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b>  Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Ddinbych ar 15/11/2018.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b>  Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor</u>  <u>Bwrdeistref</u>  <u>Sir</u>  <u>Wrecsam</u></p>	<p>Ar 9 Mai 2018 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag arwydd sydd wedi ei osod ym Mharc Rhosddu, Wrecsam sydd yn dangos rheolau defnyddio'r parc. Honnai'r achwynydd bod map yn ymddangos ar yr arwydd hwnnw, a bod enwau'r strydoedd ar y map yn Saesneg yn unig.</p> <p>12/11/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b>  Safon 61: Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth iddynt osod neu adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn cael ei arddangos yn Gymraeg (boed hynny ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân). Rhaid i'r corff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion dan sylw. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn ymwneud ag arwydd sydd wedi ei osod ym Mharc Rhosddu, Wrecsam sydd yn dangos rheolau defnyddio'r parc. Honnai'r achwynydd bod map yn</p>

y addedangos ar yr arwydd hwnnw, a bod enwau'r strydoedd ar y map yn Saesneg yn unig. Wedi ystyried tystiolaeth y Cyngor a'r achwynydd, mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi gosod arwydd ble nad oedd y testun i gyd ar yr arwydd yn ymddangos yn Gymraeg, yn groes i ofynion y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 61 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu a chydymffurfio a safon 61 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 61 – Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 (3) (b) Mesur y Gymraeg.

1. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau fod yr holl destun sy'n ymddangos ar yr arwydd dan sylw ym Mharc Rhosddu Wrecsam yn ymddangos yn Gymraeg yn unol â gofynion safon 61.

2. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1.

Amserlen: O fewn 60 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 12/11/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Chwaraeon  
Cymru

Ar 13/12/2017 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Honnai'r achwynydd bod Cyngor Chwaraeon Cymru (Cyngor) yn trydar y rhan fwyaf o negeseuon Twitter yn uniaith Saesneg ar ei gyfrif @sport\_Wales.

12/11/2018

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 54: Mae safon 54 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod y Cyngor yn trydar y rhan fwyaf o negeseuon Twitter yn uniaith Saesneg ar ei gyfrif @sport\_Wales. Gan ystyried y gŵyn wreiddiol a'r dystiolaeth anfonwyd at y Comisiynydd gan Gyngor Chwaraeon Cymru, mae'r Comisiynydd o'r farn fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 54.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Chwaraeon Cymru wedi methu a chydymffurfio a safon 54.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Chwaraeon Cymru wedi methu a chydymffurfio a safon 54.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 54 – gofyniad i gymryd camau'n unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg.

1. Pan fydd y Cyngor yn llunio testun i'w gyhoeddi ar ei gyfryngau cymdeithasol, rhaid i unrhyw negeseuon Saesneg a gyhoeddir gael eu cyhoeddi hefyd yn Gymraeg. Rhaid i ystyr y testun Cymraeg gyfleu'r hyn a gyflëir gan y testun Saesneg;
2. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu gweithdrefn ffurfiol ar gyfer sicrhau ei fod yn gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â safon 54;
3. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirof  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 16/02/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud ag arwyddion dros dro oedd wedi eu lleoli ar y gyffordd rhwng Lôn Price a Ffordd Rhosddu, Wrecsam yn ystod gwaith ffordd. Darparodd yr achwynydd luniau gyda'r gwyn o un arwydd gyda thestun Saesneg yn unig ac un arwydd gyda'r testun Cymraeg yn cael ei arddangos islaw'r testun Saesneg.

8/10/2018

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Chwaraeon Cymru ar 12/11/2018.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 61: Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth iddynt osod neu adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn cael ei arddangos yn Gymraeg (boed hynny ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân). Rhaid i'r corff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion dan sylw. Derbyniais gwyn yn ymwneud ag arwyddion dros dro oedd wedi eu lleoli ar y gyffordd rhwng Lôn Price a Ffordd Rhosddu, Wrecsam yn ystod gwaith ffordd.

Darparodd yr achwynydd luniau gyda'r gwyn o un arwydd gyda thestun Saesneg yn unig. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, canfu'r Comisiynydd bod arwydd uniaith Saesneg wedi ei osod ar y gyffordd rhwng Lôn Price a Ffordd Rhosddu, Wrecsam ar y 16 Chwefror, 2018.

Safon 62: Mae safon 62 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth iddynt osod neu adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu'r un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Derbyniais gwyn yn ymwneud ag arwyddion dros dro oedd wedi eu lleoli ar y gyffordd rhwng

Lôn Price a Ffordd Rhosddu, Wrecsam yn ystod gwaith ffordd. Darparodd yr achwynydd lun o arwydd gyda'r testun Cymraeg yn cael ei arddangos islaw'r testun Saesneg. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, canfu'r Comisiynydd fod arwydd ble nad oedd y Gymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf wedi ei osod ar y gyffordd rhwng Lôn Price a Ffordd Rhosddu, Wrecsam ar y 16 Chwefror, 2018.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 61 a 62 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Yn achos y dyfarniad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safonau 61 a 62, ni weithredwyd ymhellach.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach oherwydd ar 20 Mehefin 2018, dyfarnodd y Comisiynydd mewn ymchwiliad arall i gydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau hyn. Yn dilyn dyfarnu fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 61, 62 a 63 yn yr ymchwiliad hwnnw, gosododd y Comisiynydd 9 cam gorfodi ar y Cyngor sydd yn ei wneud yn ofynnol iddo gymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth a'r safonau.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Wrecsam ar 08/10/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Bro  
Morgannwg

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y  
02/11/2017 oedd yn bodloni amodau

26/9/2018

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**



adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn ymwneud a honiad bod tudalen ar gael yn Saesneg yn unig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Roedd yr achwynydd yn anhapus ei fod yn cael ei gyfeirio at dudalen Saesneg ar ôl mewnbynnu ei gôd post ar dudalen Gymraeg o'r wefan i ddarganfod mwy am wastraff ac ailgylchu.

Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad (CSG116, CSG142, CSG143, CSG148) i fethiant honedig Cyngor Bro Morgannwg i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg oedd yn ymwneud â gwefan y Cyngor. Ar 1 Mawrth 2017 dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safonau 47, 48 a 52. Roedd yr hysbysiad penderfynu yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg gymryd camau i atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Roedd gofyn i'r Cyngor gydymffurfio â'r camau hyn erbyn 27 Ebrill 2017. Mae'r gŵyn hon yn codi amheuaeth o fethiant i gydymffurfio a'r camau gorfodi canlynol:

Cam Gorfodi 1: Roedd y cam gorfodi a osodwyd ar y Cyngor ar 1 Mawrth 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg gymryd camau i atal methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Roedd y cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â thestun pob tudalen ar ei wefan, y modd y mae tudalennau Cymraeg ar ei wefan yn gweithredu, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan erbyn 27 Ebrill 2017. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ar 02/11/2017 yn honni bod tudalen ar gael yn Saesneg yn unig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Gan fod y gŵyn yn amlygu nad oedd testun pob tudalen ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg ar ddyddiad ar ôl 27 Ebrill 2017, nid oedd y Cyngor wedi llwyddo i gydymffurfio gyda'r cam gorfodi cyntaf.

Cam Gorfodi 2: Roedd y cam gorfodi yn gofyn i'r Cyngor adolygu gweithdrefnau a phrosesau golygyddol y wefan wrth iddo ddiweddarau ei wefan a gwneud newidiadau iddi. Darparodd y Cyngor gyfarwyddyd i'w staff ynglŷn â'r angen i bob tudalen o'r wefan fod ar gael yn Gymraeg a

chyfarwyddyd ar sut i gyflawni hynny. Fe weithredodd y Cyngor y cam gorfodi gan adolygu gweithdrefnau a phrosesau golygyddol y wefan drwy wneud newidiadau i'r drefn o roi gwybodaeth ar y wefan a rhoi cyfarwyddyd a chanllawiau i staff ar sut i wneud hynny.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â cham gorfodi 1 yn yr achos hwn.

Dyfarnwyd na wnaeth y Cyngor fethu a chydymffurfio a cham gorfodi 2.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu a chydymffurfio a cham gorfodi 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Gofyniad i gymryd camau pellach yn unol ag adran 77(b) Mesur y Gymraeg

1. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gynnal adolygiad llawn o holl wefan y Cyngor er mwyn sicrhau bod pob tudalen o'r wefan yn cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â thestun pob tudalen ar ei wefan, y modd y mae tudalennau Cymraeg ar ei wefan yn gweithredu, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan. Dylai'r adolygiad gynnwys gwirio iaith pob rhan o'r wefan, asesu pob cam ym mhrosesau golygyddol y wefan, gwirio digonolrwydd y cam hwnnw, ystyried unrhyw ffactor risg, gosod camau i'w cymryd i leihau'r risg.

2. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 22/02/2018 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn ynghylch tudalennau ar wefan y Cyngor: <http://planning.wrexham.gov.uk/Planning/Ig/GFPlanningWelcome.page?lang=cy>. Mae'r tudalennau yma yn rhestru'r ceisiadau cynllunio cyfredol o fewn y Fwrdeistref ac yn galluogi'r cyhoedd i edrych ar gais, unrhyw ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cais ac i wneud sylwadau neu i herio'r cais. Honnai'r achwynydd bod gwall ar dudalen Gymraeg y wefan hon. Wrth geisio edrych ar ddogfennau sydd yn gysylltiedig ag unrhyw gais, mae neges gwall "bu gwall mewnol" yn ymddangos. Honnai'r achwynydd nad yw'r gwall yn digwydd wrth ddefnyddio'r dudalen yn Saesneg.

20/9/2018

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bro Morgannwg ar 26/09/2018.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob tudalen ar eu gwefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn yn honni fod gwall ar dudalennau Cymraeg wefan y Cyngor sydd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio. O ganlyniad i'r gwall, nid oedd modd i'r cyhoedd edrych ar neu lawr lwytho dogfennau sydd yn gysylltiedig â chais cynllunio penodol. Nid yw'r gwall yma yn digwydd ar dudalennau Saesneg y wefan dan sylw. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, canfu'r Comisiynydd bod gwall gweithredu ar dudalennau Cymraeg wefan ceisiadau cynllunio'r Cyngor a bod hyn yn arwain at sefyllfa ble mae'r gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael yn un sy'n llai ffafriol nâr gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu a chydymffurfio a safon 52.

### **Datganiad gweithredu pellach**

			<p>Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu a chydymffurfio a safon 52.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b> Safon 52 – gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 3(a) Mesur y Gymraeg Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant i gydymffurfio â safon 52 ar dudalennau wefan ceisiadau cynllunio'r Cyngor rhag parhau. Amserlen: Rhaid i'r Cyngor cyflwyno cynllun gweithredu drafft o fewn 90 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 20/09/2018.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 7/12/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod arwyddion Saesneg yn unig wedi eu gosod ym maes parcio Marchnad y Bobl, Wrecsam. Honnai'r achwynydd bod yr arwyddion wedi eu gosod ar 7 Rhagfyr 2017 yn nodi "This car park closes at 9pm Thursday".</p>	<p>19/9/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 61: Mae safon 61 yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth iddynt osod neu adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn cael ei arddangos yn Gymraeg (boed hynny ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân). Rhaid i'r corff beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion dan sylw. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn yn honni bod arwydd gyda thestun Saesneg yn unig wedi ei osod ym maes parcio Marchnad y Bobl ar 7 Rhagfyr 2017. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, canfu'r Comisiynydd bod arwydd gyda thestun Saesneg yn</p>

unig wedi ei osod ar 7 Rhagfyr 2017 ym maes parcio Marchnad y Bobl, Wrecsam.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 61 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu a chydymffurfio a safon 61 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae hynny am ddau reswm. Y rheswm cyntaf yw bod y Cyngor wedi cymryd camau i dynnu'r arwydd y cwynwyd amdano ar y diwrnod y daethant yn ymwybodol fod cwyn wedi ei chyflwyno i'r Comisiynydd gan godi arwydd dwyieithog sy'n cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg. Yr ail reswm yw bod y Comisiynydd yn ddiweddar wedi cynnal ymchwiliad eang a chyffredinol i gydymffurfiaeth y Cyngor â safonau ynghylch arwyddion a arddangosir ganddo, sef safonau 61, 62 a 63. Yn dilyn dyfarnu ar yr ymchwiliad hwnnw, gosodd y Comisiynydd 9 cam gorfodi sy'n ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 19/09/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys

Cyngor Dinas  
Casnewydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 19/10/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg.

10/9/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob tudalen ar eu gwefan ar gael ac yn

Roedd y gŵyn ymwneud a diffyg honedig Cyngor Dinas Casnewydd i ddarparu dolen ar ei wefan at fersiwn Gymraeg o ddogfennau cyfarfodydd a'i adroddiad monitro blynyddol. Honnai'r achwynydd yn ogystal, bod testun Saesneg yn ymddangos ar dudalennau Cymraeg gwefan y Cyngor.

gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni fod dolenni at ddogfennau penodol ar wefan y Cyngor yn arwain at ddogfennau Saesneg yn unig, ac nad oedd bob tudalen ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg. Wrth ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, casgla'r Comisiynydd nad yw bob un o dudalennau wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai tudalennau ar gael yn Saesneg yn unig ac nad ydynt yn gweithredu yn llawn yn Gymraeg. Safon 55: Mae safon 55 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, os oes ganddynt dudalen Gymraeg ar ei gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg. Rhaid hefyd ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni fod dolenni at ddogfennau penodol ar wefan y Cyngor yn arwain at ddogfennau Saesneg yn unig, ac nad oedd bob tudalen ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg. Wrth ystyried y dystiolaeth, casgla'r Comisiynydd fod y Cyngor, ble mae ganddynt dudalen Gymraeg ar eu gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, wedi nodi ar y dudalen Saesneg honno bod y dudalen ar gael yn Gymraeg. Mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio dolen 'Cymraeg' i gysylltu defnyddiwr yn uniongyrchol at y dudalen Gymraeg cyfatebol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safonau 52 a 55 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu a chydymffurfio a safonau 52 a 55.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg

Cam gorfodi 1: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd gwblhau'r gwaith o gyfieithu tudalennau eu gwefan gorfforaethol er mwyn sicrhau: a) bod bob tudalen ar gael yn Gymraeg b) bod dolenni ar y tudalennau Cymraeg yn arwain at wybodaeth neu ddogfennau Cymraeg. Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 2: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd sicrhau bod tudalennau Cymraeg ar gael ar eu gwefan sydd yn cael ei gynnal gan 'modern.gov'. Amserlen: O fewn 9 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 3: Rhaid i Gyngor Dinas Casnewydd cadarnhau yn ysgrifenedig i Gomisiynydd y Gymraeg ei bod wedi gweithredu camau gorfodi 1 a 2 . Amserlen: 20 diwrnod gwaith yn dilyn gweithredu'r cam gorfodi sydd yn cael ei gyflawni olaf.

Safon 55 – Argymhellion yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg Wrth i Gyngor Dinas Casnewydd weithredu cam gorfodi 2 - dylid sicrhau ei bod yn cydymffurfio yn llawn â gofynion safon 55 drwy nodi yn glir ar dudalennau Saesneg ei gwefan, bod yna dudalen gyfatebol ar gael yn Gymraeg a drwy ddarparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg cyfatebol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 10/09/2018.

[Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-  
nedd Port  
Talbot](#)

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 22/11/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad i'r achwynydd gysylltu â'r Cyngor ar Trydar ar 25 Mehefin 2017 i'r hysbysu am sbwriel. Honnai'r achwynydd na dderbyniodd ymateb. Honnai iddo gysylltu â'r Cyngor eto ar 6 Awst 2017 i holi pam na chafodd ymateb gan gwestiynau ai'r rheswm oedd ei fod wedi cysylltu yn Gymraeg. Ni dderbyniwyd ymateb ys nes 22 Tachwedd 2017. Roedd yr ymateb yn Saesneg.

28/8/2018

## **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 59: Mae safon 59 yn gofyn i'r sefydliad sicrhau y byddant yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw neges Gymraeg a anfonir at y sefydliad drwy'r cyfryngau cymdeithasol os yw'r neges yn un sy'n gofyn am ymateb. Anfonodd yr achwynydd neges Twitter yn Gymraeg at gyfrif Twitter Cymraeg y Cyngor a ni dderbyniodd ymateb am dros dri mis. Roedd yr ymateb a dderbyniodd yn Saesneg. Gan fod y Cyngor wedi ymateb yn Saesneg i neges Gymraeg ar Twitter ni wnaeth y Cyngor lwyddo i gydymffurfio â safon 59 yn yr achos yma.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 59 yn yr achos hwn.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu a chydymffurfio a safon 59.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cam gorfodi 1. Safon 59 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg Cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y drefn newydd er mwyn sicrhau fod y trefniadau o ran ymateb i negeseuon Cymraeg yn gweithio fel yr oedd y Cyngor yn bwriadu. Mae'r cam uchod i'w weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 19/07/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig y Cyngor i ddefnyddio fersiwn Gymraeg o gyfeiriad yr achwynydd wrth ohebu ag ef dros e-bost. Derbyniodd yr achwynydd e-bost gan y tîm Gwasanaethau Digidol ar 17/07/2017 gan ddyfynnu ei gyfeiriad cartref a rhif cwsmer. Roedd ei gyfeiriad wedi ei ysgrifennu'n Saesneg ar yr e-bost e.e. defnyddio 'Wrexham' yn hytrach na 'Wrecsam'. Honna'r achwynydd ei fod wedi gofyn ar nifer o achlysuron i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

23/8/2018

Cam gorfodi 2 Safon 59 – gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sydd yn bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1 Mae'r cam uchod i'w weithredu o fewn 20 diwrnod gwaith yn dilyn gweithredu'r cam gorfodi.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 28/08/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6: Mae safon 6 yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau nad yw'n trin fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg o'r ohebiaeth gyfatebol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni ei fod wedi derbyn gohebiaeth a oedd yn cynnwys fersiwn Saesneg ei gyfeiriad cartref lle dylai wedi bod yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 6.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio a safon 6.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd camau er mwyn sicrhau y defnyddir cyfeiriadau Cymraeg ar

defnyddio fersiwn Gymraeg o'i gyfeiriad wrth ohebu ag ef.

ohebiaeth Gymraeg y mae'n ei anfon er mwyn cydymffurfio â safon 6. Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar 23/08/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Torfaen

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 31/12/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â honiad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cyhoeddi mwy o wybodaeth ar ei gyfrif Twitter Saesneg na'i gyfrif Twitter Cymraeg. Yn ôl yr achwynydd, roedd tua 15 neges Twitter ar y cyfrif Saesneg rhwng 20 a 31 Rhagfyr 2017 nad oeddent wedi eu cyhoeddi ar y cyfrif Cymraeg.

23/8/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 58: Mae safon 58 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg pan yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cyhoeddi mwy o wybodaeth ar ei gyfrif Twitter Saesneg na'i gyfrif Twitter Cymraeg. Yn ôl yr achwynydd, roedd tua 15 neges Twitter ar y cyfrif Saesneg rhwng 20 a 31 Rhagfyr 2017 nad oeddent wedi eu cyhoeddi ar y cyfrif Cymraeg. Gan ystyried y gwyn wreiddiol a'r dystiolaeth anfonwyd at y Comisiynydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, cred y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 58.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 58 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil y penderfyniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 58 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gymryd y camau canlynol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda safon 58:

1. Pan fo'r Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth neu'n rhannu gwybodaeth gan berson(au) eraill ar ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, boed hynny'n Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog, rhaid iddo sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
2. Pan fo'r Cyngor yn mynd ati i gynllunio negeseuon Cymraeg, Saesneg a dwyieithog i'w cyhoeddi'n awtomatig (neu fel arall) ar ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, rhaid iddo beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
3. Rhaid i'r Cyngor fynd ati i sefydlu trefn bendant sy'n egluro sut y caiff cynnwys a chysondeb ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith eu gwirio.
4. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-3.

Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 23/08/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys

Cyngor Sir  
Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 10/11/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod testun

30/7/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys sicrhau bod testun pob tudalen Gymraeg ar gael ac yn gweithredu'n llawn ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn honni bod mynd i dudalen 'Cynghorwyr a chyfarfodydd' yn arwain

Saesneg yn ymddangos ar ochr Gymraeg gwefan Cyngor Sir Powys. Honnai'r achwynydd bod mynd i'r dudalen 'Cynghorwyr a chyfarfodydd' y Cyngor, a dilyn y ddolen ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor a chyfarfodydd yn arwain at dudalen uniaith Saesneg.

at dudalen uniaith Saesneg. Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor. Nid oedd pob testun ar dudalennau Cymraeg y Cyngor ar gael yn Gymraeg, ac nid oedd tudalennau'n gweithredu'n llawn yn y Gymraeg. Drwy hyn, roedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rwyf yn canfod felly bod Cyngor Sir Powys wedi gweithredu yn groes i ofynion safon 52.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 52: Dyfarnwyd bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 52 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio a safon 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhaid i Gyngor Sir Powys gynnal adolygiad o'i drefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan drwy modern.gov. Rhaid i Gyngor Sir Powys weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cydymffurfio â safon 52 wrth gyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan drwy modern.gov. Rhaid i Gyngor Sir Powys gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth staff sy'n gyfrifol am gynnwys ei wefannau o ofynion safonau'r Gymraeg ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein. Rhaid i'r camau hyn gael eu cyflawni o fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar y 30/07/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 17/08/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â chylchlythyr 'Dysg' uniaith Saesneg a dderbyniodd yr achwynydd dros e-bost ar 17/08/2017. Mae'r achwynydd yn honni ei fod wedi gofyn am e-byst yn Gymraeg gan Weinidogion Cymru yn y gorffennol.

26/7/2018

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4: Mae safon 4 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod fersiwn Gymraeg o unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yr un pryd a'r fersiwn Saesneg. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn honni ei fod wedi derbyn fersiwn uniaith Saesneg o gylchlythyr Dysg ar 17/08/2017.

Safon 37: Mae safon 37 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau ei fod yn llunio deunydd cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg a chan beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni na dderbyniodd fersiwn Gymraeg o gylchlythyr Dysg ar 17/08/2017..

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 4: Dyfarnwyd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 4 yn yr achos hwn. Safon 37: Dyfarnwyd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 37 yn yr achos hwn.

**Datganiad gweithredu pellach**

Rhodddwyd argymhelliad i Weinidogion Cymru yn sgil y dyfarniad na fu methiant i gydymffurfio a safon 4.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 4 – Argymhelliad Mae'r Comisiynydd wedi argymhell bod Gweinidogion Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n anfon cylchlythyrau Dysg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Canllaw dylunio dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi arweiniad i sefydliadau ar yr arfer orau pan wrth

		<p>ddylunio a chyhoeddi deunydd yn ddwyieithog. Credaf y byddai rhan 1 y canllaw yn ddefnyddio wrth ddylunio. Gweler ddolen at y canllaw isod.  <a href="http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/CYG1754%20Canllaw%20Dylunio%20YMRAEG.pdf">http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/CYG1754%20Canllaw%20Dylunio%20YMRAEG.pdf</a></p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b>  Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar y 26/07/2018.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b>  Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Caerdydd</u></p> <p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 04/07/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â honiad i'r achwynydd bod Cyngor Dinas Caerdydd yn parhau i osod agendau a phapurau cyfarfodydd y Cyngor yn Saesneg yn unig ar eu gwefan. Roedd y gwyn yn cyfeirio at agenda a phapurau cyfarfod Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd 4 Gorffennaf 2017 ac agenda a phapurau'r Pwyllgor Cynllunio 12 Gorffennaf 2017.</p>	<p>12/7/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b>  Camau Gorfodi i, ii a iii a osodwyd ar y Cyngor ar y 01/06/2017: Roedd y gofyniad i gymryd cam (i) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Dinas Caerdydd i sicrhau fod agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu llunio (a'u cyhoeddi) yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 41 erbyn 30 Mehefin 2017. Roedd y gofyniad i gymryd cam (ii) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Dinas Caerdydd i sicrhau bod fersiynau PDF o agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu llunio a'u cyhoeddi yn Gymraeg ar wefan y Cyngor er mwyn cydymffurfio â safon 48 erbyn 30 Mehefin 2017. Roedd y gofyniad i gymryd cam (iii) yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Dinas Caerdydd, ble ceir fersiynau PDF Saesneg o agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd i sicrhau bod y dogfennau hynny ar gael yn Gymraeg yr un pryd ac yn yr un lleoliad â'r fersiynau Saesneg er mwyn</p>

cydymffurfio â safon 48 erbyn 30 Mehefin 2017. Cyhoeddodd y Cyngor fersiynau PDF o agendâu a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd a Phwyllgor Cynllunio yn Saesneg ar wefan y Cyngor cyn eu cyhoeddi yn Gymraeg ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Cyngor wedi derbyn bod y methiant wedi digwydd ac wedi egluro mai amryfusedd gweinyddol oedd wrth wraidd y methiant hwnnw. Dengys ymchwil fy swyddogion hefyd ei bod yn ymddangos bod y Cyngor bellach yn cydymffurfio â'r gofynion uchod. Mae'r Comisiynydd yn derbyn safbwynt y Cyngor bod yna drefniadau mewn lle i gydymffurfio yn y mwyafrif o achosion. Noda'r Comisiynydd fodd bynnag bod y gŵyn wedi amlygu bod y trefniadau oedd mewn lle ar adeg y gŵyn yn caniatáu i gamgymeriadau ddigwydd ar brydiau. Wrth gyhoeddi dogfennau agenda a chofnodion cyfarfod Pwyllgor Amddiffyn y cyhoedd a chyfarfod Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor yn Saesneg cyn cyhoeddi'r dogfennau Cymraeg cyfatebol yr wyf o'r farn bod y dogfennau Cymraeg wedi cael eu trin yn llai ffafriol. Casgla'r Comisiynydd felly nad yw Cyngor Dinas Caerdydd wedi gweithredu ar y gofyniad i gymryd cam (i) (ii) a (iii) i atal y methiant i gydymffurfio â safon 41 a 48 rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Cam Gorfodi iv a osodwyd ar y Cyngor ar y 01/06/2017: Mae cam (iv) yn gosod dyletswydd ar y Cyngor, wrth gyhoeddi dogfennau Cymraeg a Saesneg, i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth o ran diwyg rhyngddynt. Yn yr achos hwn mae'r Cyngor wedi methu â chyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen, ac felly ni ellir dod i ddyfarniad p'un a oedd gwahaniaeth o ran diwyg y fersiynau Cymraeg a Saesneg gan nad oedd fersiwn Gymraeg wedi ei chyhoeddi. Cyhoeddodd y Cyngor fersiynau PDF o agendâu a chofnodion cyfarfodydd

Pwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd a Phwyllgor Cynllunio yn Saesneg ar wefan y Cyngor heb gyhoeddi fersiynau Cymraeg cyfatebol ym mis Gorffennaf 2017. Cam Gorfodi v a osodwyd ar y Cyngor ar y 01/06/2017: Roedd y gofyniad i gymryd cam (v) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod fersiynau PDF Saesneg o agenda neu gofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn datgan yn glir eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg. Dengys ymchwil fy swyddog ymchwilio a gorfodi bod fersiynau PDF o gofnodion a phapurau cyfarfodydd Pwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd a chyfarfod y Pwyllgor Cynllunio wedi eu cyhoeddi yn Saesneg. Roedd datganiad 'This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg' wedi ei gynnwys ar waelod y dogfennau dan sylw. Wrth gynnwys y datganiad 'This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg' ar y dogfennau Saesneg, mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â gofynion cam (v). Cam Gorfodi v a osodwyd ar y Cyngor ar y 01/06/2017: Roedd y gofyniad i gymryd cam (v) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod fersiynau PDF Saesneg o agenda neu gofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn datgan yn glir eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg. Dengys ymchwil fy swyddog ymchwilio a gorfodi bod fersiynau PDF o gofnodion a phapurau cyfarfodydd Pwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd a chyfarfod y Pwyllgor Cynllunio wedi eu cyhoeddi yn Saesneg. Roedd datganiad 'This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg' wedi ei gynnwys ar waelod y dogfennau dan sylw. Wrth gynnwys y datganiad 'This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn



Gymraeg' ar y dogfennau Saesneg, mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â gofynion cam (v). Camau Gorfodi vi, vii a viii: Roedd y gofyniad i gymryd cam (vi) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod testun pob agenda sydd wedi ei ymgorffori ar ei wefan ar gael yn Gymraeg. Roedd y gofyniad i gymryd cam (vii) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod pob tudalen Cymraeg ar ei wefan sy'n ymwneud â chyfarfodydd pwyllgorau yn gweithredu'n llawn er mwyn cydymffurfio â safon 52. Roedd y gofyniad i gymryd cam (viii) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg fel nad yw'r dudalen Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r dudalen Saesneg. Cydnabu'r Comisiynydd ei bod eisioes wedi nodi ym mharagraff 3.11 ei bod yn derbyn safbwynt y Cyngor bod yna drefniadau effeithiol mewn lle erbyn hyn ac mai eithriad oedd yr achosion dan sylw. Serch hynny, drwy beidio â sicrhau bod testun a chynnwys y tudalennau Cymraeg yn cyfateb i'r tudalennau Saesneg sydd yn ymwneud â chyfarfodydd pwyllgorau ar wefan y Cyngor ar y 4ydd a'r 6ed o Orffennaf, mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad i gymryd cam (vi), (vii) a (viii). Cam Gorfodi ix: Roedd y gofyniad i gymryd cam (ix) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r trefniadau a'r canllawiau sydd mewn lle mewn perthynas â llunio (a chyhoeddi) agendâu a chofnodion yn Gymraeg. Ar 4 Gorffennaf a 6 Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Cyngor Dinas Caerdydd destun agendâu cyfarfodydd Pwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd a'r Pwyllgor Cynllunio ar wefan y Cyngor ynghyd â dogfennau'r cyfarfodydd yn Saesneg heb arddangos testun cyfatebol na dogfennau cyfatebol yn Gymraeg. Ni chafwyd

tystiolaeth o'r camau a gymerwyd gan y Cyngor yng nghydestun rhoi gwybod i staff neu atgoffa staff o'r trefniadau a'r canllawiau sydd yn mewn lle wrth lunio a chyhoeddi agendâu a chofnodion cyfarfodydd. O ganlyniad, nid wyf wedi fy modloni bod Cyngor Dinas Caerdydd wedi cymryd y camau a nodwyd yng ngham (ix) i atal y methiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd bod Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu cydymffurfio a'r camau gorfodi

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Dinas Caerdydd i gydymffurfio a chamau gorfodi i, ii, iii, vi, vii, viii a ix.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd gynnal adolygiad llawn o'i drefniadau ar gyfer llunio a chyhoeddi agendâu, cofnodion a phapurau unrhyw gyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn unol â gofynion safonau 41, 48 a 52. Amserlen: O fewn 6 wythnos o dyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd gymryd camau i atgoffa / codi ymwybyddiaeth staff sydd yn: i) gyfrifol am lunio a chyhoeddi dogfennau megis agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, ii) gyfrifol am fonitro a diweddarau cynnwys tudalennau gwefan y Cyngor sydd yn ymwneud â chyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd o'r trefniadau a'r canllawiau sydd mewn lle mewn perthynas â llunio a chyhoeddi testun i wefan Cyngor Dinas Caerdydd neu

agendâu, cofnodion a phapurau unrhyw gyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau 41, 48 a 52. Amserlen: O fewn 8 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd osod mesurau mewn lle i sicrhau bod prosesau gweinyddol cadarn mewn lle o fewn y Cyngor i sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio a chyhoeddi testun tudalennau gwefan, agendâu, cofnodion a phapurau unrhyw gyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd. Amserlen: O fewn 10 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd gyflwyno adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg yn adrodd ar weithrediad camau 1,2 a 3. Dylai'r adroddiad gynnwys unrhyw ddyddiadau cyflawni, tystiolaeth o gyflawniad y camau ac unrhyw weithredu pellach y bwriedir ei wneud. Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Caerdydd ar y 12/07/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor Sir  
Ceredigion

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 03/06/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n

3/7/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 84: Mae Safon 84 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, os ydynt yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, i gynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg hyd nes bod asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn

gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig gan Gyngor Sir Ceredigion i ddarparu tiwtor cyfrwng Cymraeg i ddarparu gwersi telyn i ddisgyblion ysgol gynradd.

dangos nad oes angen darparu'r cwrs hwnnw yn Gymraeg. Yn ei dystiolaeth dywedodd y Cyngor nad ydynt wedi cynnal asesiad o'r angen i ddarparu'r cwrs yn Gymraeg, felly nid yw'r eithriad yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn. Yn ei dystiolaeth mae'r Cyngor wedi nodi nad yw pob cwrs offerynnol a ddarperir yn cael ei gynnig yn Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi llunio cynllun gweithredu drafft sydd yn dangos y camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i ddatblygu'r ddarpariaeth. Nid yw'r cynllun gweithredu yn ei ffurf terfynol ac nid oedd yn weithredol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad. Wrth gynnig gwersi telyn sydd yn agored i'r cyhoedd a pheidio cynnig y pob un o'r gwersi hynny yn Gymraeg, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi methu â chydymffurfio â safon 84. Safon 86: Nid yw'r gofyniad yn safon 86 i asesu'r angen i gwrs addysg gael ei gynnig yn Gymraeg yn berthnasol heblaw fod cwrs yn cael ei ddatblygu. Mae'r Cyngor wedi egluro mai cyrsiau parhaus a gynhelir yn flynyddol yw'r gwersi telyn. O'r herwydd, nid yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol yn yr achos hwn. Ni fu methiant, felly, i gydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 84 - Dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Ceredigion wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn. Safon 86 - Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Ceredigion wedi methu â chydymffurfio â safon 64 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos y dyfarniad y bu i Gyngor Sir Ceredigion fethu a chydymffurfio a safon 84.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhaid i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi telyn. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos o gyhoeddi adroddiad terfynol yr ymchwiliad. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Rhoddwyd dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu. Amserlen: O fewn 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd y Gymraeg sef erbyn 25/09/2018

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Ceredigion ar 03/07/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 06/08/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod amserlen fysiau uniaith Saesneg wrth safle fysiau Trefonnen sydd wrth ymyl Stryd y Deml, ger Llandrindod. Honnai'r achwynydd bod yr amserlen sydd ar bostyn wrth y safle fysiau yn uniaith Saesneg, ac yn nodi y caiff ei noddi gan Gyngor Sir Powys. Fe welodd yr

3/7/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 38: Mae safon 38 yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys sicrhau bod unrhyw ddeunydd mae'n arddangos yn gyhoeddus yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg os oes fersiwn Saesneg o'r deunydd hwnnw yn cael ei arddangos. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn honni bod amserlen fws uniaith Saesneg yn Stryd y Deml ger Llandrindod. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod yr amserlen yn uniaith Saesneg ar ddyddiad derbyn y gŵyn. Safon 69: Mae safon 69 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod unrhyw hysbysiad swyddogol mae'r Cyngor yn ei gyhoeddi neu arddangos yn cael ei gyhoeddi neu arddangos yn y Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod amserlen fws

Cyngor Sir  
Powys

amserlen yno rhywbryd yn ystod  
wythnos olaf Gorffennaf 2017.

uniaith Saesneg ar Stryd y Deml, Llandrindod. O ystyried yr holl dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno gan y sefydliad, sydd wedi cadarnhau bod yr amserlen wedi ei harddangos yn uniaith Saesneg ac felly wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae'r Comisiynydd yn canfod bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio â safon 69 yn yr achos hwn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 38: Dyfarnwyd y bu methiant gan Gyngor Sir Powys i gydymffurfio â safon 38 yn yr achos hwn. Safon 69: Dyfarnwyd y bu methiant gan Gyngor Sir Powys i gydymffurfio â safon 69 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio a safonau 38 a 69.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 38: Rhaid i Gyngor Sir Powys gymryd camau er mwyn sicrhau bod pob amserlen sydd yn cael ei arddangos yn gyhoeddus ar gael yn Gymraeg. Bydd gofyn i'r Cyngor gadarnhau bod y gwaith hwn o ddiweddarau'r amserlenni wedi ei gwblhau o fewn y terfyn amser a osodwyd isod. Rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau er mwyn sicrhau fod unrhyw feddalwedd newydd y mae'n ei ddefnyddio sy'n ei alluogi i gyflenwi gwasanaethau yn ei alluogi i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg . Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Safon 69: Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 69 drwy wirio bod pob amserlen fws sydd o fewn dalgylch y Cyngor yn cael ei arddangos yn y Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirof  
Wrecsam

Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg oherwydd bod amheuaeth f nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) wedi bod yn cydymffurfio â rhai o'r safonau y mae'n ddarostyngedig iddynt. Y safonau dan sylw yw safonau rhif 61, 62 a 63. Agorwyd ymchwiliad eang yn rhoi sylw i drefniadau corfforaethol ac adrannol y Cyngor yn gyffredinol wrth iddo fynd rhagddi i arddangos arwyddion. Roedd derbyn nifer o gwynion am wahanol achosion yn sail i amheuaeth nad oedd trefniadau digonol yn eu lle gan y Cyngor i warantu bod y Gymraeg yn derbyn triniaeth briodol ar arwyddion. Dim ond amgylchiadau ble mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am osod yr arwydd sy'n destun i'r ymchwiliad hwn.

29/6/2018

Saesneg. Amserlen: Rhaid cwblhau'r cam hwn erbyn y 31/10/2018.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 03/07/2018.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safonau 61, 62 a 63 – Mae'r Comisiynydd o'r farn fod y gyfundrefn safonau yn gofyn fod sefydliadau yn meddu ar weithdrefnau corfforaethol cadarn er mwyn cefnogi ei adrannau a'i wasanaethau i gydymffurfio'n llwyddiannus. Yn absenoldeb trefniadau o'r fath, bydd adrannau a gwasanaethau yn dehongli safonau'n wahanol i'w gilydd. Byddant yn dod i gasgliadau eu hunain ynghylch yr angen i gydymffurfio, ac yn sefydlu ymagwedd adrannol tuag at fethiannau i gydymffurfio a goddefgarwch ohono. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'r risg o gamddechongli gofynion safon, neu o fethu a gweithredu mewn modd sy'n cydymffurfio â safon yn uchel. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod fod y Cyngor wedi datblygu rhai canllawiau ac wedi cymryd rhai camau i hyrwyddo gofynion y safonau ymysg staff, fodd bynnag rwyf o'r farn nad yw'r camau sydd wedi eu cymryd yn ddigonol, yn enwedig yng nghyd-destun gosod arwyddion, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o draweffaith y safonau a'r newid mewn diwylliant sydd ei angen er mwyn cydymffurfio â hwy. Rhaid cael arweiniad strategol a chorfforaethol i gyflawni cydymffurfiaeth corff gyda'r safonau. Golygai hyn fod rhaid i'r Cyngor sefydlu diwylliant ble nad oes goddefgarwch i fethiannau o'r fath. Ymddengys felly fod arwyddion uniaith Saesneg ac

arwyddion sy'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn parhau i gael eu gosod gan wahanol adrannau'r Cyngor, a bod hynny'n digwydd wrth osod arwyddion parhaol ac arwyddion dros dro. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd, mae'r Comisiynydd casglu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gosod arwyddion heb sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn cael ei arddangos yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn casglu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gosod arwyddion ble gosodwyd y testun Cymraeg o dan y testun Saesneg, a thrwy hynny beidio â gosod y testun Cymraeg mewn safle fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Mae'r Comisiynydd yn casglu hefyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn arddangos arwyddion ble nad yw'r testun Cymraeg ar yr arwydd yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu cydymffurfio a safonau 61, 62 a 63.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio a safon 61, 62 a 63.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cam gorfodi 1: Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gymryd camau i:

- Sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion sy'n wedi eu gosod ers 30 Mawrth 2016, (gan gynnwys arwyddion dros dro) yn cael ei arddangos yn Gymraeg (unai ar yr un arwydd sy'n dangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân).



- Sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Amserlen: O fewn 6 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 2 Rhaid i'r Cyngor gymryd camau i wella ei drefniadau corfforaethol drwy:

- Greu canllawiau a gweithdrefnau clir i staff ar gyfer dylunio, creu ac awdurdodi arwyddion newydd neu arwyddion sydd wedi eu hadnewyddu
- Greu rhaglen o weithgareddau er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau staff o ofynion safonau 61, 62 a 63. Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 3 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

· Ddatblygu cyfundrefn arolygu a gwirio'r holl arwyddion sydd wedi eu gosod ar ôl y diwrnod gosod er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg.

- Rhaid i'r Cyngor ddisodli arwyddion nad ydynt yn cydymffurfio o fewn 3 mis o'i darganfod. Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 4 Rhaid i'r Cyngor roi cyhoeddusrwydd i'w fethiant drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn mewn man amlwg ar ei wefan a chynnwys eitem ar yr ymchwiliad ar ei adran newyddion. Amserlen: 28 diwrnod yn dilyn dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 5 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau fod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion sydd wedi cael eu gosod ers diwrnod gosod safon 62 yn arddangos unrhyw destun Cymraeg mewn safle fel mai hwnnw s'n debygol o gael ei ddarllen yn

gyntaf. Amserlen: O fewn 6 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 6 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam adolygu contractau ei Uned Priffyrdd a Chludiant gyda thrydydd parti sy'n gosod arwyddion ar ei ran, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys cyfeiriad priodol at yr angen i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud ag arddangos arwyddion. Amserlen: O fewn 3 mis o ddiwrnod cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Cam gorfodi 7 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam greu proses a chanllawiau, sydd i gael eu defnyddio gan ei staff, er mwyn sicrhau fod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir oran ystyr a mynegiant.

Cam gorfodi 8 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam cyflwyno adroddiad yr ymchwiliad yma i Bwyllgor craffu perthnasol y Cyngor. Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Cam gorfodi 9 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam darparu tystiolaeth ysgrifenedig ddigonol sydd yn bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei bod wedi cwblhau camau gorfodi 1-8. Amserlen: 20 diwrnod gwaith yn dilyn gweithredu'r cam gorfodi sydd ei gael ei gyflawni olaf

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar 29/06/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Dinas  
Casnewydd

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 20/07/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg.

19/6/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 61: Mae Safon 61 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Dinas Casnewydd, wrth osod neu adnewyddu arwydd (gan

Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig Cyngor Dinas Casnewydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth osod arwyddion mewn meysydd parcio a mannau cyhoeddus eraill ar draws y sir. Honnir bod y Cyngor wedi:

- Gosod arwydd ar lecyn parcio maer y ddinas yn dangos y testun uniaith Saesneg 'This bay is reserved for the Mayor's car'
- Gosod arwydd ym maes parcio cynghorwyr Canolfan Ddinesig Casnewydd oedd yn dangos y testun uniaith Saesneg 'Parking for Councillors Only' a 'No stopping'
- Gosod Saesneg ym Mharc Coed Melyn yn dangos y testun uniaith Saesneg 'Keep to Footpath Uneven Ground'
- Gosod arwydd gyferbyn a thafarn Sain Silian yn dangos y testun uniaith Saesneg 'Motor Vehicles Prohibited'
- Gosod arwydd yn Piper Close, Sain Silian yn dangos y testun uniaith Saesneg 'No Hunting Allowed on this Land'
- Gosod arwydd yng Ngwarchodfa Natur Allt-yr-ynn oedd yn arddangos y testun uniaith Saesneg 'Allt Yr Yn Nature Reserve – 1.2 miles' Darparwyd lluniau o'r arwyddion oedd yn sail i'r honiad.

gynnwys arwyddion dros dro) sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwydd hwnnw yn cael ei arddangos yn Gymraeg (boed hynny ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân). Yn ystod mis Gorffennaf 2017, roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn arddangos 6 arwydd uniaith Saesneg mewn mannau cyhoeddus yn y sir. Wrth gyflwyno ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, dywed y Cyngor bod yr arwyddion dan sylw wedi eu gosod cyn ddyddiad gosod Safon 61, sef 30 Mawrth 2016. Casglodd y Comisiynydd felly nad oedd dyletswydd ar Gyngor Dinas Casnewydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg pan wnaeth y Cyngor osod yr arwyddion dan sylw.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 61 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Ni weithredwyd ymhellach yn achos y dyfarniad na wnath Cyngor Dinas Casnewydd fethu cydymffurfio a safon 62.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Casnewydd ar 15/06/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 18/12/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad i'r achwynydd nad oedd rhai ymgynghoriadau ar dudalennau Saesneg gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gael ar dudalennau Cymraeg y wefan. Darparwyd dolenni gan yr achwynydd i'r tudalennau perthnasol. Roedd yn ymddangos bod llai o ddolenni i ymgynghoriadau ar y tudalennau Cymraeg nac oedd ar y tudalennau Saesneg ac roedd dyddiadau cau rhai o'r ymgynghoriadau wedi dod i ben.

18/6/2018

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 44: Mae safon 44 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad lunio papurau ymgynghori sydd ar gael i'r cyhoedd, yn Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd rhai ymgynghoriadau ar dudalennau Saesneg gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gael ar dudalennau Cymraeg y wefan. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r Comisiynydd o'r farn bod y papurau ymgynghori wedi cael eu llunio gan y Cyngor yn Gymraeg, yn yr ystyr eu bod wedi cael eu paratoi at bwrpas eu cyhoeddi. Safon 52: Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol ar y tudalennau hynny. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn ddarostyngedig i safon 52 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd rhai ymgynghoriadau ar dudalennau Saesneg gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gael ar dudalennau Cymraeg y wefan. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r Comisiynydd o'r farn nad oedd rhai ymgynghoriadau oedd wedi eu cyhoeddi ar dudalennau Saesneg gwefan y Cyngor wedi cael eu cynnwys ar dudalennau Cymraeg y wefan ar 18 Rhagfyr 2017 ac o ganlyniad nid oedd y tudalennau Cymraeg yn gyflawn ac yn gweithredu'n llawn, sy'n groes i ofynion safon 52.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 44 - Dyfarnwyd na fu

			<p>methiant gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 44 yn yr achos hwn. Safon 52 - Dyfarnwyd y bu methiant gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 52 yn yr achos hwn.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b> Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio a safon 52.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b> Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam adolygu ei weithdrefn ar gyfer llwytho a thynnu cynnwys ar dudalennau Cymraeg a Saesneg cyfatebol ei wefan, a chymryd camau priodol er mwyn lleihau risg o fethiant i gydymffurfio â safon 52 oherwydd camgymeriad dynol. Amserlen: O fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 18/06/2018.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Sir y Fflint</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 03/10/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad i'r achwynydd ffonio prif linell ffôn Cyngor Sir y Fflint ar 3 Hydref 2017 ac fe ddewisodd y gwasanaeth Cymraeg drwy bwysio opsiwn rhif '2'. Honnai'r achwynydd</p>	<p>15/6/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 11: Mae safon 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Fflint ddelio â galwad yn Gymraeg unwaith y maent yn ymwybodol bod y person yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn, gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r pwnc penodol yn Saesneg dim ond os yw hynny'n angenrheidiol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd modd iddi dderbyn gwasanaeth Cymraeg ar ddau achlysur yn ystod mis Hydref 2017. Honnai bod yn rhaid iddi roi'r gorau i'r galwadau ar ôl oedi a diffyg ymateb i alwadau yn dilyn</p>

iddi aros tua 20 munud ond ni chafodd yr alwad ei hateb. Penderfynodd yr achwynydd ail ffonio'r prif rif gan ddewis yr opsiwn Saesneg drwy bwysu opsiwn '1', a chafodd ymateb yn syth. Gofynnodd yr achwynydd i'r derbynnydd drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg ond honnai'r achwynydd i'r derbynnydd ddweud fod y siaradwr Cymraeg ar ei gwyliau. Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol gan yr achwynydd ar 30 Hydref 2017 yn honni ei bod wedi ceisio ffonio'r Cyngor ar y diwrnod hwnnw hefyd ac nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Honnai'r achwynydd iddi ffonio'r Cyngor dair gwaith dros fis Hydref 2017. Ar bob achlysur fe wnaeth y Cyngor gynnig bod siaradwr Cymraeg yn ei galw yn ôl, ond nid oedd yr achwynydd wedi derbyn galwad yn ôl ar yr un o'r achlysuron hyn.

dewis derbyn gwasanaeth Cymraeg. Yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn fod gwybodaeth ddigonol i amlygu nad yw'r Cyngor yn darparu gwasanaeth Cymraeg digonol ar ei brif linell ffôn, gan arwain at aelodau o'r cyhoedd yn rhoi'r gorau i aros am wasanaeth Cymraeg. Nid yw'r Cyngor felly yn cyfarfod gofynion y safon i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i bawb sy'n dymuno ei dderbyn.

Safon 15: Mae safon 15 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw dangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn yn gosod mesuriadau a fyddai'n trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg. Mae Cyngor Sir Fflint yn ddarostyngedig i'r safon hon ers 30 Mawrth 2016. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir y Fflint casgla'r Comisiynydd fod dangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn y corff yn gosod yr un mesuriadau ar gyfer galwadau Cymraeg a galwadau Saesneg, a bod hyn yn cyfarfod gofynion y safon.

Safon 17: Mae safon 17 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff roi gwybod i'r person sy'n galw pa bryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael os nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y rhif ffôn neu linell berthnasol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd wedi ei hysbysebu gan y Cyngor nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Ni dderbyniodd hi wybodaeth ynghylch pa bryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael, ag er bod y Cyngor wedi cynnig darparu gwasanaeth Cymraeg drwy alw'r achwynydd yn ôl, ni dderbyniodd hi'r alwad hwnnw. Wrth ystyried tystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, noda'r Comisiynydd nad yw'r Cyngor yn hysbysebu'r cyhoedd

pryd fydd gwasanaeth Cymraeg ar gael fel mater o drefn os nad yw ar gael.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y

Comisiynydd fel a ganlyn:

Safon 11: Dyfarnwyd y bu methiant gan Gyngor Sir y Fflint i gydymffurfio a safon 11.

Safon 15: Dyfarnwyd na fu methiant gan Gyngor Sir y Fflint i gydymffurfio a Safon 15.

Safon 17: Dyfarnwyd bod Cyngor Sir y Fflint wedi methu cydymffurfio a safon 17.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Safon 11: Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir y Fflint i gydymffurfio â safon 11.

Safon 15: Rhoddwyd argymhelliad i Gyngor Sir y Fflint yn sgil y penderfyniad na fu methiant i gydymffurfio a safon 15.

Safon 17: Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir y Fflint i gydymffurfio â safon 17.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 11: Rhaid i Gyngor Sir y Fflint gynnal adolygiad o'i drefniadau i ddelio â galwadau ffôn i'w rifau llinell gymorth neu rifau canolfannau alwadau ble mae'r galwr yn dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg. Rhaid i Gyngor Sir y Fflint weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiad er mwyn sicrhau fod ganddo drefniadau digonol mewn lle er mwyn cwrdd â'i ddangosyddion perfformiad ei hun, ble mae'r galwr yn dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg.

Amserlen: Rhaid cyflawni'r camau hyn o fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 15: Dylid Cyngor Sir y Fflint monitro ei berfformiad yn erbyn ei dangosyddion perfformiad ffôn yn chwarterol ac



[Corff  
Adnoddau  
Naturiol  
Cymru](#)

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 08/11/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad i'r achwynydd anfon e-bost Cymraeg at Gyfoeth Naturiol Cymru ar 17 Hydref 2017 ac ar 5 Tachwedd 2017 ac iddo dderbyn ymateb uniaith Saesneg drwy e-bost ar 7 Tachwedd 2017.

15/6/2018

adrodd ar y perfformiad hwnnw. Dylid Cyngor Sir y Fflint cymryd camau i wella perfformiad sydd yn disgyn islaw'r dangosyddion sydd wedi ei osod.

Safon 17: Rhaid i Gyngor Sir Fflint gyflwyno trefn pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar ei brif rif ffôn , rhifau llinell gymorth neu rifau canolfannau alwadau sy'n rhoi gwybod i'r personau sy'n galw pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Amserlen: Rhaid i'r cam hwn gael ei gyflawni o fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir y Fflint ar 15/06/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn ei wneud yn ofynnol i gorff ateb unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynient gan berson, yn Gymraeg (os oes angen ateb). Nid oes rhaid i gorff wneud hynny mewn sefyllfaoedd pan fo person wedi dweud wrthynt nad oes angen ateb yn Gymraeg. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon ers 25 Ionawr 2017. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni ei bod wedi derbyn ymateb Saesneg yn unig i ymholiad e-bost anfonodd yn Gymraeg. Yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth yr achwynydd a Chyfoeth Naturiol Cymru casglodd y Comisiynydd fod ymateb Saesneg yn unig wedi ei anfon at yr achwynydd er ei fod wedi cyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg. Mae hyn yn groes i ofynion y safon.



Safon 7: Mae safon 7 yn ei wneud yn ofynnol i gorff ddatgan mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atynt, eu bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddant yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ddarostyngedig i safon 7 ers 25 Ionawr 2017. Wrth ymateb yn Saesneg yn unig i ymholiad e-bost, nid oedd y corff wedi cynnwys datganiad bod croeso i unigolyn anfon gohebiaeth atynt yn Gymraeg, y byddent yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Wrth ystyried tystiolaeth yr achwynydd a Chyfoeth Naturiol Cymru, casglodd y Comisiynydd nad oeddynt wedi cynnwys datganiad ar ei gohebiaeth e-bost yn unol â gofynion safon 7.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 1: Dyfarnwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1 yn yr achos hwn.

Safon 7: Dyfarnwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 7 yn yr achos hwn.

Datganiad gweithredu pellachGweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyfoeth Naturiol Cymru i gydymffurfio a safon 7.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 7: Rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru sicrhau ei fod yn cynnwys datganiad ar bob gohebiaeth yn unol a gofynion safon 7. Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyfoeth Naturiol Cymru ar y 15/06/2018.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### Gweinidogion Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 19/07/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â honiad nad yw'r cynnwys yn fersiwn Gymraeg Llywodraeth Cymru o'u polisïau ar gyfer absenoldeb o'r gwaith, yn cyfateb i'r fersiynau Saesneg. Mae'r achwynydd yn honni bod dilyn y dolenni perthnasol at fersiwn Gymraeg y polisïau yn arwain at ddogfen sydd yn darparu crynodeb o brif egwyddorion y polisïau, ond bod dilyn y dolenni perthnasol i fersiwn Saesneg y polisïau yn arwain at ddogfen y polisïau absenoldeb o'r gwaith gan gynnwys canllawiau a gweithdrefnau.

13/6/2018

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 109 - Mae safon 109 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw bolisi caiff ei gyhoeddi sydd yn ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd sydd yn honni nad yw'r holl ddogfennau sydd yn ymwneud â pholisïau absenoldeb o'r gwaith ar gael yn Gymraeg. Mae'r achwynydd yn honni bod y polisïau eu hun ar gael yn Gymraeg, ond nad yw'r dogfennau esboniadol, sef y canllaw a gweithdrefnau ar gael yn Gymraeg, a'i bod yn Saesneg yn unig. Mae Gweinidogion Cymru yn darparu polisïau yn ddwyieithog, ond mae'r dogfennau canllaw a gweithdrefnau sydd yn ymhelaethu ar weithredu'r polisïau ymhellach ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod hyn yn groes i ofynion safon 109.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 109: Dyfarnwyd bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 109 yn yr achos hwn.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos y dyfarniad bod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio gydymffurfio â safon 109.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Torfaen

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 22/08/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â honiad bod gwallau ieithyddol ar fersiwn Gymraeg o ap swyddogol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae'r achwynydd yn honni bod gwallau iaith Gymraeg ar yr ap drwyddi draw.

13/6/2018

Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio yn llawn â safon 109 drwy sicrhau bod pob dogfen sydd yn ymwneud â pholisïau absenoldeb o'r gwaith ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 13/06/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 57: Mae Safon 57 yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau bod unrhyw ap y maent yn ei gyhoeddi yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar yr ap hwnnw. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd sydd yn honni bod gwallau ieithyddol ar fersiwn Gymraeg o ap swyddogol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Roedd yr achwynydd yn honni bod gwallau iaith Gymraeg ar yr ap drwyddi draw. Yn yr achos hwn, mae'r Comisiynydd o'r farn nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi cydymffurfio â gofynion safon 57. Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno yn dangos bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 57 - Dyfarnwyd y bu methiant gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gydymffurfio â safon 57 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos y dyfarniad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu cydymffurfio â safon 57.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 57 drwy baratoi cynllun gweithredu ar gyfer sicrhau bod prif ap y Cyngor yn gweithredu'n llawn yn y Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys: ' a) amserlen ar gyfer cyflawni gwahanol gamau'r gwaith o greu a chyhoeddi testun Cymraeg cywir gwaith ' b) dynodi person cyfrifol ar gyfer cyflawni'r camau ' c) adnabod y gyllideb a'r adnoddau sydd eu hangen Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 3 mis o ddyddiad derbyn yr adroddiad terfynol. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 13/06/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### Gweinidogion Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 16/06/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad i'r achwynydd dderbyn llythyr uniaith Saesneg gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau

7/6/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon1: Mae safon 1 yn gofyn i Weinidogion Cymru ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth Gymraeg maent yn ei dderbyn os oes angen ymateb, oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg. Yn yr achos yma, anfonodd yr achwynydd e-bost yn Gymraeg at AGGCC yn Gymraeg a derbyniodd ymateb yn Saesneg. Gan bod Gweinidogion Cymru wedi anfon llythyr Saesneg i'r achwynydd mewn ymateb i e-bost Cymraeg ni lwyddodd

Cymdeithasol Cymru fel ymateb i ohebiaeth Gymraeg. Roedd yr achwynydd hefyd yn anfodlon bod yr Arolygiaeth wedi defnyddio enw Saesneg y dref yn ei gyfeiriad yn hytrach na'r enw Cymraeg a ddefnyddiodd wrth ohebu.

AGGCC, a thrwy hynny Weinidogion Cymru, i gydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 1 - Dyfarnwyd y bu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 1 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Safon 1 – Ni weithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 1.

Datganiad ar y gweithredu pellach

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 07/06/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 24/05/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad nad oedd dim Cymraeg i'w glywed (ag eithrio un frawddeg agoriadol) na darpariaeth cyfieithu yn ystod noson gan Gyswllt Ffermio yn Wrecsam.

24/5/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 27 - Mae safon 27 yn ei gwneud hi'n ofynnol ar gorff i ofyn i bob person sy'n cael ei wahodd i gyfarfod, a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r Comisiynydd o'r farn, fod y neges e-bost anfonwyd at 6,000 o gyfeiriadau oedd yn rhoi gwybod am y digwyddiad, ac yn gofyn i'r rhai oedd yn bwriadu mynychu roi gwybod am eu dewis iaith, gyfystyr â rhoi gwahoddiad i'r personau hynny i'r digwyddiad ym Mhrifysgol Glyndwr, Wrecsam ar 23 Mai 2017. Mewn ymateb i gwestiwn y Comisiynydd, "A ofynnwyd i'r personau a wahoddwyd a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y digwyddiad?", atebwyd "do", a nododd Gweinidogion Cymru bod 234 person wedi eu hysbysu y dymument ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Gweinidogion  
Cymru

Safon 27A - Mae safon 27A yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sy'n gwahodd mynychwyr i gyfarfod i drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod os yw o leiaf 10% o'r gwahoddedigion wedi eu hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Anfonwyd gwahoddiad ar ffurf e-bost at oddeutu 6,000 o bersonau, ac fe ddywedodd 234 person y carent ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Trefnodd Gweinidogion Cymru ddarpariaeth gyfieithu ar gyfer y digwyddiad yn gychwynnol, ond penderfynwyd parhau gyda'r cyfarfod heb ddefnyddio'r offer gan nad oedd nifer digonol o glustffonau ar gyfer pawb oedd yn dymuno eu defnyddio. O ganlyniad i'r penderfyniad a wnaed nid oedd gwasanaeth cyfieithu ar gael yn ystod y digwyddiad.

Safon 33 - Mae safon 33 yn gofyn i gorff sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, gan hysbysu'r gwahoddedigion ar lafar bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Nid oedd y digwyddiad dan sylw yn gyfarfod agored i'r cyhoedd.

Anfonwyd neges e-bost at aelodau Cyswllt Ffermio yn eu hysbysu o'r digwyddiad. Roedd yn rhaid bodloni'r meini prawf canlynol cyn mynychu: i) cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ymlaen llaw; (ii) cofrestru ar gyfer dyddiad a lleoliad penodol a gynigwyd; (iii) roedd rhaid i'r mynychwyr fod yn brif bartner yn y busnes; a (iv) roedd rhaid iddynt fanylu ar eu dewis iaith.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Safon 27 - Dyfarnwyd na fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 27 yn yr achos hwn.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn ar y 29/01/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad Saesneg yn unig ar lythyr dwyieithog bil y Dreth Cyngor.

21/5/2018

Safon 27A – Dyfarnwyd bod Gweinidogion Cymru wedi methu a chydymffurfio â safon 27A yn yr achos hwn.

Safon 33 - Dyfarnwyd na fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 33 yn yr achos hwn.

**Datganiad gweithredu pellach**

Safon 27A - Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 27A.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 27A - Rhaid i Weinidogion Cymru lunio canllaw at ddefnydd trydydd partion sy'n gweithredu ar eu rhan ynghylch cydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth gynnal cyfarfodydd a gynhelir ar eu rhan. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 24/05/2018.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6 - Mae safon 6 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan maent yn llunio gohebiaeth. Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon hon ers 31 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ohebiaeth safonol ynghylch treth cyngor gan fod cyfeiriadu Saesneg yn unig ar yr ohebiaeth hon. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, casglwyd bod cyfeiriadau Saesneg yn unig wedi eu cynnwys ar ohebiaeth safonol ynghylch treth Cyngor.

			<p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 6 - Dyfarnwyd bod Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 6 yn yr achos yma.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b> Safon 6 - Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Dinas Caerdydd i gydymffurfio â safon 6.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b> Safon 6 – Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 6. Gweithredir y gofyniad yma yn unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg. Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Dinas Caerdydd ar 21/05/2018.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor</u> <u>Bwrdeistref</u> <u>Sirol Caerffili</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 03/08/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd yr achwynydd yn anfonol ar ôl derbyn e-bost uniaith Saesneg gyda'r teitl "Summer Reading Challenge at your local library". Roedd cynnwys yr e-bost yn egluro mai rhifyn cyntaf bwletin</p>	<p>15/5/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 4 - Mae safon 4 yn gofyn i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yr un pryd â fersiwn Saesneg os yw'r ohebiaeth yn cael ei anfon at nifer o bobl. Anfonodd y Cyngor fwletin newyddion cyntaf y gwasanaeth llyfrgell yn Saesneg yn unig at nifer o bobl. Gan na wnaeth y Cyngor anfon fersiwn Gymraeg yr un pryd â'r fersiwn Saesneg pan anfonodd y bwletin dros e-bost at nifer o bobl, ni wnaeth y Cyngor gydymffurfio â safon 4 yn yr achos yma.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b></p>



newyddion y Llyfrgell oedd yr e-bost. Roedd yr e-bost yn sôn am sialens ddarllen yr haf yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau'r llyfrgelloedd.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 4 - Dyfarnwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Safon 4 - Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Caerffili i gydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 4 - Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau pan fydd yn anfon unrhyw fwletinâu dros e-bost i nifer o bersonau ar yr un pryd ei fod yn anfon y fersiwn Gymraeg ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 15/05/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Rhondda  
Cynon Taf

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 30/08/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gwyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gwyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud â honiad ynghylch llythyr dderbyniodd yr achwynydd gan Gronfa Phensiynau Rhondda Cynon Taf. Roedd y llythyr safonol dyddiedig 'Awst 2017' yn cynnig gwybodaeth ac yn annog yr achwynydd i ymuno â 'My Pension On-line' sef gwasanaeth ar-

9/5/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 4 - Mae safon 4 yn ei gwneud yn ofynnol pan fo corff yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, i anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth honno. Rhaid i'r corff sicrhau hefyd bod y fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth yn cael ei anfon ar yr un pryd ag y maent yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg o'r ddogfen. Derbyniodd y Comisiynydd gwyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni ei fod wedi derbyn llythyr Saesneg yn unig gan y Cyngor. Ymddengys bod testun y llythyr yn safonol ac un y bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer o bersonau. Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor roedd y Comisiynydd

lein i reoli ei bensiwn. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn y llythyr safonol hwn yn Saesneg yn unig.

o'r farn fod y Cyngor wedi anfon llythyr at nifer o bersonau yn Saesneg yn unig yn groes i ofynion safon 4.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 4 - Dyfarnwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 4 yn yr achos yma.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Safon 4 - Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gydymffurfio â safon 4.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 4 - Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gynnal adolygiad o bob llythyr safonol y maent yn anfon at nifer o bersonau er mwyn sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei anfon at nifer o bersonau yn cael ei anfon yn Gymraeg yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg ohoni. Amserlen: O fewn 6 Mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 09/05/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 26/05/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn

1/5/2018

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1 Mae safon 1 yn gofyn i'r Cyngor, neu unrhyw barti sy'n gweithredu ar ran y Cyngor ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg. Anfonodd cwmni a oedd yn gweithredu ar ran Cyngor Sir Powys lythyr uniaith Saesneg i'r achwynydd mewn ymateb i lythyr uniaith Gymraeg. Gan

ymwneud â honiad bod yr achwynydd wedi cysylltu ac adran Priffyrdd Cyngor Sir Powys i ddweud fod cyflwr un o'u ffyrdd wedi achosi difrod i'w gar ac anfonodd fil i'r Cyngor am atgyweirio ei gar. Derbyniodd yr achwynydd llythyr yn Gymraeg gan y Cyngor yn dweud eu bod wedi trosglwyddo'r bil am y niwed i'r car i'w hadran niwed i foduron. Yna, derbyniodd yr achwynydd llythyr uniaith Saesneg gan gwmni Aseswyr Colledion sef Gallagher Bassett yn nodi: "Please be advised that we are appointed by Powys County Council as claims handlers therefore all correspondence should be addressed to ourselves in relation to this matter from heron." "We would be grateful if you could correspond with us in English as we are claims handlers / insurers based in England and are not Welsh speaking"

i'r achwynydd dderbyn ymateb uniaith Saesneg i'w ohebiaeth Gymraeg ni lwyddodd y Cyngor i gydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma. Safon 7 Mae safon 7 yn gofyn i Gyngor Sir Powys gynnwys datganiad yn egluro ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Yn yr achos yma roedd disgwyl i'r cwmni a oedd yn gweithredu ar ran Cyngor Sir Powys gynnwys y datganiad yma ar eu gohebiaeth. Yn yr achos yma, nid oedd y llythyr a anfonodd y cwmni a oedd yn gweithredu ar ran Cyngor Sir Powys yn cynnwys datganiad o'r fath. Gan nad oedd y llythyr i'r achwynydd yn cynnwys y datganiad gofynnol, nid oedd Cyngor Sir Powys yn cydymffurfio â safon 7 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Safon 1 Dyfarnwyd bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 1 yn yr achos yma. Safon 7 Dyfarnwyd bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 7 yn yr achos yma.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Safon 1 Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio â safon 1. Safon 7 Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio â safon 7.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 a Safon 7 Rhaid i Gyngor Sir Powys roi cyfarwyddyd i drydydd partion ar sut i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth is-gontractio. Rhaid cyflawni'r cam hwn o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Y Gorfforaeth  
Ddarlledu  
Brydeinig

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 03/07/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad berson ar ran y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig alw yn ei gartref yng Nghaerdydd ar 26/06/2017 gan adael gohebiaeth uniaith Saesneg yn ymwneud â thrwydded deledu.

26/4/2018

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 01/05/2018.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 5 Mae safon 5 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan yn gohebu gyda pherson, os nad ydyw'n gwybod a yw'r person yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg. Ni dderbyniodd yr achwynydd fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth a adawyd yn ei gartref yng Nghaerdydd ar 26/06/2017. Nododd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig fod yr ohebiaeth ar gael yn ddwyieithog ond i'r swyddog ymholi a oedd newydd ei recriwtio ddefnyddio'r copïau a dderbyniodd ar adeg y cwrs hyfforddiant. "Bydd llythyrau safonol (ble nad ydym yn gwybod a yw'r person yn dymuno derbyn gohebiaeth gennym yn Gymraeg neu yn Saesneg) yn cael eu hanfon yn ddwyieithog at godau post ....yng Nghymru". Nododd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig iddynt gynnal arolwg risg gan roi cynllun gweithredu yn ei le i ddatrys unrhyw feysydd risg posib.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

**Datganiad gweithredu pellach**

Ni fu gweithredwyd pellach yn achos methiant Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig i gydymffurfio â safon 5.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 19/05/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gwyn yn ymwneud a honiad bod peiriannau talu ac arddangos Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys gwallau ieithyddol yn y Gymraeg. Nodwyd yn benodol bod y gair Bwrdeistref wedi ei sillafu yn anghywir – defnyddir 'bwrdeisdref'. Yn ogystal, honnai'r achwynydd fod gwallau iaith ar hysbysebion ar gefn y tocynnau a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar yr hysbysebion gan fod defnydd o ffont llai ar gyfer y testun Gymraeg a bod print trwm yn cael ei defnyddio ar gyfer testun Saesneg yr hysbysebion.

25/4/2018

Roedd y Comisiynydd o'r farn bod y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig wedi cymryd camau digonol er mwyn sicrhau na fydd y methiant yn debygol o ddigwydd eto.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ar y 26/04/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Mae safon 48 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o ddogfen a gaiff ei llunio yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg o'r ddogfen honno. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon ers 30 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor casglwyd fod tocynnau talu ac arddangos am barcio yn cynnwys gwallau sillafu a bod testun ar y tocynnau hynny yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ddefnydd o liw a ffont gwahanol. Mae hyn yn groes i ofynion y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 48.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau nad yw testun ar docynnau talu ac arddangos am barcio yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i Gyngor

Cyngor Sir  
Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn ar y 24/05/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad mai dim ond cynnwys uniaith Saesneg sydd yng nghyfrifon Twitter @Powysarchives a @sport\_powys a chyfrif Facebook Chwaraeon Sport Powys County Council. Honnai'r achwynydd yn ogystal, na dderbyniodd ymateb i e-byst Cymraeg a anfonodd drwy'r cyfeiriad e-bost [cwsmer@powys.gov.uk](mailto:cwsmer@powys.gov.uk) ar 06/06/2017 ac eto ar 15/07/2017, er mwyn tynnu sylw Cyngor Sir Powys o'r cynnwys uniaith Saesneg ar y cyfrifon Twitter a Facebook.

25/4/2018

Bwrdeistref Sirol Wreccsam gywiro gwallau iaith sydd yn ymddangos ar docynnau talu ac arddangos am barcio. Rhaid cyflawni y camau hyn o fewn 90 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ar y 25ain o Ebrill 2018.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1: Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni na dderbyniodd ymateb i e-byst Cymraeg a anfonodd at y Cyngor drwy e-bost. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Cyngor Sir Powys, mae'r Comisiynydd o'r farn, bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio â safon 1.

Safon 58: Mae safon 58 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd negeseuon Cymraeg i'w gweld ar gyfrifon Twitter @Powysarchives a @Sportpowys yn ogystal a chyfrif Facebook Chwaraeon Sport Powys. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Cyngor Sir Powys, mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio â safon 58 yn yr achos hwn.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Safon1- Dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio a safon 1 yn yr achos hwn.

Safon 58 – Dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio a safon 58 yn yr achos hwn.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn sgil methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio a safonnau 1 a 58.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1: Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau fod ei bolisi ar ateb gohebiaeth yn ei wneud yn glir na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i Gyngor Sir Powys roi cyfarwyddiadau, canllawiau a chymorth i'w staff ynghylch sut i ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn unol â'i bolisi ar ateb gohebiaeth ac yn unol â gofynion safon rhif 1. Dylai'r Cyngor gymryd y camau hyn o fewn 28 diwrnod o ddiwrnod cyhoeddi'r adroddiad ymchwiliad terfynol.

Safon 58: Rhaid i Gyngor Sir Powys baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei gyfryngau cymdeithasol.

- Rhaid i'r cynllun gweithredu ymdrin â:
- Pholisi'r Cyngor ar gyhoeddi cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- Gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi cynnwys Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol
- Ymwybyddiaeth staff o ofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â chyhoeddi cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- Hyfforddiant i staff

Dylai Cyngor Sir Powys baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 3 mis o ddyddiad hysbysiad penderfynu yr



[Corff](#)  
[Adnoddau](#)  
[Naturiol](#)  
[Cymru](#)

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 14/08/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn honni bod y broses recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr newydd y Corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Honnai'r achwynydd fod gofyniad i gyflwyno cais ar-lein ar gyfer y swydd drwy wefan Saesneg yn unig drydydd parti Odgers Berndtson. Honnai'r achwynydd nad oedd modd amlwg o gyflwyno cais am y swydd yn Gymraeg a nododd yr achwynydd nad oedd yn fodlon cyflwyno cais yn Saesneg am y swydd ar sail egwyddorol gan mai yn Saesneg yn unig oedd y wefan. Penderfynodd yr achwynydd peidio â chyflwyno cais.

19/3/2018

achos hwn. Byddaf yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu .

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 25/04/2018.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 133 Mae safon 133 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, wrth hysbysebu swydd, ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni fod proses recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr newydd y Corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyfoeth Naturiol Cymru, casglwyd nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg wrth hysbysebu'r swydd Prif Weithredwr. Safon 133A Mae safon133A yn gwneud yn ofynnol i gyrff gyhoeddi'r canlynol yn Gymraeg os ydynt yn eu cyhoeddi o gwbl: ffurflenni cais am swyddi; deunydd esboniadol ynghylch eu proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; gwybodaeth am eu proses gyfnewid, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; swydd ddisgrifiadau. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyfoeth Naturiol Cymru casglwyd bod ffurflen ar lein ar gyfer ymgeisio am y swydd gyfystyr â ffurflen gais, ac mai yn Saesneg yn unig oedd y ffurflen ar gael.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**



O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Safon 133 Dyfarnwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 133.

Safon 133A Dyfarnwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 133A.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyfoeth Naturiol Cymru i gydymffurfio â safonau 133 a 133A.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 133 Rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion safon 133 ar bob achlysur wrth hysbysebu swyddi. Rhaid i CNC wneud datganiad clir ei fod yn croesawu ceisiadau am swyddi yn Gymraeg ac na fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau Saesneg. Rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru sicrhau fod datganiad o'r fath yn cael ei wneud gan unrhyw drydydd parti sy'n cynnal ymgyrch i recriwtio a phenodi staff ar ei ran. Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd Safon 133A Rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru adolygu ei weithdrefnau ar gyfer defnyddio trydydd partiön i gynnal ymgyrchoedd recriwtio a phenodi ar ei ran er mwyn: (1) Sicrhau nad yw ffurflenni cais yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (2) Sicrhau fod modd gwneud cais yn Gymraeg yn yr un modd a gellir gwneud cais yn Saesneg. Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ar 19/03/2018.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Caerffili

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ar 03/04/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â mwy nag un o wasanaethau'r Cyngor. Roedd yr achwynydd wedi derbyn llythyr uniaith Saesneg gan yr adran dreth ac roedd hefyd yn anfodlon bod arwyddion parhaol a dros dro uniaith Saesneg yn Llyfrgell Rhymni a Chanolfan Ailgylchu Rhymni. Roedd hefyd am gwyno am gyhoeddiadau llais uniaith Saesneg yn llyfrgelloedd Caerffili a Bargoed. Cyflwynodd yr achwynydd y gŵyn i'r Cyngor yn uniongyrchol hefyd ac fe ddarparodd y Cyngor gopi o'r ymateb dyddiedig 03/05/2017.

5/2/2018

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 4 - Mae safon 4 yn gofyn i'r Cyngor anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth yr un pryd â fersiwn Saesneg os yw'r ohebiaeth yn cael ei anfon at nifer o bobl. Yn yr achos yma fe anfonodd y Cyngor y llythyrau penderfyniad treth y Cyngor a budd-daliadau at nifer o bobl yn uniaith Saesneg. Ond yn ôl sylwadau y Cyngor yn dilyn derbyn copi o'r adroddiad arfaethedig, nid yw hysbysiadau penderfyniad Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth y Cyngor yr un fath â'i gilydd. Gan nad yw'r llythyrau yr un fath â'i gilydd nid yw cydymffurfiaid â safon 4 o dan amheuaeth.

Safon 5 - Mae safon 5 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at berson ar bob achlysur, os nad yw'r corff yn gwybod nad yw'r person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthynt yn Gymraeg. Anfonodd y Cyngor llythyrau ynglŷn â budd-dal tai a threth y Cyngor at nifer fawr o bobl yn uniaith Saesneg er nad oeddynt yn gwybod a oedd yr unigolion yma am dderbyn gohebiaeth Gymraeg. Gan bod y Cyngor wedi anfon llythyrau uniaith Saesneg at nifer o bobl nad oeddynt yn gwybod a oeddynt am dderbyn gohebiaeth Gymraeg ni wnaethant gydymffurfio â safon 5 yn yr achos yma. Er mwyn cydymffurfio â safon 5 dylai'r llythyrau yma fod wedi cael eu hanfon yn ddwyieithog i bawb nad oeddynt yn ymwybodol o'u dewis iaith.

Safon 7 - Mae'r safon yn gosod gofyniad ar sefydliadau i gynnwys datganiad mewn gohebiaeth neu gyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon gohebiaeth atynt eu bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth

Cymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Roedd y llythyr dan sylw yn lythyr oedd yn gwahodd gohebiaeth. Nid oedd y llythyr dderbyniodd yr achwynydd yn cynnwys y datganiad yma. Gan nad oedd y llythyr yn cynnwys y datganiad y mae'n rhaid ei gynnwys mewn gohebiaeth sy'n gwahodd ymateb neu ohebiaeth, nid oedd y Cyngor yn gweithredu yn unol â safon 7 yn yr achos yma. Safon 61 - Mae safon 61 yn gofyn i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun ar arwydd newydd a osodir yn Gymraeg ac os yw'r arwydd newydd a osodir hefyd yn Saesneg yna ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar yr arwydd. Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bod yr arwydd 'Allanfa Dân' yn Llyfrgell Rhymni yn arwydd a oedd wedi ei osod o'r newydd er i'r Cyngor fod yn gweithredu safon 61. Gan bod yr arwydd 'Allanfa Dân' yn arwydd a oedd wedi ei osod o'r newydd yn uniaith Saesneg, nid oedd y Cyngor yn cydymffurfio â safon 61 yn yr achos yma.

Safon 87 - Mae safon 87 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sicrhau bod pob neges a wneir dros system annerch gyhoeddus yn cael ei wneud yn Gymraeg, ac yn Gymraeg yn gyntaf os caiff ei wneud yn Saesneg hefyd. Ar adeg cyflwyno'r gŵyn nid oedd cyhoeddiadau dros uchelseinydd yn Llyfrgelloedd Caerffili a Bargoed (er enghraifft cyhoeddiadau yn dweud y bydd y Llyfrgell yn cau) yn cael eu gwneud yn Gymraeg. Gan nad oedd y cyhoeddiadau llais dros uchelseinydd yn y llyfrgelloedd yn Gymraeg nid oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydymffurfio â safon 87 yn yr achos hwn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Safon 4 - Dyfarnwyd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 4.

Safon 5 - Dyfarnwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 5.

Safon 7 - Dyfarnwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 7.

Safon 61 - Dyfarnwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

Safon 87 - Dyfarnwyd nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu cydymffurfio â safon 87.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gydymffurfio â safon 5,7,61 a 87.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 5 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili baratoi cynllun gweithredu yn amlinellu'r prif gamau (gyda amserlen) er mwyn sicrhau y bydd llythyrau ynglŷn â budd-dal tai a threth cyngor yn cael eu hanfon yn ddwyieithog. Mae'r cam i'w weithredu o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd

Safon 7 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddatgan mewn gohebiaeth yn ymwneud â threth y cyngor a budd-dal tai eu bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddant yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r cam i'w weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 61 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau bod unrhyw destun ar yr arwyddion sydd wedi eu gosod yn eu lyfrgelloedd ers diwrnod gosod y safon yn arddangos testun Cymraeg (ar yr un arwydd â'r testun cyfatebol Saesneg neu ar arwydd ar wahân) ac os yw'r un testun yn

		<p>cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Mae'r cam i'w weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Safon 87 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau pan fydd yn cyhoeddi negeseuon yn eu llyfrgelloedd dros system annerch gyhoeddus y bydd y cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf. Mae'r cam i'w weithredu o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 05/02/2018.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor Sir Penfro</u></p>	<p>1/2/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 52 Mae safon 52 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Sir Penfro sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael, ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ymddangosodd testun Saesneg yn ymwneud â gweithgareddau Minecraft a gynhaliwyd yn ystod hanner tymor yr haf yn Llyfrgell Dinbych y Pysgod ar dudalen Gymraeg gwefan y Cyngor ynghyd â'r geiriau: "Mae'r dudalen hon wrthi'n cael ei chyfieithu ar hyn o bryd, felly diolch am eich amynedd wrth i ni ychwanegu'r cynnwys". Nododd y Cyngor mai "gwall gweinyddol oedd hwn ac mae trefniadau wedi cael eu gwneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau, trwy fabwysiadu proses technegol lle rydym wedi dileu'r opsiwn</p>

ychwanegu'r cynnwys". Roedd y testun a ddilynodd yn Saesneg.

'cyfieithiad yn ddewisol'..... gan ychwanegu 'cyfieithiad yn orfodol'".

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir Penfro i gydymffurfio â safon 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 Rhaid i Gyngor Sir Penfro godi ymwybyddiaeth staff o ofynion safon 52 a rhoi cyfarwyddyd iddynt ynghylch sut i weithredu mewn ffordd sy'n caniatáu cydymffurfio â'r safon. Bydd hyn i'w weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'n derfynol yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Penfro ar 01/02/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 13/06/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddarparu gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn i aelod o'r cyhoedd yn adran y Dreth Gyngor ar 13/06/2017 drwy ddefnyddio'r rhif ffôn 01978 298992. Roedd yr achwynydd hefyd yn honni

31/1/2018

Canfyddiadau'r Comisiynydd

Safon 6 Mae safon 6 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan maent yn llunio gohebiaeth. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon hon ers 31 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi trin yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn llythyr gŵys y Dreth Gyngor gan bod gwallau ieithyddol yn y Gymraeg ar y llythyr. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r

bod gwallau ieithyddol yn y Gymraeg ar lythyr gŵys y Dreth Gyngor a anfonwyd at yr achwynydd ar 12/06/2017. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 6 a 11.

Cyngor, mae'r Comisiynydd yn casglu bod gwallau yn yr iaith Gymraeg ar lythyr gŵys y Dreth Gyngor a anfonwyd at yr achwynydd, sydd yn groes i ofynion safon 6. Safon 11 Mae safon 11 yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ddelio â galwad yn Gymraeg os yw person yn dymuno gwneud hynny, pan fo person yn cysylltu â'r Cyngor ar ei brif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol, a hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon hon ers 31 Mawrth 2016 Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni na dderbyniodd wasanaeth Cymraeg dros y ffôn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn trafod gŵys y Dreth Gyngor. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd yn casglu bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â gofynion safon 11 yn yr achos hwn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 6. Dyfarnwyd nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 11.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 6.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

		<p>Safon 6 Os bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid i'r Cyngor beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd). Mae'r cam gorfodi yma yn weithredol 40 diwrnod o ddyddiad derbyn adroddiad a hysbysiad penderfynu terfynol yr ymchwiliad hwn.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 31/01/2018.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor Sir Powys</u></p> <p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 20/04/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â threfniadau Cyngor Sir Powys wrth gyhoeddi gwybodaeth am gais cynllunio penodol. Roedd y cais cynllunio yn ymwneud â datblygiad ar gyrion Machynlleth. Honnai'r achwynydd fod y Cyngor wedi cyflwyno cais cynllunio a holl wybodaeth am y datblygiad yn Saesneg yn unig i'r Pwyllgor Cynllunio. Honnai'r achwynydd iddo hefyd fynychu'r cyfarfod a fu'n trafod y cais ac nad oedd offer cyfieithu ar y</p>	<p>31/1/2018</p>	<p>Canfyddiadau'r Comisiynydd</p> <p>Safon 30 Mae safon 30 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n hysbysebu cyfarfod y mae corff yn trefnu sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Gall hynny gynnwys hysbysiadau cyhoeddus. Mae Cyngor Sir Powys yn ddarostyngedig i safon 30 ers 30 Mawrth 2016.</p> <p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd offer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Sir Powys, mae'r Comisiynydd o'r farn nad oedd y Cyngor yn ei wneud yn glir wrth bersonau a wahoddir i gyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio fod modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.</p>



pryd ar gael yng nghyfarfod y  
Pwyllgor Cynllunio.

Safon 32 Mae safon 32 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ofyn i bersonau sydd wedi eu gwahodd i siarad mewn cyfarfod os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os yw un neu ragor o'r personau yn hysbysu'r corff eu bod yn dymuno gwneud hynny, rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod. Mae Cyngor Sir Powys yn ddarostyngedig i safon 32 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd offer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Sir Powys, casglwyd nad oedd y Cyngor yn gofyn i bob mynychwr a wahoddwyd i annerch y Pwyllgor Cynllunio os oeddynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Gan nad oeddynt yn gofyn y cwestiwn hwn nid oedd modd i'r Cyngor sicrhau fod cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i'r rhai hynny sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Safon 33 Mae safon 33 yn gwneud yn ofynnol i gorff darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer pob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r safon hefyd yn gosod gofynion ynghylch hysbysu'r rheini sy'n bresennol yn y cyfarfod ar lafar, yn Gymraeg, bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Mae Cyngor Sir Powys yn ddarostyngedig i'r safon ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd offer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Sir Powys casglwyd nad oedd cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd Pwyllgor

Cynllunio fel mater o drefn cyn mis Mai 2017 yn groes i ofynion safon 33.

Safon 47 Mae safon 47 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu a yw pwnc dogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg os nad oes safon arall yn gosod dyletswydd arnynt yn barod i lunio'r ddogfen yn Gymraeg. Mae Cyngor Sir Powys wedi bod yn ddarostyngedig i safon 47 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch trefniadau Cyngor Sir Powys wrth gyhoeddi gwybodaeth am gais cynllunio penodol. Roedd y cais cynllunio yn ymwneud â datblygiad ar gyrion Machynlleth. Honnai'r achwynydd fod y Cyngor wedi cyflwyno cais cynllunio a holl wybodaeth am y datblygiad yn Saesneg yn unig i'r Pwyllgor Cynllunio. Gan ystyried amgylchiadau yr achos, mae'r Comisiynydd o'r farn nad oedd y Cyngor wedi ystyried yn ddigonol a oedd angen i lunio dogfennau yn Gymraeg, yn groes i ofynion y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Safon 30 Dyfarnwyd bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio a safon 30.

Safon 32 Dyfarnwyd bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio a safon 32.

Safon 33 Dyfarnwyd bod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 33.

Safon 47 Dyfarnwyd bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio a safon 47.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio â safonau 30, 32, 33 a 47.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 30 Rhaid i Gyngor Sir Powys wirio fod pob hysbyseb neu wahoddiad safonol a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn datgan yn glir fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad penderfynu yr achos.

Safon 32 Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau ei fod yn gofyn i bersonau a wahoddir i annerch y Pwyllgor Cynllunio os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac os yw o leiaf un o'r personau hynny yn hysbysebu'r Cyngor o hynny, rhaid i'r Cyngor sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Penderfynu.

Safon 33 Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Penderfynu.

Safon 47 Rhaid i Gyngor Sir Powys datblygu broses safonol ar gyfer asesu pwnc dogfen a'r gynulleidfa rhagwelir ar gyfer ddogfennau luniwyd at ddefnydd y cyhoedd. Rhaid i'r broses hwn casglu a oes angen i'r ddogfen hwnnw gael ei lunio yn Gymraeg fel sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â safon 47. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Penderfynu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 31/01/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor Sir  
Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 13/06/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn ynghylch trefniadau Cyngor Sir Powys wrth gyhoeddi gwybodaeth am gais cynllunio penodol. Roedd y cais cynllunio yn ymwneud â datblygiad ar gyrion Machynlleth. Honnai'r achwynydd fod y Cyngor wedi cyflwyno cais cynllunio a holl wybodaeth am y datblygiad yn Saesneg yn unig i'r Pwyllgor Cynllunio. Honnai'r achwynydd iddo hefyd fynychu'r cyfarfod a fu'n trafod y cais ac nad oedd offer cyfieithu ar y pryd ar gael yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safonau 30, 32, 33 a 47.

29/1/2018

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 30 Mae safon 30 yn ei wneud yn ofynnol i gorff ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n hysbysebu cyfarfod y mae corff yn trefnu sy'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Gall hynny gynnwys hysbysiadau cyhoeddus. Mae Cyngor Sir Powys yn ddarostyngedig i safon 30 ers 30 Mawrth 2016.

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd offer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Sir Powys, mae'r Comisiynydd o'r farn nad oedd y Cyngor yn ei wneud yn glir wrth bersonau a wahoddir i gyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio fod modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

Safon 32 Mae safon 32 yn ei wneud yn ofynnol i gorff ofyn i bersonau sydd wedi eu gwahoddi i siarad mewn cyfarfod os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os yw un neu ragor o'r personau yn hysbysu'r corff eu bod yn dymuno gwneud hynny, rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod. Mae Cyngor Sir Powys yn ddarostyngedig i safon 32 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd offer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Sir Powys, mae'r Comisiynydd yn casglu nad oedd y Cyngor yn gofyn i bob mynychwr a wahoddwyd i annerch y Pwyllgor Cynllunio os oeddynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Gan nad oeddynt yn gofyn y cwestiwn hwn nid oedd modd i'r Cyngor sicrhau fod

cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i'r rhai hynny sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Safon 33 Mae safon 33 yn ei wneud yn ofynnol i gorff darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer pob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r safon hefyd yn gosod gofynion ynghylch hysbysu'r rheini sy'n bresennol yn y cyfarfod ar lafar, yn Gymraeg, bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Mae Cyngor Sir Powys yn ddarostyngedig i'r safon ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd offer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Sir Powys mae'r Comisiynydd yn casglu nad oedd cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio fel mater o drefn cyn mis Mai 2017 yn groes i ofynion safon 33.

Safon 47 Mae safon 47 yn ei wneud yn ofynnol i gorff asesu a yw pwnc dogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg os nad oes safon arall yn gosod dyletswydd arnynt yn barod i lunio'r ddogfen yn Gymraeg. Mae Cyngor Sir Powys wedi bod yn ddarostyngedig i safon 47 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch trefniadau Cyngor Sir Powys wrth gyhoeddi gwybodaeth am gais cynllunio penodol. Roedd y cais cynllunio yn ymwneud â datblygiad ar gyrion Machynlleth. Honnai'r achwynydd fod y Cyngor wedi cyflwyno cais cynllunio a holl wybodaeth am y datblygiad yn Saesneg yn unig i'r Pwyllgor Cynllunio. Gan ystyried amgylchiadau yr achos, mae'r Comisiynydd o'r farn nad

oedd y Cyngor wedi ystyried yn ddigonol a oedd angen i lunio dogfennau yn Gymraeg, yn groes i ofynion y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 30.

Dyfarnwyd fod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 32

Dyfarnwyd fod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 33

Dyfarnwyd fod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 47

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio â safonau 30, 32, 33 a 47.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 30 Rhaid i Gyngor Sir Powys wirio fod pob hysbyseb neu wahoddiad safonol a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn datgan yn glir fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad penderfynu yr achos.

Safon 32 Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau ei fod yn gofyn i bersonau a wahoddir i annerch y Pwyllgor Cynllunio os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac os yw o leiaf un o'r personau hynny yn hysbysebu'r Cyngor o hynny, rhaid i'r Cyngor sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Penderfynu.

			<p>Safon 33 Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Penderfynu.</p> <p>Safon 47 Rhaid i Gyngor Sir Powys datblygu broses safonol ar gyfer asesu pwnc dogfen a'r gynulleidfa rhagwelir ar gyfer ddogfennau luniwyd at ddefnydd y cyhoedd. Rhaid i'r broses hwn casglu a oes angen i'r ddogfen hwnnw gael ei lunio yn Gymraeg fel sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â safon 47. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Penderfynu.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir Powys ar 31/01/2018</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor</u> <u>Bwrdeistref</u> <u>Sirol</u> <u>Wrecsam</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 16/05/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn honni bod gwybodaeth ar dudalen wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghylch canolfannau hamdden y Sir yn ddiffygiol yn Gymraeg. Nodai'r achwynydd fod llai o wybodaeth ar y dudalen we yn Gymraeg na'r hyn oedd ar gael ar y dudalen we gyfatebol Saesneg. Nodai'r</p>	<p>12/1/2018</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 52 Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau bod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn ddarostyngedig i safon 52 ers 30 Mawrth 2016. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r Comisiynydd o'r farn nad oedd y testun ar dudalennau gwefan Freedom Leisure i gyd ar gael yn Gymraeg, yn groes i ofynion y safon.</p>

achwynydd hefyd fod dolenni ar y dudalen we Gymraeg yn arwain at wybodaeth Saesneg yn unig ar dudalennau ar wefan 'Freedom Lesiure' – sef darparwr allanol sydd yn rhedeg canolfannau hamdden y Sir ar ran y Cyngor. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 52 a 56.

Safon 56 Mae safon 56 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gorff sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar ei wefan yn Gymraeg. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi bod yn ddarostyngedig i safon 56 ers 30 Mawrth 2016. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mae'r Comisiynydd yn casglu nad oedd dewislenni holl dudalennau gwefan Freedom Leisure yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 52 a 56.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â safon 52 a 56.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 52 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod gwefan Freedom Leisure yn cydymffurfio yn llawn â gofynion safon 52. S

afon 56 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sicrhau bod gwefan Freedom Leisure yn cydymffurfio yn llawn â gofynion safon 56. Mae'r camau gorfodi hyn yn weithredol 28 diwrnod yn dilyn derbyn hysbysiad penderfynu achos CSG227.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 12/01/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sir  
Rhondda  
Cynon Taf

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 11/04/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnai'r achwynydd iddi ffonio prif rif ffôn y Cyngor ar 11 Ebrill 2017. Dewisodd opsiwn '1' ar gyfer gwasanaeth Cymraeg a chafodd yr alwad ei hateb gan aelod o staff oedd yn medru'r Gymraeg. Gofynnodd i gael ei throsglwyddo i'r adran Adnoddau Dynol. Cafodd yr alwad ei hateb gan aelod arall o staff y brif ganolfan alwadau. Nid oedd yr aelod hwn yn medru'r Gymraeg a bu'n rhaid iddi ailadrodd ei hymholiad yn Saesneg. Cafodd yr alwad ei throsglwyddo'n llwyddiannus i'r adran Adnoddau Dynol ac fe'i hatebwyd gan aelod o staff wnaeth gyfarch yn uniaith Saesneg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 11 a 20.

11/1/2018

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 11 Mae safon 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnig gwasanaeth Cymraeg ar ei rifau ffôn, ac i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i berson sy'n dymuno hynny. Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon ers 30 Mawrth 2016. Ar 11 Ebrill 2017, cysylltodd yr achwynydd â'r Cyngor ar y rhif ffon 01443 425005, gydag ymholiad i'r adran Adnoddau Dynol. Dewisodd yr achwynydd barhau â'i galwad yn Gymraeg drwy bwysu botwm 1 yn unol â chyfarwyddiadau'r neges awtomatig. Atebwyd yr alwad gan gynghorydd Cymraeg yn y ganolfan gyswllt. Wrth geisio trosglwyddo'r alwad i'r adran Adnoddau Dynol pwysodd y cynghorydd y rhif anghywir a olygodd bod yr alwad wedi ei throsglwyddo i gynghorydd di Gymraeg o fewn y ganolfan gyswllt. Cychwynnodd yr achwynydd siarad Cymraeg ond rhaid oedd iddi ail-adrodd ei ymholiad yn Saesneg. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd yn fodlon mai camgymeriad dynol a arweiniodd at yr alwad yn cael ei throsglwyddo i gynghorydd di-Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn, pe na bai'r camgymeriad wedi digwydd, a phe bai'r alwad wedi ei throsglwyddo yn gywir ei bod yn debygol na fyddai'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio gan ei bod yn ymddangos bod yma strwythurau priodol mewn lle i ddelio â galwadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, yn sgil y camgymeriad ar yr achlysur hwn, methodd y Cyngor ag ymdrin â galwad yr achwynydd yn Gymraeg, er bod dymuniad yr achwynydd i dderbyn gwasanaeth Cymraeg wedi ei sefydlu wrth iddi gychwyn y sgwrs yn Gymraeg.

Safon 20 Mae safon 20 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, wrth ateb galwadau i rif llinell uniongyrchol, i gyfarch y galwr mewn modd lle nad yw'r trin y Gymraeg yn llai ffafriol

na'r Saesneg. Mae'r achwynydd yn honni iddi dderbyn cyfarchiad uniaith Saesneg wrth i'w galwad gael ei throsglwyddo i adran Adnoddau Dynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, casglodd y Comisiynydd mai'r cyfarchiad a dderbyniodd yr achwynydd yn dilyn iddi gael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol y cwynir amdano, ac felly nad yw'r safon yn berthnasol i'r ymchwiliad.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 11. Nid oedd modd i'r Comisiynydd ddyfarnu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â safon 20.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio a safon 11, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 11 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gymryd camau i sicrhau ei bod yn delio gyda galwadau yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny yn unol â safon 11. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sicrhau, wrth drosglwyddo galwadau, ei bod yn parhau i ddelio gyda galwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny, yn

Gweinidogion  
Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 09/03/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn anhapus nad oedd cyfeiriad wedi ei gynnwys ar fersiwn Gymraeg llythyr a dderbyniodd yn ei wahodd i gymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.

10/1/2018

unol â safon 11. Amserlen: O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 11/01/2018.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 6 Mae safon 6 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan maent yn llunio gohebiaeth. Mae'r safon yn nodi enghreifftiau o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y cyd-destun, megis sicrhau fod llofnodion cyfatebol a manylion cyswllt ar y ddau fersiwn o'r ohebiaeth. Nid oedd y llythyr a dderbyniodd yr achwynydd ynglŷn ag Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y cyfeiriad ar fersiwn Gymraeg y llythyr. Yn eu tystiolaeth dywed Gweinidogion Cymru mai dyma oedd yr arfer gyda llythyrau yn ymwneud â'r Arolwg Cenedlaethol. Gan nad oedd y llythyr yn cynnwys y cyfeiriad ar y fersiwn Gymraeg fel ag yr oedd ar y fersiwn Saesneg roedd Gweinidogion Cymru yn trin y fersiwn Gymraeg o'r llythyr yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 7 Mae'r safon yn gosod gofyniad ar sefydliadau i gynnwys datganiad mewn gohebiaeth neu gyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon gohebiaeth atynt eu bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y bydd yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Cymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Nid oedd y llythyr dderbyniodd yr achwynydd yn cynnwys y datganiad yma. Gan nad oedd y llythyr yn cynnwys y datganiad y mae'n rhaid ei gynnwys mewn

gohebiaeth sy'n gwahodd ymateb neu ohebiaeth nid oedd Gweinidogion Cymru yn gweithredu safon 7 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Safon 6 Dyfarnwyd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 6 ar y sail bod Gweinidogion Cymru wedi trin fersiwn Gymraeg o lythyr yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 7 Dyfarnwyd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 7 ar y sail na chafodd datganiad ei gynnwys yn y llythyr yn esbonio bod Gweinidogion Cymru yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y byddent yn ymateb yn Gymraeg ac na fyddai gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 6 a 7.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 6 Wrth gynnal Arolwg Cenedlaethol Cymru rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau pan yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, eu bod yn cynnwys cyfeiriad Cymraeg y derbynnydd ar fersiwn Gymraeg y llythyr, a rhaid iddynt beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae'r cam i'w weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 7 Rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan mewn gohebiaeth ynglŷn â Arolwg Cenedlaethol Cymru eu bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, ac y byddant yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn

Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r cam i'w weithredu o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Yn ystod y 3 mis nesaf mae'r Comisiynydd yn cynghori Gweinidogion Cymru i ystyried defnyddio dulliau eraill i roi gwybod i'r cyhoedd Cymru eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 10/01/2018.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 28/04/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gwasanaeth ffôn cymorth technegol Cymraeg i ddefnyddwyr gwefan Gwerthwch i Gymru. Honnai'r achwynydd nad oedd gwefan Gymraeg Gwerthwch i Gymru yn arddangos rhif ffôn ar gyfer y llinell gymorth dechnegol ar y tudalennau Cymraeg, a bod rhaid iddi alw rhif cyffredinol Gwerthwch i Gymru dair gwaith er mwyn darganfod y rhif. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu

21/12/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 13 Gofynion safon 13 yw bod rhaid i gorff sicrhau fod rhif ffôn gwasanaeth Cymraeg yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol. Ni chaniateir rhif ffôn ar wahân ar gyfer cynnig gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon ers 30 Medi 2016 ar gyfer gwasanaeth Gwerthwch i Gymru. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd rhif ffôn ar gyfer cymorth technegol gwefan Gwerthwch i Gymru ar gael ar y tudalennau Cymraeg o'r wefan. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Gweinidogion Cymru, mae'r Comisiynydd yn casglu fod y corff yn defnyddio rhifau ffôn gwahanol ar gyfer cymorth technegol Gwerthwch i Gymru yn groes i ofynion y safon. Safon 52 Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i gorff sicrhau fod pob tudalen ar ei wefan ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei

Gweinidogion  
Cymru

methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 13 a 52.

thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ddarostyngedig i safon 52 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni nad oedd rhif ffôn ar gyfer cymorth technegol gwefan Gwerthwch i Gymru ar gael ar dudalennau Cymraeg y wefan. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a Gweinidogion Cymru, mae'r Comisiynydd yn casglu bod llai o wybodaeth ynghylch y gwasanaethau ffon ar dudalennau Cymraeg gwefan Gwerthwch i Gymru. Arweiniodd hyn at rwystredigaeth i'r achwynydd wrth iddi geisio defnyddio'r gwasanaeth Cymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 13 a 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 13 a 52.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 13 a 52 mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd:

Safon 13 Rhaid i Weinidogion Cymru defnyddio'r un rhif ar gyfer darparu bob gwasanaeth cymorth dros y ffôn ar gyfer Gwerthwch i Gymru gan sicrhau fod y gwasanaeth Cymraeg â ddarperir gytras â'r gwasanaeth Saesneg ar y llinell honno. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 3 mis o ddyddiad dderbyn Hysbysiad Penderfynu achos CSG223. Safon 52 Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau fod gwybodaeth glir ar gael i'r cyhoedd am y gwasanaethau

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Pen-y-  
bont ar Ogwr

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Ar 3 Mehefin 2016 derbyniodd y Comisiynydd nifer o gwynion gan aelod o'r cyhoedd. Roedd y cwynion yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, derbyniwyd nodyn o alwad ffôn yn ymholi ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Roedd yr ymateb yn nodi

14/12/2017

cymorth sydd ar gael iddynt ar dudalennau Cymraeg Gwerthwch i Gymru. Wrth i Weinidogion Cymru gwblhau cam gorfodi'r achos hwn a sefydlu un rhif ar gyfer cymorth technegol, dylid sicrhau fod y rhif hwn yn hysbys ar dudalennau Cymraeg Gwerthwch i Gymru. Mae'r cam gorfodi hwn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad penderfynu yr achos.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/12/2017.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail fod tystiolaeth sydd ar gael i mi yn amlygu fod y Cyngor wedi cymryd camau digonol i hybu a hyrwyddo'r ddarpariaeth gyfredol o wersi nofio Cymraeg, ac yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar rai lefelau, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefelau hynny yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y



fod y Cyngor yn cynnig gwersi Cymraeg i blant ond nid oedolion. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail honno, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84. Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 ac 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd. Yn unol ag adran 77 (3) Mesur y Gymraeg, bydd y Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos sef erbyn 6 Chwefror 2018. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 14/12/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**



Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd ddwy gŵyn gan ddau berson oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd cwyn 1 ar 21 Chwefror 2017. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn e-bost Saesneg yn unig ar 21 Chwefror 2017 gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru yn ei wahodd i gyfarfod gyda Chyfarwyddwr Addysg o Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd cwyn 2 ar 8 Mawrth 2017. Honnai'r achwynydd iddo dderbyn e-bost Saesneg yn unig ar 8 Mawrth 2017 gan un o swyddogion Gweinidogion Cymru yn ymateb i ymholiad iddo gyflwyno dros y ffôn yn Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 2, 5 a 7. 30/11/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 2 Mae safon 2 yn ei wneud yn ofynnol i gorff ofyn i unigolyn a fyddai'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg wrth ohebu ag ef neu hi am y tro cyntaf. Os yw'r unigolyn yn ymateb i ddweud mai ei ddymuniad yw derbyn gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff, mae angen i'r corff gadw cofnod o'r dymuniad hwnnw, a gohebu ag ef neu hi yn Gymraeg o hynny ymlaen. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ddarostyngedig i'r safon hon ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd yr achwynydd e-byst Saesneg yn unig oddi wrth swyddogion Gweinidogion Cymru. Roedd hyn yn groes i'w ddymuniad i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth y sefydliad. Mae'r partion yn gytûn yn yr achosion fod e-byst Saesneg yn unig wedi ei anfon at yr achwynydd er fod cofnod mewn lle o ddymuniad yr achwynydd i dderbyn gohebiaeth Gymraeg gan Weinidogion Cymru. Safon 5 Mae safon 5 yn ei wneud yn ofynnol i gyrff ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth wrth ohebu os nad ydynt yn gwybod a yw person yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Mae felly yn ofynnol i gorff anfon fersiwn Gymraeg o ohebiaeth at berson ar bob achlysur, oni bai eu bod yn ymwybodol o ddewis iaith unigolyn (e.e. drwy wybodaeth a ddarparwyd i'r corff yn unol â safon 2 ac/neu 3.). Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ddarostyngedig i safon 5 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd yr achwynydd e-bost Saesneg yn unig oddi wrth un o swyddogion Gweinidogion Cymru yn ei wahodd i gyfarfod. Roedd hyn yn groes i'w ddymuniad i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth y sefydliad. Mae tystiolaeth Gweinidogion Cymru yn amlygu bod cofnod o ddymuniad

iaith yr achwynydd wedi ei gofnodi ac felly nid yw'r safon hon yn berthnasol bellach i'r ymchwiliad.

Safon 7 Mae safon 7 yn ei wneud yn ofynnol i gorff datgan mewn bob gohebiaeth, gan gynnwys gohebiaeth electronig, eu bod yn croesawu cael gohebiaeth Gymraeg, y byddent yn ymateb yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn ddarostyngedig i safon 7 ers 30 Mawrth 2016. Derbyniodd yr achwynydd e-bost Saesneg yn unig oddi wrth un o swyddogion Gweinidogion Cymru yn ei wahodd i gyfarfod. Nid oedd datganiad ar yr e-bost yn nodi fod modd croeso iddo ohebu yn Gymraeg â'r sefydliad. Mae tystiolaeth Gweinidogion Cymru yn amlygu nad oedd datganiad safonol mewn lle ar lofnodion e-bost safonol eu swyddogion ynghylch croesawu gohebiaeth Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 2 a 7. Ar y sail fod Gweinidogion Cymru yn ymwybodol o ddewis iaith yr achwynydd, nid oedd modd i'r Comisiynydd ddyfarnu ar gydymffurfiaeth â safon 5.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 2 a 7.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 2 a 7 mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd:

Safon 2 - Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth pellach ynghylch gofynion safonau'r

		<p>Gymraeg ar gyfer gohebiaeth gan dargedu'n penodol: - Aelodau o staff sydd yn cael cyswllt rheolaidd gyda aelodau o'r cyhoedd; - Aelodau o staff sydd yn destun cwynion am methiannau i weithredu'r safonau.</p> <p>Safon 7 - Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau fod datganiad safonol ar lofnod e-bost pob un o'i swyddogion yn unol â gofynion safon 7. Mae'r camau uchod i gael ei weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'n derfynol yr adroddiad ar yr ymchwiliad.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 30/11/2017.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Gweinidogion Cymru</u></p>	<p>28/11/2017</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 94 Mae safon 94 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau sy'n sicrhau bod y corff yn ystyried y Gymraeg wrth fynd drwy'r broses o ddyfarnu grant. Darparodd Gweinidogion Cymru ddogfen ganllaw i'w defnyddio wrth ddyfarnu grantiau i gyrff. Mae'r pecyn adnoddau (toolkit) a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru yn cydnabod egwyddorion sylfaenol Mesur y Gymraeg, ond nid yw'r cynnwys yn ddigonol i gyfleu'r hyn sydd angen ei wneud i gydymffurfio â safon 94 drwy ystyried y materion a nodir yn a-ch. Roedd yr achwynydd yn dymuno mynychu'r cwrs a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2016 sef "How to run a Successful Social Media Campaign", ond nid oedd ar gael yn Gymraeg. Nodwyd bod cyrsiau'n cael eu darparu'n ddwyieithog ond nad oedd galw i redeg y cwrs hwn drwy'r Gymraeg. Nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod polisi dyfarnu</p>

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 27/07/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniodd y Comisiynydd honiad gan berson nad oedd hyfforddiant a ddarparwyd gan Hyfforddiant Undeb Cenedlaethol Newyddiadurwyr Cymru (HUCNC) rhwng Mai 2016 – Ionawr 2017, ac a hysbysebwyd ar wefan HUCNC ar gael yn Gymraeg. Honnir fod HUCNC yn derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn eu galluogi i gynnal yr hyfforddiant. Roedd yr achwynydd yn awyddus i fynychu cwrs "How to run a successful social media campaign"

drwy gyfrwng y Gymraeg.  
Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 94.

grantiau Gweinidogion Cymru'n ddigonol, o ran cydymffurfio gyda'r safon dan sylw ar y sail nad oes modd ystyried effeithiau a-ch ar y Gymraeg wrth wneud asesiad.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 94.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 94.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 94 mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd: Safon 94 – gofyniad i Weinidogion Cymru gymryd cam gweithredu, yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg: ' Diwygio'r polisi dyfarnu grant i adlewyrchu gofynion y safon drwy gynnwys arweiniad manwl ar sut i ystyried effeithiau a-ch ar y Gymraeg, fel bod y polisi ei hun yn ddigonol i gyfleu'r hyn sydd angen ei wneud i gydymffurfio â'r safon. Mae'r cam hwn i gael ei weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r derfynol yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 28/11/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 12/01/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y

21/11/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 2 Mae safon 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, wrth ohebu ag unigolyn am y tro cyntaf ar ôl y diwrnod gosod ar

Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gwasanaethau Cyllid Myfyrwyr Cymru. Nodai'r gŵyn fod yr achwynydd wedi derbyn llythyr â'r teitl 'Financial evidence needed for tax year 2014-15' oddi wrth Gyllid Myfyrwyr Cymru yn Saesneg yn unig, ar 05/01/2017. Yn ogystal, derbyniodd yr achwynydd ffurflen â'r teitl 'Evidence Return Form' oddi wrth Gyllid Myfyrwyr Cymru yn Saesneg yn unig, ar 05/01/2017. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 2, 5, 7 a 50.

gyfer y safon, ofyn i'r unigolyn a yw'n dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff. Nid y llythyr a anfonwyd at yr achwynydd ar 05/01/2017 oedd y tro cyntaf i Gyllid Myfyrwyr Cymru ohebu â'r achwynydd ar ôl y diwrnod gosod ar gyfer safon 2. Dim wrth ohebu ag unigolyn am y tro cyntaf y mae safon 2 yn berthnasol, ac felly nid yw safon 2 yn berthnasol yn yr achos hwn. Safon 5 Mae safon 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth wrth ohebu â pherson, os nad ydynt yn gwybod a yw'r person hwnnw'n dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg. Fodd bynnag, ni ddarparwyd fersiwn Gymraeg o'r llythyr a anfonodd Cyllid Myfyrwyr Cymru at yr achwynydd ar 05/01/2017, er nad oedd Cyllid Myfyrwyr Cymru'n ymwybodol ar y pryd a oedd yr achwynydd yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg. Safon 7 Mae safon 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan mewn gohebiaeth y byddant yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddant yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fodd bynnag, nid oedd y llythyr a anfonwyd at yr achwynydd ar 05/01/2017 yn cynnwys datganiad o'r fath. Safon 50 Mae safon 50 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ffurflenni y mae Gweinidogion Cymru yn eu llunio at ddefnydd y cyhoedd gael eu llunio yn Gymraeg. Nid yw ffurflen 'Evidence Return Form' Cyllid Myfyrwyr Cymru, a anfonwyd at yr achwynydd ar 05/01/2017, wedi ei llunio yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5, 7 a 50.

Dyfarnwyd nad yw Gweinidogion Cymru wedu methu â chydymffurfio â safon 2.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 5, 7 a 50.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 5, 7 a 50 mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd:

Safon 5 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 5 mewn perthynas â gohebiaeth a anfonir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau.

Safon 7 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 7 mewn perthynas â gohebiaeth a anfonir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau.

Safon 50 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn

		<p>dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 50 mewn perthynas â ffurflenni a lunnir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau. Dylai Gweinidogion Cymru baratoi'r cynlluniau gweithredu drafft cyntaf o fewn 40 diwrnod o ddyddiad hysbysiad penderfynu yr achos hwn sef erbyn 03/01/2018. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/11/2017.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Gweinidogion Cymru</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 05/01/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gwasanaethau Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig. Nodai'r gŵyn fod yr achwynydd wedi derbyn llythyr â'r teitl 'Action required – complete the enclosed form to update your current employment status' oddi wrth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn Saesneg yn unig, ar 09/12/2016. Yn ogystal,</p> <p>21/11/2017</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 2 Mae safon 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff, wrth ohebu ag unigolyn am y tro cyntaf ar ôl y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ofyn i'r unigolyn a yw'n dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff. Yn yr achos hwn, wrth anfon llythyr dyddiedig 09/12/2016 at yr achwynydd, roedd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gohebu â'r achwynydd am y tro cyntaf ers y diwrnod gosod ar gyfer safon 2, sef 30/03/2016. Ni wnaeth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ofyn i'r achwynydd a oedd yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y corff. Safon 5 Roedd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ymwybodol o ddewis iaith yr achwynydd wrth anfon y llythyr ati ar 09/12/2016. Dim ond i</p>



honnodd yr achwynydd ei bod wedi derbyn ffurflen â'r teitl 'Confirmation of Customer Details Form' oddi wrth y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn Saesneg yn unig, ar 09/12/2016. Ymhelaethodd yr achwynydd gan honni nad yw gwefan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (<http://www.slc.co.uk/>) ar gael yn Gymraeg ac yn olaf, nad oedd modd i'r achwynydd siarad Cymraeg â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar y ffôn wrth ffonio 0300 100 0611 am 16:24 ar 05/01/2017. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 2, 5, 7, 8, 9, 10, 50 a 52.

sefyllfaoedd lle nad yw corff yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrtho yn Gymraeg y mae safon 5 yn berthnasol, ac felly nid yw safon 5 yn berthnasol yn yr achos hwn.

Safon 7 Mae safon 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan mewn gohebiaeth eu bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddant yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fodd bynnag, nid oedd y llythyr a anfonwyd at yr achwynydd ar 09/12/2016 yn cynnwys datganiad o'r fath.

Safon 8 Mae safon 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyfarch galwyr sy'n ffonio un o'i brif rifau ffôn yn Gymraeg. Ni chafodd yr achwynydd ei chyfarch yn Gymraeg pan wnaeth hi ffonio prif rif ffôn y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am 16:24 ar 05/01/2017, a hynny oherwydd nad yw'r system adnabod llais sy'n weithredol ar ddechrau pob galwad yn cyfarch galwyr yn Gymraeg.

Safon 9 Mae safon 9 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod i unrhyw berson sy'n cysylltu â Gweinidogion Cymru ar un o'u prif rifau ffôn fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Fel arfer gyda galwadau i brif rif ffôn y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, rhoddir gwybod i alwyr o Gymru fod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar ôl eu hadnabod ar sail rhif cwsmer, ond ni ddigwyddodd hyn yn yr achos hwn gan na wnaeth yr achwynydd fewnbynnu ei rhif cwsmer. Rhoddodd y cynghorydd cwsmer wybod i'r achwynydd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ond gwnaed hynny'n hwyr yn yr alwad.

Safon 10 Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddelio â galwadau i un o'i brif rifau ffôn yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd os yw'r galwr yn dymuno



hynny. Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylid sefydlu ar y cyfle cyntaf posibl a yw'r person yn dymuno derbyn gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn. Fel arfer gyda galwadau i brif rif ffôn y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, sefydlir a yw galwyr o Gymru'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg ar ôl eu hadnabod ar sail rhif cwsmer, ond ni ddigwyddodd hyn yn yr achos hwn gan na wnaeth yr achwynydd fewnbynnu ei rhif cwsmer. Yn ogystal, mae system adnabod llais yn cyfarch galwyr ac yn eu cyfarwyddo i roi eu rhif cwsmer yn Saesneg. Golyga hyn fod rhan gyntaf yr alwad yn digwydd yn Saesneg, ac nad oes opsiwn i newid hynny.

Safon 50 Mae safon 50 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ffurflenni y mae Gweinidogion Cymru yn eu llunio at ddefnydd y cyhoedd gael eu llunio yn Gymraeg. Nid yw ffurflen 'Confirmation of Customer Details' y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, a anfonwyd at yr achwynydd ar 09/12/2016, wedi ei llunio yn Gymraeg.

Safon 52 Mae safon 52 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod pob tudalen ar wefannau y maent yn gyfrifol amdanynt ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg, ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y gwefannau hynny Nid oes unrhyw dudalennau ar wefan gorfforaethol y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, sef [www.sl.c.co.uk](http://www.sl.c.co.uk), ar gael yn Gymraeg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 2, 7, 8, 10, 50 a 52. Dyfarnwyd nad yw Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 5 a 9.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 2, 7, 8, 10, 50 a 52.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 2, 7, 8, 10, 50 a 52, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd:

Safon 2 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 2 mewn perthynas â gohebiaeth a anfonir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau.

Safon 7 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 7 mewn perthynas â gohebiaeth a anfonir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau.

Safon 8 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn

cydymffurfio â safon 8 mewn perthynas â galwadau i brif rif ffôn y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr sydd yn cael eu gwneud o linellau ffôn cartref yn ogystal â ffônau symudol. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau.

Safon 10 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 10 mewn perthynas â galwadau i brif rif ffôn Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau.

Safon 50 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 50 mewn perthynas â ffurflenni a lunnir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu,, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau.

Safon 52 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun gweithredu a fydd yn

		<p>dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â gwefannau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Dylai Gweinidogion Cymru seilio'r cynllun gweithredu ar y sylwadau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig ar gyfer yr achos hwn, a dylai gynnwys dyddiad ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu, ynghyd â phenodi person cyfrifol ar gyfer gweithredu'r camau. Dylai Gweinidogion Cymru baratoi'r cynlluniau gweithredu drafft cyntaf o fewn 40 diwrnod o ddyddiad hysbysiad penderfynu yr achos hwn sef erbyn 03/01/2018. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynlluniau gweithredu.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 21/11/2017.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Gweinidogion Cymru</u></p> <p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 30/03/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud ag arwyddion ffordd ar draffordd yr M4. Honnodd yr achwynydd iddo weld testun Saesneg wedi ei osod uwchlaw'r testun Gymraeg cyfatebol ar sgriniau matrices ar y draffordd rhwng cyffordd 44 a 42. Roedd yr achwynydd yn teithio i gyfeiriad y dwyrain ar 30 Mawrth, 2016 pan welodd yr arwyddion dan sylw. Roedd</p>	<p>21/11/2017</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 61 Mae safon 61 yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliad sicrhau bod unrhyw arwyddion newydd neu ddiwygiedig yn cael eu harddangos yn Gymraeg, ac na chaiff y testun Cymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg ar yr arwyddion hynny. Trwy arddangos neges uniaith Saesneg ar arwydd ar allanfa cyffordd 42 ar 4 Ebrill, 2016 mae Gweinidogion Cymru wedi methu ag arddangos arwydd yn Gymraeg ac felly wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Trwy arddangos yr arwydd dan sylw fe fethodd Gweinidogion Cymru â chydymffurfio a safon 61. Safon 62 Mae safon 62 yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliad sicrhau bod testun Cymraeg arwyddion parhaol a</p>

yr arwyddion yn arddangos 'P+RIDE J42' ar y linell gyntaf a 'P+TEITHIO' ar yr ail linell. Honnodd hefyd iddo weld arwydd wrth allanfa cyffordd 42 ar 4 Ebrill, 2016 wrth deithio i gyfeiriad y dwyrain oedd yr arddangos y testun 'Congestion Slow Down' yn Saesneg yn unig. Honnodd bod arwyddion dros dro oedd yn ymwneud â gwaith ffordd dros nos yn parhau i arddangos gwybodaeth gyda'r testun Saesneg yn gyntaf ar 5 Ebrill, 2016. Darparodd yr achwynydd ddolen at dudalen ym ymwneud ag arwyddion gwybodaeth ar wefan Traffig Cymru gan nodi bod y dudalen yn dangos bod testun Saesneg yn ymddangos o flaen y Gymraeg ar arwyddion gwybodaeth ar briffyrdd yng Nghymru.

dros dro, a gaiff eu harddangos o'r newydd neu a gaiff eu hadnewyddu o'r diwrnod gosod ymlaen, yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Pwrpas y safon yw sicrhau, pan fo'r un wybodaeth yn cael ei gyfleu yn Gymraeg a Saesneg, bod y Gymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Cred y Comisiynydd nad yw testun Cymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf os yw'r testun hwnnw islaw testun Saesneg. Ystyriodd y Comisiynydd a oedd yr arwydd dan sylw yn un newydd ai peidio. Cred bod arwydd newydd yn cael ei osod bob tro mae testun yn ymddangos o'r newydd ar arwydd gwybodaeth electronig. Oherwydd gwendid gyda'r caledwedd oedd yn cynnal yr arwydd dan sylw, cafodd testun Saesneg ei osod uwchlaw'r testun Cymraeg cyfatebol ar arwydd gwybodaeth electronig ar draffordd yr M4 ar 30 Mawrth, 2016. O ganlyniad, fe fethodd Gweinidogion Cymru a rhoi'r Gymraeg mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ar yr arwydd.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 61 a 62.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau 61 a 62.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 61 Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau, pan arddangosir testun ar arwyddion negeseuon amrywiol, bod y testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg (boed ar yr un arwydd â'r Saesneg neu ar wahân mewn pâr

		<p>o arwyddion), ac eithrio arwyddion sydd yn ddarostyngedig i Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 (Rheoliadau 2016) . O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p>Safon 62 Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod arwyddion negeseuon amrywiol yn gallu arddangos testun Cymraeg uwchlaw'r Saesneg pan fo'r ddwy iaith ar yr un arwydd er mwyn cydymffurfio â safon 62. O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i sicrhau bod arwyddion dros dro yn arddangos testun Cymraeg uwchlaw'r testun Saesneg er mwyn cydymffurfio a safon 62. O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar y 21/11/2017.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Dinas a Sir Abertawe</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 07/03/2017 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod yr achwynydd wedi derbyn ateb yn Saesneg i e-bost a anfonodd yn Gymraeg ar 7 Mawrth 2017. Cafodd yr ateb ei anfon am 19.31 o'r gloch ar yr un dyddiad gan aelod o staff Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor).</p> <p>15/11/2017</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 1 Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ateb gohebiaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg, yn Gymraeg, oes angen ateb ar yr ohebiaeth. Ar yr achlysur hwn fe fethodd y Cyngor ag ateb yn Gymraeg i ddarn o ohebiaeth - neges e-bost - a ysgrifennwyd yn Gymraeg ac oedd angen ateb. Trwy fethu ag ateb yr ohebiaeth dan sylw yn Gymraeg fe fethodd y Cyngor â chydymffurfio â safon 1. Safon 7 O ganlyniad i safon 7 mae'n ofynnol i unrhyw ohebiaeth a gynhyrchir gan y Cyngor ddatgan ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd yn gohebu yn Gymraeg yn arwain</p>

at oedi. Nid oedd yr ohebiaeth dan sylw - ateb a anfonwyd ar ffurf e-bost gan aelod o staff y Cyngor - yn cynnwys datganiad o'r fath. Trwy fethu â datgan mewn gohebiaeth ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd yn gohebu Gymraeg yn arwain at oedi methodd y Cyngor â chydymffurfio â safon 7.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safonau 1 a 7.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Sir a Dinas Abertawe i gydymffurfio a safon 1 a 7.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 1 Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ateb pob gohebiaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg, yn Gymraeg, oes angen ateb ar yr ohebiaeth o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Safon 7 Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn datgan mewn gohebiaeth (a cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu ohebiaeth ato) ei fod yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, y bydd yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd yn gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae hyn yn cynnwys ymwadiadau safonol sy'n rhan o ohebiaeth e-bost o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Sir a Dinas Abertawe ar y 15/11/2017.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd yr achwynydd fod y meicrowefan ar gyfer galluogi unigolion i chwilio am geisiadau cynllunio cyfredol (a hanesyddol) gan y Cyngor ddim ar gael yn Gymraeg ac nad oedd modd chwilio am geisiadau cynllunio ar y tudalennau Saesneg wrth ddefnyddio enwau strydoedd neu dermau Cymraeg. Nodai'r achwynydd ei fod wedi dilyn doler o dudalen Gymraeg o brif wefan Cyngor Dinas Caerdydd. Mae gwybodaeth gyffredinol am broses ceisiadau cynllunio ar gael ar y brif wefan yn Gymraeg, ond mae'r ddolen ar gyfer dilyn ceisiadau ac ati fel y disgrifiwyd yn yn arwain at y dudalen darganfod ceisiadau uchod sydd yn Saesneg yn unig. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 52, 55 a 56.

17/10/2017

## **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 52 Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, rwy'n casglu nad ydy'r meicrowefan hon ar gael yn Gymraeg yn groes i ofynion y safon. Safon 55 Wrth ystyried y dystiolaeth derbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, rwy'n casglu fod y meicrowefan Saesneg yn unig ac felly nid yw'r safon hon bellach yn berthnasol i'r ymchwiliad.

Safon 56 Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, rwy'n casglu nad yw rhyngwyneb a dewislenni Cymraeg ar gael ar y meicrowefan hon.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 52 a 56. Dyfarnwyd nad oedd y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 55.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd baratoi cynllun gweithredu at y diben o sicrhau fod y meicrowefan [www.planning.cardiff.gov.uk/online-applications](http://www.planning.cardiff.gov.uk/online-applications) ar gael yn Gymraeg. Amserlen: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd cyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol a gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 90 diwrnod o dderbyn y hysbysiad penderfynu terfynol.



Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnai'r achwynydd ei fod wedi derbyn ymateb Saesneg yn unig i gais rhyddid gwybodaeth a gyflwynwyd yn Gymraeg at gyfrif e-bost [foi@caerdydd.gov.uk](mailto:foi@caerdydd.gov.uk). Mewn diweddariad nododd yr achwynydd iddo dderbyn ymateb Cymraeg yn dilyn cyflwyno cwyn uniongyrchol i'r Cyngor ar yr un pryd â'r gŵyn hon. Honnai'r achwynydd fodd bynnag fod cyflwyno'r cais gwreiddiol yn Gymraeg wedi arwain at oedi wrth dderbyn ymateb yn ei ddewis iaith ac felly fod y cais Cymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na fyddai cais a gyflwynwyd yn Saesneg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1.

17/10/2017

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 17/10/2017.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1 Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, rwy'n casglu fod ymateb Saesneg wedi anfon i ohebiaeth Gymraeg yn yr achos hwn, ac yn ogystal fod oedi wrth gyflwyno ymateb Cymraeg yn golygu fod y Gymraeg wedi cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn yr achos hwn.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd sicrhau fod gweithdrefnau cadarn mewn lle fel ei bod yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir mewn perthynas â cheisiadau rhyddid gwybodaeth.

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd sicrhau nad yw cyflwyno cais rhyddid gwybodaeth yn Gymraeg yn arwain at oedi i'r ymgeisydd ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ymdrin â cheisiadau. Mae'r cam gorfodi yn weithredol o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn Hysbysiad Penderfynu terfynol yr achos hwn.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Rhondda  
Cynon Taf

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 24/11/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â honiad bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu ag ateb neges e-bost a ysgrifennwyd ganddi yn Gymraeg. Roedd yr e-bost yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Rhondda Cynon Taf. Roedd yn gofyn pa ffurflenni oedd eu hangen ar yr achwynydd er mwyn rhoi gwybod am newid yn ei hamgylchiadau. Cafodd ei anfon at y cyfeiriad pensions@rctcbc.gov.uk am 20:36 ar 29 Medi 2016. Honnodd hefyd ei bod wedi anfon ail e-bost i'r un cyfeiriad am 20:37 ar 8 Tachwedd 2016. Yn y neges honno fe gwynodd nad oedd wedi derbyn ateb i'w hymholiad gwreiddiol a bod neges yn cydnabod ei hymholiad wedi ei hysgrifennu'n Saesneg.

16/10/2017

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 17/10/2017.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1 Mae'n safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ateb gohebiaeth sydd wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg, yn Gymraeg, os oes angen ateb ar yr ohebiaeth honno. Yn yr achos hwn fe fethodd y Cyngor ag ymateb yn brydlon i ohebiaeth oedd wedi'i hysgrifennu'n Gymraeg ac oedd yn gofyn am ateb. Serch hynny nid yw'r dystiolaeth a gafwyd yn dangos mai'r rheswm am yr oedi oedd methiant ar ran y Cyngor i baratoi ateb yn Gymraeg i ohebiaeth yr achwynydd. Yn hyn o beth canfu'r Comisiynydd na fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio a safon 1. Fodd bynnag, fe wnaeth yr ymchwiliad hwn adnabod mai Saesneg oedd iaith y gydnabyddiaeth safonol sy'n cael ei anfon, yn awtomatig, mewn ymateb i ohebiaeth electronig. Nid yw'r Cyngor o'r farn mai ateb i ymholiad, yng nghydestun safon 1, yw'r gydnabyddiaeth ond yn hytrach cofnod cwrtais o dderbyn gohebiaeth. Nid yw'r Comisiynydd yn anghytuno â'r disgrifiad hwn, ond, dadleua mai dim ond mewn ymateb i dderbyn tamaid o ohebiaeth caiff y gydnabyddiaeth ei chynhyrchu ac, o ganlyniad, y dylid ei hystyried yn ateb. Sylweddola'r Comisiynydd nad yw'n bosib teilwra cynnwys y gydnabyddiaeth i ddewis iaith y derbynnydd cyn iddi gael ei hanfon. Mae'r Comisiynydd felly o'r farn y dylai'r cynnwys fod yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 1 – er nad yw hynny'n golygu mai'n yn Gymraeg yn unig y dylai fod – ac y methodd y Cyngor â chydymffurfio â'r safon yn hyn o beth.

		<p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 1.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b> Gweithredwyd ymhellach yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gydymffurfio â safon 1.</p> <p><b>Datganiad ar y gweithredu pellach</b> Safon 1 Rhaid i'r Cyngor Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf barhau i sicrhau bod unrhyw negeseuon sy'n cydnabod derbyn gohebiaeth a anfonir at y cyfeiriad pensions@rctcbc.gov.uk yn ddwyieithog. O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar y 16/10/2017.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor</u> <u>Caerdydd</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd yr achwynydd bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar beiriannau hunanwasanaeth Llyfrgell Ganolog Caerdydd gan fod y peiriant wedi ei osod gyda'r Saesneg fel yr iaith ddiodyfyn, a bod rhaid pwyso botwm bach ar waelod tudalen gartref y peiriant i gael dewis gwasanaeth</p> <p>3/10/2017</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Safon 60 Wrth osod y Saesneg fel iaith diodyfyn peiriannau hunan wasanaeth yn y llyfrgell ganolog ac yn y meysydd parcio, a drwy beidio â chynnig dewis Cymraeg yn rhagweithiol, roedd y peiriannau hunanwasanaeth a ddefnyddiodd yr achwynydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 60.</p> <p><b>Datganiad gweithredu pellach</b></p>

Cymraeg. Roedd yr achwynydd hefyd yn honni bod peiriannau prynu tocyn parcio ym meysydd parcio y ddinas sydd dan reolaeth Cyngor Dinas Caerdydd yn dangos testun Saesneg ar y sgrin fel iaith ddiodyn a bod rhaid pwyso botwm i weld i gael derbyn gwasanaeth Cymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 60.

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd sicrhau fod pob peiriant hunan wasanaeth y mae'n gyfrifol amdano gynnig dewis iaith cyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar dudalen flaen y peiriannau, neu osod y Gymraeg fel iaith ddiodyn y peiriant. Mae'r camau hyn i gael eu gweithredu o fewn 6 mis o ddyddiad cyflwyno'n derfynol yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 03/10/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar yr 21 o Orffennaf 2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd gan ei fod yn anfodlon ei fod wedi gorfod aros yn hirach na'r terfyn amser arferol ar gyfer cael ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Cyflwynodd yr achwynydd ei gais am wybodaeth ar 14 Mehefin 2016. Y terfyn amser ar gyfer ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yw 20 diwrnod gwaith sef, yn yr

26/9/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1 Er na lwyddodd y Cyngor i ymateb i'r cais am wybodaeth o fewn y terfyn amser sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000 nid oes tystiolaeth i awgrymu mae iaith cyflwyno'r cais oedd y rheswm dros yr oedi. Ni lwyddodd y Cyngor i ymateb i 106 o geisiadau am wybodaeth yn Saesneg o fewn y terfyn amser yn ystod yr un cyfnod ychwaith. Esboniodd y Cyngor mai camgymeriad dynol a arweiniodd at y methiant i ymateb o fewn y terfyn amser i'r cais dan sylw yn hytrach na phroblem systemig ac o ystyried y nifer o geisiadau Saesneg na dderbyniodd ymateb ychwaith yna mae'r Comisiynydd yn fodlon nad problem gyda gwasanaeth Cymraeg y Cyngor a adlewyrchir yma.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-  
nedd Port  
Talbot

achos yma, 12 Gorffennaf 2016. Derbyniodd yr achwynydd ymateb y Cyngor i'w gais am wybodaeth ar 1 Awst 2016 sef 34 diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno'r cais. Roedd yr achwynydd o'r farn bod yr oedi oherwydd iddo gyflwyno'r cais yn Gymraeg.

Safon 7 Drwy gynnwys y datganiad "Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni" yn ei ohebiaeth mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda safon 7 yn yr achos yma.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 7.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Mae adran 76 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i'r Comisiynydd weithredu ymhellach lle na fu methiant i gydymffurfio â safon, ac adran 77 yn caniatáu i'r Comisiynydd weithredu ymhellach lle bu methiant.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi methu â chydymffurfio â safon 1 a 7, ni fydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 26/09/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### Gweinidogion Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 21/12/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn ynghylch e-bost cydnabod gohebiaeth safonol a anfonwyd at berson, wedi iddi ohebu ag un o Weinidogion Cymru ar 8 Rhagfyr 2016 yn Gymraeg. Honnir fod

15/8/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1 Mae safon 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg. Mae'r partïon yn gytûn fod yr achwynydd wedi derbyn ymateb cydnabod e-bost safonol Saesneg yn unig i ohebiaeth anfonwyd yn y Gymraeg at un o Weinidogion Cymru ar 8 Rhagfyr 2016. Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a

yr e-bost ymateb safonol a anfonwyd yn Saesneg yn unig. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 1.

Gweinidogion Cymru, mae'r Comisiynydd o'r farn fod Gweinidogion Cymru wedi anfon ymateb Saesneg i ohebiaeth Cymraeg yn yr achos hwn, yn groes i ofynion safon 1.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 1, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd:

Safon 1 Rhaid i Weinidogion Cymru barhau â'i drefniadau ar gyfer sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â gohebiaeth ebost; gan fonitro ac adolygu'r trefniadau hynny'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae'r cam gorfodi yma yn weithredol 28 diwrnod o ddyddiad derbyn yr adroddiad a hysbysiad penderfynu terfynol yr ymchwiliad hwn.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 15/08/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 31/12/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y

15/8/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 60 Casglodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu a chydymffurfio â safon 60 yn yr

## Sirol Wreccsam

Gymraeg. Mae dwy elfen i'r gŵyn. Yn gyntaf, honnai'r achwynydd fod arwydd uniaith Saesneg wedi ei osod ar beiriannau hunanwasanaeth talu ac arddangos newydd yn Wreccsam. Darparwyd llun sy'n dangos fod yr arwyddion yn rhai dros dro er mwyn rhybuddio'r cyhoedd nad yw'r peiriannau eto yn weithredol. Yn ogystal, honnai'r achwynydd nad oedd y peiriannau hunanwasanaeth newydd dan sylw yn gweithredu yn llawn yn y Gymraeg; fod y cyfarwyddiadau ar y peiriant yn uniaith Saesneg ac mai Saesneg oedd iaith ddiodyn sgrin y peiriant. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam i gydymffurfio â safon 60, 61 a 62.

achos hwn ar y sail fod y peiriannau hunanwasanaeth talu ac arddangos am barcio yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y sgrin ddigidol wedi rhagosod i'r Saesneg fel iaith ddiodyn.

Safon 61 Casglodd y Comisiynydd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu a chydymffurfio â safon 61 yn yr achos hwn ar y sail fod arwydd dros dro Saesneg yn unig wedi ei osod. Safon 62 O ganlyniad i ddyfarniad y Comisiynydd fod methiant i gydymffurfio â safon 61 ar y sail fod yr arwydd yn Saesneg yn unig, nid oes modd i'r Comisiynydd ddyfarnu ar gydymffurfiaeth â safon 62.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi methu â chydymffurfio â safon 60 a 61.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam i gydymffurfio â safon 60 a 61.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Safon 60 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam sicrhau fod pob peiriant hunanwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano un ai gynnig dewis iaith gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar dudalen flaen y peiriannau; neu ragosod y Gymraeg ar y peiriant fel nad yw'r Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam cadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 180 diwrnod o dderbyn adroddiad terfynol yr ymchwiliad; ei bod wedi cwblhau'r camau uchod.

Safon 61 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, o fewn 90 diwrnod gwaith o ddyddiad yr adroddiad terfynol (sef erbyn 19 Rhagfyr 2017), cynnal adolygiad o arwyddion



Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Natur y gŵyn oedd bod camgymeriadau a gwallau iaith ar arwydd Cymraeg ym maes parcio Severn Grove, Treganna, Caerdydd. Honnodd yr achwynydd fod yr arwyddion yn cynnwys testun Cymraeg nad oedd yn gyfieithiad gramadegol cywir nac yn synhwyrol o ran ystyr. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 63.

26/7/2017

mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano yn ei meysydd parcio i sicrhau ei bod yn cydymffurfio a gofynion safon 61. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cadarnhau yn ysgrifenedig ei bod wedi cwblhau'r cam gorfodi hyn, 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r cyfnod gweithredu dod i ben.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 15/08/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 63 Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio gyda safon 63 yn yr achos hwn. Mae hyn ar y sail nad oedd y testun Cymraeg ar arwyddion ym meysydd parcio'r ddinas yn gywir o ran ystyr a mynegiant yn y cyfnod rhwng y diwrnod gosod y safon a 6 Chwefror 2017.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 63.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd arolygu holl arwyddion ei feysydd parcio. Pan fydd yr arolygiad yn canfod arwyddion gwallus, rhaid i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau fod yr



Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd yr achwynydd iddo anfon neges e-bost yn Gymraeg i'r cyfrif e-bost pensions@cardiff.gov.uk ac iddo dderbyn ymateb uniaith Saesneg ar 23 Ionawr 2017. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 1.

26/7/2017

arwydd yn cael ei adnewyddu i sicrhau fod y testun Cymraeg yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd cadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 60 diwrnod ei bod wedi cwblhau'r cam gorfodi hwn.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 26/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 1 Wrth ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor, mae'r Comisiynydd o'r farn fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi anfon ymateb Saesneg i ohebiaeth Cymraeg yn yr achos hwn, yn groes i ofynion safon 1.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 1.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd barhau â'i drefniadau ar gyfer sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas a ohebiaeth; gan monitro a adolygu'r trefniadau hynny'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae'r cam gorfodi yma yn weithredol 28 diwrnod ar ôl derbyn yr adroddiad terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Dinas a Sir Abertawe, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Mawrth 2016. Roedd yr ymateb yn nodi nad oedd y Cyngor yn cynnig unrhyw wersi nofio yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r

25/7/2017

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 26/07/2017.

### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn perthynas â gwersi nofio, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 81 yn berthnasol.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar unrhyw lefel, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gws mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 81 ac 86.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 81 Pan fydd y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 81 mewn perthynas â'r gwasanaeth Cymraeg. Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny. Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu. Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**  
Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**  
Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Blaenau  
Gwent

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o

25/7/2017

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn

awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Mai 2016. Roedd yr ymateb yn nodi nad oedd y Cyngor yn cynnig unrhyw wersi nofio yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth

perthynas â gwersi nofio, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 81 yn berthnasol.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar unrhyw lefel, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 81 ac 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

Safon 81 Pan fydd y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 81 mewn perthynas â'r gwasanaeth Cymraeg. Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny. Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu. Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bro Morgannwg. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail fod y person sy'n cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar ei ran yn hybu'r gwersi ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi

Cyngor Bro Morgannwg

dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bro Morgannwg, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Mawrth 2016. Roedd yr ymateb yn nodi nad oedd gan y Cyngor unrhyw hyfforddwyr nofio a allai gynnig gwersi nofio yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a

nofio yn Cymraeg ar rai lefelau, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefelau hynny yn Saesneg. Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84. Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 81 ac 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd Cyngor Bro Morgannwg wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Bro Morgannwg i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 81 Dylai'r Cyngor ystyried, yng ngoleuni ei gyfrifoldeb i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, cymryd camau drosto'i hun i hybu'r gwersi nofio y mae'n eu cynnig yn Gymraeg, a chymhell ei ddarparu'r gwasanaethau hamdden i wneud hynny hefyd.

Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny.

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa



osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Dinas Caerdydd. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Dinas Caerdydd, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail fod y personau sy'n cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar ei ran yn hybu'r gwersi ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar rai lefelau, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefelau hynny yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw wedi cyhoeddi ar ei wefan asesiad o'r angen i gyrsiau a ddatblygwyd gael eu cynnig yn Gymraeg.

Cyngor  
Caerdydd

gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Mawrth 2016. Yn nhŷb yr ymholydd nid oedd ymateb y Cyngor yn darparu sicrwydd digonol ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84 ac 86.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi methu â chydymffurfio a safon 84 ac 86, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Dinas Caerdydd i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 81 Dylai'r Cyngor ystyried, yng ngoleuni ei gyfrifoldeb i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, cymryd camau drosto'i hun i hybu'r gwersi nofio y mae'n eu cynnig yn Gymraeg.

Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny.

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Caerffili

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Mawrth 2016. Roedd yr ymateb yn nodi bod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio Cymraeg mewn un lleoliad, a

25/7/2017

Safon 86 Dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â safon 86 mewn perthynas â'r cyrsiau y nodwyd iddynt gael eu datblygu ers 30/03/2016, ac unrhyw gyrsiau a ddatblygir yn y dyfodol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor wedi hysbysebu'r gwersi nofio a gynigir yn Gymraeg yn Saesneg yn unig.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar rai lefelau, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefelau hynny yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrws mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 a 84.

hynny'n ddibynnol ar y gallu. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi methu â chydymffurfio a safon 81 ac 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 81 Dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â safon 81.

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu. Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor Sir  
Gâr

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Gâr. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Sir Gâr, derbyniodd y Comisiynydd gopi o gofnod o ymateb y Cyngor i ymholiad llafar ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Roedd aelod o'r cyhoedd wedi holi am y gwersi nofio mewn cyfarfod ag aelod o staff y Cyngor fis Ebrill 2016. Roedd yr ymateb yn nodi bod rhai gwersi nofio ar gael yn Gymraeg, ond roedd amheuaeth ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg ar rai lefelau. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn

25/7/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor yn hybu'r gwersi nofio Cymraeg ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar rai lefelau, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefelau hynny yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 a 86.

**Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Sir Gâr gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

Safon 81 Dylai'r Cyngor ystyried tynnu sylw o fewn amserlenni unigol, ac ar dudalennau canolfannau hamdden unigol, at y ffaith fod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg.

Dylai'r Cyngor hefyd roi sylw i'r angen i gydymffurfio â safon 82.

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd. Darparwyd

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn perthynas â gwersi nofio, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 81 yn berthnasol.

tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Dinas Casnewydd, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Ebrill 2016. Roedd yr ymateb yn nodi nad oedd y Cyngor yn cynnig unrhyw wersi nofio yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar unrhyw lefel, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor wedi datblygu cyrsiau gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac heb gynnal asesiad yn unol â safon 86.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84 a 86.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi methu â chydymffurfio a safon 84 ac 86, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Dinas Casnewydd i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 81 Pan fydd y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 81 mewn perthynas â'r gwasanaeth Cymraeg.

Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny.

osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 a 86.

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

Safon 86 Dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â safon 86 mewn perthynas â'r cyrsiau y nodwyd iddynt gael eu datblygu ers 30/03/2016, ac unrhyw gyrsiau a ddatblygir yn y dyfodol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Conwy

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn nodi bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg wrth hybu a hysbysebu'r gwersi nofio.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar gyfer pob un o'r lefelau y mae'n cynnig gwersi nofio yn Saesneg ar eu cyfer.



gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Mai 2016. Roedd yr ymateb yn nodi bod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg mewn un lleoliad, ond mai yn Saesneg yn unig y cynhelid gwersi nofio mewn lleoliadau eraill fel arfer. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84 ac 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi methu â chydymffurfio a safon 81, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 81 Dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â safon 81.

Safon 84 Gyda golwg ar y ffaith fod nifer llai o wersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg nag yn Saesneg, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddarpariaeth yn peri anfantais afresymol i unigolion sy'n dymuno derbyn gwersi nofio yn Gymraeg o gymharu â rhai sy'n dymuno derbyn gwersi nofio yn Saesneg. Gyda golwg ar y ffaith fod y Cyngor yn cynnig rhai gwersi nofio'n ddwyieithog, dylai'r Cyngor sicrhau na

Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 a 86.

chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn gwersi a gynigir yn ddwyieithog.

Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Sir Ddinbych, derbyniodd y Comisiynydd gopi o gofnod o ymateb y Cyngor i ymholiad llafar ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Roedd aelod o'r cyhoedd wedi holi am y gwersi mewn sgwrs ffôn ag aelod o staff y Cyngor fis Ebrill 2016. Roedd yr ymateb yn nodi y byddai'n bosibl i'r

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn nodi bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg wrth hybu a hysbysebu'r gwersi nofio.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar gyfer pob un o'r lefelau y mae'n cynnig gwersi nofio yn Saesneg ar eu cyfer.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

Cyngor Sir  
Ddinbych



Cyngor gynnig gwersi dwyieithog, ond nid rhai Cymraeg yn unig. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi nad oedd y Cyngor yn ystyried bod gofyniad statudol i gynnig gwersi nofio yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cyngorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81 ac 84.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Sir Ddinbych wedi methu â chydymffurfio a safon 81, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Sir Ddinbych i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 81 Dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â safon 81.

Safon 84 Gyda golwg ar y ffaith fod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg mewn llai o leoliadau nag yn Saesneg, a bod nifer llai o wersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg nag yn Saesneg, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddarpariaeth yn peri anfantais afresymol i unigolion sy'n dymuno derbyn gwersi nofio yn Gymraeg o gymharu â rhai sy'n dymuno derbyn gwersi nofio yn Saesneg. Gyda golwg ar y ffaith fod y Cyngor yn cynnig rhai gwersi nofio'n ddwyieithog, dylai'r Cyngor sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn gwersi a gynigir yn ddwyieithog.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Gwynedd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau

25/7/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Gwynedd. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Gwynedd, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymatebion y Cyngor i ymholiadau ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiadau dros e-bost gan aelodau o'r cyhoedd fis Mawrth 2016. Roedd yr ymatebion yn nodi bod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio Cymraeg mewn nifer o leoliadau, ond roedd amheuaeth ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg mewn lleoliadau eraill. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn nodi bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg wrth hybu a hysbysebu'r gwersi nofio. Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar gyfer pob un o'r lefelau y mae'n cynnig gwersi nofio ar eu cyfer.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Gwynedd wedi methu â chydymffurfio a safon 81, bydd y

Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Gwynedd i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 81 Dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â safon 81.

Safon 84 Gyda golwg ar y ffaith fod y Cyngor yn cynnig rhai gwersi nofio'n ddwyieithog, dylai'r Cyngor sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn gwersi a gynigir yn ddwyieithog.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81 ac 84.

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.  
**Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**  
Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir Penfro

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Sir Benfro, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymatebion y Cyngor i ymholiadau ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr

25/7/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor yn hybu'r gwersi nofio Cymraeg ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg.  
Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail fod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar gyfer pob un o'r lefelau y mae'n cynnig gwersi nofio Saesneg ar eu cyfer.  
Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrws mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.  
**Dyfarniad y Comisiynydd**

ymholiadau dros e-bost gan aelodau o'r cyhoedd fis Mawrth 2016. Roedd yr ymatebion yn nodi bod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio Cymraeg mewn nifer o leoliadau, ond roedd amheuaeth ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg ar rai lefelau, ac nid oedd gwersi nofio Cymraeg yn cael eu cynnig mewn lleoliadau eraill. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 ac 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Sir Penfro wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Sir Penfro i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 81

Dylai'r Cyngor ystyried tynnu sylw o fewn amserlenni unigol, ac ar dudalennau canolfannau hamdden unigol, at y ffaith fod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg. Dylai'r Cyngor hefyd roi sylw i'r angen i gydymffurfio â safon 82.

Safon 84 Gyda golwg ar y ffaith fod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg mewn llai o leoliadau nag yn Saesneg, a bod nifer llai o wersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg nag yn Saesneg, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddarpariaeth yn peri anfantais afresymol i unigolion sy'n dymuno derbyn gwersi nofio yn Gymraeg o gymharu â rhai sy'n dymuno derbyn gwersi nofio yn Saesneg. Gyda golwg ar y ffaith fod y Cyngor yn cynnig rhai gwersi nofio'n ddwyieithog, dylai'r Cyngor sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn gwersi a gynigir yn ddwyieithog.

canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiadau ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiadau dros e-bost gan aelodau o'r cyhoedd fis Mai 2016. Roedd yr ymatebion yn nodi bod y Cyngor yn cynnig gwersi nofio Cymraeg mewn rhai lleoliadau,

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail fod y person sy'n cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar ei ran yn hybu'r gwersi ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar rai lefelau, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefelau hynny yn Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Rhondda  
Cynon Taf

ond nad oedd gwersi nofio Cymraeg yn cael eu cynnig mewn nifer o leoliadau. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81 ac 84.

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 81 Dylai'r Cyngor ystyried, yng ngoleuni ei gyfrifoldeb i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, cymryd camau drosto'i hun i hybu'r gwersi nofio y mae'n eu cynnig yn Gymraeg. Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny. Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

#### Cyngor Sir Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn nodi bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg wrth hybu a hysbysebu'r gwersi nofio.



darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Powys. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Sir Powys, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Ebrill 2016. Roedd y rhestr a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymholiad yn nodi mai mewn un lleoliad o blith y naw a restrwyd y cynigid gwersi nofio Cymraeg ar y dyddiad yr oedd yr ymholiad yn berthnasol iddo. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar un lefel, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefel honno yn Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 a 84.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Sir Powys wedi methu â chydymffurfio a safon 81 ac 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Sir Powys i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 81 Dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â safon 81.

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81 ac 84.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Sir Fynwy, derbyniodd y Comisiynydd gopi o ymateb y Cyngor i ymholiad ysgrifenedig ynghylch gwersi nofio Cymraeg. Gwnaed yr ymholiad dros e-bost gan aelod o'r cyhoedd fis Mawrth 2016. Roedd yr ymateb yn nodi nad oedd y Cyngor yn

25/7/2017

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn perthynas â gwersi nofio, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 81 yn berthnasol.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd nad Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, er nad yw wedi cynnal gwersi nofio yn Gymraeg, ar y sail fod y Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i gynnig gwersi nofio yn Gymraeg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Cyngor Sir Fynwy



cynnig unrhyw wersi nofio yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 ac 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Sir Fynwy wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Sir Fynwy i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 81 Pan fydd y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 81 mewn perthynas â'r gwasanaeth Cymraeg.

Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny.

Safon 84 Dylai'r Cyngor barhau i gynnig gwersi nofio yn Gymraeg, a dylai barhau i wneud trefniadau ar gyfer cynnal gwersi nofio yn Gymraeg os bydd galw amdanynt. Er mwyn hwyluso hynny, dylai'r Cyngor ystyried llunio (ar sail gwirfoddol) cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Bydd y Comisiynydd yn rhoi ddogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu.

Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Torfaen

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, derbyniodd y Comisiynydd wybodaeth a honnai fod y Cyngor wedi nodi, mewn ymateb i ymholiad, nad oedd yn cynnig unrhyw wersi nofio yn Gymraeg. Gwnaed yr ymholiad gan aelod o'r cyhoedd mewn galwad ffôn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar 01/06/2016. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn

25/7/2017

## **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn perthynas â gwersi nofio, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 81 yn berthnasol.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar unrhyw lefel, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 ac 86.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 81 Pan fydd y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 81 mewn perthynas â'r gwasanaeth Cymraeg. Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny.

Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu. Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Derbyniwyd y gŵyn ar 03/06/2016. Roedd y gŵyn yn ymwneud â

25/7/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 81 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 81 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn perthynas â gwersi

darpariaeth gwersi nofio nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Darparwyd tystiolaeth i gefnogi'r cwynion; roedd y dystiolaeth hon yn ymwneud ag ymateb yr awdurdodau lleol i ymholiadau ynghylch argaeledd gwersi nofio Cymraeg. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, derbyniodd y Comisiynydd wybodaeth ysgrifenedig yn nodi y gwnaed ymholiad llafar gan aelod o'r cyhoedd ar 04/04/2016 yng Nghanolfan Hamdden a Gweithgareddau Byd Dŵr, Wrecsam. Honnai'r person hwn iddo gael gwybod gan dderbynnydd nad oedd y Cyngor yn cynnig unrhyw wersi nofio a neilltuwyd fel rhai Cymraeg, er bod rhai o'r hyfforddwy'r nofio yn siarad Cymraeg. Roedd yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau eraill, a oedd wedi gwneud yr ymholiadau i'r cynghorau, ond nid oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn ei gwneud yn hysbys pwy oedd y personau hynny. O'r herwydd, ni chafodd y Comisiynydd ei bodloni fod yr achwynydd yn gweithredu ar ran personau y mae'r ymddygiad honedig wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ar y sail hwnnw, nid oedd y Comisiynydd o'r farn fod y cwynion yn

nofio, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 81 yn berthnasol.

Safon 84 Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 84 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg ar unrhyw lefel, er bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Saesneg.

Safon 86 Dyfarnodd y Comisiynydd nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 86 yn yr achos hwn, ar y sail nad yw'r Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â gwersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon, ac felly nad yw'r ddyletswydd i gydymffurfio â safon 86 yn berthnasol.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 81 ac 86.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio a safon 84, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd:

Safon 81 Pan fydd y Cyngor yn cynnig gwersi nofio yn Gymraeg, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 81

rhai dilys yn unol ag adran 93 Mesur y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y Comisiynydd o'r farn fod y wybodaeth a dderbyniwyd yn creu amheuaeth o fethiant ar ran y Cyngor i gydymffurfio â rhai o safonau'r Gymraeg a osodwyd arno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 81, 84 ac 86.

mewn perthynas â'r gwasanaeth Cymraeg. Dylai'r Cyngor hefyd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 82 lle bo'n ofynnol gwneud hynny. Safon 84 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun gweithredu a fydd yn dangos pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio. Dylai'r Cyngor baratoi'r cynllun gweithredu drafft cyntaf o fewn 12 wythnos, sef erbyn 17 Hydref 2017. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n unol ag adran 80 Mesur y Gymraeg mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Mae'r Comisiynydd wedi rhoi dogfen gyngor i'r Cyngor a fydd o gymorth wrth baratoi'r cynllun gweithredu. Safon 86 Pan fydd y Cyngor yn datblygu cwrs addysg mewn perthynas â gwersi nofio, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon 86.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 25/07/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir  
Powys

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 23/12/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Natur y gŵyn oedd nad oedd peiriant hunanwasanaeth talu ac arddangos ym maes parcio Rhaeadr Gwy yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Honnai'r achwynydd nad oedd modd amlwg ar y peiriannau i newid o'r iaith ddiodyn - sef Saesneg. Honnai'r achwynydd felly nad oedd

27/6/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 60 Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Sir Powys wedi methu a chydymffurfio â safon 60 yn yr achos hwn ar y sail nad yw bob un o'i beiriannau hunanwasanaeth talu ac arddangos am barcio yn gweithio yn llawn yn y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd hefyd yn dyfarnu fod y peiriannau hunanwasanaeth sydd yn gweithio yn y Gymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y sail fod y sgrin ddigidol wedi rhagosod i'r Saesneg fel iaith ddiodyn.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

peiriannau hunanwasanaeth talu ac arddangos am barcio yn gweithredu yn llawn yn y Gymraeg a'u bod yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 60.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 60.

**Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 60 Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau fod pob peiriant hunanwasanaeth talu ac arddangos am barcio y mae'n gyfrifol amdano weithredu yn llawn yn y Gymraeg. Rhaid i Gyngor Sir Powys sicrhau fod pob peiriant hunanwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano un ai gynnig dewis iaith gyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar dudalen flaen y peiriannau; neu ragosod y Gymraeg ar y peiriant fel nad yw'r Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol. Rhaid i Gyngor Sir Powys cadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 180 diwrnod o dderbyn adroddiad terfynol yr ymchwiliad; ei bod wedi cwblhau'r camau uchod.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 27/06/2017.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Bwrdeistref  
Siro!  
Wrecsam

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Natur y gŵyn yw bod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu â rhif ffôn "ymholiadau cyffredin" Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor)

27/6/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 11 Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 11 yn yr achos hwn ar y sail nad oeddynt wedi delio gyda galwad ffôn yn y Gymraeg, er bod yr unigolyn wedi dymuno hynny.



ar 22 Medi 2016. Honnai'r achwynydd nad oedd wedi derbyn gwasanaeth yn Gymraeg ar y llinell ffôn hon. Nodai'r gŵyn fod yr achwynydd wedi dewis opsiwn 2 yn dilyn clywed dewislen safonol cyfarch yr alwad, er mwyn derbyn gwasanaeth Cymraeg. Ar ôl seibiant, clywodd yr achwynydd neges safonol yn cynnig ateb yr alwad yn Saesneg wrth bwyso rhif 1 neu gynnig iddo alw nôl os am wasanaeth Cymraeg. Gan nad oedd yr achwynydd wedi pwyso rhif 1; ar ôl cyfnod o ddau funud cafodd yr alwad ei datgysylltu. Roedd yr achwynydd yn honni felly na ddarparwyd gwasanaeth yn Gymraeg ar y llinell ffôn hon ac na chafodd wybod pa bryd yr oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 11 a 17.

Safon 17 Dyfarniad y Comisiynydd yw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi methu â chydymffurfio â safon 17 yn yr achos hwn ar y sail nad oeddynt wedi hysbysebu'r galwr nad oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael ac nad oeddynt wedi nodi pa bryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 11 a 17.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 11 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cymryd camau wrth uwchraddio neu adnewyddu unrhyw system ffôn i wirio bod y systemau hyn yn galluogi cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol.

Safon 17 Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cymryd camau wrth uwchraddio neu adnewyddu unrhyw system ffôn i wirio bod y systemau hyn yn galluogi cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol. Mae'r camau gorfodi hyn yn weithredol 28 diwrnod ar ôl i'r sefydliad derbyn yr Hysbysiad Penderfynu terfynol.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 27/06/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Gweinidogion  
Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 09/08/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig gan Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg ar rif ffôn llinell uniongyrchol yn un o'u hadrannau. Honnai'r achwynydd iddo ffonio 01443 663718 (rhif ffôn llinell uniongyrchol o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg) ar 09/08/2016; i'r alwad gael ei hateb gan rywun nad oedd yn siarad Cymraeg; na wnaeth y person hwnnw gynnig trosglwyddo'r achwynydd i siaradwr Cymraeg; ac, yn hytrach, i'r person siarad Saesneg â'r achwynydd. Mewn e-bost ar 08/11/2016, mewn ymateb i gais gan y Comisiynydd am wybodaeth bellach, nododd yr achwynydd fod yr alwad berthnasol rhwng 14:00 a 15:00 ar 09/08/2016. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 18.

9/6/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 18 Mae safon 18 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ei gyfanrwydd mewn achosion lle bo person yn cysylltu ag un o'i adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol, a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg. Roedd yr achwynydd yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg pan wnaeth ffonio rhif ffôn llinell uniongyrchol un o aelodau staff Gweinidogion Cymru ar 09/08/2016, ond ni wnaeth Gweinidogion Cymru ddarparu'r gwasanaeth (h.y. yr alwad ffôn) yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod hyn yn gyfystyr â methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r gofyniad yn safon 18 i ddarparu'r gwasanaeth yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd os yw'r person sy'n galw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 18.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 18.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 18, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 18 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau pellach er mwyn sicrhau bod ei holl aelodau staff yn ymwybodol o'r hyn y dylent ei wneud wrth ddelio â galwadau ffôn i adrannau ar rifau ffôn llinell



Gweinidogion  
Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 22/09/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â methiant honedig gan Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg ar eu prif rif ffôn. Honnai'r achwynydd iddo ffonio 0300 0604400 (prif rif ffôn Gweinidogion Cymru) tua 12:00 ar 22/09/2016, a gofyn am gael siarad â swyddfa'r wasg; iddo gael ateb a gwasanaeth Cymraeg gan y sawl a atebodd y ffôn; iddo gael ei drosglwyddo i swyddfa'r wasg a derbyn y cyfarchiad uniaith Saesneg 'Hello, press office'; na chynigiwyd ei drosglwyddo i aelod o staff a allai ddelio â'r alwad yn Gymraeg, ond yn hytrach iddo orfod gofyn am gael ei drosglwyddo. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan

9/6/2017

uniongyrchol er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dylai Gweinidogion gymryd y camau hyn o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr adroddiad ymchwiliad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/06/2017.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 10 Mae safon 10 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ei gyfanrwydd mewn achosion lle bo person yn cysylltu â'r corff ar ei brif rif ffôn, a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg. Credaf y Comisiynydd fod hyn yn golygu, os oes angen trosglwyddo'r alwad o'r prif rif ffôn i aelod staff sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol, y dylid trosglwyddo'r alwad i aelod staff sy'n gallu gwneud hynny yn Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg pan wnaeth gysylltu â Gweinidogion Cymru ar eu prif rif ffôn ar 22/09/2016 er mwyn siarad â swyddfa'r wasg. Cafodd yr achwynydd wasanaeth Cymraeg gan yr aelod staff a atebodd yr alwad i'r prif rif ffôn, ond trosglwyddwyd yr alwad i aelod staff yn swyddfa'r wasg na allai ddelio â'r alwad yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod hyn yn gyfystyr â methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r gofyniad yn safon 10 i ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person sy'n cysylltu'n dymuno hynny.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 10.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 10.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 10, bydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach at y diben o atal methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 10 Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau er mwyn sicrhau bod aelodau staff sy'n ateb galwadau i'w prif rif ffôn yn sefydlu a yw personau sy'n cysylltu'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, ac er mwyn sicrhau bod galwadau ffôn yn cael eu trosglwyddo i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg pan fo hynny'n angenrheidiol. Mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau pellach er mwyn sicrhau bod ei holl aelodau staff yn ymwybodol o'r hyn y dylent ei wneud wrth ddelio â galwadau ffôn er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Dylai Gweinidogion Cymru gymryd y camau hyn o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr adroddiad ymchwiliad terfynol.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 09/06/2017.

**Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd yr achwynydd nad oedd agendâu a chofnodion prif bwyllgorau Cyngor Dinas Caerdydd (y Cyngor) ar gael ar ei wefan yn Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 41, 48, 49 a 52.

1/6/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 41 Wrth beidio â sicrhau bod pob agenda a chofnod mewn perthynas â chyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, ar gael yn Gymraeg ar ei wefan ar ôl y diwrnod gosod, casglodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â llunio agendâu a chofnodion yn Gymraeg ar gyfer cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu agendâu a chofnodion ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.

Safon 48 Wrth beidio â sicrhau bod fersiwn Cymraeg o bob agenda a chofnodion sydd ar gael yn Saesneg ar wefan y Cyngor, casglodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio a chyhoeddi agendâu a chofnodion mewn perthynas â chyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi methu â sicrhau bod agendâu a chofnodion mewn perthynas â chyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg mewn man cyhoeddus, sef ei wefan, ers y diwrnod gosod. Gan hynny, casglodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â sicrhau nad yw agendau a chofnodion Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol nag agendâu a chofnodion Saesneg o ran lleoliad ac amlygrwydd y dogfennau hynny. Wrth beidio â sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth o ran golwg fersiynau Cymraeg a Saesneg agenda cyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2014, casglodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio'r ddogfen hon.

Safon 49 Wrth beidio â sicrhau bod agendâu a chofnodion Saesneg yn cynnwys y datganiad bod eu bod hefyd ar gael

yn Gymraeg, casglaf fod y Cyngor wedi methu â datgan yn glir bod dogfennau hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 52 Fe wnaeth y Cyngor ddatgan bod testun a dewislenni ei wefan ar gael yn Gymraeg. Serch hynny mae'r ymchwiliad hwn wedi canfod nad oedd testun agenda cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant a gynhaliwyd ar 12 Mai 2016 i'w weld yn Gymraeg ar ryngwyneb Cymraeg y wefan. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith bod y testun gyfatebol Saesneg i'w weld ar y dudalen gyfatebol. Gan hynny, casglodd y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu a sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg ar ôl y diwrnod gosod.

Atgyfnerthir y casgliad hwn gan gyfaddefiad y Cyngor nad oedd tudalennau'n gweithredu'n ddwyieithog yn dilyn y diwrnod gosod. Wrth sicrhau bod ei fod yn defnyddio'r un ffont, lliw a maint ar gyfer testun agenda ar ei wefan casglodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran golwg testun ar ei wefan. Wrth fethu â sicrhau bod testun pob tudalen sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg, casglodd y Comisiynydd fod testun Cymraeg wedi ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg wrth gyhoeddi testun agenda ar wefan y Cyngor.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 41, 48, 49 a 52.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu llunio (a'u cyhoeddi) yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 41.

ii. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiynau PDF o agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu llunio a'u cyhoeddi yn Gymraeg ar wefan y Cyngor er mwyn cydymffurfio â safon 48.

iii. Ble ceir fersiynau PDF Saesneg o agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gael ar wefan y Cyngor, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y dogfennau hynny hefyd ar gael yn Gymraeg, ac ar gael ar yr un pryd ac yn yr un lleoliad â fersiynau Saesneg er mwyn cydymffurfio â safon 48.

iv. Rhaid i'r Cyngor sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth o ran diwyg fersiynau PDF Cymraeg a Saesneg o agendâu a chofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd er mwyn cydymffurfio â safon 48.

v. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiynau PDF Saesneg o agendâu neu gofnodion cyfarfodydd o fwrdd rheoli neu gabinet, ac/neu gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn datgan yn glir eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 49.

vi. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod testun pob agenda sydd wedi ei ymgorffori ar ei wefan ar gael yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 52. vii. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod pob tudalen Cymraeg ar ei wefan sy'n

- ymwneud â chyfarfodydd pwyllgorau yn gweithredu'n llawn er mwyn cydymffurfio â safon 52.
- vii. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw destun sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg fel nad yw'r tudalen Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r dudalen Saesneg er mwyn cydymffurfio â safon 52.
  - viii. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r trefniadau a'r canllawiau sydd mewn lle mewn perthynas â llunio (a chyhoeddi) agendâu a chofnodion yn Gymraeg. Mae'r camau hyn i gael eu gweithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 01/06/2017

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Castell-  
nedd Port  
Talbot

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar yr 2il o Awst 2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd yr achwynydd ei bod wedi ffonio prif rif ffôn Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor), sef 01639 686 868, ar 29 Gorffennaf 2016 er mwyn gwneud ymholiad. Dewisodd yr opsiwn ar gyfer derbyn gwasanaeth Cymraeg. Dywedodd yr achwynydd ei bod wedi aros am ddeg munud. Nid oedd yn ymddangos iddi fel petai gwasanaeth Cymraeg ar gael ar y pryd ac roedd neges reolaidd

1/6/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 17 Trwy fethu â sicrhau, yn ystod cyfnodau pan nad oes gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael, bod trefniadau digonol mewn lle er mwyn rhoi gwybod i bersonau sydd wedi dewis yr opsiwn ar gyfer gwasanaeth Cymraeg, a heb drosglwyddo i'r llinell Saesneg, pryd y bydd y gwasanaeth hwnnw ar gael, casglodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â rhoi gwybod pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 17.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

(wedi ei hawtomeiddio) yn rhoi gwybod bod gwasanaeth ffôn Saesneg ar gael. Dywedodd yr achwynydd nad oedd ganddi amser i aros am wasanaeth Cymraeg ar y diwrnod hwnnw, ac felly bu'n rhaid dewis gwasanaeth Saesneg er mwyn cael ateb i'w hymholiad.

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 76 a 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn unol ag adran 77(3)(b) Mesur y Gymraeg, mae'r Comisiynydd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gymryd y camau canlynol:

- i. Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle ar gyfer derbyn galwadau ffôn yn y Gymraeg a/neu roi gwybod i bersonau bod modd trosglwyddo eu galwad i siaradwr Cymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 10.
- ii. Pan nad oes gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot roi gwybod i bersonau sy'n galw pryd y bydd y gwasanaeth Cymraeg ar gael er mwyn cydymffurfio â safon 17.

Mae'r camau uchod i'w gweithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

Yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg, mae'r Comisiynydd yn rhoi'r argymhellion canlynol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:

- i. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sicrhau bod ei staff yn ymwybodol, ac yn rhoi gwybod i bersonau sy'n dymuno derbyn gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg, bod modd trefnu galwad yn ôl gan siaradwr Cymraeg.
- ii. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sicrhau, pan fo personau'n dewis yr opsiwn am wasanaeth Cymraeg, nad yw'n eu hannog i dderbyn gwasanaeth Saesneg.

- iii. Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sicrhau nad yw negeseuon a chwaraeir i bersonau sydd wedi dewis yr opsiwn ar gyfer gwasanaeth Cymraeg yn awgrymu nad oes gwasanaeth Cymraeg ar gael.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 01/06/2017.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir y Fflint

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 23/05/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd yr achwynydd bod y deunyddiau cyhoeddusrwydd canlynol yn uniaith Saesneg: posteri ac arwyddion a oedd yn hysbysebu dosbarthiadau ffitrwydd a chynigion arbennig i gwsmeriaid. Derbyniwyd cwyn bod gwefan y Cyngor a thudalen Facebook Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Hefyd cafwyd cwyn bod y peiriant hunan-wasanaeth Technogym yn uniaith Saesneg, a chwyn am ddiffyg argaeledd S4C ar beiriannau Technogym Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i

12/5/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 37 Mae'r safon yn gofyn i gorff lunio pob deunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yn y Gymraeg, ac os byddir yn llunio deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid peidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd, lluniodd Cyngor Sir y Fflint ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn Saesneg yn unig, a hynny ar ffurf posteri a thrwy gyfwng dewisiadau iaith ar sgrin.

Safon 38 Mae'r safon yn gofyn i gorff arddangos unrhyw ddeunydd yn gyhoeddus yn Gymraeg, ac i beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Ni chafodd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu a oedd yn sail i'r gŵyn, ei arddangos yn gyhoeddus yn Gymraeg. Golyga hyn nad oedd Cyngor Sir y Fflint yn cydymffurfio â gofynion safon 38 pan gysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd.

Safon 52 Gwna safon 52 hi'n ofynnol ar gorff i sicrhau bod tudalennau eu gwefan ar gael, ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod



gydymffurfio â safonau 37, 38, 52, 58, 60, 61 a 63.

nad oedd tudalen Gymraeg Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn cyfateb i dudalen Saesneg y ganolfan hamdden. Golyga hyn bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 58 Mae safon 58 yn gofyn i gorff beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw pob neges yn ymddangos ar dudalen Facebook y Cyngor yn ddwyieithog. Golyga hynny bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Safon 60 Mae'r safon yn gofyn am sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd ar gael yn gweithio'n llawn yn y Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd, gwelir nad yw'r Gymraeg yn cael ei chynnig fel dewis iaith ar y sgrin. Golyga hynny nad yw'r peiriant sy'n sail i'r gwyn yn gweithio'n llawn yn Gymraeg a bod y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.

Safon 61 Wrth i waith dros dro gymryd lle y tu allan i'r ganolfan hamdden ym mis Ebrill, Saesneg yn unig oedd yr arwydd a godwyd. Sefydlwyd bod yr arwydd parhaol ar adeilad y ganolfan hamdden a'r llyfrgell yn cynnwys gwall gramadegol sef cam-dreigladd 'Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy a Llyfrgell' wedi ei osod cyn y diwrnod gosod.

Safon 63 Roedd yr arwydd parhaol a oedd yn cynnwys cam-dreigladd yn y fersiwn Gymraeg, ar adeilad y ganolfan hamdden a'r llyfrgell wedi ei godi cyn y diwrnod gosod. Mae pryd y gosodwyd yr arwydd yn amherthnasol ar gyfer ystyriaeth â'r safon hon. Golyga hyn nad oedd y Cyngor

wedi sicrhau bod testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 37, 38, 52, 58, 60, 61 a 63.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 37, 38, 52, 58, 60, 61 a 63.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 37, 38, 52, 58, 60, 61 a 63, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd:

Safon 37 Er mwyn cydymffurfio â safon 37, rhaid i Gyngor Sir y Fflint roi cyfarwyddyd i bob adran sydd ynghlwm a llunio deunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu o'r angen i lunio deunyddiau yn Gymraeg er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 38 Er mwyn cydymffurfio â safon 38, rhaid i Gyngor Sir y Fflint sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i arddangos unrhyw ddeunydd yn gyhoeddus yn y Gymraeg, er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 52 Er mwyn cydymffurfio â safon 52, rhaid i Gyngor Sir y Fflint sicrhau bod pob tudalen Gymraeg ar wefan y Cyngor yn cael ei diweddarau yr un amser a phan ddiweddarir y dudalen Saesneg, fel bod y testun yn gweithredu'n llawn ac yn gyson yn y ddwy iaith.

Safon 58 Er mwyn cydymffurfio â safon 58, rhaid i Gyngor Sir y Fflint gyhoeddi pob neges ar dudalen Facebook y Cyngor yn y Gymraeg.

Safon 60 Er mwyn cydymffurfio â safon 60, rhaid i yngor Sir y Fflint gymryd camau i gynnwys y Gymraeg ar y peiriannau TechnoGym, pan fydd y cwmni wedi datblygu'r fersiwn Gymraeg er mwyn sicrhau fod y peiriant yn gweithredu yn Gymraeg.

Safon 61 Er mwyn cydymffurfio â safon 61, rhaid i Gyngor Sir y Fflint roi cyfarwyddyd clir i unrhyw un sy'n cyflenwi neu ddarparu gwasanaeth ar ei ran ynghylch yr angen i arddangos pob arwydd yn Gymraeg.

Safon 63 Er mwyn cydymffurfio â safon 63, rhaid i Gyngor Sir y Fflint sicrhau bod trefniadau mewn lle i wirio pob arwydd Cymraeg fel ei fod yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Yn unol ag adran 76(3)(a) Mesur y Gymraeg, rhoddodd y Comisiynydd argymhelliad canlynol i Gyngor Sir y Fflint: Mae'r Comisiynydd yn argymhell cynnwys S4C fel dewis o sianel deledu yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 12/05/2017

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

#### Gweinidogion Cymru

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 20/06/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnai'r achwynydd iddi dderbyn galwad ffôn fore Sadwrn 18 Mehefin 2016, gan berson yn gweithredu ar ran Gweinidogion

12/5/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Safon 21 Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i Weindogion Cymru, ymysg pethau eraill, i ofyn i unigolyn pan maent yn eu ffonio am y tro cyntaf, a ydyw'n dymuno derbyn galwadau ffôn oddi wrthynt yn Gymraeg. Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safon ers 30/3/2016. Ni ofynnodd Beaufort Research wrth

Cymru oedd yn cynnal arolwg Cyflymu Cymru. Honnir na chafodd gynnig cymryd rhan yn yr arolwg yn Gymraeg, a bu rhaid gofyn am wasanaeth yn Gymraeg. Yn dilyn hynny, trosglwyddwyd yr alwad i rywun oedd yn siarad Cymraeg, a wedi hynny, llwyddwyd i gynnal yr arolwg yn llawn trwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau 21 ac 81.

iddynt gynnal yr arolwg ar ran Gweinidogion Cymru, wrth yr achwynydd a oedd yn dymuno derbyn galwadau ffôn oddi wrthynt yn Gymraeg, wrth ei ffonio am y tro cyntaf. Golyga hynny nad oedd Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â gofynion safon 21 pan ffoniodd yr achwynydd am y tro cyntaf ar 18 Mehefin 2016.

Safon 81 Mae safon 81 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gymryd camau rhagweithiol i hybu a hwyluso'r ffaith bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac yn annog y defnydd o'r gwasanaeth hwnnw. Ni roddodd Gweinidogion Cymru wybod i'r achwynydd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael a ni wnaeth annog y defnydd o'r gwasanaeth hwnnw.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 21 ac 81.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau 21 ac 81.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau 21 ac 81, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd:

Safon 21 Er mwyn cydymffurfio â safon 21, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd clir i unrhyw un sy'n gwneud galwadau ffôn ar eu rhan i unigolyn am y tro cyntaf ynghylch yr angen i: - ofyn i'r person a yw'n dymuno cael galwadau ffôn gan Weinidogion Cymru yn Gymraeg - gadw cofnod o'r dewis hwnnw os yw'n dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg - trosglwyddo'r wybodaeth hynny i Weinidogion Cymru

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 14/10/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni nad oedd y ffurflen ar-lein i newid cyfeiriad ar gyfer y Dreth Gyngor, sydd ar wefan Cyngor Dinas Caerdydd, ar gael yn Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 50.

21/3/2017

Safon 81 Er mwyn cydymffurfio â safon 81, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd clir i unrhyw un sy'n cyflawni neu ddarparu gwasanaeth ar ei ran ynghylch hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i Weinidogion Cymru ar 12/05/2017

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Roedd y ffurflenni ar-lein newid cyfeiriad, rhyddhad anabledd a newid tenant ar gyfer y Dreth Gyngor wedi bod ar gael yn Saesneg ers 2007, ac felly roedd y Cyngor wedi llunio'r ffurflenni cyn y diwrnod gosod. Fodd bynnag, nododd y Cyngor yn ei dystiolaeth nad oedd y ffurflen newid cyfeiriad ar gael yn Gymraeg tan 16/12/2016. Nododd y Cyngor yn ogystal nad oedd y ffurflenni rhyddhad anabledd a newid tenant ar gael yn Gymraeg tan 02/12/2016. Golyga hynny nad oedd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion safon 50 mewn perthynas â'r tair ffurflen hyn rhwng y diwrnod gosod (30/03/2016) a mis Rhagfyr 2016.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 50.

**Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

			<p>Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Dylai'r Cyngor barhau â'i drefniadau ar gyfer sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg mewn perthynas â ffurflenni a dogfennau, ac mewn perthynas â gwefannau, gwasanaethau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol, gan adolygu'r trefniadau hynny'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol. Yng nghyswllt y trefniadau hynny, dylai'r Cyngor sicrhau bod ffurflenni'n cael eu gwirio fel rhan o archwiliadau a gynhelir i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. Pan fydd archwiliadau'n amlygu diffygion, dylai'r Cyngor gymryd camau i gydymffurfio â'r safonau.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 21/03/2017.</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys</p>
<p><u>Cyngor Caerdydd</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 10/06/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd achwynydd na chafodd wasanaeth derbynfa trwy gyfrwng y Gymraeg wrth ymweld â phrif swyddfa'r Cyngor yng Nglanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd ar brynhawn 7 Mehefin 2016. Roedd yr achwynydd yn ceisio sicrhau pleidlais drwy'r post. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 64.</p>	<p>1/3/2017</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Awgryma'r Cyngor nad oedd staff y dderbynfa wedi cyfarch na chynnig gwasanaeth derbynfa Cymraeg i'r achwynydd ar 7 Mehefin 2016. Ymhellach at hynny, ni chafodd yr achwynydd wasanaeth Cymraeg fel yr oedd yn dymuno ar 7 Mehefin 2016. Ni chafodd yr achwynydd wasanaeth Cymraeg fel yr oedd yn dymuno ar 7 Mehefin 2016, ond derbyniodd wasanaeth llawn drwy gyfrwng y Saesneg gan aelodau staff y dderbynfa. Mae'r Comisiynydd felly o'r farn bod yr achwynydd wedi ei drin yn llai ffafriol, wrth geisio cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg, na phe bai wedi gwneud cais am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b> O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd bod Cyngor Dinas</p>

Caerdydd wedi methu â chydymffurfio â Safon 64 yn yr achos hwn.

**Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safon 64.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safon 64, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi ar gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg, gan gynnwys rhoi gwybod i berson bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, er mwyn cydymffurfio gyda safon 64.

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod staff derbynfa ym mhrif dderbynfa'r Cyngor yn gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg fel nad oes rhaid i ymwelwyr droi at y Saesneg i dderbyn gwasanaeth derbynfa, er mwyn cydymffurfio â safon 64.

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd baratoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod trefniadau mewn lle gan y Cyngor i sicrhau nad oes rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg aros yn hwy am wasanaeth derbynfa nag unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.

Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd baratoi cynllun gweithredu er mwyn adolygu ei ofynion ieithyddol mewn perthynas â swyddi derbynfa i sicrhau bod gan staff derbynfa y gofynion ieithyddol priodol ar gyfer rhoi gwasanaeth derbynfa Cymraeg mewn perthynas ag ymholiadau gan unigolion sy'n ymweld â phrif dderbynfa'r Cyngor

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 01/03/2017.

**Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Bro  
Morgannwg

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â'r wybodaeth ar wefan Cyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â gweithgareddau haf 2016. Roedd y gŵyn yn nodi: - bod dolen ar dudalen hafan Saesneg y wefan yn mynd i dudalen 'Summer Activities 2016' (a oedd yn cynnwys gwybodaeth benodol am weithgareddau haf), ond bod y ddolen gyfatebol ar dudalen hafan Gymraeg y wefan yn mynd i dudalen 'Beth sy'n digwydd' (tudalen digwyddiadau fwy cyffredinol, heb gymaint o wybodaeth arni ynghylch gweithgareddau haf), er bod y dudalen 'Gweithgareddau Haf 2016' ar gael ar y wefan Gymraeg; - nad oedd y wybodaeth ar y dudalen 'Gweithgareddau Haf 2016' yn gyflawn o gymharu â'r dudalen 'Summer Activities 2016'; - bod dogfen PDF Gymraeg, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr holl weithgareddau haf, wedi ei gosod ar y dudalen 'Summer Activities 2016' ond

1/3/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Cadarnhaodd y Cyngor fod y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen PDF a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr holl weithgareddau haf wedi ei chyhoeddi ar y dudalen Saesneg 'Summer Activities 2016' yn unig. Nododd y Cyngor fod hyn 'yn gamgymeriad ar ran golygydd y dudalen ond unwaith y tynnwyd ein sylw at hyn, cafodd ei gywiro'. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod peidio â chyhoeddi'r fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar y dudalen Gymraeg briodol yn gyfystyr â thrin y ddogfen yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, oherwydd na fyddai unigolion a ddefnyddiai'r wefan yn Gymraeg yn ymwybodol o argaeledd y ddogfen. Byddai unigolion a ddefnyddiai'r wefan yn Saesneg yn dod ar draws y fersiwn Saesneg o'r ddogfen. Wrth edrych ar y wefan ar 15/08/2016, gwelodd y Comisiynydd nad oedd y dudalen 'Youth Centres' ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg. Dylai'r dudalen we hon, fel pob tudalen arall ar wefan y Cyngor, fod ar gael yn Gymraeg er mwyn cydymffurfio â safon 52. Cadarnhaodd y Cyngor fod dolen i'r dudalen 'Beth sy'n digwydd' wedi ei gosod ar dudalen hafan ei wefan, pan ddylai dolen i'r dudalen 'Gweithgareddau Haf 2016' fod wedi cael eu gosod yno. Camgymeriad oedd hyn, ac fe'i cywirwyd pan ddaeth y mater at sylw'r Cyngor. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod gosod dolen i'r dudalen anghywir yn gyfystyr â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan, gan na fyddai unigolion a ddefnyddiai'r wefan yn Gymraeg yn cael eu cyfeirio at y wybodaeth briodol.



nid ar y dudalen 'Gweithgareddau Haf 2016'. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gyngor Bro Morgannwg i gydymffurfio â safonau 48 a 52.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 48 a 52

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 48: Mae'r Comisiynydd yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg, o fewn 40 diwrnod gwaith (sef erbyn 27/04/2017), sicrhau bod unrhyw ddogfennau y mae angen eu llunio yn Gymraeg yn cael eu llunio yn Gymraeg, ac nad yw unrhyw fersiynau Cymraeg o ddogfennau'n cael eu trin yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg.

Safon 52: Mae'r Comisiynydd yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg, o fewn 40 diwrnod (sef erbyn 27/04/2017), sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â thestun pob tudalen ar ei wefan, y modd y mae tudalennau Cymraeg ar ei wefan yn gweithredu, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 01/03/2017.

#### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Bro  
Morgannwg

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Nodai'r gŵyn nad oedd y ddogfen

1/3/2017

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Nid yw'r Cyngor wedi dadlau o gwbl na ddylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg ar y sail nad yw pwnc a chynulleidfa'r ddogfen yn awgrymu y dylid gwneud hynny. Mae'r

'Updated Policy for the Appointment of LA Governors', a oedd ar y dudalen 'Swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol (ALI)' ar wefan Cyngor Bro Morgannwg, a'r fersiwn Saesneg o'r dudalen honno, ar gael yn Gymraeg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gyngor Bro Morgannwg i gydymffurfio â safon 47.

Comisiynydd o'r farn fod pwnc a chynulleidfa'r ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg. Nododd y Cyngor mai 'camgymeriad gweinyddol' oedd yn gyfrifol na chyhoeddwyd y ddogfen ar y wefan yn Gymraeg ar yr un pryd â'r Saesneg, a bod hynny wedi digwydd ar unwaith pan ddaeth y Cyngor yn ymwybodol nad oedd y ddogfen Gymraeg yno. Gan na chyhoeddwyd fersiwn Gymraeg o'r ddogfen tan 16/09/2016, a bod fersiwn Saesneg o'r ddogfen wedi ei chyhoeddi ar 02/09/2016, nid oedd y Cyngor yn cydymffurfio â'r safon yn ystod y cyfnod pan oedd y fersiwn Saesneg o'r ddogfen yn unig ar gael.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 47.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Mae'r Comisiynydd yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg, o fewn 40 diwrnod (sef erbyn 27/04/2017), sefydlu gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer asesu'r angen i lunio dogfennau yn Gymraeg, ar gyfer sicrhau bod unrhyw ddogfennau y mae angen eu llunio yn Gymraeg yn cael eu llunio yn Gymraeg, ac ar gyfer sicrhau nad yw unrhyw fersiynau Cymraeg o ddogfennau'n cael eu trin yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg. Os oes gweithdrefnau a phrosesau o'r fath mewn lle'n barod, dylid eu hadolygu.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 01/03/2017

Cyngor Bro  
Morgannwg

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd y gŵyn yn ymwneud â gwybodaeth ynghylch Cynllunio ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Yn benodol, nodwyd nad oedd y Cofrestrau Datblygu a Rheolaeth Adeiladu ar-lein, na'r ddogfen 'A Guide to Planning in the Vale of Glamorgan', ar gael yn Gymraeg. Mae cysylltau at y gofrestr a'r ddogfen ar y dudalen 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu' ar wefan y Cyngor, a'r fersiwn Saesneg o'r dudalen honno. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Gyngor Bro Morgannwg i gydymffurfio â safonau 47 a 52.

1/3/2017

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Nid yw'r Cyngor wedi dadlau o gwbl na ddylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg ar y sail nad yw pwnc a chynulleidfa'r ddogfen yn awgrymu y dylid gwneud hynny. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod pwnc a chynulleidfa'r ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg. Gan fod fersiwn Saesneg o'r ddogfen ar gael, ac nad oes fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar gael, nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â safon 47, ac mae'r sefyllfa hon wedi bodoli ers y diwrnod gosod ar gyfer y safon. Nododd y Cyngor fod y Cofrestrau Datblygu a Rheolaeth Adeiladu wedi bod ar gael yn Saesneg 'ers blynnyddoedd mawr', ond nad oeddent ar gael yn Gymraeg. Mae'r Cofrestrau bellach ar gael yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod y cofrestrau'n ffurfio tudalennau ar wefan y Cyngor, ac o'r herwydd, er mwyn cydymffurfio â safon 52, y dylent fod ar gael yn Gymraeg.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 47 a 52.

**Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Safon 47: Mae'r Comisiynydd yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg, o fewn 40 diwrnod gwaith (sef

		<p>erbyn 27/04/2017), sefydlu gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer asesu'r angen i lunio dogfennau yn Gymraeg, ar gyfer sicrhau bod unrhyw ddogfennau y mae angen eu llunio yn Gymraeg yn cael eu llunio yn Gymraeg, ac ar gyfer sicrhau nad yw unrhyw fersiynau Cymraeg o ddogfennau'n cael eu trin yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg. Os oes gweithdrefnau a phrosesau o'r fath mewn lle'n barod, dylid eu hadolygu.</p> <p>Safon 52: Mae'r Comisiynydd yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg, o fewn 40 diwrnod gwaith (sef erbyn 27/04/2017), sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â thestun pob tudalen ar ei wefan, y modd y mae tudalennau Cymraeg ar ei wefan yn gweithredu, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan.</p> <p><b>Hysbysiad penderfynu a roddwyd</b> Rhoddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 01/03/2017</p> <p><b>Apelau a wnaed i'r tribiwnlys</b> Ni wnaed apel i'r Tribiwnlys.</p>
<p><u>Cyngor Bro Morgannwg</u></p>	<p>Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Nodai'r gŵyn nad oedd holl destun y dudalen 'Swyddi Gwag Cyfredol' ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar gael yn Gymraeg, a bod y testun Cymraeg o fewn tudalennau hysbysebion swyddi unigol wedi ei osod o dan y testun Saesneg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn</p> <p>1/3/2017</p>	<p><b>Canfyddiadau'r Comisiynydd</b> Nid yw'r Comisiynydd o'r farn fod angen i'r testun Cymraeg fod uwchlaw'r testun Saesneg neu i'r chwith ohono er mwyn cydymffurfio â'r safon. Gyda golwg ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae'r Comisiynydd o'r farn y gallai cael y Gymraeg a'r Saesneg ar dudalennau ar wahân fod yn ddull mwy effeithiol, ond nid yw'r Cyngor yn methu â chydymffurfio â'r safon drwy roi'r testun Saesneg uwchlaw'r testun Cymraeg.</p> <p><b>Dyfarniad y Comisiynydd</b></p>

canfod a fu methiant gan Gyngor Bro Morgannwg i gydymffurfio â safon 52.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 52.

**Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Mae'r Comisiynydd yn ei wneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg, o fewn 40 diwrnod gwaith (sef erbyn 27/04/2017), sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â thestun pob tudalen ar ei wefan, y modd y mae tudalennau Cymraeg ar ei wefan yn gweithredu, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ar ei wefan.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 01/03/2017.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir y Fflint

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 30/03/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnodd yr achwynydd nad oedd y Cyngor yn darparu gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg tu hwnt i wersi Ton 2 yng Nghanolfan Hamdden yr Wyddgrug. Honnodd yr achwynydd bod derbynnydd y ganolfan wedi egluro bod rhaglen gynhwysfawr o wersi nofio Ton 1 a 2

15/2/2017

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Eglurodd y Cyngor bod y rhaglen gyfredol o wersi nofio wedi bod ar gael ers mis Hydref 2015. Nid yw'r gwersi nofio dan sylw yn gwrs sydd wedi ei ddatblygu ers y diwrnod gosod (30 Mawrth 2016), casglodd y Comisiynydd felly nad oedd gofyniad ar y Cyngor i gynnal na chyhoeddi asesiad ar yr achlysur hwn, ac ni ystyrir fod safon 86 yn berthnasol yn yr achos hwn. Deallai'r Comisiynydd fod y Cyngor wedi bod yn cynnig y rhaglen gyfredol o wersi nofio ers mis Hydref 2015 ac felly casglodd nad oedd gofyniad ar y Cyngor i asesu na chyhoeddi'r asesiad o'r angen am wersi

ar gael trwy'r Gymraeg ond nad oedd gwersi Ton 3 a 4 ar gael trwy'r Gymraeg. At hynny, honnodd achwynydd nad oedd gan y ganolfan gynllun ar gyfer cynnal gwersi tu hwnt i Ton 2 ar gyfer y dyfodol.

Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 84 ac 86.

nofio trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan y Cyngor ar yr achlysur hwn. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau nad yw'n darparu gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg tu hwnt i Ton 2 yng nghanolfan Hamdden yr Wyddgrug, ond ei fod yn darparu gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg tu hwnt i Ton 2 mewn lleoliadau eraill yn y Sir. Mae'r Comisiynydd o'r farn nad oes rhaid i Gyngor ddarparu gwersi nofio cyfrwng y Gymraeg ym mhob canolfan hamdden fel mater o drefn er mwyn cwrdd â gofynion safon 84. Nid yw'r safon, fel y'i gosodwyd, yn gosod gofynion ar y Cyngor i ddarparu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr un lleoliad nac yr un nifer o weithiau â gwersi nofio a ddarperir drwy gyfrwng y Saesneg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd nad oedd y Cyngor wedi methu a chydymffurfio â safon 86.

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 84.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safon 84

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safon 84, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd: Rhaid i Gyngor Sir y Fflint sicrhau bod staff yn cynnig ac yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am gyrsiau nofio cyfrwng y Gymraeg a ddarperir gan y Cyngor. Yn y cyswllt hwn dylid gweithredu gofynion safon 84.

Rhaid i Gyngor Sir y Fflint roi cyfarwyddyd i staff ynghylch sut i gynnig a darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth o wersi nofio sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg fel bod unigolion sy'n gwneud ymholiad am ddarpariaeth gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael gwybodaeth benodol ynghylch y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir.

Yn achos dyfarniad y Comisiynydd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 86, ni fydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 15/02/2017

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson ar 20/04/2016 oedd yn bodloni amodau adran 93 (3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnai'r achwynydd bod problem gyda'r ffurflenni cynllunio ar wefan 'Planning Portal' yn golygu nad oedd modd cyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod lleol trwy gyfrwng y Gymraeg. Honnai'r achwynydd hefyd bod llawer o'r Gymraeg ar wefan 'Planning Portal' yn wallus.

Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau 50, 50A, 50B, 52 a 55.

20/12/2016

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Ni wnaeth Gweinidogion Cymru sicrhau bod modd cwblhau fersiwn rhyngweithiol o'r ffurflen cais cynllunio yn ystod mis Ebrill 2016. Ni wnaeth Gweinidogion Cymru sicrhau bod penawdau yn ymddangos yn Gymraeg ar ffurflen sydd wedi ei chwblhau ar-lein ac wedyn ei hargraffu. Fe wnaeth Gweinidogion Cymru ddatgan bod ffurflen lle gellir eu hargraffu a llenwi â llaw trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn ystod y cyfnod dan sylw. Ni wnaeth Gweinidogion Cymru sicrhau bod bob fersiwn o ffurflenni ceisiadau cynllunio ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan y Porthol Cynllunio yn ystod y cyfnod dan sylw. Methodd Gweinidogion Cymru â sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg. Wrth beidio darparu ffurflenni oedd yn gweithredu'n llawn a thrwy beidio darparu penawdau Cymraeg ar fersiwn Cymraeg y ffurflen cynllunio, methodd Gweinidogion Cymru â sicrhau nad yw'r

Gweinidogion  
Cymru



fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Wrth beidio darparu fersiwn Cymraeg o bob ffurflen gynllunio sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru, mi wnaeth Gweinidogion Cymru fethu â sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Wrth beidio darparu'r holl wybodaeth sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg ar wefan y Porthol Cynllunio, methodd Gweinidogion Cymru â sicrhau bod testun pob tudalen ar gael yn Gymraeg ar wefan y Porthol Cynllunio. Wrth gydnabod nad oedd pob tudalen Gymraeg, ac yn benodol nad oedd ffurflen cais cynllunio rhyngweithiol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn gweithredu'n llawn ar wefan y Porthol Cynllunio, mi wnaeth Gweinidogion Cymru fethu â sicrhau bod pob tudalen yn gweithredu'n llawn ar wefan y Porthol Cynllunio. Wrth gydnabod bod gwallau yn y Gymraeg, ac nad oedd modd dewis fersiwn Gymraeg o ffurflen rhyngweithio y cais cynllunio ar wefan y Porthol Cynllunio, mi wnaeth Gweinidogion Cymru fethu â sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol ar wefan y Porthol Cynllunio. Wrth beidio darparu dolen uniongyrchol i dudalennau Cymraeg o ddwy dudalen cyfatebol Saesneg, methodd Gweinidogion Cymru â nodi'n glir bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safonau 50, 50A, 50B, 52 a 55.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safonau 50, 50A, 50B, 52 a 55.



Cyngor Dinas  
a Sir  
Abertawe

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni na dderbyniodd gyfarchiad ffôn yn Gymraeg wrth ffonio prif linell ffôn y Cyngor ar y rhif 01792 636000, ar 30 Mawrth, 2016, am 12.25yp. Honnai na ofynnwyd iddo os y dymunai dderbyn gwasanaeth Cymraeg a bu oedi cyn iddo gael ei drosglwyddo at rywun oedd yn siarad Cymraeg. Honnai'r achwynydd hefyd nad oes modd gweld cynnwys Cymraeg ar ffrwd Facebook y Cyngor drwy ddefnyddio ap ar ffôn symudol. Yn ogystal, honnir i hysbysiadau swyddogol ar wefan Public Notices ac ym mhapur newydd

21/11/2016

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â safon 50, 50A, 50B, 52 a 55, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd: Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â safonau 50, 50A, 50B, 52 a 55. Mae'r cam hwn i'w weithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 20/12/16.

### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Ni roddodd y Cyngor gyfarchiad Cymraeg i'r achwynydd pan gysylltodd â'r Cyngor ar ei brif rif ffôn ar 30/3/16. Ni roddodd y Cyngor wybod i'r achwynydd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael pan gysylltodd â'r Cyngor ar ei brif rif ffôn ar 30/3/16. Ni wnaeth y Cyngor ddelio â galwad yr achwynydd yn Gymraeg, er ei fod yn dymuno hynny. Prin iawn yw'r defnydd o'r Gymraeg ar dudalen Facebook y Cyngor. Mae canraan uchel o'r negeseuon a thestun sydd ar dudalen Facebook y Cyngor yn ymddangos yn Saesneg yn unig. Cyhoeddodd y Cyngor ddau hysbysiad swyddogol yn Saesneg yn unig ym mhapur newydd y South Wales Evening Post ar 4/4/16.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 8, 9, 11, 58 a 69.

### **Datganiad gweithredu pellach**

y South Wales Evening Post (cyfeirir yn benodol at hysbysiad am ddatblygiadau cynllunio a ymddangosodd ar 4 Ebrill, 2016 yn yr Evening Post) ymddangos yn uniaith Saesneg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 8, 9, 11, 58 a 69.

Gweithredwyd ymhellach yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 58 a 69, ond ni weithredwyd ymhellach yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 8, 9 ac 11.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safon 58, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd: Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe sicrhau fod pob neges a thestun sy'n ymddangos ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn ymddangos yn Gymraeg fel nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i Gyngor Dinas a Sir Abertawe sicrhau nad yw negeseuon a thestun sy'n ymddangos ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ni weithredwyd ymhellach yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safonau 8, 9 ac 11 oherwydd fy mod wedi fy modloni bod system mewn lle erbyn hyn i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg a bod canllawiau wedi eu llunio ar gyfer saff sy'n delio â'r galwadau hynny sy'n rhoi cyfarwyddyd ar gydymffurfio â safonau.

#### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 21/11/16.

#### **Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor Sir Gâr

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Honnai'r achwynydd fod y Gymraeg yn ymddangos yn wallus ar arwydd sydd wedi ei godi ger safle ailgylchu

21/11/2016

#### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Nid yw'r testun Cymraeg ar yr arwydd dan sylw yn ramadegol gywir. O ganlyniad, mae'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gosodwyd yr arwydd cyn 30 Mawrth, 2016 sef diwrnod gosod y safon.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

Cwm Environmental yn Nantycaws, Caerfyrddin. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 61 a 63.

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad oedd y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61 ond fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 63.

**Datganiad gweithredu pellach**

Yn achos y dyfarniad nad yw Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 61 oherwydd i'r arwydd dan sylw gael ei godi cyn 30 Mawrth, 2016, weithredwyd ymhellach. Yn achos y dyfarniad bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 63 gweithredwyd ymhellach.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Yn achos methiant y Cyngor i gydymffurfio â safon 63, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ail adrodd: Rhaid i Gyngor Sir Gâr osod arwydd newydd sy'n gywir o ran ystyr a mynegiant yn safle Amgylcheddol Cwm Environmental, yn Nantycaws, Caerfyrddin. Rhaid i Gyngor Sir Gâr sicrhau fod y testun Cymraeg ar yr arwyddion yn ei ganolfannau amgylcheddol yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 21/11/16.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni i'r Cyngor fethu â darparu gwasanaeth ffôn cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg wrth iddo geisio cysylltu ag adran

10/11/2016

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Wrth fethu â throsglwyddo i siaradwr Cymraeg alwad a wnaed i un o'i adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol, ni wnaeth y Cyngor ddarparu gwasanaeth ffôn trwy gyfrwng y Gymraeg yn ei gyfanrwydd. Ni wnaeth y Cyngor sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r

gynllunio'r Cyngor ar 11/4/16.  
Honnai'r achwynydd i'r Cyngor: - Ei gyfarch yn Saesneg ac ymateb i'w ymholiad yn Saesneg - Ddarparu neges 'aros ar y lein' yn Saesneg yn unig - Ddarparu ymateb Saesneg wrth iddynt geisio ei drosglwyddo at siaradwr Cymraeg - Egluro nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael ac y gallai barhau â'r alwad yn Saesneg neu adael rhif ffôn er mwyn fod rhywun yn ei ffonio'n ôl. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 18 a 20.

Saesneg wrth gyfarch yr achwynydd gan iddynt ei gyfarch yn Saesneg yn unig.

#### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 18. Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 20.

#### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

#### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: i. Rhaid i'r Cyngor wneud trefniadau yn yr adran gynllunio i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg) er mwyn cydymffurfio â safon 18. Rhaid i'r trefniadau hynny gynnwys darparu gwasanaeth Cymraeg wrth gyfarch y person ac, pan mae hynny'n angenrheidiol, wrth gyfleu neges fod yr alwad yn cael ei throsglwyddo i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg.

ii. Rhaid i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth ymysg staff yr adran gynllunio o'r camau sydd angen eu cymryd i drosglwyddo galwadau er mwyn cydymffurfio â safon 18. iii. Rhaid i'r Cyngor sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch person drwy sicrhau y rhoddir cyfarchiad Cymraeg sy'n cyfateb i'r cyfarchiad Saesneg pan fydd person yn cysylltu â'r adran gynllunio ar rif llinell uniongyrchol er mwyn cydymffurfio â safon 20. Mae'r camau hyn i gael eu gweithredu o fewn 28 diwrnod o gyflwyno adroddiad terfynol y Comisiynydd.

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni i weithiwr ar linell ffôn Cysylltu â Chaerdydd (02920 872088) gynnig bod ei fod yn siarad â gweithiwr yn Saesneg er mwyn cael gwasanaeth cyflymach. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 9, 10 ac 17.

10/11/2016

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 10/11/16.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Wrth ddarparu llinell ffôn Gymraeg bwrpasol a rhoi'r opsiwn i'r achwynydd aros ar y llinell neu dderbyn galwad yn ôl gan Gynrychiolydd Gwasanaeth Cwsmer oedd yn medru'r Gymraeg ac yn gallu delio â phwnc yr ymholiad llwyddodd Cyngor Dinas Caerdydd roi gwybod i'r achwynydd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ar 25 Ebrill 2016. Llwyddodd y Cyngor i ddelio â galwad yr achwynydd yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd ar 25 Ebrill, 2016. Darparodd y Cyngor wasanaeth ffôn Cymraeg ar linell Gymraeg Cysylltu â Chaerdydd, sef un o brif rifau ffôn y Cyngor, ar 25 Ebrill 2016.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd nad oedd y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau 9, 10 ac 17.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 76 Mesur y Gymraeg.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Rhodddwyd yr argymhelliad canlynol i'r Cyngor: Ni ddylai'r Cyngor annog cwsmeriaid sydd wedi cysylltu â llinell fôn Gymraeg a/neu sydd wedi dewid derbyn gwasanaeth Cymraeg i dderbyn gwasanaeth Saesneg. Mae'r camau hyn i gael eu gweithredu o fewn 28 diwrnod o gyflwyno adroddiad terfynol y Comisiynydd.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni bod arwyddion dros dro uniaith Saesneg wedi eu gosod ym Mharc Biwt Caerdydd, ac ar Heol Caerffili, Caerdydd. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 61.

26/10/2016

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 10/11/16.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys.

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Gosododd y Cyngor arwyddion dros dro uniaith Saesneg, gan fethu â darparu testun Cymraeg cyfatebol yn ardal Caerdydd ar ôl 30/3/16.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

**Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd gymryd camau i i. sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion dros dro sy'n cael eu gosod ar ôl diwrnod gosod safon 61 yn cael ei arddangos yn Gymraeg (unai ar yr un arwydd sy'n dangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân). ii. sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r camau hyn i gael eu gweithredu erbyn 31 Hydref 2016.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 26/10/16.

**Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

Cyngor  
Caerdydd

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni bod arwyddion dros dro uniaith Saesneg wedi eu gosod ym Mharc Biwt Caerdydd, ac ar Heol Caerffili, Caerdydd. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 61.

26/10/2016

**Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Gosododd y Cyngor arwyddion dros dro uniaith Saesneg, gan fethu â darparu testun Cymraeg cyfatebol yn ardal Caerdydd ar ôl 30/3/16.

**Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61.

**Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

**Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd gymryd camau i

- i. sicrhau bod unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar arwyddion dros dro sy'n cael eu gosod ar ôl diwrnod gosod safon 61 yn cael ei arddangos yn Gymraeg (unai ar yr un arwydd sy'n dangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân).
- ii. sicrhau nad yw'r testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thestun Saesneg os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r camau hyn i gael eu gweithredu erbyn 31 Hydref 2016.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 26/10/16.

**Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys



Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni nad oedd siaradwr Cymraeg ar gael yn nerbynfa Neuadd y Dref, Wrecsam, pan ymwelodd â'r dderbynfa ar 1/4/16. Honnai'r achwynydd y cafodd wybod gan ymgynghorydd cwsmer oedd yn gweithio ar y dderbynfa y byddai'n rhaid iddo aros i aelod arall o staff ddychwelyd i'r dderbynfa cyn y gellir darparu gwasanaeth Cymraeg iddo. Honnai'r achwynydd fod gwasanaeth llawn a phrydlon ar gael i unrhyw un oedd yn dymuno derbyn gwasanaeth Saesneg. Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safon 64.

19/10/2016

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Nid oedd gwasanaeth derbynfa Cymraeg ar gael i'r achwynydd pan ymwelodd â'r dderbynfa er fod modd iddo dderbyn gwasanaeth derbynfa Saesneg. Cafodd yr achwynydd ei drin yn llai ffafriol na pherson oedd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg drwy orfod disgwyl yn hwy i dderbyn gwasanaeth Cymraeg nag i dderbyn gwasanaeth Saesneg.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn: Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 64.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd y byddai'n gweithredu ymhellach yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg.

### **Datganiad ar y gweithredu pellach**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd: Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

- i. Drefnu ei wasanaeth derbynfa yn Neuadd y Dref, Wrecsam, fel nad yw absenoldebau staff o'r dderbynfa yn peri bod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â safon 64.
- ii. Sicrhau bod digon o aelodau staff sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg ar gael yn nerbynfa Neuadd y Dref, Wrecsam er mwyn gallu cydymffurfio gyda safon 64 a rhoi ar gael wasanaeth derbynfa yn y Gymraeg os yw hefyd ar gael yn Saesneg bob amser.

Mae'r camau hyn i gael eu gweithredu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'n derfynol yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

### **Hysbysiad penderfynu a roddwyd**



Cyngor  
Bwrdeistref  
Sirol Caerffili

Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan berson oedd yn bodloni amodau adran 93(3) i (6) Mesur y Gymraeg. Roedd yr achwynydd yn honni fod y defnydd o'r slogan 'yn barod i'w renti' a'r hash nod #GweithioiGaerffili ar gyfrif Facebook y Cyngor yn wallus. Roedd yr achwynydd hefyd yn honni fod y defnydd o 'Ystafelloedd Newid Dan Do' ar arwyddion mewn canolfannau hamdden hefyd yn wallus. Roedd y gŵyn yn creu amheuaeth bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon(au). Penderfynodd y Comisiynydd gynnal ymchwiliad o dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn canfod a fu methiant gan y Cyngor i gydymffurfio â safonau 58 a 63.

20/9/2016

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 19/10/16.

### **Apelau a wnaed i'r tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys

### **Canfyddiadau'r Comisiynydd**

Wrth ddefnyddio'r term anghywir 'rhenti' yn lle 'rhentu' ar Facebook mae'r Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Wrth ddefnyddio'r hash nod #GweithioiGaerffili ni wnaeth y Cyngor fethu â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol gan ei fod yn cyfateb yn gywir i'r hash nod Saesneg a ddefnyddir #WorkforCaerffili. Wrth ddefnyddio 'Ystafelloedd Newid Dan Do' ar arwyddion mewn canolfannau hamdden, defnyddiodd y Cyngor dermau safonol a ddefnyddir yn eang yn y maes chwaraeon a hamdden.

### **Dyfarniad y Comisiynydd**

O dan adran 73(2) Mesur y Gymraeg dyfarnodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

Dyfarnwyd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 58 wrth ddefnyddio'r term 'rhenti'.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 58 wrth ddefnyddio'r hash nod #GweithioiGaerffili.

Dyfarnwyd nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 63 wrth ddefnyddio 'Ystafelloedd Newid Dan Do' ar arwyddion mewn canolfannau hamdden.

### **Datganiad gweithredu pellach**

Penderfynodd y Comisiynydd na fyddai yn gweithredu ymhellach yn unol ag adran 76 a 77 Mesur y Gymraeg.

Datganiad ar y gweithredu pellach

Yn achos y dyfarniad fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 58 wrth ddefnyddio'r term "rhenti" yn

hytrach na “rhentu” ar y cyfryngau cymdeithasol, ni fydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach, yn unol ag adran 77 (2) (a) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hynny oherwydd fod y Comisiynydd wedi ei bodloni mai camgymeriad gan unigolyn oedd wrth wraidd y methiant hwn ac nad oes tystiolaeth wedi ei gyflwyno i mi o enghreifftiau o wallau eraill cyffelyb. Mae'r Comisiynydd felly'n fodlon fod trefniadau'r Cyngor i gyhoeddi testun Cymraeg sy'n ramadegol gywir ar ei gyfryngau cymdeithasol yn ddigonol.

Yn achos y dyfarniad nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 58 wrth ddefnyddio'r hash nod #GweithioiGaerffili ni fydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach.

Yn achos y dyfarniad nad yw'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 63 wrth ddefnyddio'r term “ystafelloedd newid dan do” ar arwyddion, ni fydd y Comisiynydd yn gweithredu ymhellach.

**Hysbysiad penderfynu a roddwyd**

Rhodddwyd hysbysiad penderfynu i'r Cyngor ar 20/9/16.

**Apelau a wnaed i'r Tribiwnlys**

Ni wnaed apêl i'r Tribiwnlys